

Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



600055984.



249 xc.327

MRS. HARRIET BEECHER STOWE,

AWDURES "CABAN F'EWYRTH TWM."

CABAN F'EWYRTH TWM.

GAN

HARRIET BEECHER STOWE.

GYDA

Saith-ar-Hugain o Gerfluniau,

GAN GEORGE CRUIKSHANK, YSW

CYFIEITHAD HUGH WILLIAMS,

GYNT GOLYGYDD "Y CYMRO."

TOPSY AC EFA.

LLUNDAIN:
JOHN CASSELL, LUDGATE HILL.

1853.

249. x. 627.

Mae yn gwybod, trwy brofiad, fod llawer meddwl haelfrydig, a chalon dyner, wedi eu llusgo i'r amgylchiadau hyn; nid oes neb a ŵyr yn well na hwy, mai amherffaith iawn ydyw y darluniadau hyn i osod allan yn drwyadl ddrygedd annhraethol caethiwed.

Ond odid na bydd rhai yn y taleithau Gogleddol yn ystyried yr henesion hyn yn anghredadwy; ond y mae yn y Dehau rai a wyddant ac a fedrant dystio eu gwirionedd.

Ac y mae'n gysur meddwl y daw amser, pryd y bydd hanesion fel hyn yn werthfawr yn unig ar gyfrif yr hyn a fu, ond nid yw mwyach.

Pan gyfyd cenedl Gristionogol ar gyffiniau Affrica, gyda chyfreithiau, iaith, a llenyddiaeth a gawsant o'n mysg ni, bydd coffadwriaeth tŷ eu caethiwed, fel coffadwriaeth yr Aipht i'r Israeliaid—yn gymhelliad iddynt roddi'r clod i'r Hwn a'u gwaredodd!

Oherwydd, tra mae'r byd yn ymryson am hyn a'r llall, a nwydau a manteision dynion yn rhyfela â'u gilydd, mae rhyddid dynolryw yn nwylaw Un am yr hwn y dywedir—

"Ni flina ac ni ddiffygia,
Hyd oni osodo farn ar y ddaear."

"Efe a wared yr anghenog pan waeddo,
Y truan hefyd a'r hwn na byddo cynnorthwywr iddo."

"Efe a wared eu henaid oddi wrth dwyll a thrawsder;
A gwerthfawr fydd eu gwaed yn ei olwg ef."

RHAGYMADRODD Y CYHOEDDWR.

Mae'r awydd a ddangoswyd yn y Dywysogaeth am y llyfr hynod hwn, a'r derbyniad helaeth a gafodd yn ystod ei gyhoeddiad, yn Rhifynau Wythnosol a Misol, wedi troi allan ymhell tu hwnt i ddim a allaswn ei ddisgwyl. Ac y mae'r tystiolaethau a gefais oddi wrth Gymry dysgedig, am gywirdeb a rhagoroldeb y cyfieithiad, wedi fy nghalonogi yn fawr. O ganlyniad, yr ydwyf yn cyhoeddi'r llyfr yn gyflawn, gyda llawer iawn o bleser, gan hyderu y bydd yn fuan yn llaw pob Cymro, fel ag y dywedir ei fod yn llaw pob Sais.

JOHN CASSELL.

Ludgate Hill, Llundain,
Mawrth, 1853.

CABAN F'EWYRTH TWM.

PENNOD I.

YN MHA UN Y GWEL Y DARLLENYDD DDYN O DEIMLAD.

Yn hwyr brydnhawn ar ddiwrnod rhynllyd yn mis Chwefror, yr oedd dau wr bonheddig yn eistedd gyda'u gilydd uwch ben eu gwin, mewn parlwr dodrefnus yn nhref P—, yn Kentucky. Nid oedd na gwas na morwyn yn yr ystafell, ac ymddangosai'r ddau foneddwr, a'u cadeiriau yn ymyl eu gilydd, fel pe buasent yn siarad yn bur ddifrifol ar ryw fatter neu gilydd.

Er mwyn cyfleusdra, yr ydym, hyd yma, wedi eu galw yn ddau wr *bonheddig*. Ond digon prin yr oedd un o honynt, ar ol ei chwalu a'i chwilio, yn deilwng o gael ei osod yn y dosparth hwn. Dyn byr amrosgo ydoedd, a hagr o bryd a gwedd, yn swagro a chymmeryd arno, fel ag y bydd iselddyn yn ceisio ymgodi yn y byd, ac yn ymwthio i fysg ei well cyn gyrru am dano. Yr oedd ei wisgiad yn cyttuno i'r dim â'i ddull ysgoywedd,—gwasgod fraith am dano, a hancas glâs yn llawn o spottiau melynion am ei wddf, a hwnnw wedi ei gylymu â chwlwm dolen, a'i bigau yn y gwynt, yn un hoedyn fel yntau. Gwisgai fodrwyau ar fysedd ei ddwylaw mawrion, tewion, cochion, a chadwen aur fawr wrth ei watch, lle crogai twr o seli o bob lliwiau, y rhai a ysgydwid ganddo yn ol ac ymlaen wrth siarad, fel pe buasent yn llawer o bleser iddo. Wrth ymddiddan, yr oedd yn hollol esgeulus o reolau grammadeg, ac yn taflu i mewn, fel y byddai'n gyfleus, lwon a rhegfeydd, pa rai a adawn allan, er maint ein hawydd am fod yn fanwl.

Yr oedd y llall, Mr. Shelby, yn ymddangos fel gwr bonheddig; ac yr oedd dodrefniad y tŷ, a'r hyswiaeth gyffredin, yn dangos amgylchiadau cysurus, os nid cyfoethog. Fel ag y dywedasom yn barod, yr oeddynt ar ganol ymddiddan pur ddifrifol.

"Dyna fel y settlwn i'r matter," ebe Mr. Shelby.

"Ni fedra i ddim gneud busnes fel yna—na fedra i'n wir, Mr. Shelby," ebe'r llall, gan ddal glassiad o win rhyngddo a'r goleu.

"Y gwir ydyw hyn, Haley, mae Twm yn fachgen heb ei fath; ac y

mae yn werth hynny, aed i'r man y mynno—sobr, gonest, ac yn edrych ar ol fy holl ffarm i fel y cloc."

"Gonest, yn ol fel y mae niggars yn myn'd, ych chi 'n feddwl," ebe Haley, gan yfed glassiad o frandi.

"Nage'n wir; mae Twm yn fachgen da, sobr, call, a chrefyddol. Fe aeth at grefydd mewn camp meetin' tua phedair blynedd yn ol, ac yr ydw i 'n meddwl iddo gael crefydd *iawn*. Mi roddais bob ymddiried ynddo byth wedi hynny, am arian, tai, ceffylau,—a gadewais iddo fyn'd a dwad ar hyd y wlad, ac y mae ymhob peth yn ddyn o'r ddaear i fynu."

"Mae rhai pobol na fynnan nhw ddim fod niggars crefyddol," ebe Haley, gan estyn ei law yn galon agored, "ond mi *wn* i fod. Fu gen i un, yn y lot dd'waetha a'th gen i lawr i Orleans—yn wir 'roedd hi gystal a phregath i glywad y creadur hwnnw'n gweddïo; ac yr oedd o mor ddistaw a llonydd. Mi ges i bris da am dano fo hefyd; oherwydd fi prynas o'n rhad, gan ddyn oedd yn gorfod gwerthu; mi 'nillis chwe can dolar arno fo. Ydw, ydw, 'rwy i 'n ystyried crefydd yn gryn werth mewn niggar, os bydd hi o'r iawn ryw, a dim camgymmeriad."

"Wel, mae gan Twm grefydd iawn, os bu gan neb erioed un iawn," ebe'r llall. "Dim ond yr Hydref diweddaf, mi gollyngais ef i Cincinnati, heb neb gydg ef, i wneud busnes, a dyfod a phum can dolar adref. 'Twm,' ebe fi wrtho, 'yr ydw i 'n dy goelio di am dy fod yn Gristion, mi wn i na thwylli do mo'nof fi.' Fe ddaeth Twm adref fel y dur—mi wyddwn i y doi o. Mi glywais fod rhyw bethau gwael wedi dweyd wrtho, 'Twm, pam na chymri di 'r goes i Canada?' 'Na, na, mae mistr wedi nghoelio i, fedrwn i ddim gneud sut beth.' Nhw ddeudson wrtha i wedi 'n. Rhaid i mi ddeud fod yn ddrwg gen i 'madael â Thwm. Chwi ddylech roi'r gweddill o'r ddyled am dano; a chwi wnaech hefyd, Haley, pe bai gennych ddim cydwybod."

"Wel mae gen i gimmin o gydwybod ag fedr dyn mewn busnes fforddio gadw—tippyn bach i gymryd fy llw arno, fel pedai," ebe'r masnachwr, yn ddigirf; "ac yr wy' i 'n barod i neud unpeth mewn rheswm i blessio ffrindia, ond y mae hyn, welwch chi, braidd yn rhy galed ar greadur gwan—braidd yn rhy galed."

Ac fe ucheneidiodd Haley yn ddwys, gan arllwys rhagor o frandi.

"Wel, ynte, sut y settlwch chwi 'r matter?" ebe Shelby, ar ol ennyd ddiflas o ddistawrwydd.

"Oes gennoch chi 'run hogyn ne hogen, fedrech chi dawlu mewn hefo Twm?"

"Hym!—nagoes, 'run fedra i hepgor yn dda; a dweyd y gwir, gorfodaeth galed sy'n peri i mi werthu ffordd yn y byd. Mae'n gas gen i 'madael a mhobol, dyna'r gwir."

Ar hyn agowyd y drws, a daeth bachgenyn i mewn; quadroon bach ydoedd, rhwng pedair a phump oed, a rhywbeth yn hynod o ddel a serchus yn ei ymddangosiad. Ei wallt du sidanaidd, yn hongian yn

PRISIO'R EIDDO DYNOL.

"Fe dynnodd y bychan ei wyneb crwn yn hirlaes ac a ddechreuodd ganu salm trwy ei drwyn mor sobr a sant."

droellog o gwmpas ei wyneb crwn, a dau lygad du, yn llawn o fywyd a chariad, yn serenu oddi tan ei aeliau hirion, pan edrychodd i mewn dan ei sgafell. Gosodasid dull ei gorphoriad allan yn hardd mewn gwisg o goch a melyn crisgroes, yn ei ffitio i'r dim; a gallesid gweled, rhwng ei osgo digrif, yn gymmysg âg yswildod, ei fod yn arfer cael moethau gan ei feistr.

"Holo, Jim Crow!" ebe Mr. Shelby, gan chwibanu, a thaflu swp o resins atto, "cwyd hwnyna."

Neidiodd y bychan nerth ei egni at y rhodd, a'i feistr yn chwerthin am ei ben.

"Tyr'd yma, Jim Crow!" eb efe: "aeth y plentyn atto; dododd yntau ei law ar ei ben, a gogleisiodd ef dan ei ên.

"'Rwan, Jim, dangos i'r gwr bonheddig yma sut y medri di ganu a dawnsio."

Dechreuodd y bychan un o'r cerddi digrif a bywiog, sydd yn gyffredin ymysg y bobl dduon, mewn llais peraidd, clir, gan luchio ei draed a'i ddwylaw, a'i holl gorph, ymhob ystumiau, a chadw amser y dôn i'r dim.

"Brafo!" ebe Haley, ac a daflodd ddarn o orange iddo.

"'Rwan, Jim, cerdda fel F'ewyrth Cudjoe, pan fydd y rhewmatis arno," ebe Shelby.

Fe drodd y plentyn ei gymmalau ystwyth mewn munud yn wyrgeimion, ac a gerddodd yn wargrwm o glun i glun o gwmpas yr ystafell, a ffon ei feistr yn ei law, a'i wyneb bach cyn sured, gan boeri o'r naill ochr i'r llall, i ddynwared yr hen ddyn.

Torodd y ddau allan i chwerthin nerth eu pennau.

"'Rwan, Jim, sut y bydd yr ben Robin y blaenor yn ledio salm?"

Fe dynnodd y bychan ei wyneb crwn yn hirlaes, ac a ddechreuodd ganu salm trwy ei drwyn, mor sobr a sant.

"Hwrra, brafo! dyna fachgen!" ebe Haley; "fydd 'nyna 'n llange, mi gymra i fy llw. Ddeuda i chi beth," ebe efe, gan daro ei law ar ysgwydd Shelby, "taflwch y gwalch yna i mewn, ac mi rof ben ar y fargen—gna'n wir. Dowch 'rwan, os nad ydi 'nyna 'n gynnyg digon teg."

Gyda'r gair yna agorwyd y drws yn araf bach, a daeth dynes ieuange i mewn, quadroon, yn ymddangos oddeutu pump-ar-hugain oed.

Nid oedd eisiau dim ond cipolwg oddi wrth y plentyn atti hi, i weled mai hi oedd ei fam. Yr un llygad llawn tywyll, a'r aeliau hirion, yr un gwallt llathraidd, du fel y frân. Torrodd y llygedyn ar ei boch yn wrid dros ei hwyneb, pau ganfu'r dyn dieithr yn syllu yn nwydus a digywilydd arni. Yr oedd ei gwisgiad yn daclus, ac yn dangos ei chorphoriad hardd yn dra manteisiol; ac ni ddiangodd ei llaw fechan dlws, a'i throed a'i migwrn del, rhag llygad parod y masnachwr, yr hwn a'i mesurodd o'i phen i'w throed ar amrantyn, oherwydd yr oedd yn gynnefin â'r gwaith.

"Wel, Eliza," eb ei meistr, pan welodd hi yn sefyll yn amheus yn y drws.

"Chwilio am Harri 'roeddwn i, syr, gyda'ch cennad;" ac fe redodd y bychan atti, gan ddangos ei roddion ynghwr ei wisg.

"Wel, cymmerwch ef allan," ebe Shelby; a hi a frysiodd, a'r plentyn ar ei braich.

"Myn cebyst," ebe'r masnachwr, gan droi at Shelby, "dyna bishin o eiddo! Chwi allech neud eich ffortiwn efo'r ferch yna yn Orleans, y dydd fyd fynnoch chi. Mi welas fwy na mil o ddolars, yn fy nydd, yn cael eu talu lawr am un ddim mymryn clysach na 'nyna."

"Nid oes arnaf fi ddim eisiau gwneud fy ffortiwn o honi," ebe Shelby, yn sychlyd; ac i'r diben o droi'r ymddiddan at rywbeth arall, efe a dynnodd y corcyn o bottel o win, ac a ofynodd farn ei gyfaill am dano.

"Campus—dim ail iddo, syr," ebe'r masnachwr; yna efe a drodd, ac a darawodd ei law yn hyf ar ysgwydd Shelby, gan ddywedyd, "Dowch, faint gymrwch chi am y ferch? faint ga i ddeud? deudwch y gair."

"Mr. Haley, nid ydyw hi ddim ar werth," ebe Shelby; ni chymerai fy ngwraig i mo'i phwysau o aur am dani hi."

"Ië, ïe, mae'r merched yn deud fel yna bob amser, am na fedran nhw ddim cyfri. Dangoswch chi iddyn nhw faint o watches, a phlu, a gowna sidan, fedran nhw gael am bwysa un o aur, fydd hi fel arall; dyna marn *i*."

"Yr ydw i 'n deud i chwi, Haley, na wiw siarad; yr ydw i 'n deud na, ac yn meddwl y peth ydw i 'n ddeud," ebe Shelby, yn benderfynol.

"Wel, rhaid i chi adal i mi gael y bachgen, ynte," ebe'r masnachwr "a rhaid i chi gyfadda mod i 'n cynnyg yn hardd am dano fo."

"Beth ar wyneb pridd y ddaear sy arnoch chwi eisia gan y plentyn?" ebe Shelby.

"Mi ddeuda i chi; mae gen i ffrind yn dechra busnes yn y gangen yma—prynu bechgyn bach pert clysion, a'u codi nhw i'r farchnad. Petha ffansi yn hollol—mi werthan yn waiters, a phetha felly, i'r bobol fawr, fedyr dalu'n uchel am danyn nhw. Mae'r peth yn gosod tai mawr-ion allan mor gampus—hogyn o fachgen clws i agor y drws, a waitio thendio. Mae prisiau da ddigynnyg am danyn nhw, ac y mae'r cythral bach digri yma yn medru'r dôn i'r dim—mae o dest y peth."

"Mae'n well gen i beidio i werthu fo," ebe Mr. Shelby, dan synfyfyrio; "y gwir ydyw hyn, syr, yr ydwyf fi yn ddyn o deimlad, ac y mae'n gas gen i gymryd y plentyn oddi wrth ei fam."

"O, y mae? Felly! ïe—rhwbath o'r natur yna. Yr ydw i 'n dyall yn burion. Mae hi 'n hynod o gâs hefo'r merched weithia. Nid alla i aros amser y gweiddi a sgrechian. Maen nhw yn annifyr *ofnadw*; ond mi fydda i yn dyfeisio ffordd i sgoi petha fel hyn. Beth pydaech chi yn gyrru'r lodas o'r ffordd am ddwrnod neu ddau; yna fe ellir gneud y peth yn ddistaw—y cwbwl drosodd erbyn daw hi adra. Ac fe alla'ch gwraig chi roi clust-fodrwya, neu own newydd, neu ryw dringciach o'r fath idd hi, i neud y matter i fynu."

"Na, mae arnaf fi ofn na wnai hyna mo'r tro."

"Dyn a 'styrio, gneiff! Nid ydi'r creduriad yma ddim fel pobol wnion, wyddoch; nhw ddôn drwyddi hi'n bensych, ond i ymryd nhw ffordd ddethe. 'Rwan, mae rhai 'n deud," ebe Haley, gydag osgo cyfrinachol, "fod masnach fel yma yn difetha teimlada dyn; ond nid ydi ddim yn cael yr effaith yna arna i. Yn wir, fedras i 'rioed neud fel mae rhai pobol yn gneud. Mi welas i rai yn tynnu plentyn o freichia dynes, ac yn i werthu o, a hitha'n sgrechian fel peth o'i cho trwy gydol yr amser; 'does dim byd sy waeth—mae o'n difetha eiddo—ac yn i gneud nhw yn werth dim yn byd am amser. Mi welas i lodes glws unwaith yn Orleans, yn cael ei gneud yn werth dim trwy ddideimladrwydd. 'Doedd ar y dyn prynodd hi ddim eisio i babi hi; ac yr oedd hitha yn un darawai'r tant mawr, pan goda'i natur hi. 'Rydw i'n deud i chi, mi wasgodd y plentyn yn ei breichia, ac yr oedd hi'n siarad yn ddychrynllyd. Mae ngwaed i fel pedai o 'n rhedeg yn oer wrth feddwl am dani hi; a phan gym'son nhw 'r plentyn odd 'arni hi, a'i rhoi hi dan glo, mi aeth o'i cho'n lân, ac fu farw y mhen 'rwsnos. Gwastraff pur, syr, o fil o ddolars, achos dim ond eisio tippyn o deimlad—dyna lle mae hi. Y ffordd ore o lawer ydi bod yn deimladwy; felly bydda i."

Ac fe roddodd y masnachwr ei bwys ar gefn y gadair, gan blethu ei freichiau, ac edrych mor ddiniwed, fel pe buasai yn ei ystyried ei hun yn Wilberforce yr ail.

Ymddangosai'r gwr da fel pe buasai yn teimlo yn ddwys ar y matter; oherwydd tra'r oedd Mr. Shelby yn pilio orange yn ddwysfyfyriol, fe dorrodd Haley allan drachefn, gyda gwylder priodol, fel pe buasai'r gwirionedd yn ei orfodi i ddweyd gair neu ddau yn rhagor.

"Nid ydi ddim yn edrych yn dda ar ddyn ei ganmol ei hunan, 'rwan; ond yr ydw i yn credu mod i yn cael nghymryd yn un o'r rhai sy'n dwad a'r ffloc o niggars brafia i'r farchnad—o leia mi glywas hynny; ac os gneis i unwaith, mi neis ganwaith—pob un yn llyfndew ac yn edrych yn dda, ac yr ydw i 'n colli mor lleied a nemmor un mewn busnes. Ac yr ydw i yn cyfri'r cwbwl i null i o ymddwyn tuag attyn nhw; a theimladrwydd, syr, mi fentra ddeud, ydi *egwyddor* fy ymddygiad i."

Ni wyddai Mr. Shelby ddim beth i'w ddweyd, o ganlyniad efe a ddywedodd, "Felly'n wir!"

"Mae llawer wedi bod yn chwerthin am fy mhen i, syr, ac wedi siarad à fi. Nid ydi fy ffordd i ddim yn boblogadd, ddim yn un gyffredin; ond yr ydw i yn dal atti hi, syr; yn dal atti hi, ac yn ynnill arian, syr; ydi, syr, mae hi yn talu ffordd, fel pedai;" ac fe chwarddodd y masnachwr am ben ei fwysair.

Yr oedd rhywbeth mor bupuraidd a gwreiddiol yn yr esponiadau hyn ar deimladrwydd fel nas gallai Mr. Shelby lai na chwerthin o ran cwmpeini. Ac efallai dy fod dithau yn chwerthin, ddarllenydd anwyl; ond ti a wyddost fod teimladrwydd yn ymddangos y dyddiau hyn yn y fath ystumiau dieithr, ac nad oes ddiwedd ar y pethau digrif a ddywedir ac a wneir gan bobl o deimlad.

Cymmerodd y masnachwr ei hyfder pan welodd Mr. Shelby yn chwerthin.

"Mae'n bur od, ni fedrwn i yn fy myw guro hyn i benna pobol. 'Rwan, dyna Twm Loker, fy hen bartner i, lawr yn Natchez; yr oedd Twm yn eitha dyn, ond yn chware'r gwr drwg hefo'r niggars,—ar egwyddor, welwch chi, oherwydd 'roedd Twm mor lân ei galon ag undyn lyngcodd laeth 'rioed; dyna 'i *system* o, syr. Fyddwn i 'n siarad â Thwm. 'Twm,' meddwn i, 'pan fo'r merched yn ffretio ac yn crio, pwy les i gwthio nhw, a'u taro yn eu talceni? Lol ydy'r cwbwl,' meddwn i, 'a 'dydi o'n gneud dim lles. Waeth iddyn nhw grio tippyn na pheidio,' meddwn i, 'ond 'tydi o'n naturiol,' meddwn i, 'ac os na fedyr natur dorri allan un ffordd, hi dyr ffordd arall. Heblaw hynny, Twm,' meddwn i, 'mae o'n spwylio'r merched; mae'n nhw'n myn'd yn sâl ac yn ddi-galon; ac weithia yn hyll,—'n enwedig merched melynddu, a gwaith ar y gwr drwg ydi torri nhw i mewn. 'Rwan,' meddwn i, 'pam na fedrat ti perswadio nhw, a deud yn deg withyn nhw? Cymmer di ngair i, Twm, mae tippyn bach o deimlad deflir i mewn yn mynd ymhellach o lawer na phwnio a phanu; ac y mae o'n talu'n well,' meddwn i, 'cymmer di ngair i.' Ond ni fedrai Twm ddim pe crogid o; ac fe ddifethodd gimint, nes y gorfod i mi 'madal a fo, serch i fod o 'n ddyn digon da 'i natur, ac mor deced mewn busnes ag undyn."

"Ac a ydych yn cael fod eich ffordd chwi yn atteb yn well nag un Twm?" ebe Mr. Shelby.

"Mi alla fentro deud hynny, syr. Welwch chi, pan fedra i, ffordd yn y byd, mi fydda'n gofalu am y darn casaf o'r fusnes, fel gwerthu plant, a phetha felly—mynd a'r fam o'r golwg—allan o olwg allan o feddwl, wyddoch; a phan fydd y cwbl ar ben, a dim help iddo, maen' nhw 'n naturiol yn cynnefino. Dim 'run fath, wyddoch, a phedai nhw yn bobol wnion, wedi dwyn i fynu i ddisgwyl cadw eu plant, a'u gwragedd, a phetha felly. Wyddoch nad ydi niggars ddygir i fynu fel dylan nhw gael, ddim yn disgwyl dim byd o'r fath; o ganlyniad mae petha fel yma yn dwad yn 'smwythach."

"Mae arnaf fi ofn nad ydyw fy niggars i ddim wedi eu dwyn i fynu fel y dylan nhw, ynte," ebe Mr. Shelby.

"Ddigon tebyg. Yr ydych chi pobol Kentucky, yn spwylio'ch niggars. Mae'ch amcan chi yn dda, ddim dowt; ond 'dydi o ddim caredigrwydd yn diwedd. 'Rwan, niggar sydd i gael ei luchio a'i faeddu ar draws y byd, a'i werthu i Twm, a Dic, a Duw-wyr-pwy, nid caredigrwydd ydi rhoi disgwyliada mawr iddo fo, a'i ddwyn o i fynu yn rhy dda, oherwydd y mae'r pwnio a'r panu yn galettach o lawer pan dd'on nhw. 'Rwan, mi fentra i ddeud, y byddai 'ch niggars chi yn hollol ddigalon mewn llefydd ag y mae niggars y planfeydd yn chware ac yn chwerthin fel pethau o'u coua. Mae'n naturiol i bawb feddwl yn dda o'i ffordd ei hun, wyddoch, Mr. Shelby; ac yr ydw i 'n meddwl mod i 'n trin niggars cystal ag y mae'n werth 'i trin nhw."

"Peth happus ydyw bod dyn wrth ei fodd," ebe Mr. Shelby, gan godi ei ysgwyddau, gydag arwydd o deimladau lled anghysurus.

"Wel," ebe Haley, ar ol iddynt fod ennyd yn torri cnau mewn distawrwydd, "beth ydaeh chi 'n ddeud?"

"Mi gymra'r peth dan f'ystyriaeth, ac mi siaradaf â'r wraig," ebe Shelby. "Ar yr un pryd, Haley, os ydych chwi yn dewis cario'r matter ymlaen yn y ffordd ddistaw y buoch yn son am dani, gwell i chwi gadw eich neges yma i chwi eich hun. Os daw'r gair i glustiau mechgyn i, nid gorchwyl hawdd fydd myn'd a neb oddi yma, cymerwch fy ngair i."

"O! shwr iawn, er mwyn pob daioni; mym, wrth gwrs. Ond mi ddeuda i chi, yr ydw i ar frys gwyllt, ac fydd arna i eisio gwybod gyntá byth y gallwch chi, beth y galla i ymddibynu arno," ebe efe, gan wisgo ei gôt fawr.

"Wel, galwch i fynu rhwng chwech a saith heno, a chwi gewch eich hatteb," ebe Shelby; ac allan a'r masnachwr.

"Fuasai'n dda gennyf giccio'r gwalch i lawr y grisiau, pe gallswn," eb efe wrtho ei hun, pan welodd y drws wedi ei gau ar ei ol, "gyda'i hyfder taeogaidd; ond efe a wyr fod y llaw uchaf ganddo. Pe buasai rywun yn dweyd y gwerthaswn i Twm i fynd i'r dehau gydag un o rascaliaid y masnachwyr yma, attebaswn, 'Ai ei yw dy was, fel y gwnelai gyfryw beth?' Ac yn awr, dyna fel y rhaid iddi fod, o ran dim a wn i, a bachgen Eliza yn y fargen! Mi gaf fyd o anhunedd gyda'r wraig yn nghylch hyn; ac o ran Twm hefyd, ran hynny. Dyna beth ydyw bod mewn dyled—och-a-fi! Mae'r cena' yn gweled ei fantais, ac yn penderfynu gwneud y goreu o honi."

Efallai mai yn nhalaith Kentucky y gwelir caeth-wasanaeth yn ei ffurf esmwythaf. Mae'r gwaith ar ffermydd yn araf a rheolaidd, heb y tymhorau o frys a gyrru sydd ar blanfeydd cottwm y dehau, ac felly llafur y negro yn fwy iachus a chymhedrol; ac y mae'r meistradoedd yn foddlon ar fael rhesymol, ac heb y temtasiynau i galon-galedwch sydd bob amser yn gorddiwes y natur ddynol, lle bo siawns bod yn gyfoethog ar unwaith yn un pen i'r glorian, a dim i'w wrthbwyso yn amgen na lles y tlawd a'r di-amddiffyn.

Pwy bynnag a ymwelo â rhai ffermydd yno, ac a wel diriondeb caruaidd rhai meistradoedd a meistresi, a ffyddlondeb serchlon rhai caethweision, efallai y temtir ef i freuddwydio am y ffug-chwedl o sefydliad patriarchaidd, a phethau cyffelyb; ond y mae cysgod tywyll a bygythiol yn hongian uwch ben y cwbl oll—sef cysgod y *gyfraith*. Cyhyd ag y bo'r gyfraith yn ystyried yr holl fodau dynol hyn, a chanddynt galonau a serchiadau bywiol, megis cynnifer o *anifeiliaid* yn perthyn i'w perchennog—cyhyd ag y byddant yn agored, ar farwolaeth neu ddyryswch yn amgylchiadau eu meistr tyner a charedig, i newid cyflwr o amddiffyniad a thiriondeb am un o drueni anobeithiol a llafur, cyhyd a hynny y bydd yn amhosibl gwneud dim yn deg na dymunol yn y gweinyddiad mwyaf rheolaidd o gaeth-wasanaeth.

Yr oedd Mr. Shelby yn burion meistr, yn dda ei natur, yn garedig, ac yn dirion tuag at bawb o'i gwmpas, ac nid oedd prinder o ddim a fedrai wneud y negroaid ar ei ffarm yn gysurus. Ond yr oedd wedi myned dros ei ben a'i glustiau mewn busnes, heb fod mor ofalus ag y dylasai, ac felly daeth dyled arno, a digwyddodd i Haley gael llawer o'i filiau; mae hynyna o eglurhad yn ddigon i esponio'r ymddiddan blaenorol.

Yn awr, fe ddigwyddodd, pan oedd Eliza wrth y drws, iddi glywed digon i ddeall fod y masnachwr yn ceisio prynu rhywun gan ei meistr.

Buasai yn dda ganddi allu aros i glustfeinio wrth ddyfod allan; ond digwyddodd fod ei meistres yn galw, a gorfu arni frysio i atteb.

Etto yr oedd yn rhyw feddwl iddi glywed y masnachwr yn cynnyg am ei bachgen:—ai possibl iddi gamgymmeryd? Dechreuodd ei chalon guro, a hi wasgodd y bychan fel heb wybod, nes yr edrychodd yn syn yn ei gwyneb.

"Beth sydd arnoch chwi heddyw, Eliza?" eb ei meistres, pan drodd hi y llestr ymolchi, y taflodd i lawr y fasged gwaith, ac yr estynodd grys nos i'w meistres, yn lle y gown sidan y galwasai am dano.

Fe ddychrynodd Eliza. "O missis," ebe hi, gan godi ei golygon; yna hi a eisteddodd ar gadair ac a dorrodd allan i feichio crio.

"Eliza, blentyn! beth ddarfu i chwi?" eb ei meistres.

"O missis, missis!" eb Eliza, "mae yna ddyn yn y parlwr yn siarad â mistar, mi clywas o â'm clustia."

"Wel, lolan wirion, beth os oes!"

"O missis, *ydych* chwi yn meddwl y gwnai meistr werthu Harri bach!" Ac fe dorrodd y greadures druan allan i wylo'n ddau mwy.

"Gwerthu Harri! Na, peidiwch a gwirioni. Chwi wyddoch nad ydy'ch meistr byth yn delio hefo'r masnachwyr yna o'r dehau, nac yn meddwl gwerthu 'run o'i weision tra'r ymddygant yn iawn. Y wirion, pwy ydych chwi yn feddwl wnai brynu Harri? Ydych chwi yn meddwl fod y byd i gyd yn meddwl cymmaint o hono ag ydych chwi, y lolan! Dowch, codwch eich calon, a chauwch fy ngown i. Dyna fo, 'rwan plethwch fy ngwallt i, yn dlws, fel darfu chwi ddysgu y dydd o'r blaen, a pheidiwch a gwrando wrth y drysau yn rhagor.

"Wel, missis, wnaech *chwi* byth adael i—i—"

"Lol wirion! na wnawn. I ba beth yr ydych yn siarad fel yna? Mi fydda mor hawdd gennyf fi werthu un o mhlant fy hunan. Ond yn wir, Eliza, yr ydych chwi yn myned yn rhy falch o lawer o'r plentyn yna. Fedr dyn ddim dangos ei drwyn tu fewn i'r drws nad ydych yn meddwl fod arno eisiau prynu Harri."

Ar ol ei chalonnogi fel hyn gan dôn hyderus ei meistres, aeth Eliza ymlaen â'i gwaith yn siriol a phrysur, gan chwerthin am ben ei hofnau.

Yr oedd Mrs. Shelby yn wraig o radd uchel, mewn moesoldeb yn gystal a synwyr. At y meddwl cadarn a haelfrydig sydd yn fynych yn hynodi gwragedd Kentucky, yr oedd wedi ychwanegu teimladau ac

egwyddorion cryfion o grefydd a moesoldeb, ac wedi eu dwyn allan i ymarferiad gyda llawer o egni a medrusrwydd. Nid oedd ei gwr wedi gwneud unrhyw broffes o grefydd, etto yr oedd ganddo feddwl mawr o grefydd ei wraig, ac ofnai ei chroesi ar fatterion o'r fath. Mae'n sicr ei fod yn gadael iddi gael ei ffordd ei hun yn gwbl yn ei hymdrechion canmoladwy dros gysur, addysg, a dyrchafiad ei gweinidogion, er na chymmerai un llaw yn y gwaith ei hunan. Mewn gair, os nad oedd yn credu yr athrawiaeth o weithredoedd da dros ben gan y saint, yr oedd ganddo ryw feddwl, rywfodd neu gilydd, fod gan ei wraig ddigon o grefydd i ddau, a mynwesai ryw gysgod o obaith y cai fyned i'r nefoedd trwy helaethrwydd y rhagoriaethau hynny ynddi hi, nad oedd ef yn honni un hawl ynddynt ei hunan.

Y baich trymaf ar ei feddwl, ar ol siarad â'r masnachwr, oedd yr angenrheidrwydd a welai fod am ddweyd y cwbl wrth ei wraig—a chyfarfod y gwrthwynebiad a fyddai hi yn sicr o wneud.

Ni wyddai Mrs. Shelby ddim am amgylchiadau dyrys ei gwr; a thrwy ei bod yn adnabod ei dymher garedig, yr oedd hi yn hollol ddidwyll wrth naccau credu drwgdybiaeth Eliza. Yn wir, aeth y cwbl o'i chof, heb ail feddwl am dano; ac yn ei pharottoad i fyned allan am y prydnhawn hi a'i gollyngodd o'i meddwl yn llwyr.

PENNOD II.

Y FAM.

Yr oedd Eliza wedi ei dwyn i fynu gan ei meistres er yn ieuangc, ac wedi cael llawer o'i ffordd ei hun.

Rhaid fod y teithiwr yn y dehau wedi sylwi yn fynych ar yr agwedd foneddigaidd, a'r mwynder llais ac ymddygiad sydd yn hynodi y merched a elwir quadroon neu mulatto. Ac y mae'r anwylder naturiol yma yn fynych yn gysylltiedig â harddwch pryd a gwedd o'r fath ragoraf, yr hyn sydd yn gwneud y quadroon yn brydferth a serchlon yn ei hymddangosiad personol. Nid un ddychymygol ydyw Eliza, ond yr ydym yn ei darlunio fel ag y gwelsom hi flynyddau yn ol yn Kentucky. Dan nawdd a gofal ei meistres, tyfodd Eliza i fynu yn ddiogel rhag y temtasiynau sydd yn gwneud prydferthwch yn gynnysgaeth angeuol i'r gaethferch. Priodwyd hi â dyn ieuangc hardd a deallus, o'r un lliw a hithau, yr hwn oedd gaethwas ar ffarm gyfagos; ei enw oedd George Harris.

Cafodd y dyn ieuangc yma ei gyflogi gan ei berchennog i weithio mewn ffactri, lle y daeth ei ddeall a'i fedruswydd ag ef yn un o'r pen dynion.

Efe a ddyfeisiodd beiriant i lanhau'r hemp, pa un, ac ystyried ei fanteision a'i amgylchiadau, a ddangosodd gymmaint cywreinrwydd a pheiriant nyddu Witney.

Llange prydferth yr olwg a moesgar ei ymddygiad oedd, ac yr oedd pawb yn y ffactri yn hoff o hono. Etto, er hyn i gyd, gan nad oedd yn ddyn yn llygad y gyfraith, dim ond anifail, yr oedd yr holl ragoriaethau hyn yn ddarostyngedig i fympwyau perchennog anwybodus, rhagfarnllyd, a gorthrymus. Ar ol i'r gwr hwn glywed am ddyfais George, efe a farchogodd i'r ffactri, i weled pa beth oedd yr anifal deallus yma yn ei gylch. Derbyniwyd ef gyda phob croeso gan y ffactrwr, yr hwn a ddywedodd ei fod yn hynod o ffortunus berchennogi y fath gaethwas.

Aeth George gydag ef trwy'r ffactri, a dangosodd y peirianwaith iddo, yn llawn bywiogrwydd, gan siarad mor hylithr, sefyll mor syth, ac edrych mor hardd a gwrol, fel ag y dechreuodd ei berchennog deimlo ei fychander. Pwy fusnes oedd gan ei slaf ef rodianna o gwmpas y wlad, dyfeisio peiriannau, a chodi ei ben ymysg gwŷr boneddigion? Fe roi ef ddiwedd ar hynny yn bur fuan. Fe 'i cymmerai adref, ac a'i gosodai wrth y gaib a'r rhaw; "gawn weled fydd o mor ysgafndroed." O ganlyniad, fe synnodd y ffactrwr a phawb o fewn clyw, pan alwodd am gyflog George, ac yr hyspysodd ei fwriad o'i gymmeryd adref.

"Mr. Harris," ebe'r ffactrwr, "onid ydyw hyn yn bur ddirybudd?"

"Beth os ydyw?—onid fi *pia* fo?"

"Fyddan ni 'n foddlon i dalu rhagor o gyflog."

"Dim pwys yn y byd, syr. Nid rhaid i mi ddim cyflogi 'run o nwylo, os na bydda i 'n dewis."

"Ond y mae yn un rhagorol o gymmwys at y gwaith yma."

"Ydi, mi wranta; fu o ddim yn gymmwys at fawr ddim ddodas i o'i flaen, mi ro ngair i chi."

"Ond cofiwch mai fo ddyfeisiodd y peiriant yma," ebe un o'r gweithwyr, yn ddigon anlwcus.

"O, ïe! peiriant i arbed gwaith, onite? Fe ddyfeisiai un felly, cymrwch ngair i; gadewch y niggar yn llonydd am hynny, unrhyw amser. Peiriant i arbed gwaith ydi pob un o honyn nhw. Na, rhaid iddo fo 'i throedio hi."

Safodd George fel un wedi ei drywanu, pan glywodd ei dynged yn cael ei thraethu yn sydyn fel hyn gan awdurdod ag y gwyddai na wiw ei wrthddywedyd. Efe a blethodd ei freichiau, ac a wasgodd ei wefusau yn dyn, ond yr oedd eirias o deimladau chwerwon o'i fewn, yn taflu ffrydiau o dân trwy ei wythenau. Tynnodd ei wynt atto yn fyr, ac yr oedd ei lygaid duon yn melltenu fel tân byw; a digon tebyg y buasai'n torri allan mewn ffordd beryglus, oni buasai i'r ffactrwr gyffwrdd â'i benelin, a sisial yn ddistaw yn ei glust: "George, peidiwch a'i dynnu yn eich pen, ewch gydag ef heddyw. Ni a wnawn ein goreu i chwi etto."

Canfu'r perchennog y sisial, a dychymmygodd y pwrpas, er na

chlywodd air o'r hyn a ddywedwyd; a phenderfynodd yn ei feddwl y dodai ei law yn drom ar ei gaethwas.

Cymmerwyd George adref, a dodwyd ef wrth y gwaith iselaf ar y ffarm.

Llwyddodd i osod dant i attal tafod; ond yr oedd saethau ei olygon, crychiad ei dalcen, a syrthiad ei wynebpryd, yn rhanau o iaith natur nas medrai eu cuddio—arwyddion anwadadwy nas medrai'r dyn droi yn anifail.

Yn ystod y tymhor dedwydd y bu yn y ffactri y gwelodd George ei wraig, ac y priododd hi. Yr amser hwnnw—trwy fod ei feistr yn ei ffafrio ac yn ymddiried ynddo, yr oedd yn cael myn'd a dyfod fel y mynnai. Yr oedd Mrs. Shelby yn cymmeradwyo'r briodas, a chyda rhywfaint o falchder merch am wneud *match*, yr oedd yn dda ganddi weled ei phen-morwyn yn cael dyn mor ffafriol, o'r un dospath a hi ei hun; felly priodwyd hwynt yn mharlwr mawr ei meistres, a'i meistres, â'i dwylaw ei hun, a osododd y blodau *orange* yn ngwallt y briodferch, ac a daflodd drosti y *veil* briodas, yr hon ni bu ond anaml iawn yn orchudd i ben harddach; yr oedd yno ddigonedd o fenyg gwynion, caccenau, a gwin, a gwahoddedigion yn canmol prydferthwch y forwyn a haelioni a charedigrwydd y feistres. Am flwyddyn neu ddwy, byddai Eliza yn gweled ei gwr yn aml, ac ni bu un cwmmwl ar eu llwybr oddieithr colli dau blentyn, o ba rai yr oedd y fam yn hynod o hoff, a galarodd ar eu hol mor ddwys ag i alw am ymyrraeth ei meistres, yr hon, megis mam, a geisiodd ynnill ei nwydau gwresog o fewn cylch rheswm ac ysgrythyr.

Ar ol geni Harri, hi a dawelodd, ac a ddaeth yn fwy sefydlog ei meddwl; ymglymodd ei serch yn y bychan yma, a daeth ei theimladau clwyfus i ymiachau. Yr oedd Eliza yn ddynes happus, hyd yr amser y tynnwyd ei gwr oddi wrth feistr caredig, ac y gosodwyd ef dan iau haiarnaidd ei berchennog yn ol gyfraith.

Aeth y ffactrwr, yn ol ei air, i ymweled â Mr. Harris, ymhen tua phythefnos ar ol iddo gymmeryd George ymaith, pryd yr oedd yn gobeithio fod ei dymherau wedi oeri, a gwnaeth ei oreu i gael George yn ol.

"Nid rhaid i chwi ddim poeni i siarad dim yn rhagor," eb efe, yn dd'wedwst, "mi wn i musnes, syr."

"Nid oeddwn i ddim am ymyrraeth â'ch busnes chwi, syr. Meddwl yr oeddwn i y gallasech feddwl ei bod yn fantais gollwng y dyn attom ni am y cyflog a gynnygiwyd."

"O, yr ydw i 'n deall yn burion. Mi gwelas i chi yn wincio ac yn sisial, y diwrnod y cym'ras i fo o'r ffactri; ond ni ddowch chi ddim dros fy mhen i fel yna. Mae hon yn wlad rydd, syr; *a fi bia'r dyn yna*, ac mi 'naf fel y mynna i hefo fo; dyna'r fel."

Ac felly syrthiodd gobaith olaf George;—dim o'i flaen ond bywyd o lafur a lludded, wedi ei chwerwi â phob anhunedd a fedrai crewlondeb ei ddyfeisio.

Dywedodd barnwr teimladwy unwaith: "Y defnydd gwaethaf a fedrwch wneud o ddyn ydyw ei grogi." Nage, mae defnydd arall a ellir wneud o ddyn ag sydd WAETH!

PENNOD III.

TEIMLADAU Y GWR A'R TAD.

AETH Mrs. Shelby allan i dê, a safodd Eliza ar y verandah, gan edrych yn lled ddigalon ar ol y cerbyd, pryd y disgynodd llaw ar ei hysgwydd. Hi a drodd, a gloywodd ei llygad gyda gwên siriol.

"George, ai chwi sydd yna? Fel y dychrynsoch chwi fi! Wel, mae'n dda geni'ch gweled. Mae missis wedi myn'd allan am y prydnhawn; dowch i fy lle bach i, ni ddaw neb i dorri ar ein siarad."

Gyda hyn hi a'i cymmerodd i ystafell fechan daclus oedd yn agor i'r verandah, lle byddai yn arfer eistedd i wnio, o fewn cyrhaedd galwad ei meistres.

"Mae'n dda geni'ch gweled!—pam na 'drychwch chi yn siriol?—'drychwch ar Harri—fel mae o 'n prifio." Safodd y bychan yn yswil, gan edrych ar ei dad trwy ei wallt troellog, a gafael yngwisg ei fam. "Onid ydi fo'n glws?" eb Eliza, gan godi ei wallt, a'i gusanu.

"Gwyn fyd na buasa fo heb ei eni 'rioed!" ebe George, mewn chwerwder. "Fasa'n dda gen i pedaswn inna heb fy ngeni 'rioed."

Eisteddodd Eliza mewn syndod a dychryn, a chan blygu ei phen ar ysgwydd ei gwr, hi a dorrodd allan i wylo.

"Dyna, dyna, Eliza, mae'n rhy ddrwg i mi 'ch gyrru chwi i grio fel yna," eb efe, yn serchlon; "mae'n rhy ddrwg. O pe basem ni heb weled ein gilydd erioed, chwi allasech fod yn happus!"

"George, George, sut y medrwch chwi siarad fel yna? Beth sydd wedi digwydd, neu i ddigwydd? Yr ydym wedi bod yn happus iawn yn ddiweddar."

"Felly buom ni, fy ngeneth anwyl i," ebe George. Yna cymmerodd ei fachgen ar ei lin, edrychodd yn myw ei lygad anwyl, a thynnodd ei law trwy ei wallt troellog.

"Yr un ffunud a chwi, Eliza; a chwi ydyw'r ddynes harddaf a welais erioed, a'r oreu a ddymunwn byth ei gweled; ond, O na buaswn heb eich gweled erioed, na chwithau finnau!"

"O, George, sut y medrwch chwi!"

"Ië, Eliza, poen, poen, poen ydyw'r cwbl. Mae nhynged i fel y wermod; a mywyd i 'n llosgi allan. Creadur tlawd, unig, a thruenus ydwyf, ac mi tynnaf chwithau i lawr gyda fi, dyna'r cwbl. Pwy les

ydyw treio gneud dim yn y byd,—treio gwybod dim,—na threio bod yn ddim? Pwy les ydi byw? Fasa'n dda gen i pe bawn i wedi marw?"

"O, George anwyl, mae'n bechod siarad fel yna! Mi wn i sut yr ydych yn teimlo ar ol colli eich lle yn y ffactri, ac y mae gennych feistr cas; ond byddwch amyneddgar, efallai daw—"

"Amyneddgar!" ebe efe, ar ei thraws, oni fum i 'n amyneddgar? Ddeudas i air pan gym'rodd o fi o'r ffactri, heb un rheswm ar wyneb pridd y ddaear, o'r fan lle'r oedd pawb yn garedig? Mi dalais iddo bob dima ynnillais i; ac mi ddwyd pawb i mi weithio'n dda."

"Wel, y *mae* hi 'n galed," eb Eliza, "etto, ar ol y cwbl, efe ydi 'ch meistr, wyddoch."

"Fy meistr! Pwy a'i gwnaeth ef yn feistr i mi? Dyna beth sy arna' i eisia wybod—pwy hawl sy ganddo ef i mi? Yr ydw i yn ddyn cystal ag yntau; yr ydw i yn well dyn nag ef; mi wn fwy am fusnes; mi fedraf arolygu yn well; mi fedraf ddarllen yn well; mi fedraf ysgrifenu yn well; a mi ddysgais y cwbl fy hun, heb ddim diolch ido ef —mi ddysgais yngwaetha yn ei ên; ac yn awr, pa hawl sydd ganddo ef i wneud hen geffyl gwaith o honof fi?—i gymryd oddi arna i waith a fedraf fi wneud, a'i wneud yn well nag ef, a ngosod i wneud gwaith ceffyl? Mae yn treio, ac yn dweyd y myn fy nhorri i lawr, ac y mae yn rhoi'r gwaith calettaf, gwaelaf, a butraf i mi o wir bwrpas."

"O, George, George, yr ydych yn fy nychrynu i! Ni chlywais i erioed mo honoch yn siarad fel yna o'r blaen; mae arnaf ofn y gwnewch rywbeth dychrynllyd. Nid ydwyf fi ddim yn rhyfeddu at eich teimladau; ond, O, cymrwch ofal,—gwnewch, gwnewch—er fy mwyn i—er mwyn Harri!"

"Mi gym'ras ofal, ac mi gym'ras amynedd; ond y mae hi'n mynd waeth waeth—nid eill cig a gwaed ddal dim yn rhagor. Mae yn cymmeryd pob cyfleusdra i fy sarhau a f'iselu i. Yr oeddwn i 'n meddwl y gall'swn i wneud fy ngwaith yn burion, a bod yn dawel, i gael amser i ddarllen, a dysgu ar ol noswylio; ond po fwyaf wel o fi yn wneud, mwyaf i gyd fyn yntau. Mae yn dweyd, serch nad ydw i yn deud dim, ei fod o'n gweled fod y gwr drwg ynw i, ac y myn ei dynnu allan; ac fe ddaw allan un o'r dyddiau yma, mewn ffordd na bydd ef yn hoff o honi, neu yr wyf fi yn camgymmeryd."

"O'r anwyl, beth a wnawn ni?" eb Eliza, yn dor-galonus.

"Dim ond ddoe ddiwaetha," ebe George, "yr oeddwn yn bysur yn llenwi cerrig i'r drol, ac fe safodd y meistar bach, Twm, i gleccian ei whip yn ymyl y ceffyl i'w ddychrynu. Mi ofynais iddo beidio, mor addfwyn ag y medrwn i: ond dal atti hi a wnaeth. Mi ofynais iddo yr ail waith, yna efe a drodd i'm curo i. A phan ymaflais yn ei fraich i'w attal, fe ddechreuodd sgrechian a chiccio, a rhedodd at ei dad i ddweyd fy mod i yn ei guro. Daeth hwnnw fel peth o'i go', ac a ddywedodd y dysgai fi i wybod pwy oedd fy meistr; fe'm rhwymodd i wrth goeden, ac a

dorrodd wrisgen i'r gwr bach fy nghuro nes blinai; ac felly fu: os na ddyga i hyn ar gof iddo ryw ddiwrnod!"

Ac fe ddadliwiodd gwynebpryd y dyn ifange, a'i lygaid yn llosgi gan eiddigedd, nes dychrynu ei wraig druan. "Pwy wnaeth y dyn yma yn feistr i mi—dyna beth sy arna' fi eisiau wybod?" eb efe.

"Wel," eb Eliza, "yr oeddwn i bob amser yn meddwl y dylwn i ufuddhau i meistr a meistres, onite fedrwn i ddim bod yn Gristion."

"Mae rhyw synwyr yn hynny yn eich amgylchiad chwi; maent wedi eich dwyn i fynu fel plentyn—wedi eich porthi, eich dilladu, eich meithrin, a'ch dysgu,—yr ydych wedi cael dygiad i fynu—ac y mae rhyw reswm yn eu hawl ynoch. Ond ni chefais i ddim ond fy nghiccio, fy mhwnio, a fy rhegu, ac ar y goreu fy ngadael yn llonydd; a phwy ddyled sy arna' i? Yr ydw i wedi talu am fy nghadw ganwaith drosodd. Ni ddiodda i mohono—*na wnaf byth!*" eb efe, gan wasgu ei ddyrnau, ac edrych yn ffyrnig.

Aeth Eliza yn fud mewn cryndod. Nis gwelsai ei gwr yn y fath dymher erioed o'r blaen; ac yr oedd ei golygiadau plentynaidd o foesoldeb yn plygu fel y brwyn yn nghenllif y fath nwydau.

"Chwi wyddoch am Carlo, y ci bach roisoch i mi," ebe George; y creadur hwnnw oedd bron yr unig gysur oedd gen i. Fyddai yn cysgu wrth fy ochr y nos, ac yn fy nghanlyn y dydd, ac yn edrych arnaf fel pe buasai yn gwybod fy nheimladau. Wel, yr oeddwn i yn taflu rhyw 'sgyrniach iddo y dydd o'r blaen wrth ddrws y gegin, a phwy ddaeth heibio ond mistar, ac fe ddeudodd mod i'n cadw'r ci ar ei gost ef, ac na fedrai ddim fforddio i bob niggar gadw ci; fe barodd i mi roi carreg wrth ei wddf, a'i daflu i'r llyn."

"O, George, neuthoch chwi ddim!"

"Gneud—naddo; ond fe wnaeth e. Ac fe luchiodd meistr a Twm gerrig at y creadur gwirion. Yr oedd y truan yn edrych arna' i mor dorcalonus, fel pe buasai'n rhyfeddu am na buaswn i yn ei safio. Mi gefais fy nghuro am na wnawn ei foddi fy hun. Ond, ni waeth gen i; geiff meistr weled na wneiff whipio ddim fy nofi i. Fe ddaw niwrnod inna, os na edrychiff o atti hi."

"Beth wnewch chwi? O, George, peidiwch a gwneud dim sy ddrwg; os disgwyliwch chwi wrth yr Arglwydd, ac ymdrechu gwneud yn iawn, ddaw ymwared ganddo ef."

"Nid ydw i ddim yn Gristion, fel chwi, Eliza; mae nghalon i yn llawn chwerwedd; ni fedra i ddim disgwyl wrth yr Arglwydd. Pam mae o'n gadael i bethau fel yma fod?"

"O, George, rhaid fod genon ni ffydd! Fydd meistres yn deud, pan fydd pob beth yn groes, y rhaid i ni gredu fod Duw yn gneud y cwbl er ein lles ni."

"Mae'n ddigon hawdd i bobl ddeud hynny pan fo'n nhw'n gorwedd ar eu soffas, ac yn marchogaeth yn eu cerbydau; ond newidian nhw le a fi, allwn i feddwl fydda ddim mor hawdd. O na fedrwn i fod yn dda; ond

y mae nghalon i ar dân, a fedra i ddim boddloni sut yn y byd. Fedrach chwitha ddim yn fy lle i; fedrweh chwi ddim yrwan, os deuda i 'r cwbl. Ni wyddoch chwi mo'r cyfan etto."

"Beth eill fod yn rhagor?"

"Wel, mae mistar yn deud yn ddiweddar, mai ffwl oedd o, am adael i mi briodi oddi ar y ffarm; fod yn gas ganddo Shelby a'i holl dylwyth, am eu bod yn falch, ac yn carrio eu penau yn uwch na fo, a mod inna yn dysgu balchder gennych chwi; ac y mae yn deud na cha i ddim dwad yma yn rhagor, ac y rhaid i gymryd gwraig ar y ffarm, a byw yno. I ddechra, ddaru o ddim ond grwmblo a chymhenu; ond ddoe, fe ddeudodd y rhaid i mi gymryd Mina yn wraig, a byw mewn caban gyda hi, onitê y gwerthiff fi i lawr yr afon."

"Onid ydych wedi fy mhriodi *fi*, gan y gweinidog, cystal a phe buasech yn ddyn gwyn," eb Eliza, yn ddiniwed.

"Wyddoch chi ddim na fedr caethwas briodi? Nid oes yr un gyfraith yn y wlad yma i hynny: ni fedra i ddim deud mai chwi ydi ngwraig i, os bydd o 'n dewis deud yn groes. Dyna'r pam 'r ydw i'n deud y basa'n dda gen i fod heb eich gweled erioed—na faswn i 'rioed heb fy ngeni; fuasa 'n well i ni ein dau—fasa'n well i'r plentyn yma druan pe b'asa fe erioed heb ei eni. Fe eill hyn i gyd ddigwydd iddo yntau!"

"O, ond y mae meistr mor garedig!"

"Ydi; ond pwy ŵyr? eill yntau farw; ac yna fe werthir Harri nas gŵyr neb i bwy. Pwy bleser ydi fod o'n dlws, yn gall, ac yn anwyl? Mi ddeuda i chwi, Eliza, fe â cleddyf trwy eich calon chwi etto am bob rhagoriaeth sydd yn eich plentyn—fe fydd yn werth gormod i chwi allu ei gadw."

Syrthiodd y geiriau hyn yn drwm ar galon Eliza; hi gofiodd am y masnachwr, yr un fath a tharo'r fwyall yn y pren, ac a ddadliwiodd bron mewn llewyg. Hi a edrychodd yn bryderus tua'r verandah, lle'r oedd y bychan yn marchogaeth yn ol ac ymlaen ar ffon Mr. Shelby. Braidd na buasai yn dweyd ei hofnau wrth ei gwr, ond hi a ymattaliodd.

"Na, na, mae ganddo ddigon ar ei feddwl, druan," ebe hi. "Ni ddyweda i ddim wrtho; heblaw hynny, nid ydi'r peth ddim yn wir; ni fydd meistres byth yn twyllo neb."

"Wel, Eliza, 'ngeneth i," ebe George, yn bruddaidd, "codwch eich yspryd, ffarwel; dyma fi yn myn'd."

"Myn'd, George—myn'd i b'le?"

"I Canada," eb efe, gan ymsythu; "a phan gyrhaeddaf yno, mi a'ch prynaf chwi—dyna'r unig obaith sydd gennym. Mae gennych feistr caredig, ac ni ommedd eich gwerthu. Mi a'ch prynaf chwi a'r bachgen, os caf Dduw yn help!"

"O, mor ofnadwy fyddai i chwi gael eich dal!"

"Ni chymera i mo 'nal, Eliza; mi fydda *farw* ynghynta!—rhyddid neu angau i mi."

"Ni wnewch chwi ddim lladd eich hunan!"

"Dim achos am hynny; fe lladdan nhw fi yn ddigon prysur; ond nid ân' nhw byth a fi i lawr yr afon yn fyw."

"O, George, cym'rwch ofal er fy mwyn i! Peidiwch a gwneud dim fo ddrwg; peidiwch a gosod llaw arnoch eich hun, nac ar neb arall. Yr ydych mewn gormod o demtasiwn—gormod o lawer; ond peidiwch—mynd raid i chwi—ond ewch yn ofalus, ac yn wyliadwrus, a Duw fo'n help i chwi."

"Wel, Eliza, dyma'r plan. Fe gymmerodd meistr yn ei ben fy ngyrru heibio yma, a llythyr i Mr. Symmes, sy'n byw tua milltir oddi yma, ac yr ydw i yn credu ei fod yn disgwyl y down i yma i ddeud yr hanes. Byddai wrth fodd ei galon pe gallai boeni 'teulu Shelby,' fel y mae yn eu galw. Yr wyf yn mynd adre fel pe bawn yn foddlon i'r cwbl oll, ydych chwi'n deall? Ond yr wyf wedi parottoi, ac y mae gennyf rai i'm helpio; ymhen tuag wythnos mi fyddaf ar goll. Gweddiwch drostw i, Eliza, hwyrach y gwrendy'r Hollalluog arnoch *chwi*."

"O, George, gweddiwch chwitha hefyd, ac ewch dan ymddiried ynddo Ef, yna ni wnewch ddim sy ddrwg."

"Wel, *ffarwel*," ebe George, gan ddal dwylaw Eliza, ac edrych yn myw ei llygaid, heb syflyd. Safasant yn syn; yna'r geiriau olaf, yr ochen-eidiau, a'r dagrau—y fath ymadawiad ag a wneir gan rai sydd a'u gobaith o gyfarfod drachefn fel gwe'r pry coppyn; a gwahanwyd y gwr a'r wraig.

PENNOD IV.

NOSWAITH YN NGHABAN F'EWYRTH TWM.

CABAN o goed heb eu naddu oedd cartrefle F'ewyrth Twm, yn ymyl "y tŷ," fel y bydd y negro, gyda phob dyledus barch, yn galw anneddle ei feistr. Yr oedd darn o ardd o'i flaen, lle, bob haf, y tyfai mafon a mefus, ac amryw ffwrythau a llysiau, dan ofal gwyliadwrus y caethwas. O gylch y dwrs a'r ffenestri, hyd at y bargod, tyfai blodau amryliw, a dirwynau coeden a rosynau cochion yma a thraw, heb adael braidd gainge o'r coed geirwon yn y golwg. Gwelid yno hefyd amryw flodau, megis marigold, briallu, bottwm gwr ifangc, a lavender, mam-ynghyfraith, a hen ŵr, y rhai oeddynt falchder calon Modryb Cloe.

Gadewch i ni fyned mewn. Mae'r swpper drosodd yn "y tŷ," a modryb Cloe, yr hon yw y ben-goges, wedi gadael y glanhau a golchi'r llestri i'r gweinidogion yn y gegin, a dyfod adref, i'w lle bach ei hun, i barottri swpper "yr hen wr;" gan hynny, gallwch fod yn sicr mai hi a welwch wrth y tân, yn arolygu, gyda mawr ofal, y crochan sydd ar y pentan, ac yn codi cauad y cettal-pobi, o'r hwn y mae arogl,

"rhwbeth da" yn eich cyfarfod. Mae ganddi wyneb crwn, du, a disglaer, ac mor loyw a phe buasai wedi ei olchi â gwŷn ŵy, yr un fath a'i theisenau tê. Mae ei hwynebpryd llyfndew yn pelydru tawelwch a boddlondeb oddi tan ei phenwisg brith, pa un, yn llawn o starch, sydd yn dwyn arwyddion fod y perchennog y goges oreu yn y gymmydogaeth, fel yr ystyrid Modryb Cloe gan bawb a'i hadwaenai.

Yr oedd hi yn goges, bob cymmal o honi, hyd at asgwrn ei chefn. Nid oedd na chyw iâr, na thwrci, na hwyaden yn y buarth, nad edrychent yn sobr, gan feddwl am eu diwedd, pan welent hi yn nesâu; ac y mae yn ddios, y byddai hi yn meddwl yn ddibaid am bluo, stwffio, sciwrio, a rhostio, i'r fath raddau ag i godi dychryn yn meddwl unrhyw aderyn dof a dim synwyr yn ei ben. Yr oedd ei chaccenau—yn leicacs, bara peilliad, wics, a nifer eraill rhy aml i'w henwi, yn ddirgelion anamgyffredadwy i'r mân-gogesau o amgylch; a byddai yn chwerthin nes siglo ei hochrau wrth adrodd fel y byddai eraill yn ceisio gwneud yn debyg, ac yn methu.

Byddai dyfodiad cwmpeini i'r "tŷ," a threfnu ciniawau a swpperau "mewn style," yn deffroi holl egni ei henaid, ac nid oedd dim a'i gwnai wrth fodd ei chalon yn fwy na gweled bwndeli o drynciau trafaelio ar y verandah; oherwydd edrychai y pryd hynny am ymdrechion a buddugoliaethau adnewyddol.

Ond y munud yma, sut bynnag, mae Modryb Cloe a'i llygad yn y cettal—lle y gadawn hi nes y gorphenwn ein darlun o'r bwthyn.

Yn un gongl yr oedd gwely, wedi ei orchuddio â chwrlid gwŷn, a darn o garpet go fawr yn ei ymyl. Ar y darn carpet, safai Modryb Cloe, fel yn perthyn yn ddios i'r uchraddolion; ac yr oedd hwn, a'r gwely, ar gongl i gyd, yn lle heibio i'r cyffredin, ac yn rhy sanctaidd i bawb gael myned iddo. Mewn gair, y gongl yma oedd *parlwr* y caban. Yn y gongl arall yr oedd gwely llawer mwy di-addurn, ac arwyddion mai un i'w ddefnyddio ydoedd. Uwch ben yr aelwyd yr oedd nifer o ddarluniau ysgrythyrol, a darlun o General Washington, wedi ei dynnu a'i liwio mewn ffordd a fuasai'n sicr o beri syndod i'r enwog hwnnw, pe digwyddasai iddo weled ei gyffelyb.

Ar fainge geingciog yn y gongl, yr oedd dau hogyn pen-grych, a llygaid duon yn serenu, a bochau tewion disglaer, yn brysur yn dysgu un fechan i gerdded—yr hyn, fel y mae yn gyffredin, a gynnwysid mewn codi ar ei thraed, siglo ychydig, ac yna rholio ar y llawr—a phob tro y gwnai hyn, yr oedd yno'r fath swn a chwerthin a phe buasai wedi cyflawni rhyw gampwaith rhagorol.

Yr oedd ar gyfer y tân fwrdd, a'r cryd cymmalau arno yn lled drwm, a llian glân arno, a chwppanau a soseri o batrwm coch a gwyn, ynghydag arwyddion eraill fod pryd bwyd yn agos. Wrth y bwrdd yma yr oedd F'ewyrth Twm, pen-gwas Mr. Shelby; a chan mai efe ydyw asgwrn cefn y stori, rhaid i ni dynnu ei lun i'r darllenydd. Dyn mawr, ysgwyddog a chymmalog oedd, mor ddued a'r *pitch*, a'i wynebpryd

Affricanaidd yn dangos fel mynegfys fod ganddo sobrwydd a synwyr, gyda llawer o deimlad a dyn-garwch. Yr oedd yn ei holl ymddangos iad arwyddion o hunan-barch a bonedd, wedi eu cyd-dymheru âg isel-fryd gostyngedig.

Yr oedd y munud yma yn llafurio yn galed uwch ben llechen ysgrifenu, ar ba un yr oedd yn ceisio copio llythyrenau, dan gyfarwyddyd Mas'r George Shelby, llengcyn ffraeth a serchlon, tair-ar-ddeg oed, yr hwn a ymddangosai fel meistr i'r dim.

"Nid fel yna, F'ewyrth Twm, nid fel yna," eb efe ar frys, pan oedd yr ysgolhaig, mewn poen a llafur, yn llusgo cynffon yr g i fynu yr ochr chwith; "mae 'nyna yn gwneud q, welwch chi."

"Wel, welas i 'rioed, y mae o ?" ebe F'ewyrth Twm, gydag osgo mor ostyngedig, tra'r oedd ei feistr bychan yn scriblo q ac g yn ddirifedi, er addysg a hyfforddiad ei ysgolhaig; yna, gan gymmeryd y pwyntil yn ei law fawr, efe a ddechreuodd drachefn yn araf bach.

"Mor hawdd y mae pobol wnion yn gneud petha!" meddai Modryb Cloe, gan edrych dros ei hysgwydd, wrth iro grindyll â thamaid o gig moch, a thaflu golwg serchlon ar Mas'r George. "Fel medyr o 'sgyfenu 'rwan! a darllan hefyd! a dwad yma fel hyn min nos, a darllan i wers i ni,—mae o'n fachgan heb i fath!"

"Mae arna i eisio bwyd ofnadwy, Modryb Cloe," ebe George. "Ydi'r gaccan yna yn y scelat ddim yn barod?"

"Bron barod, Mas'r George," ebe Modryb Cloe, gan godi'r cauad, a spio i mewn; "yn brownio'n iawn—crasu'n anwyl. Ah, 'dewch chi fi yn llonydd am 'nyna. 'Ddaru Missis neud i Sali bobi torth ryw dd'wrnod, fel i dysgu hi, medda hi. 'O, ffwr' a chi missis,' medda finna, 'mae o'n torri nghalon i welad d'fetha bwyd da fel yna!' Y dorth wedi codi i gyd ar un ochor—dim llun, mwy na hen ff'hen gloesan i—ffwr' a chi."

A chyda'r diystyrwch yma ar blentynrwydd Sali, fe gododd Modryb Cloe y cauad oddi ar y cettal-pobi, lle gwelid teisen ysgafn, ddigon i demtio dyn claf, ac na fuasai raid i bobydd pena'r ddinas wrido o'i phlegid. A chan mai dyma oedd canolbwynt y wledd, dechreuodd Modryb Cloe hwylio swpper o ddifrif.

"'Rwan, Mose a Pete, ewch 'ddiar ffordd, chwi niggars! Ffwrdd a chi, Poly, nghariad i; roith mammi rwbeth i'w babi yn y man. 'Rwan Mas'r George, rhowch y llyfra naill du, a 'steddwch gyda f'hen wr i, a mi ro i'r sassages a llond y radall a leicacs ar ych plât chi mewn winciad llygad."

"'Roedd arnyn nhw eisio i mi fynd i'r tŷ i swpper," ebe George, "ond mi wyddwn i yn well na hynny, Modryb Cloe."

"Felly gwyddach chi—felly gwyddach chi, machgen i," ebe Modryb Cloe, gan lwytho'r caccenau ar ei blât; "wyddach chi fod yr hen fodryb yn cadw'r gora i chi bob amser. O, 'dewch chi lonydd iddo fo—dos o'na!"

A chyda hyn rhoddodd Modryb Cloe broc i George dan ei asenau, gan geisio bod yn hynod o ddigrif, ac a drodd drachefn at y radell.

"'Rwan am y gaccen," ebe George, ar ol arafu uwch ben cynnyrchion y radell; a chyda hyn ysgydwodd gyllell fawr uwch ben y tamaid rhagddywededig.

"O 'rhoswch, Mas'r George," ebe Modryb Cloe, gan afaelyd yn ei fraich, "ydach chi ddim yn meddwl torri'r gaccen â'r gyllell drom yna! Hi eiff yn dippia mân—chi spwyliwch y codiad clws! Dyma i chi hen gyllell dena, a min arni hi, ydw i yn gadw o bwrpas. Dyna hi, 'rwan, welwch chi—'dwad i lawr fel y bluan. Ffwrdd a hi, byttwch, ni chewch ddim i guro 'nyna."

"Mae Tom Lincoln yn deud," ebe George, a'i geg yn llawn, "fod i Shani nhw yn well coges na chi."

"'Dydi'r Lincons yna ddim o gyfri, ffordd yn y byd!" ebe Modryb Cloe, yn ddirmygus, "yn ymyl 'n pobol *ni* ydw i'n feddwl. Mae'n nhw 'n burion pobol mewn ffordd gyffredin; ond am gael dim i fynu 'mewn style,' 'dydan nhw ddim wedi dechra gwelad y ffordd. Rhowch Mas'r Lincon, 'rwan, wrth ochor Mas'r Shelby. Druan oedd o! a Missis Lincon, fedyr hi ddwad i mewn i'r room fel mistras i, fel gwraig fonheddig, wyddoch! O, ffwrdd a chi, peidiwch a siarad a fi am y Lincons yna!" Ac fe drodd Modryb Cloe ei phen fel un oedd yn gobeithio ei bod yn gwybod gwell pethau.

"Wel, wel," ebe George, "mi clywais chwi yn dweyd fod Shani yn goges weddol."

"Felly dar'u mi," ebe Modryb Cloe. "Mae Shani yn burion coges mewn ffordd blaen gyffredin; hi bobiff ffyrniad o fara—hi eill ferwi tattws yn burion—nid ydi leicacs hi ddim byd neillduol, ddim byd neillduol 'rwan, leicacs Shani felly, ond maen nhw'n weddol—ond dowch chi at y petha ucha, a beth fedyr hi neud? Hi fedyr neud pasta, digon gwir hi fedyr; ond ffasiwn grystyn? Fedyr hi neud y crystyn ysgafn sy'n toddi yn 'ch ceg chi, ac yn codi fel swigen yn gramenau teneuon? Mi eis i drosodd yno i briodas Miss Mari, ac mi ddangosodd Shani y caccenni priodas i mi. Mae Shani a finna yn burion ffrindia, wyddoch. 'Ddeudas i ddim byd; ond, dos o'na, Mas'r George! 'Faswn i ddim yn cau fy llygad am wsnos p'daswn i wedi wedi gneud y fath lot o gaccena. 'Doeddan nhw werth dim yn y byd."

"Mi wranta i fod Shani yn meddwl eu bod nhw dan gamp," ebe George.

"Meddwl!—debyg gen i. Dyna lle'r oedd hi, yn i dangos nhw, mor ddiniwad—welwch chi,—dyma lle mae hi, *nid ydi Shani yn gwybod dim.* Twt, 'dydi'r teulu ddim byd. 'Does dim disgwyl iddi hi wybod! Nid i bai hi ydi o. O, Mas'r George, wyddoch chi ddim hanner 'ch breintia a'ch dygiad i fynu yn 'ch teulu!" Ac fe ucheneidiodd Modryb Cloe, gan droi ei llygaid fel mewn llesmair.

"Yr ydw i yn ddigon shwr, Modryb Cloe, mod i yn deall fy mreintia pwdin a phaste," ebe George. "Gofynwch i Tom Lincoln os na fydda i yn i fwlio fo bob tro cyfarfyddwn ni."

Ar hyn fe bwysodd Modryb Cloe ar gefn ei chadair, ac a chwarddodd allan yn iawn, am ben digrifwch Mas'r George; yr oedd y dagrau yn rholio i lawr ei gruddiau gloywddu, ac amrywiai y difyrwch trwy guro cefn George, a'i broccio dan ei asenau, gan ddweyd, "dos o'na," a'i fod ef yn llangc—ei fod yn ddigon o angau iddi, ac y byddai'n sicr o'i lladd un o'r dyddiau yma; a rhwng pob un o'r prophwydoliaethau angeuol hyn, hi ai ymaith mewn ffit o chwerthin, y naill yn hwy ac yn gryfach na'r llall, nes y dechreuodd George feddwl o ddifrif ei fod yn hogyn pur beryglus, ac y dylai fod yn ofalus iawn sut i siarad "mor ddigrif ag y medrai."

"A mi ddeudsoch wrth Tom, ai do? O'r argan fawr! 'does dim hel a'r plant. A ddaru chi fwlio Tom? O! Mas'r George, 'rydach chi ddigon a gyrru chwain i chwerthin!"

"Do shwr," meddai George: "'Tom,' meddwn i wrtho fo, 'mi ddylat ti gael profi pasteiod Modryb Cloe; dyna'r rhai iawn, machgen i,' meddwn i."

"Trueni na chai Tom, hefyd," ebe Modryb Cloe, ar galon dyner pa un yr oedd cyflwr tywyll Tom yn gwneud argraph ddwys. "Chi ddylach ofyn iddo ddwad yma i ginio, un o'r d'rnoda yma, Mas'r George; mi 'drycha'n bur dda arnoch chi. Chi wyddoch, Mas'r George, na ddylach chi ddim edrach yn uwch na phobol, ar gyfri 'ch breintia, oherwydd petha geison ni ydi breintia bob un,—ddylan ni byth anghofio hynny," ebe Modryb Cloe, gan edrych yn syml ryfeddol.

"Wel, mi ofyna i Tom ddwad yma ryw ddiwrnod yr wythnos nesa," ebe George, "a gnewch chi'ch gora, Modryb Cloe, mi 'nawn ni iddo agor ei lygaid. Mi 'nawn ni iddo fo fytta fel na esgoriff mono am bythefnos."

"Gnawn, gnawn—mor wirad," ebe Modryb Cloe, wrth fodd ei chalon; 'gewch chi weled. O'r anwyl, 'daech chi ddim ond meddwl am ambell ginio fu yma. Ydach chi yn cofio'r baste fawr 'neis i pan roison ni ginio i General Knox? Fu bron i mi a missis syrthio allan o gwmpas y crystyn. Fedra i ddim dyfeisio be sy'n taro ymhenna ladis weithia; ond mi gewch i gwelad nhw, ambell waith, pan fotho un fwya prysur, ac yn *seriws*, fel gallwn ni ddeud, dyna'r unig amser y byddan nhw yn troi o'ch deutu chi a'u bys ymhob brywas. Mi fynne missis i mi neud fel hyn, a gneud fel arall, nes o'r diwedd y trois i yn reit sossi, ac ebar fi, ''Rwan, missis, 'drychwch ar y dwylo bach glân neis yna sy genoch chi, a'ch bysedd hirion, yn llawn modrwya aur, 'run fath a'r lili wen yn 'rardd pan fydd y gwlith heb godi, ac yna 'drychwch ar y nwylo mawr i. 'Rwan, ydach chi ddim yn meddwl fod y Brenin mawr wedi ngneud i yn ffitiach i neud crystyn pasta, a chitha i aros yn y parlwr?' Do, mi fum mor sossi a 'nyna, Mas'r George."

"A beth ddeudodd mam?" ebe George.

"Deud!—mi ddaru ryw hanner chwerthin, a throi'r llygid braf hynny sy genni hi, ac, ebr hi, 'Wel, Modryb Cloe, yr ydw i yn meddwl eich bod yn ail i'ch lle,' ac i'r parlwr a hi. Hi ddylsa roi bonclust i mi am

fod mor sossi; ond, dyna fel y mae hi, fedra i neud dim os bydd ladis yn y gegin!"

"Wel, ddoethoch drwyddi hi'n bensych hefo'r cinio hwnnw—yr ydw i 'n cofio fod pawb yn deud hynny," ebe George.

"Do, ond to? A 'doeddwn i ddim tu'n ol i'r drws! a mi glywas y General yn gofyn i helpio dair gwaith o'r basta honno, ac ebar fo, 'Mae gennoch chi goges gampus, Mrs. Shelby.' Gwarchod pawb, yr o'wn i bon torri ar y nhraws."

"A mi ŵyr y General beth ydi cwccio," ebe Modryb Cloe, gan ymsythu. "Dyn neis iawn ydi'r General! Mae o'n dwad o'r teulu gora yn Hen Virginia! Mi ŵyr o be' sy'n iawn, cystal a finna, y General. Welwch chi, mae *pwynts* ymhob pasta, Mas'r George, ond nid pawb ŵyr beth ydan nhw, na be ddylan nhw fod. Ond y General, mae o'n gwbod; mi wn i o dd'wrth y peth ddeudodd o. Ydi, ydi, mae o'n gwbod y pwynts."

Erbyn hyn yr oedd Mas'r George wedi cyrhaedd y bwlch hwnnw at ba un y mae hogyn ambell waith yn dyfod (dan amgylchiadau anarferol) pryd na fedrai fwytta tammaid yn rhagor; ac o ganlyniad yr oedd ganddo hamdden i weled y twr o bennau gwlanog a llygaid disglaer ag oedd yn edrych arno yn flysig o'r gongl arall.

"Hwda, Mose, a Pete," eb efe, gan daflu tammeidiau iddynt, "mae arnat titha eisio peth, onid oes? Dowch, Modryb Cloe, craswch deisene iddyn nhw."

Yna fe eisteddodd George a Thwm ynghil y simne, tra bu Modryb Cloe yn pobi pentwr a gaccenau; ac wedi hynny hi a gymmerodd y babi ar ei glin, gan ei phorthi ei hun a'r plentyn bob yn ail, a rhanu rhwng Mose a Pete, y rhai a ddewisent yn hytrach fwytta eu swpper tan y bwrdd, a goglais a chiccio, a gwichian, ac ambell dro dynnu bodiau'r fechan.

"O, ffwr a chi, newch chi," meddai'r fam, gan giccio ar amcan dan y bwrdd, pan fyddai gormod o dwrw. Fedrwch chi ddim bod wrth gwrs pan ddelo pobl wnion i'r tŷ? 'Newch chi dewi? Well i chi edrach atti hi, onte mi siga'ch senna chi pan elo Mas'r George adra!"

Pa ystyr oedd yn y bygythiad arswydus hwn, mae'n anhawdd dweyd; ond y mae'n ddiogel fod y bychain yn methu ei ddeall, oherwydd ychydig iawn o effaith a gafodd arnynt.

"Rwan," ebe F'ewyrth Twm, "mae'n nhw mor llawn o wres, fedran nhw ddim bod wrth gwrs."

Ar hyn daeth y ddau hogyn oddi tan y bwrdd, a'u dwylo a'u gwynebau yn driagl i gyd drostynt, ac a ddechreuasant gusanu'r fechan nerth eu hegni.

"Ewch o'na chi," ebe'r fam, gan wthio ymaith eu penau gwlanog. "Chwi lynwch wrth eich gilydd, ac ni ddowch chi byth yn rhyddion, os daliwch atti hi fel yna. Cerwch i'r pistyll i 'molchi," ebe hi, gan ychwanegu hergwd at y cyngor, yr hwn a swniodd yn uchel, ond heb gael un effaith oddieithr tynnu mwy o chwerthin allan o'r hogiau, fel

yr oeddynt yn rhedeg ar draws eu gilydd i'r drws, dan waeddi a bloeddio.

"Welsoch 'rioed hogia o'u batha nhw?" ebe Modryb Cloe, braidd yn dda ei natur, gan godi a gafaelyd mewn tywel a fyddai bod amser wrth law, a gwlychu ei gongl â diferyn o dê, allan o hen depot a chrac ynddo, i rwbio'r triagl oddi ar wyneb a dwylo'r fechan; ac ar ol ei rhwbio nes oedd yn disgleirio, hi a'i gosododd ar lin Twm, tra yr oedd hi yn tacluso'r llawr. Difyrodd y fechan ei hun wrth afaelyd yn nhrwyn Twm, crippio ei wyneb, a thynnu ei wallt crych, yr hyn beth a ymddangosai yn bleserus dros ben iddi.

"On'd ydi hi'n hogan ddel?" ebe Twm, gan ei dal o hyd braich, er mwyn cael llawn olwg arni; yna efe a gododd ar ei draed, ac a'i dododd ar ei ysgwydd lydan, fel corn-bwch, gan ddawnsio a neidio, a Mas'r George yn cleccian ei hancas arni, a Mose a Pete, wedi dyfod yn ol erbyn hyn, yn rhuo ar ei hol fel eirth, hyd nes y dywedodd Modryb Cloe, eu bod yn ddigon "i hollti ei phen," gyda'u swn. Ond gan fod y gwaith gwaedlyd hwn, yn ol ei dywediad hi, yn cael ei gyflawni yn y caban lawer gwaith bob dydd, ni bu'r hysbysiad yn llwyddiannus i'w distewi, hyd nes iddynt flino yn gwaeddi, a bloeddio, a neidio.

"Wel 'rwan, yr ydw i'n gobeithio fod pen ar hynyna," ebe Modryb Cloe, yr hon fuasai yn brysur i gael allan ryw wely gwlabsant; â 'rwan, Mose a Pete, ewch chi i'ch gwely; 'rydan ni 'n mynd i gael cyfarfod gweddi."

"O mam, 'dewch i ni gael aros y c'farfod; mae o mor ddigri."

"Dowch, Modryb Cloe, g'dewch iddyn nhw eiste i fynu," ebe George, gan roddi cic i'r hen wely.

Yr oedd yn burion gan Modryb Cloe wthio'r gwely o'r golwg, a hi a ddywedodd, "Wel, f'alla bydd o'n lles iddyn nhw."

Yna rhoddasant oll eu pennau ynghyd, i ddyfeisio pa fodd i drefnu'r caban at y cwrdd gweddi.

"Be' 'nwan ni am g'deiria? grogi neb ŵyr, nis gwn i," ebe Modryb Cloe. Ond gan fod yno gyfarfod yn cael ei gynnal er's wythnosau, heb ddim rhagor o gadeiriau, yr oedd rhyw obaith y deuent drwyddi hi rywsut y tro hwn.

"Ddaru f'ewyrth Peter ganu dau droed y gadar yna i ffwrdd yr wsnos dd'waetha," ebe Mose.

"Dos di o'na! mi wranta i mai ti tynnodd nhw; fel un o dy gastia di," ebe Modryb Cloe.

"Wel, mi sai', ond i chi rhoi hi yn erbyn y mur!" ebe Mose.

"Dim iws i f'ewyrth Peter eista yni hi," ebe Pete, "achos mi fydd yn mynd o'r naill ochor i'r llall wrth ganu. Fu agos iddo fynd ar draws y room y nos o'r blaen."

"G'dewch iddo fynd iddi hi ynte," ebe Mose, "a phen ddechriff o ganu 'Dowch bechaduriaid at y dwr,' i lawr a'i garcas o;"—yna fe

F'EWYRTH TWM YN EI GABAN.

"'On'd ydi hi 'n hogan ddel?' ebe Twm, gan ei dal o hyd braich, er mwyn cael llawn olwg arni; yna efe a gododd ar ei draed, ac a'i dododd ar ei ysgwydd lydan, fel corn-bwch, gan ddawnsio a neidio, a Mas'r George yn cleccian ei hancas arni, a Mose a Pete yn rhuo ar ei hol fel eirth, hyd nes dywedodd Modryb Cloe eu bod yn ddigon 'i hollti ei phen' gyda'u swn."

syrthiodd Mose a'i hegla i fynu, dan ganu trwy ei drwyn i ddynwared yr hen ewyrth.

"Byddwch wrth gwrs, 'newch chi," ebe Modryb Cloe, "oes arnoch chi ddim c'wilydd?"

Ond fe ddechreuodd Mas'r George hefyd chwerthin, ac fe ddywedodd fod Mose yn "llangc, heb dim dowt." Felly aeth cyngor y fam i gadw hefo'r gwynt.

"Wel, Twm," ebe Modryb Cloe, "rhaid i ti fynd i nol y ddwy gascen yna."

"Mae dwy gascen mam 'run fath a chostrel y wraig weddw oedd Mas'r George yn darllen am dani hi yn y Bibil,—'dydan nhw byth yn wag," ebe Mose ynghlust Pete.

"'Rydw i'n shwr i un daflu chylcha 'rwsnos dd'waetha," ebe Pete, a gollwng lot i'r llawr pen oeddan nhw'n canu; 'roedd honn'on wag, on'd oedd hi?"

Tra bu'r sisial yma yn myned ymlaen rhwng Pete a Mose, rholiwyd dwy gascen i mewn i'r caban, ac ar ol dodi cerrig dan eu hochrau, rhag iddynt rolio, dodwyd planciau yn groes iddynt, yr hyn, gyda throi ambell badell a thwb a'u gwaelod i fynu, a dodi'r cadeiriau musgrell wrth y mur, a wnaeth ddigon o eisteddleoedd.

"Mae Mas'r George yn 'llenwr mor dda, mi wn i y gneiff o aros i ddarllen," ebe Modryb Cloe; "mae'n blesar gwrando arno fo."

Cydsyniodd George yn eithaf parod, oherwydd y mae'r bachgen bob amser yn hoff o ymddangos yn ddyn.

Llanwyd yr ystafell yn fuan â phob math, o'r hen batriarch penwyn o bedwar ugain, hyd yr hogen a'r hogyn pymtheg oed. Tarawsant atti i ddweyd ychydig o'r hanes,—sut yr oedd Modryb Sara wedi cael hancas gôch newydd, a sut yr oedd "missis" yn mynd i roi'r gown muslin i Lizzy, pan wnai hi ei gown newydd; a sut yr oedd Mr. Shelby yn meddwl prynu merlyn gwine, yr hwn fyddai yn ychwanegiad anwyl i'r lle. Yr oedd rhai o'r addolwyr yn perthyn i berchenogion y gymmydogaeth, ac wedi cael cennad i ddyfod, ac yr oedd ganddynt hwythau ryw ddarnau a hanes y dweyd a'r gwneud yn eu gwahanol ffermydd, yr hyn a aeth o gwmpas yn gyffelyb i'r fath fân chwedlau ymysg yr uwchradd.

Ymhen tippyn fe ddechreuwyd canu, er pleser mawr iddynt oll; ac er maint y llusg a'r trwyniad, yr oedd yno ambell lais clir a soniarus, mewn tonau bywiog a llawn o yspryd. Y geiriau oedd yr hymnau cyffredin yn yr eglwysi a'r capeli o gwmpas, ac ambell dro rai mwy tanbaid a ddygid o'r camp meetins.

Yr oedd byrdwn un o honynt fel hyn, a chanasant nerth eu penau, drosodd a throsodd drachefn;

"Marw ar faes y gwaed,
Marw ar faes y gwaed,
A nefoedd byth i mi.'

Un arall mewn ffafr neillduol oedd fel hyn :—

" O ! 'rwy'n myn'd i ogoniant—a ddewch chwi gyda mi ?
A welwch chwi'r angylion sydd yn fy ngalw i ?
A'r ddinas nefol euraidd, a'r oesoedd maith heb ri ?"

Yr oedd eraill hefyd, gyda chyfeiriadau mynych ynddynt at "lanau'r Iorddonen," "gwlad Canaan," a "Chaersalem newydd," oherwydd y mae meddwl bywiog y negro bob amser yn ymlynu wrth hymnau fo'n darlunio gwledydd hafaidd hyfryd; a thra buont yn canu yr oedd rhai yn gorfoleddu, eraill yn curo dwylo, ac eraill a'u dagrau'n llifo, ac yn ysgwyd dwylo y naill a'r llall, fel pe buasent wedi croesi'r afon.

Ar ol hyn bu cynghori, a dweyd profiad, yn gymmysg a chanu. Ac fe gododd un hen wreigen fusgrell, ar ba un yr edrychid megis hen brophwydes, a chan bwyso ar ei ffon, hi a ddywedodd—

"Wel, 'mhlant i! Mae'n dda gan i 'ch gwelad a'ch clywed chi unwaith etto, oherwydd nis gwn i pwy mor fuan y bydda i 'n mynd i'r nefoedd; ond y mae pob peth yn barod gen i, 'mhlant i; mwndal bach i yn fy llaw i, a monet am mhen i, dim ond aros i'r cerbyd ddwad i fynd a fi adra; ambell waith yn y nos, fydda i'n meddwl mod i'n clywad swn y 'lwynion, ac mi fydda'n edrych allan o hyd; 'rwan byddwch chitha'n barod hefyd, oherwydd 'rydw i'n deud i chi i gyd, blant," ebe hi, gan daro ei ffon yn y llawr, "mai lle rhyfedd ydi'r *nefoedd!* Lle rhyfedd, 'mhlant i—wyddoch chi ddim yn y byd am dano fo—mae o'n lle *rhyfeddol.*" Ac fe eisteddodd yr hen wreigan druan, a'i dagrau'n llifo, bron allan a wynt, tra'r oedd y cwbl yn cyd-floeddio—

" I fryniau Caersalem,
O dowch gyda mi—dowch gyda mi."

Darllenodd Mas'r George y pennodau olaf yn llyfr y Datguddiad, ar ddymuniad neillduol y cyfarfod, a thorrent allan yn aml â "Dear mi," "Glywch chi 'nyna?" "Glywsoch chi 'rioed?" "Ai tybed y daw hyna i gyd i ben?"

Yr oedd George yn llangc bach deallus, ac wedi ei addysgu yn fanwl, gan ei fam, yn yr ysgrythyrau; a phan ddaeth fel hyn yn ganolbwynt o sylw, efe a daflodd air o esponiad i mewn yn awr ac yn y man, mewn dull lled sobr, a chanmolwyd ef gan yr ieuangc ynghanol bendithion yr oedranus; yn wir hwy a gyttunasant oll na "fedrai gweinidog ddim gneud yn well," a'i "fod o'n un rhyfeddol."

Yr oedd F'ewyrth Twm yn cael ei ystyried trwy'r gymmydogaeth fel patriarch mewn pethau crefyddol. Trwy fod ei gyfansoddiad naturiol yn tueddu at bethau felly, a thrwy fod ei ddygiad i fynu yn rhagori ar y cyffredin o'i gydradd, edrychid arno gyda chryn lawer o barch, fel rhyw weinidog yn eu mysg: a gallasai dull ei gynghorion syml a sobr fod o les i lawer un gwell ei ddysg. Ond mewn gweddi yr oedd ei ddawn yn disgleirio fwyaf. Nid oedd dim a fedrai ragori ar symlrwydd teimladwy a difrifoldeb plentynaidd ei weddi, wedi ei britho âg eirchion

CYFARFOD GWEDDI YN NGHABAN F'EWYRTH TWM.

" Nid oedd dim a fedrai ragori ar symlrwydd teimladwy a difrifoldeb plentynaidd ei weddi, wedi ei britho âg eirchion ysgrythyrol, y rhai oeddynt ymhleth â'i holl gyfansoddiad, ac wedi tyfu yn rhan o hono, gan ddiferu dros ei wefusau fel heb yn wybod iddo. Mewn geiriau hen negro duwiol, yr oedd yn ' gweddïo yn syth i fynu.' "

ysgrythyrol, y rhai oeddynt ymhleth â'i holl gyfansoddiad, ac wedi tyfu yn rhan a hono, gan ddiferu dros ei wefusau fel heb yn wybod iddo. Mewn geiriau hen negro duwiol, yr oedd yn "gweddio yn syth i fynu." Ac yr oedd ei weddi yn cael y fath effaith ar y gwrandawyr, fel na chlywid gair o honi ambell waith, gan yr "amen" a'r "diolch byth," a dorrent allan ar bob llaw.

Tra bu hyn yn myned ymlaen yn nghaban y gwas, yr oedd yn bur wahanol yn mharlwr y meistr.

Yr oedd Haley a Mr. Shelby yn eistedd yn yr ystafell ragddywededig, a'r bwrdd yn llawn papyrau ac offer ysgrifenu.

Ymddangosai Mr. Shelby yn brysur yn cyfrif bwndel o filiau, y rhai a wthiai drosodd at y masnachwr, iddo yntau eu cyfrif hefyd.

"Pob peth yn iawn," ebe Haley, "'nawr dodwch eich llaw wrth rhai'n."

Tynnodd Mr. Shelby y gweithredoedd gwerthiad atto, as ysgrifenodd ei enw fel dyn yn gwneud caswaith, ac yna gwthiodd hwynt a'r arian ar draws y bwrdd. Yna tynnodd Haley ddernyn o groen allan o'i goden, ac ar ol edrych arno'n graff, efe a'i hestynodd i Mr. Shelby, yr hwn a ymaflodd ynddo braidd yn awyddus.

"Wel, dyna 'nyna wedi orphen," ebe'r masnachwr, gan godi ar ei draed.

"Y *mae o*," ebe Mr. Shelby, mewn ton synfyfyriol; ac ar ol tynnu uchenaid drom, efe a ddywedodd, "*wedi orphen.*"

"Prin y mae o'n plessio, allwn i feddwl," ebe Haley.

"Haley," ebe Mr. Shelby, "yr ydw i'n hyderu y gwnewch chwi gadw'ch gair, na werthwch chwi mo Twm, heb wybod i feddiant pwy y bydd o i fynd."

"Wel, yr ydach chi 'ch hunan newydd neud, syr," ebe'r prynwr.

"Chwi wyddoch yn burion mai amgylchiadau ddarfu fy *ngorfodi*," ebe Shelby, yn eiddigus.

"Wel, hwyrach y gallan nhw *ngorfodi* inna hefyd," ebe Haley.

"Sut bynnag, mi 'na i ngora i gael lle da i Twm; am iddo fo gael un cam ar fy llaw i, allwch fod yn ddigon esmwyth. Os oes dim y medra i ddiolch i Dduw am dano fo, mi fedra ddiolch nad ydw i ddim yn ddyn dideimlad."

Ar ol yr esponiadau a gawsai Mr. Shelby yn barod o *deimladrwydd* Haley, ni chododd hyn ddim llawer ar ei feddwl; ond gan mai dyma 'r cysur goreu a allai dynnu o'r amgylchiad, efe a adawodd iddo fyned allan gyda'r gair, ac a drodd i ysmoccio segar wrtho ei hun.

PENNOD V.

YN DANGOS TEIMLADAU EIDDO BYW WRTH NEWID PERCHENNOG.

Yr oedd Mr. a Mrs. Shelby wedi myned i'w hystafell am y nos. Eisteddai ef mewn cadair freichiau esmwyth, yn darllen llythyrau a gawsai gyda'r post yn hwyr brydnhawn, a safai hithau ar gyfer y drych i ddad-ddyrysu y plethiadau a'r troellau a wnaethai Eliza yn ei gwallt; oherwydd yr oedd wedi gyrru ei morwyn i'w gwely, am fod ei llygaid yn gochion, a'i hwynebpryd yn drymaidd. Ac, fel yr oedd yn ddigon naturiol, fe ddaeth ymddiddan y prydnhawn i'w chof, a chan droi at ei gwr, hi a ddywedodd,

"Arthur, pwy oedd y creadur anfoesgar yna ddaeth gyda chwi i ginio heddyw?"

"Haley ydyw ei enw," ebe Shelby, gyda thro lled anesmwyth yn y gadair, a dal ei lygad ar y llythyr.

"Haley! Pwy ydyw'r dyn, a pheth sydd arno eisiau yma?"

"Wel, mi fum i yn gneud busnes hefo fo pan oeddwn i yn Natchez ddiweddaf," ebe Shelby.

"Ac ar gyfrif hynny fe wnaeth mor hyf a chymryd ei gartef yma, a throi i mewn i ginio, ai do?"

"Na, fi ofynodd iddo; 'roedd genon ni gyfrifon i'w settlo," ebe Shelby.

"Ai prynwr dynion ydyw?" ebe Mrs. Shelby, gan sylwi fod gradd o ddyryswch yn null ei gwr.

"Beth roth hynny yn eich pen, 'ngeneth i?" ebe Shelby, gan godi ei olygon.

"Dim—ond i Eliza ddyfod yma, ar ol cinio, dan grio a nadu, a dweyd eich bod chwi yn siarad gyda masnachwr, yr hwn oedd am brynu ei bachgen hi—y ffolog fach wirion!"

"Ho, hi ddar'u?" ebe Shelby, gan ail edrych am funud ar ei lythyr, heb wybod ei fod yn ei ddal y pen chwith i fynu.

"Rhaid i'r peth ddwad allan," ebe efe wrtho ei hun, "ac ni waeth 'rwan na rhyw dro arall."

"Mi ddywedais i wrth Eliza," ebe Mrs. Shelby, dan frwshio ei gwallt, "mai hen ffolog oedd hi am ei phoen, nad ydych chwi byth yn delio â'r fath bobl. Mi wyddwn i 'n burion nad oeddych ddim yn meddwl gwerthu 'run o'r dwylo, yn enwedig i'r fath greadur a hwnyna."

"Wel, Emily," ebe yntau, "felly y byddwn inna bod amser yn meddwl

ac yn deud; ond y gwir ydyw, fod fy amgylchiadau i 'r fath ag y rhaid i mi werthu rhai."

"I'r creadur yna? Amhossibl! Fedrwch chwi ddim bod o ddifrif, Mr. Shelby."

"Ydw'n wir, fel y mae gwaetha gen i ddeud," ebe Shelby; "yr ydw i wedi cyttuno i werthu Twm."

"P'beth! Twm ni?—y creadur da a ffyddlon yna!—fu'n was da i chwi er pan yn blentyn! O, Mr. Shelby! a chwithau wedi addaw ei wneud yn rhydd hefyd—fuoch chwi a minnau yn siarad wrtho am hynny ganwaith. Wel, mi fedra goelio unpeth ar ol hyna; mi fedra goelio *'rwan* y gwerthech chwi Harri bach, bachgen Eliza," ebe Mrs. Shelby, mewn tôn rhwng poen a digter.

"Wel, gan fod yn rhaid i chwi gael gwybod y cwbl, dyna fel y mae hi. Yr ydw i wedi gwerthu Twm a Harri hefyd; a phrin y medra i weled y dylwn i gael fy nhrin fel adyn, am wneud peth a wneir gan bawb bob dydd o'r flwyddyn."

"Ond, p'am, o bawb arall, bigo allan y rhai hyn?" ebe Mrs. Shelby.

"P'am gwerthu y ddau yma, o'r cwbl sydd gennym, os rhaid gwerthu fodd yn y byd?"

"Am y caf fwy am danynt,—dyna'r p'am. Mi fedrwn ddewis un arall, pe baech chwi yn foddlon. Mae'r creadur wedi cynnyg yn uchel am Eliza, os ydi'n well gennych chwi."

"Y filan!" ebe Mrs. Shelby, yn ddigofus.

"Wel, ni wrandewais i ddim arno am funud—o ran parch i'ch teimladau chwi; felly canmolwch fi am rywbeth."

"O, Mr. Shelby anwyl, maddeuwch i mi," ebe hithau, "mi fum yn rhy fyrbwyll. Fe ddaeth hyn allan yn sydyn, a minnau yn amharod; ond 'does bossibl na adewch i mi eiriol dros y creaduriaid tlawd yma. Mae Twm yn ddyn mawreddus, er ei fod yn ddu. Pe bai achos, Mr. Shelby, yr ydwyf fi yn credu y byddai farw drosoch chwi."

"Mi wn hynny'n burion; ond pa les ydyw hyn i gyd? Ni fedda i mo'r help."

"P'am na aberthwch chwi rywbeth? Yr wyf fi yn eithaf parod i gymmeryd fy rhan o'r anghyfleusdra. O, Mr. Shelby, yr ydwyf fi wedi gwneud fy ngoreu—fel y dylai gwraig Gristionogol—i gyflawni fy nyledswydd tuag at y creaduriaid truain ac anwybodus sydd yn ymddibynu arnom. Mi ofalais am danynt, mi a'u dysgais, mi a wyliais drostynt, ac mi wn eu trafferthion a'u pleserau er's blynyddoedd; a sut y medraf fi byth godi mhen yn eu mysg yn rhagor, os, am ryw ychydig o ynnill gwael, y gwerthwn ni 'r fath greadur ffyddlon, gwerthfawr, a didwyll ag ydyw Twm, a'i rwygo ar unwaith oddi wrth bob peth ag y dysgwyd ef i'w garu a'i werthfawrogi? Mi a ddysgais iddynt ddyledswyddau teuluaidd, rhieni a phlant, gwr a gwraig; a sut y medraf fi ddioddef y fath brawf cyhoeddus nad ydym yn prisio unrhyw gwlwm, unrhyw ddyledswydd, unrhyw berthynas, boed mor gyssegredig ag y

bo, mewn cydmariaeth i arian? Mi fum yn siarad wrth Eliza ynghylch ei bachgen, ei dyledswydd tuag atto fel mam Gristionogol, i wylio drosto, gweddio drosto, a'i ddwyn i fynu mewn ffordd Gristionogol; ac yn awr beth fydd gennyf i'w ddweyd, os cymmerwch chwi 'r plentyn oddi arni, a'i werthu, enaid a chorph, i'r dyn diegwyddor ac annuwiol yna, er mwyn safio tippyn o arian? Mi a ddywedais wrthi fod un enaid yn werth yr holl arian sydd yn y byd; a sut y medr hi fy nghoelio pan wel ni yn gwerthu ei phlentyn? ei werthu, efallai, i ddinystr anocheladwy, gorph ac enaid!"

"Mae'n ddrwg iawn gen i eich bod yn teimlo fel yna, Emily, ydyw yn wir y mae," ebe Mr. Shelby; "ac y mae gennyf barch mawr i'ch teimladau chwi hefyd, er nad wyf yn cymmeryd arnaf fod yn rhannog o honynt i'r pen draw; ond mi ddeuda i chwi 'rwan, o ddifrif, nad ydynt o les yn y byd—nid oes gen i ddim help.

"Nid oeddwn i ddim yn bwriadu gadael i chwi wybod hyn, Emily; ond, ar un gair, rhaid gwerthu'r ddau yma neu werthu pobpeth. Rhaid iddynt hwy neu'r cwbl fyned. Mae Haley wedi cael gafael mewn *mortgage*, yr hon a ysguba'r cwbl o'i blaen, os na fedraf fi ei chymmeryd i fynu ar unwaith. Yr ydwyf wedi cripio, a chrafu, a benthycca—mi wneis bobpeth ond beggio—ac yr oeddwn yn fyr o bris y ddau yma, a gorfu i mi eu rhoddi i fynu. Fe gymmerodd Haley ffansi yn y plentyn; ac fe gyttunodd i settlo'r matter y ffordd yna, ac nid un ffordd arall. Yr oeddwn yn ei law, ac fe wnaeth i mi wneud. Os ydych yn teimlo cymmaint dros y ddau yna, a fyddai yn well gennych werthu'r *cwbl?*"

Safodd Mrs. Shelby fel un wedi ei tharo âg ergyd. Yn y diwedd hi a drodd, a'i gwyneb yn ei dwylaw, ac a roddodd uchenaid ddofn.

"Dyma felldith Duw ar gaeth-wasanaeth! peth chwerw, chwerw, a melldigedig ydyw—melldith i'r meistr a melldith i'r gwas! Mi fum yn ynfyd wrth feddwl erioed y gallaswn dynnu unrhyw dda o'r fath ddrwg anaele. Mae'n bechod meddiannu caethwas dan gyfreithiau fel yr eiddom ni; yr oeddwn yn teimlo felly bob amser—yr oeddwn yn meddwl felly pan yn blentyn—ac yr oeddwn yn parhâu i feddwl felly ar ol ymuno â'r Eglwys; etto meddyliais y gallwn ei oreuro—meddyliais y medrwn, trwy diriondeb, gofal, ac addysg, wneud cyflwr fy nghaethion yn well na'r eiddo pobl rydd—ynfydu'r oeddwn i!"

"Emily anwyl, yr ydych yn *abolitionist* i'r pen draw."

"*Abolitionist!* pe gwyddent hwy yr hanner wn i am gaeth-fasnach, yna hwy *allent* siarad. Nid oes dim achos am iddynt hwy ddwyed un gair wrthym ni; chwi wyddoch na feddyliais i erioed fod caeth-wasanaeth yn iawn—na fum i erioed yn foddlon i gadw caethion."

"Yr ydych yn gwahaniaethu yn hynyna oddi wrth lawer o bobl synhwyrol a chrefyddol," ebe Mr. Shelby. "Ydych chwi yn cofio pregeth Mr. B. y Sul o'r blaen?"

"Nid oes arnaf fi ddim eisiau clywed y fath bregethau; na chwant

clywed Mr. B. yn ein heglwys ni byth yn rhagor. Hwyrach na fedr gweinidogion ddim help i'r drwg—fedran nhw mo'i symmud ymaith, ddim mwy nac y medrwn ninnau—ond ei amdiffyn!—mae hynny bob amser yn groes i fy synwyr cyffredin i. Ac nid wyf fi ddim yn meddwl eich bod chwithau yn meddwl llawer o'r bregeth, ychwaith."

"Wel," ebe Shelby, "rhaid i mi gyfaddef fod y gweinidogion yma weithiau yn carrio pethau lawer ymhellach nac y meiddiai rhyw bechaduriaid truain fel ni wneud. Rhaid i ni, bobl y byd, gau ein hamrantau ar lawer peth, ac ymgynnefino â hyn a'r llall sydd heb fod fel y dylent i'r dim. Ond prin y medrwn ni oddef clywed gwragedd a gweinidogion yn dyfod allan yn ffrwt, ac yn myned heibio i ni'r dynion, mewn matterion o weddeidd-dra neu foesau; dyna'r gwir. Ond cofiwch, fy ngeneth anwyl, edrych ar yr angenrheidrwydd o hyn, a chwi a welwch i mi wneud goreu gallwn i dan yr amgylchiadau."

"O, do, do!" ebe Mrs. Shelby, gan deimlo ei watch aur, ac edrych yn syn; "nid rhyw lawer o bethau fel hyn sydd gennyf," ebe hi, dan synfyfyrio, "ond a wnai hon ddim?—hi gostiodd lawer pan brynwyd hi. Pe bawn i ddim ond gallu safio plentyn Eliza, mi aberthwn unpeth sy gennyf."

"Mae'n ddrwg, yn ddrwg iawn gennyf, Emily," ebe Mr. Shelby, "mae'n ddrwg gennyf eich bod yn cymmeryd cymmaint attoch; ond ni wna les yn y byd. Y gwir am dani hi ydyw hyn, Emily, mae'r matter wedi ei settlo; mae'r papyrau wedi hysgrifenu, ac yn nwylaw Haley; a rhaid i chwi fod yn ddiolchgar nad ydyw pethau ddim gwaeth. Fu ar law y dyn yna ein difetha ni bob coppa o honom; ond 'rwan 'rydan ni'n glir. Pe baech chwi yn adnabod y dyn yna cystal ag yr adwaen i ef, chwi a ddywedech ein bod yn bur lwccus."

"Ydi fo mor galed a hynny?"

"Nid dyn caled, fel pebai, ond rhywbeth yn debyg i ledr y fent—gwydyn—dim ond prynu a gwerthu, a maelio—oeraidd, dibetrusder, ac mor ddi-ildio ag angau a'r bedd. Fe werthai ei fam ei hun am ynnill go dda, heb chwennych unrhyw niwed i'r hen wraig ychwaith."

"A'r anghenfil yna bia blentyn Eliza, a Thwm, y goreu a'r ffydlona dan haul!"

"Wel, fy ngeneth anwyl, dyma'r gwir—mae hyn bron a fy llethu i—nis gallaf aros meddwl am dano: mae Haley ar frys, ac eisiau cymmeryd meddiant yfory. Yr ydwyf fi yn myned i gael y ceffyl allan ben bore, i fyn'd oddi ar ffordd. Ni fedra i ddim siarad â Thwm, dyna'r gwir; a gwell i chwithau gymmeryd Eliza yn y cerbyd i rywle. Gadewch i'r peth gael ei wneud pan fo hi o'r golwg."

"Na, na," ebe Mrs. Shelby, "ni bydd gennyf fi law yn byd, i fod yn gyfrannog nac i helpu yn y gwaith creulon yma. Mi af i weled Twm druan, yn ei drallod, Duw a'i helpo. Doed fel y delo, hwy gânt weled fod eu meistres yn teimlo drostynt. Ond am Eliza, ni feiddia' i ddim meddwl am dani hi. Yr Arglwydd faddeuo i ni. Beth a wnaethom i ddwyn y fath orfodaeth greulon am ein penau?"

Ychydig feddyliodd Mr. a Mrs. Shelby, fod un yn gwrando'r cwbl o'r ymddiddan yma.

Yr oedd closet helaeth yn ymyl eu hystafell, a drws o'r cefn yn agor iddo. Pan yrrodd Mrs. Shelby Eliza i'w gwely, hi a feddyliodd, yn ei phryder, am ymguddio; a dyna lle bu, a'i chlust wrth yr hollt yn yr ystyllod, heb golli cymmaint a gair o'r ymddiddan.

Pan dawsant à son, hi a ymlusgodd ymaith yn ddistaw. Yn welwlas ei lliw, yn rhynllyd, ei hwynebpryd yn hagr, a'i gwefusau yn gwasgu ynghyd, ymddangosai fel dynes arall, hollol wahanol i'r greadures wylaidd ac ofnus a fyddai yn arfer a bod. Hi aeth ar flaenau ei thraed heibo i ddrws ei meistres, a chododd ei dwylaw mewn appeliad o ddyfnder ei chalon at Dduw. Yna hi a drodd i'w hystafell ei hun. Lle bach glân taclus ydoedd, ar yr un llawr ag ystafell ei meistres. Dyna'r lle'r oedd y ffenestr heulog, y man y bu ganwaith yn gwnio dan ganu; yr ochr arall yr oedd shelff y llyfrau, a llawer o dringciach wedi eu gosod yn ddestlus o ddeutu, megis anrhegion gwyliau, ac felly yn y blaen; y fan yma yr oedd y press dillad, a'r drors; mewn gair yma'r oedd ei chartref, ac, ar y cyfan, un happus fu. Ond yna, ar y gwely, y cysgai ei bachgen tlws, ei wallt modrwyog o gylch ei wyneb, ei wefusau rhosynaidd yn hanner agored, ei ddwylaw bach tewion wedi eu taflu dros y dillad, a gwên fel pelydr haul yn lledu dros ei holl wyneb.

"Machgen anwyl i! druan oeddat ti!" eb Eliza, "maen' nhw wedi dy werthu di! ond mi fyn dy fam dy gadw di etto!"

Ni syrthiodd deigryn ar y gobenydd hwnnw. Mewn cyfwng fel hwn nid oes gan y galon ddagrau i'w hepgor; gwaed yn unig ddifera o honi—gwaedu'n ddistaw y mae. Hi a gymmerodd dammaid o bapyr, ac a ysgrifenodd ar frys â phensil fel hyn:—

"O mistres, fy anwyl fistres, peidiwch a meddwl fy mod yn annioleh-gar—peidiwch a meddwl yn fach o honof ffordd yn y byd—mi glywais y cwbl a ddywedodd meistr a chiwthau heno. Yr wyf yn myned i dreio achub fy mhlentyn—fedrwch chwi ddim fy meio! Duw a'ch bendithio, ac a dalo i chwi am eich holl garedigrwydd!"

Ar ol plygu a chyfarwyddo ei llythyr ar frys, hi a wnaeth sypyn o ddillad i'r plentyn, yr hwn a gylymodd mewn hancas yn dyn am ei chanol; ac, mor dyner ydyw serch y fam, nid anghofiodd, yn yr awr gyfyng honno, ddodi un neu ddau o'i delmau chwareu yn y sypyn, a chadw llun parrot o bob lliwiau i'w ddifyru pan fyddai raid ei ddeffro. Nid hawdd oedd deffro'r cysgadur bach; ond, ar ol tippyn o ysgwyd, efe a eisteddodd i fynu, ac a ddechreuodd chwareu â'i aderyn, tra bu ei fam yn gwisgo ei bonnet a'i shawl.

"I b'le 'rydach chi 'n myn'd, mam?" eb efe, pan aeth hi at y gwely i roddi ei gôt a'i gap am dano.

"Hust, Harri," ebe hi; "paid a siarad yn uchel, onite mi clywan' ni. Mae dyn drwg yn myn'd i ddwyn Harri bach oddi ar ei fam, a myn'd a fo i ffwrdd yn t'wyllwch; ond neiff mam ddim gadael iddo—mae hi 'n

rhoi cap a chôt ei bachgen bach am dano, ac yn myn'd i dd'engyd i ffwrdd efo fo, rhag i'r dyn hyll ei ddal o."

Gyda dweyd hyn, hi a gauodd ac a fottymodd ddillad y plentyn, ac a'i cymmerodd yn ei breichiau, gan sisial wrtho am fod yn ddistaw; yna hi a agorodd y drws, i'r verandah, ac a aeth allan yn ddistaw bach.

Yr oedd hi 'n noswaith rewlyd, serenog, oleu, ac fe gylymodd y fam ei shawl yn dyn am y plentyn, yr hwn, yn ei ddychryn, druan, a afaelodd yn dyn am ei gwddf.

Yr oedd yr hen Bruno, ci Newfoundland mawr, yn gorwedd yn agos i'r drws, a phan glywodd y swn, efe a chwyrnodd. Ond pan alwyd ei enw gan ei hen ffrind, efe a ysgydwodd ei gynffon, ac a ymbarottodd i fyned gyda hi, er fod argoelion amlwg yn ei wynebpryd nad oedd yn deall yn iawn y pwrpas o rodiana yn anamhryd o'r nos. Ymddangosai fod petrusder neillduol yn ei feddwl; oherwydd safai yn fynych, gan edrych yn drallodus ar Eliza, ac wedi hynny ar y tŷ, ac fel pe buasai yn meddwl drachefn fod pob peth yn iawn, ai ar ei hol dan drottian. Yn mhen ychydig funudau, daethant at ffenestr Caban F'ewyrth Twm, lle y safodd Eliza, ac y curodd yn ysgafn ar y ffenestr.

Yr oedd y cyfarfod gweddi yn nhŷ F'ewyrth Twm wedi parhau yn hir, yn enwedig y canu hymnau; a thrwy fod F'ewyrth Twm wedi dal atti i ganu ar ol hynny wrtho ei hun, y canlyniad fu, ei fod ef a'i ymgeledd gymmwys etto heb gysgu, er ei bod rhwng deuddeg ac un o'r gloch.

"Duw fo'n gwarchod! be sy 'na?" ebe Modryb Cloe, gan neidio o'i gwely, a thynnu'r curtains o'r naill du. "Fel 'rydw i 'n fyw yn y fan yma, dyma Lizzy! Gwisga am danat, Twm, mewn munud! A dyna'r hen Bruno yn crafu'r drws—beth ar wyneb y ddaear! Dyma fi 'n agor y drws."

Ac ar y gair, dyna'r drws yn llydan agored, a syrthiodd y goleu o'r ganwyll oedd yn llaw Twm ar wyneb hagr a llygaid gwylltion Eliza.

"Yr Arglwydd gymro drugaredd arnon ni, Lizzy, rydach chi ddigon a dychryn undyn! Ydach chi 'n sal? neu be ddaru chi?"

"'Rydw i'n d'engyd i ffwrdd, F'ewyrth Twm a Modryb Cloe—ac yn myn'd a machgen bach hefo fi. Mae mistir wedi werthu o."

"Wedi werthu o?" ebe'r ddau, fel adsain, gan godi eu dwylaw yn hanner gwallgof.

"Ydi, wedi werthu o!" eb Eliza, yn dalgryf; "mi aethum heno i'r closet yn ymyl drws fy meistres, ac mi glywais meistr yn deud iddo werthu Harri, a chwithau, F'ewyrth Twm, i'r prynwr dynion, a'i fod yntau yn myn'd i rywle ar gefn ceffyl yn y bore, a'r dyn i gym'ryd meddiant heddyw."

Fe safodd Twm i wrando ar hyn a'i ddwylaw ar i fynu, ei lygaid yn llydain agored, fel dyn mewn breuddwyd. Ond yn araf bach, ac o dippyn i beth, fel y dechreuodd ddeall, efe a syrthiodd yn ei ddeublyg,

yn hytrach nag eistedd, yn ei hen gadair, ac a blygodd ei ben rhwng ei ddeulin.

"Yr Arglwydd gymro drugaredd arnon ni!" ebe Modryb Cloe. "O! 'does bossib i fod o 'n wir! Be na'th o, fel rhaid i mistir i werthu *fo ?*"

"Ni wnaeth o ddim yn y byd, nid dyna mo'r peth. Nid oes ar meistr ddim eisiau gwerthu, a missis—mae hi 'n dda, bob amser yn dda. Mi clywais hi yn eiriol ac yn beggio drosom ni; ond fe ddeudodd yntau nad oedd dim wnai les—ei fod yn nyled y dyn yma—a bod y llaw ucha gan hwnnw—ac os na thalai y cwbl ar unwaith, y byddai raid gwerthu pob peth yn y lle, a phawb sy'n perthyn iddo, a mudo i rywfan arall. Do, mi clywais ef yn dweyd, nad oedd dim ond un o ddau beth—gwerthu'r ddau yma, neu werthu y cwbl, am fod y dyn mor galed arno fo. Fe ddeudodd mistr fod yn ddrwg iawn ganddo; ond, O! missis, mi ddylsech ei chlywed h'n siarad! Os nad ydyw hi yn Gristion ac yn angel, ni fu 'run erioed. Yr wyf fi yn lodes ddrwg fod yn ei gadael hi fel yma! ond ni fedra i mo'r help. Hi ddywedodd ei hunan fod un enaid yn werth mwy na'r holl fyd; ac y mae gan y bachgen yma enaid, ac os gadawaf iddo gael ei gym'ryd ymaith, pwy wŷr beth ddaw o hono? Rhaid bod hyn yn iawn; ac os nad ydyw yn iawn, Duw faddeuo i mi, oherwydd ni fedra i ddim peidio myned.'

"Wel, Twm," ebe Modryb Cloe, "pa'm nad ei ditha hefyd? nei di aros i gael dy ddragio i lawr yr afon, lle maen nhw yn lladd niggars hefo gwaith caled ac eisio bwyd? Fydda'n well gen i farw bob dydd o'r flwyddyn na myn'd yno. Mae gent ti ddigon o amser; dos hefo Lizzy—ac y mae gent ti bass i fyn'd a dwad fel y mynni di. Tyr'd, brysia, mi wna inna fwndal o ddillad i ti."

Fe gododd Twm ei ben yn araf bach, ac a edrychodd yn alarus, ond yn ddigon tawel, o gwmpas.

"Na, na; nid â i ddim. Aed Eliza—mae hi yn ei lle fyn'd. Ni ddyweda i byth paid. Nid ydi o ddim yn naturiol iddi hi aros; ond mi glywsoch beth ddeudodd hi! Os rhaid ngwerthu fi, neu ynte bawb sydd yn y lle, a phob peth fyn'd yn draed moch, yna gwerthan fi; mae'n debyg y medra i ddiodda hynny cystal a 'run o honyn nhw," eb efe, tra'r oedd rhywbeth rhwng llefain ac uchenaid yn ysgwyd ei frest lydan fel llewyg. "Cafodd meistr fi bob amser yn y fan a'r lle—ac mi caiff fi etto. Ni thwyllais i mo hono 'rioed, ac ni wneis i ddim defnydd o mhass yn groes i ngair, ac ni wnaf fi ddim byth ychwaith. Mae'n well i mi fy hunan fynd, na thorri'r lle i fynu, a gwerthu'r cwbl. Nid oes dim bai ar mistar, Cloe, ac mi gymmyr ofal am danat ti a'r pl—"

Yn y fan yma, trodd ei lygad at y gwely yn y gongl, yn llawn o rai pen-grych, a thorrodd i lawr yn lân. Efe a blygodd ar gefn y gadair, ac a guddiodd ei wyneb â'i ddwylaw mawrion. Ysgydwyd yr hen gadair gan nadau wylofus, a threiglodd dagrau mawrion rhwng ei fysedd i'r llawr—y fath ddagrau, ddyn, ag a wylaist ti ar arch dy gyntaf-anedig fab; y fath ddagrau, wraig, ag a wylaist tithau pan glywaist y rhwngc yngwddf

dy blentyn; oherwydd dyn oedd yntau fel tithau. A chofia, wraig, er dy fod mewn sidanau a pherlau, nad wyt ddim ond gwraig, ac ynghyfyngderau mawrion natur yr un yw gofid y naill a'r llall!

"A pheth arall," eb Eliza, dan sefyll ar ganol y llawr, "mi welais fy ngwr prydnhawn heddyw, ond ychydig wyddwn i beth oedd yn fy aros. Maent wedi ei wthio yntau bron dros ei gylchau, ac fe ddeudodd wrthyf heddyw ei fod am ddiangc i ffwrdd. Treiwch, os bydd modd, anfon pen gair iddo. Deudwch sut yr eis i, a pham yr eis i; a deudwch mod i am dreio myn'd i Canada. Cofiwch fi atto, a deudwch wrtho, os na welaf fi o byth ond hynny"—hi a drodd draw, a'i chefn attynt am funud, ac yna, mewn llais crynedig, hi a ychwanegodd, "deudwch wrtho am fod goreu gallo, ac am dreio nghyfarfod i yn y nef."

"Galwch ar Bruno i mewn yna," ebe hi. "Cauwch y drws ar y creadur gwirion! Ni wiw iddo fy nghanlyn i!" Yna ychydig eiriau olaf a dagrau, ychydig ffarwelio a bendithio, hi a wasgodd ei phlentyn dychrynedig yn ei chessail, ac a gychwynodd mor ddistaw ag y gallai.

PENNOD VI.

PETHAU YN DYFOD I'R AMLWG.

NID aeth Mr. a Mrs. Shelby i orphwys yn gynnar ar ol yr hir siarad y noswaith o'r blaen; ac o ganlyniad cysgasant y boreu drannoeth yn hwy nac arferol.

"Pa beth sy'n cadw Eliza, mor hir?" ebe Mrs. Shelby, ar ol canu'r gloch lawer gwaith i ddim pwrpas.

Yr oedd Mr. Shelby yn sefyll o flaen y drych, yn minio ei ellyn: a chyda hynny agorwyd y drws, a daeth bachgenyn du i mewn gyda'r dwfr cynnes.

"Andi," eb ei feistres, "piccia at ddrws Eliza, a dywed wrthi fy mod wedi canu'r gloch dair gwaith. Y beth wirion!" ychwanegodd, wrthi ei hun, gyda hanner uchenaid.

Daeth Andi yn ol yn fuan, â'i lygaid yn rhwth agored gan syndod.

"O missis! y mae drors Eliza yn agored, a'i phethau wedi eu chwalu ar led ymhob man, ac yr ydwy'n coelio yn fy ngalon ei bod wedi myn'd i ffwrdd yn lân dêg!"

Tarawodd y gwirionedd ar feddwl Mr. Shelby a'i wraig ar unwaith.

Gwaeddodd Mr. Shelby,—"Yr oedd hi yn ammau, ac y mae hi wedi myn'd."

"Diolch i Dduw!" meddai Mrs. Shelby; "yr wy'n gobeithio ei bod."

"Wraig, yr ydych yn siarad fel ffolog. Mi fydd yn beth chwithig iawn i mi os ydyw hi wedi myned. Yr oedd Haley yn gweled fy mod yn anfoddlon i werthu'r hogyn, ac fe feddylia fod gennyf ryw law yn y gwaith o'i yrru o'r ffordd. Y mae'n cyffwrdd â'm carictor i." Ac aeth Mr. Shelby allan o'r 'stafell yn fyrbwyll.

Yr oedd hên redeg, a gwaeddi, ac agor a chau drysau, a gwynebau o bod lliw yn ymddangos yma ac accw, am o ddeutu chwarter awr. Un yn unig oedd yn hollol ddistaw—yr unig un ag a fedrai daflu unrhyw oleuni ar y matter—a honno oedd y ben-goges, Modryb Cloe. Yn ddistaw, â chwmmwl trwm yn gorchuddio y gwynebpryd fuasai unwaith yn llawen, aeth ymlaen gyda'i gwaith o wneud y teisennau boregwest, fel na buasai yn gweled nac yn clywed dim o'r cythrwfl o'i hamgylch.

Yn ebrwydd gwelid o gwmpas dwsin o greaduriaid, fel impiaid duon bychain, yn eistedd fel brain ar ganllawiau'r verandah, pawb am y cyntaf i ddweyd y newydd dwrg wrth y Mas'r Haley.

"Mi fydd o'i go' yn gynddeiriog," ebe Andi.

"Oni wneiff o dyngu!" meddai'r du bychan gan Jake.

"Gwneiff; y mae o'n tyngu yn ofnadwy," ebe Mandi ben-grych. Mi clywis i o heddyw ar ginio. Mi glywis y cwbl, pan oeddwn yn y closet lle y mae missis yn cadw'r llestri."

A Mandi, yr hon na feddyliodd erioed am un gair a glywsai, mwy na chath ddu, a gymmerodd arni fod yn anghyffredin o ddoeth, ac aeth o gwmpas yn falch iawn, gan anghofio dywedyd ei bod yn cysgu yn drwn yr holl amser y bu yn y closet.

O'r diwedd ymddangosodd Haley, yn ei fotasau a'i spardynau, ac annerchwyd ef ar bob llaw â'r newydd drwg. Ni siommwyd y cenawon bach ar y verandah yn eu gobaith o'i glywed "yn tyngu," yr hyn a wnaeth gyda'r fath ffraethineb a gwresogrwydd ag a foddlonodd eu calon, er eu bod yn gorfod gwyro a llechian yma a thraw oddiar ffordd ei chwip hela; ac o'r diwedd syrthiasant yn bentwr ar y gwelltglas, ynghanol bonllef o grechwen, gan daflu eu sodlau i fynu, a bloeddio o ewyllys calon.

"O na chawn afael ar cythreuliaid bychin yna!" ebe Haley, gan fwngial rhwng ei ddannedd.

"Ond ni cheisoch chi ddim gafael arnon ni etto," ebe Andi, gydag ymffrost gorfoleddus, a gwneud rhes o 'stumiau digrif y tu cefn i'r masnachwr anlwccus, pan oedd yn gwbl allan o glywedigaeth.

"Yrwan, Shelby, rhyw dro go od ydi hwn," ebe Haley, gan fyned i mewn i'r parlwr yn ddisymmwth.

"Y mae'n debyg fod y lodas wedi d'engyd, a'i chyw gyda hi."

"Mr. Haley, cofiwch fod Mrs. Shelby yn bresennol," meddai Mr. Shelby.

"Beggio'ch pardwn, ma'am, ebe Haley, gan led-ymgrymu, a gostwng

ei aeliau; "ond etto, yr ydw i'n deud, fel y deudas o'r blaen, rhyw stori go ddigri ydi hon. Ydi hi'n wir, syr?"

"Syr," ebe Mr. Shelby, os ydych am ymddiddan a mi, y mae'n rhaid i chwi ymddwyn rywbeth yn debyg i ŵr bonheddig. Andi, cymmer het a chwip hela Mr. Haley. Eisteddwch i lawr, syr.

"Y mae'n rhy wir, syr; y mae'n ddrwg gennyf ddywedyd fod y ddynes, wedi ei chyffroi trwy gipglywed, neu rywbeth a ddywedwyd wrthi ynghylch y matter yma, wedi cymmeryd ei phlentyn a myned i ffordd yn y nos."

"Rhaid i mi ddeud, mod i 'n disgwyl delio gonest yn y matter yma," ebe Haley.

"Wel, syr," ebe Mr. Shelby, gan droi yn sydyn arno, "pa beth ydwyf fi i ddeall wrth yr ymadrodd yna? Os oes undyn yn ammau fy ngonestrwydd i, nid oes gennyf ond un atteb i'w roddi iddo."

Pan glywodd Haley hyn, efe a ostyngodd ychydig ar ei lais, ac a ddywedodd, "Y mae'n galed iawn ar ddyn, ar ol gneud cyttundeb têg, i gael ei yspeilio fel hyn."

"Mr. Haley," ebe Mr. Shelby, "pe na buaswn yn meddwl eich bod wedi cael rhyw siomedgaeth, ni buaswn yn goddef eich ymddygiad anfoesgar pan yn dyfod i mewn i'm parlwr y bore heddyw. Mi ddywedaf hyn, modd bynnag, gan fod pethau yn galw am hynny, na ddioddefaf i undyn daflu attaf fi fy mod yn ymddwyn yn annheg yn yr achos yma. Ac yn mhellach, yr wyf yn rhwym i roi i chwi bob cynnorthwy, megys rhoddi benthyg ceffylau, gweision, neu unpeth arall at eich gwasanaeth, i geisio cael gafael drachefn yn eich eiddo. Felly, yn fyr, Haley," eb efe, gan ddisgyn i lawr o'i leferydd uchel ac awdurdodol, i'w fwyneidd-dra cyffredinol, "y ffordd oreu i chwi yw cadw tymmer dda, a bwytta boregwest, ac yna ni a ystyriwn pa beth i'w wneud."

Ond cyfododd Mrs. Shelby ar ei thraed, a dywedodd fod pethau yn galw arni i'w gadael y boreu hwnnw; a chan orchymmyn i wreigen felenddu barottoi coffi i'r gŵr bonheddig, hi a adawodd yr ystafell.

"Nid yw eich hen wraig yn hoff iawn o'ch gostyngedig was," ebe Haley, gydag ymdrech drwsgl i'w wneud ei hunan gartref.

"Nid wyf fi yn arfer clywed fy ngwraig yn cael siarad am dani mor ysgafn," attebai Mr. Shelby, yn sychlyd.

"Gofyn eich nawdd; dim ond ysmaldod, chwi wyddoch," meddai, Haley, gan geisio gwenu.

"Y mae rhai geiriau cellwerus yn llai boddhaol na'u gilydd," attebai Mr. Shelby.

"Sossi gythreulig, ar ol i mi roi fy llaw wrth y papyrau hynny! melldith iddo!" meddai Haley, wrtho ei hun. "Yn benuchel iawn, er doe!"

Ni chododd cwymp prif-weinidog llywodraeth erioed y fath gyffröad ag a wnaeth helynt Twm yn mysg ei gyd-weision yn y lle. Yr oedd

yn nghêg pawb, yn mhob man; nid oedd dim yn myn'd ymlaen yn y tŷ nac yn y maes, ond dadleu pa beth a fyddai'r canlyniad. Yr oedd fföedigaeth Eliza hefyd—digwyddiad anarferol yn y lle hwnnw—yn ychwanegiad rhyfeddol at y swn, a'r dwndwr, a'r sairad.

Yr oedd Sam ddu, fel y gelwid ef, oherwydd ei fod yn deirgwaith duach na neb arall o feibion Ham yn y fan a'r lle, yn troi y peth yn ei feddwl yn ddwys, ac yn ei chwilio yn drwyadl, gyda'r fath olygiad cyrhaeddgar at ei les ei hun, ag a fuasai yn anrhydedd i unrhyw wladgarwr gwyn ei groen yn Washington.

"Gwynt drwg yw hwnnw na chwyth i unman—dyna wir," ebe Sam, yn fyr-eiriog, gan dynnu i fynu ei glos, a rhedeg hoelen hir i mewn yn lle'r bottwm oedd wedi colli, ac ar yr un pryd yn edyrch yn hynod o falch o'i fedrusrwydd celfyddydol.

"Ië, gwynt drwg ydi hwnnw na chwyth i rywle," ebe efe'r ail waith.

"Yn awr, y mae'r Twm yna i lawr—y mae lle i ryw niggar fyn'd i fynu—a ph'am nad eiff y niggar yma i fynu?—dyna hi. Twm yn marchogaeth hyd y wlad—bwtsias wedi eu blaccio—pass yn ei bocced mor grand a Chuffee—pwy ond y fo? Yn awr, p'am na ddylai Sam? —dyna'r peth sy' arna' i eisio'i wybod."

"Hwi, Sam—mae Mas'r d'eisio di i fynd i ddal Wil a Jerry," meddai Andi, gan dorri ar sisial Sam.

"Hai! beth sy' ar droed 'rwan, fachgen?"

"Wyddast ti ddim fod Lizzy wedi rhedeg i ffwrdd yn lân, a'i bachgen gyda hi!"

"Dysga di dy nain," ebe Sam, yn ddiystyrllyd; "mi wyddwn i hynny ymhell o dy flaen di; nid ydi'r niggar yma ddim mor ddall ag yr wyt ti'n meddwl."

"Wel, beth bynnag, y mae Mas'r eisio i ni daclu'r ddau geffyl, Wil a Jerry, yn iawn; ac yr wyt ti a minna i fyn'd gyda Mas'r Haley i chwilio am dani hi."

"Da iawn! Dyna hi'n gweithio!" ebe Sam. "Sam ydi'r dyn sy eisia'r dyddia yma. Efe ydi'r niggar. Gei di wel'd y dalia' i hi; geiff Mas'r wel'd beth fedr Sam neud."

"Ha, Sam," ebe Andi, "well i ti feddwl ddwywaith; 'does ar missis ddim eisio 'i dal hi; a hwyrach na chei di ond diolch bach am dy boen."

"Hai!" ebe Sam, gan rythu ei lygaid bolwŷnion, "sut yr wyt ti'n gwybod hynny?"

"Mi clywis hi'n de'ud hynny, fy hun, y bore newydd hwn, pan oeddwn yn myn'd â'r dŵr shafio mewn i meistr. Hi gyrrodd fi i edrych p'am nad oedd Eliza yn dwad i'w helpu i wisgo am dani: a phan ddeudas i bod hi wedi myn'd, neidiodd misses i fynu, a—'Diolch i Dduw!' medda hi; ond yr oedd mas'r yn edrych fel dyn o'i go; 'Wraig,' medda fo, 'yr ydach yn siarad fel ffolog.' Ond gei di wel'd y

daw hi â fo o gwmpas; mi wn i o'r gore sut y bydd hi; coelia di fi, mae hi'n saffach bod o'r un tu i'r clawdd a missis."

Ar hyn crafodd Sam ddu ei bonglog crych; ac er nad oedd llawer o ddoethineb ynddo, etto yr oedd yno rywbeth ag sydd o ddefnydd mawr i bobl gyfrwys, o bob lliw a gwlad, ac a elwir yn gyffredin "gwybod ar ba du i'r bara y mae'r 'menyn." Ac wedi synnu am funudyn, bachodd i fynu ei glôs drachefn;—rhyw ffordd oedd hon ganddo i ddaddyrysu ei feddwl.

"'Does dim sicrwydd—nac oes, am ddim yn y byd *yma*," ebe efe o'r diwedd.

Yr oedd Sam yn siarad fel philosophydd, gan roddi pwyslais ar y gair *yma*, fel pe buasai yn gwybod am ryw lawer iawn o fydoedd, ac o ganlyniad wedi gwneud ei feddwl i fynu yn bwyllog.

"Yrwan, mi f'aswn yn meddwl y b'asai missis yn chwilio'r holl fyd am Lizzy," meddai Sam, yn ddifrifol.

"Felly y gwnaethai," ebe Andi; "ond ni fedyr niggar du fel ti ddim gweld dwr mewn afon!

"Ond 'does ar missis ddim eisio i'r Mas'r Haley yma gael bachgen Lizzy; dyna'r gwir i ti."

"Hê, hê!" meddai Sam, gyda rhyw swn gogleisol na's gall neb ei ddynwared na'i amgyffred ond y rhai a'i clywsant ymhlith y bobl dduon eu hunain.

"Ac mi ddeuda' i ti yn chwaneg," ebe Andi, "yr ydw' i'n disgwyl y bydd yn well i ti gymryd y goes ar ol y ceffylau yna—a hynny yn bur fuan hefyd—yr ydw' i wedi clywed missis yn gofyn am danat ti—yr wyt ti wedi bod yn siarad llawn gormod o lol."

Ar hyn dechreuodd Sam ymysgwyd o ddifrif, ac ymhen ychydig, ymaith âg ef tua'r tŷ, gyda Wil a Jerry, ar lawn tith, a chan daflu ei hun yn chwimmwth oddiar gefn ei geffyl, cyn iddo gael amser i sefyll, aeth i ben ei yrfa fel corwynt. Ond ebol ieuangc nwyfus oedd ceffyl Haley, yn gwingo ac yn neidio, ac yn tynnu yn galed yn erbyn ei dennyn.

"Ho, ho!" ebe Sam, "yr wyt ti'n anesmwyth, wyt ti?" A'i wyneb du yn sirioli gyda rhyw wên gyfrwys-ddrwg. "Mi na' i dy settlo di yn bur fuan."

Yr oedd ffawydden fawr yn cysgodi'r lle, a'r cnau ffawydd bychain, llymion, cornelog, yn gorwedd yn dew ar y ddaear dani. Cymmerodd Sam un o'r rhai hyn rhwng ei fysedd, a chan gymmeryd arno lywethu a llonyddu yr ebol, a thynhau'r cenglau, gwthiodd un o'r cnau bychain yn ddirgelaidd ac yn ddichlyn o dan y cyfrwy, fel y byddai i'r pwys lleiaf ar ei gefn beri i'r anifail wingo, heb adael briw i'w weled.

"Dyna fo!" ebe Sam, gan rolio ei lygaid, gyda gwên ystrywus; "ddaru mi settlo fo!"

Gyda hynny dyma Mrs. Shelby yn ymddangos ar y verandah, gan amneidio arno. Aeth Sam ymlaen gyda'r fath benderfyniad o ym-

ddangos yn foesgar ag un ymgeisydd am swydd wâg yn llys St. James neu yn Washington.

"Ymh'le y buost ti'n ymdroi, Sam? Mi anfonais Andi, i beri i ti frysio."

"Bendith arnoch chwi, missis!" ebe Sam, "ni chymmer y ceffylau mo'u dal mewn munud; yr oeddan nhw i ffwrdd draw 'mhell yn y borfa—a Duw wyr ymh'le!"

"Sam, p'am y mae'n rhaid i mi grybwyll wrthyt mor fynych am beidio dwe'yd, 'Duw a'ch bendithio,' a 'Duw a wyr,' a'r fath bethau? Geiriau anystyriol ydynt."

"O, Duw 'm helpo i!—Yr ydw i yn gollwng yn anghof, missis. Ond ni na i byth ddeud felly etto."

"Taw, Sam, yr wyt ti newydd ddywedyd y munud yma."

"A ddar'u mi? Duw catto ni!—'doeddwn i ddim yn meddwl am ddeud."

"Y mae'n rhaid i ti fod yn ofalus, Sam."

"Gadewch i mi gael 'ngwynt, missis, a mi na'i gychwyn yn dêg. Mi fydda' i yn ofalus iawn."

"Wel, Sam, yr wyt i fyned gyda Mr. Haley, i ddangos y ffordd iddo, ac i'w helpu. Cymmer ofal at y ceffylau, Sam; ti wyddost fod Jerry yn lled gloff yr wythnos ddiweddaf; *paid a'u gyrru yn rhy galed.*"

Dywedwyd y geiriau olaf hyn gan Mrs. Shelby yn ddistaw, a chyda phwyslais cryf.

"Byddwch yn esmwyth—y fi ydi'r bachgen!" ebai Sam, gan droi ei lygaid, ac edrych fel yn llawn o ddeall. "Duw a ŵyr! Hai! Dim deud hynny!" eb efe, gan attal ei anadl yn sydyn, gyda'r fath ymchwydd digrifol, nes peri i'w feistres chwerthin, er ei gwaethaf. "Gwna, missis, mi 'drycha i ar ol y cyffylau!"

"'Rwan, Andi," meddai Sam, gan ddyfod yn ol i'w hen le o dan y ffawydd, "ni synnwn i ddim, wel'di, pe gnai 'nifal yn hen ŵr bonheddig yna daflu ei sodlau i fynu pan eiff ar ei gefn o. Ti wyddost, Andi, fod creaduriad yn gneud felly weithia;" a chyda hynny rhoes Sam bwniad i Andi yn ei ystlys, yn slei ryfeddol.

"Hai!" ebe Andi, gan ddangos ei fod yn deall yn y munud.

"Ie, wel'di, Andi, y mae missis eisio cymm'ryd yn ara'— y mae hynny'n ddigon plain i'r dyn dŷla'. Mi 'na'i dippyn bach i'w phlesio. 'Rwan, wel'di, dim ond gadael y cyffylau yma yn rhydd, i redeg o gwmpas y fan yma, ac i lawr i'r coed yna, mi waranta' na cheiff mas'r ddim cychwyn ar frys gwyllt."

"Wel'di," meddai Sam, "wel'di, Andi, *pe bai'r* fath beth ag i geffyl Mas'r Haley ddigwydd troi yn gastiog, a thaflu ei ben ol i fynu, mi awn ni'n dau i'w helpu, gnawn, *mi helpwn ni fo*, O, gnawn!"

A throdd Sam ac Andi eu pennau agos ar eu hysgwyddau, gan dorri allan mewn rhyw wîch o chwerthin anghyffredin, ond lled ddistaw, a chleccian eu bysedd, a churo eu sodlau, gyda ag eithaf difyrwch.

CASTIAU SAM AC ANDI.

" Fe neidiodd y creadur bywiog oddi ar y llawr yn sydyn, ac a daflodd ei feistr nes oedd yn rholio ar y gwelltglas. Neidiodd Sam at y ffrwyn, ond collodd ei afael, a syrthiodd ar ei balfau. Yna fe redodd ef ac Andi, gan waeddi a bloeddio—a'r cwn yn cyfarth allan o bob congl—a Mike, Mose, Mandi, Ffanni, a phob hogyn a hogen yn y fan a'r lle, yn rhedeg, yn curo dwylo, yn gwaeddi ac yn 'sgrechian nerth eu penau, gyda sel a brwdfrydedd diflino."

Gyda hynny ymddangosodd Haley. Wedi llareiddio ychydig trwy yfed amryw gwppaneidiau o goffi da iawn, daeth allan dan wenu a siarad yn lled addfwyn. A Sam ac Andi, wedi crafangu rhyw ddarnau o ddail palmwydd, a alwent yn hetiau, a redasant i fuarth y ceffylau, i fod yn barod i "helpu mas'r."

Yr oedd pob math o bleth wedi myned ymaith yn llwyr o amgylch het Sam; ac yr oedd y dellt wedi ymrannu oddiwrth eu gilydd, ac yn sefyll mor sythion, nes rhoddi iddi y fath olygiad gwyllt o ryddid a hèriad ag a weddai i unrhyw bennaeth ymhlith y Ffegeeaid; ac yr oedd holl gantel het Andi wedi cael ei dynnu i ffordd yn lân, a tharawodd y coryn am ei ben gyda'r fath ddyrnod ac mor ddichlyn, ac edrychodd o'i gwmpas mor llòn, yn gystal a dywedyd, "Pwy sy'n dwe'yd nad oes gan i 'run het?"

"Wel, 'mechgyn i," ebe Haley, "edrychwch yn fywiog; nid oes gennym ddim amser i'w golli."

"Nac oes ddim tammed, mas'r!" ebe Sam, gan roddi ffrwyn Haley yn ei law, a chan ddal ei wrthafl, ac Andi ar yr un pryd yn gollwng y ddau geffyl arall yn rhyddion.

Y munud y cyffyrddodd Haley â'r cyfrwy, fe neidiodd y creadur bywiog oddi ar y llawr yn sydyn, ac a daflodd ei feistr nes oedd yn rholio ar y gwelltglas. Neidiodd Sam, at y ffrwyn, gydag ysgrech wallgofus; ond yn lle cael gafael ynddi tarawodd gantel ei hen ddeilen o het yn llygad y ceffyl, yr hyn, yn lle ei lonyddu, a'i gwylltiodd yn waeth. Felly, gyda grym angherddol efe a daflodd Sam ar ei balfau, a chan roddi dau neu dri o chwythiadau diystyrllyd o'i ffreon, lluchiodd ei sodlau i'r awyr, carlamodd ymaith tua gwaelod y llannerch, a Wil a Jerry ar ei ol, y rhai a ollyngwyd yn rhyddion gan Andi, yn ol y cyttundeb, gan eu rhuso âg amrywiol floeddiadau erchyll. Ac yn awr fe dorrodd allan fath o derfysg annesgrifiadwy. Rhedodd Sam ac Andi, gan waeddi a bloeddio—a'r cwn yn cyfarth allan o bob congl—a Mike, Mose, Mandi, Ffanni, a phob hogyn a hogen yn y fan a'r lle, yn rhedeg, yn curo dwylo, yn gwaeddi ac yn 'sgrechian nerth eu penau, gyda zel a brwdfrydedd diflino.

Ymddangosai ceffyl gwŷn Haley, yr hwn oedd yn hynod o gyflym a bywiog, megys wrth fodd ei galon yn y terfysg; â chanddo lannerch agos i hanner milltir o'i flaen yn rhedfa, a honno yn llechweddu yn raddol ar bob tu i goedtir diderfyn, ymddangosai fel yn cymmeryd rhyw hyfrydwch neillduol wrth edrych pa mor agos y gallai oddef i'w ymlidwyr agosau atto, ac yna pan ddeuent o fewn lled llaw i'w gyrhaedd, gyda naid a ffroen-chwythiad, y bwystfil drygionus a yrrai i lawr i ryw gilfach yn y coedtir. Nid oedd dim ymhellach o feddwl Sam nac i un o'r ceffylau gael ei ddal cyn pen yr amser ag a ymddangosai iddo ef yn fwyaf cyfaddas—yn sicr yr oedd yr ymdrechiadau a wnaeth yn dra gwrol. Ac fel cleddyf Richard yn Mhalestina, yn hwn a fflamiai yn flaenaf un yn nhewdwr y gâd ffyrnicaf, yr oedd hen het Sam yn mhob man lle yr

oedd y perygl lleiaf i geffyl gael ei ddal;—yno y rhuthrai ymlaen, gan floeddio,

"Yrawn am dani hi! daliwch ef, daliwch ef," nes gyrru pobpeth ar ffo mewn munudyn.

Rhedai Haley i fynu ac i wared, gan dyngu a rhegu, a stampio ei draed, bob yn ail. Ofer oedd i Mr. Shelby geisio bloeddio allan ei hyfforddiadau oddiar y verandah, a Mrs. Shelby o ffenester ei hystafell weithiau yn chwerthin ac weithiau yn rhyfeddu—ac ar yr un pryd yr oedd ganddi ryw led-amheuaeth pa beth oedd yn ngwaelod yr holl derfysg hwn.

O'r diwedd, tua deuddeg o'r gloch, daeth Sam tuag adref yn fuddugoliaethus, ar gefn Jerry, a cheffyl Haley wrth ei ochr, yn chwys ac yn darth, ond â llygaid yn melltennu a ffroenau chwyddedig, gan ddangos nad oedd yspryd rhyddid wedi hollol ymlonyddu etto.

"Mi daliwyd o!" ebai ef, yn orfoleddus. "Oni b'asai fi, gallasent dorri ar eu traws, bob un o honynt; ond mi daliais i fo!"

"Tydi!" ebe Haley, mewn tymher rwgnachlyd. "Oni buasai ti, ni buasai hyn yn digwydd."

"Gwarchod ni, mas'r," ebe, Sam, mewn tôn ddifrifol dros ben, "a minnau wedi bod yn rhedeg ac yn ymlid nes y mae'r chwys yn diferu oddiwrtha' i!"

"Wel, wel!" meddai Haley, "yr wyt ti wedi colli i mi agos i dair awr o amser, gyda dy ffolineb melldigedig. Yn awr, gadewch i ni fyn'd ymaith, a dim 'chwaneg o wirioni."

"Dyn anwyl, mas'r," ebe Sam, mewn tón ymbiliol, "mi 'ddyliwn i bod chi am ein lladd ni allan ac allan, y ceffylau a'r cwbl. Dyma ni i gyd agos a dropio i lawr, a'r creduriad yn foddfa o chwys. 'Does bossib fod mas'r ddim yn meddwl cychwyn cyn cinio. Y mae ceffyl mas'r eisio cael ei rwbio; 'drychwch fel y mae wedi ei splashio ei hun; ac y mae Jerry yn gloff hefyd; 'dwyf fi ddim yn meddwl y bydd missis yn fodlon i ni gychwyn fel hyn, beth bynnag. Dyn a styrio, mas'r, ni ddown ni o hyd iddi, er i ni aros tippyn. Nid oedd Lizzy erioed yn medru cerdded yn dda iawn."

Mrs. Shelby, yr hon oedd yn clywed yr holl ymddiddan hwn oddiar y verandah, er mawr ddifyrwch iddi ei hun, yn awr a bender-fynodd chware ei rhan hithau. Daeth ymlaen, gan gyd-ymdeimlo yn hynod o addfwyn âg anffawd Haley, a phwyso yn daer arno aros i giniaw, dywedodd y byddai ar y bwrdd yn ddioed.

Fel hyn, ac ystyried pobpeth, aeth Haley i mewn i'r parlwr gyda rhyw weddusrwydd lled amheuol, a Sam, gan rolio ei lygaid ar ei ol â rhyw feddwl tu hwnt i amgyffred, aeth a'r ceffylau i'r stabl.

"A welaist ti fo, Andi?—a welaist ti ef?" ebe Sam, wedi iddo ddyfod yn dêg i gysgod yr ysgubor a rhwymo'r ceffyl wrth y post. "O dyn, yr oedd hi bron gystal a phregeth—i'w wel'd e'n dawnsio ac yn

ciccio ac yn tyngu. On'd oeddwn i'n gwrando! Tynga d'oreu, yr hen fachgen (ebe fi wrthaf fy hun); a fynni di dy geffyl yrwan, neu a wnei di aros nes y cei di fo? (ebe fi). Dyn anwyl, Andi, yr ydw' i yn meddwl fy mod yn ei wel'd y munud yma." A rhoddodd Sam ac Andi eu pwys ar yr ysgubor, gan chwerthin llon'd eu boliau.

"Mi ddyl'sit wel'd mor gynddeiriog oedd pan ddois i â'r ceffyl i mewn. Gwarchod ni, mi f'asa yn fy lladd pe b'asai yn meiddio; a minnau yn sefyll yno mor ddiniwed!"

"Dyn anwyl, mi gwelais i di," ebe Andi; "ond yr wyt ti yn hen walch, Sam?"

"Yr ydw' i braidd yn meddwl fy mod," ebe Sam; "a welaist ti missis yn ffenest y llofft? Mi gwelais i hi'n chwerthin."

"Yn wir, nid oeddwn i yn gwel'd dim yn y byd, yr oeddwn i yn rhedeg mor ofnadwy," ebe Andi.

"Wel, wel'di," meddai Sam, gan fyned yn ddifrifol i lanhau ebol Mr. Haley, "yr ydw' i wedi cael rhyw arferiad o *ddal sylw* ar bethau, Andi. Arferiad o bwys mawr ydi hon, Andi; ac mi ro'wn i ti gynghor i stydio hynny pan wyt yn ifangc. Côd i fynu'r troed ôl yna, Andi. On'd wyt ti yn gwel'd, Andi, y *dal sylw* sy'n gwneud yr holl wahaniaeth rhyngom ni'r niggars. On'd oeddwn i yn gwybod pa ffordd yr oedd y gwynt yn chwythu y bore heddyw? On'd oeddwn i yn gwel'd beth oedd ar missis eisio, er nad oedd hi yn cymryd arni? Dyna ydi *dal sylw*, Andi. Yr ydw' i yn ammau mai rhywbeth a elwi di yn synwyr ydyw. Nid ydyw synwyrau pawb yr un fath â'u gilydd, ond y mae gneud defnydd iawn o honynt yn myn'd ymhell iawn."

"Yr ydw' i'n meddwl pe na b'aswn i yn helpu i ti ddal sylw bore heddyw, na b'asit ti yn gwel'd dy ffordd ymhell iawn," ebe Andi.

"Andi," meddai Sam, "bachgen go smart wyt ti, 'does dim dadl. Mae gen i feddwl mawr am danat ti, Andi, ac nid oes arna' i ddim c'wilydd cymryd fy nysgu gen't ti. Ni ddylem ni edrych yn ysgafn ar neb, Andi, oherwydd y mae'r calla'n colli weithia, wyddost. Ac felly, Andi, gâd i ni fyn'd i'r gegin. Yr ydw i 'n siccir y rhydd missis i ni dammad go dda'r tro yma."

PENNOD VII.

CALEDFYD Y FAM.

MAE'N amhossibl dychymygu am un creadur dynol yn fwy unig ac amddifad nag ydoedd Eliza pan lamodd allan dros drothwy caban F'ewyrth Twm.

Yr oedd peryglon a dioddefiadau ei gwr, a pherygl mawr ei phlentyn, ynghyda rhyw wag ofn am ei pherygl ei hunan, yn gadael yr unig gartref fu ganddi erioed, a'r ffrind oreu oedd ganddi, yn bwn mawr ar ei meddwl. Hefyd, gadael pob hen gydnabod—y fan lle magwyd hi, y coed y bu'n chware danynt, y llwyni ymysg pa rai y bu'n rhodiana'n happus lawer min nos, gyda'i hanwyl George—pob peth, fel y gwelai hwynt ar noswaith rewlyd a serenog, fel pe buasent yn achwyn arni am eu gadael, ac yn gofyn i ba le y gallai fyned o'r fath gartref anwyl a hwnnw?

Ond yr oedd anwyldeb mam yn gryfach na'r cwbl, ac wedi ei weithio i fath o wallgofrwydd wrth feddwl am berygl arswydus ei phlentyn. Yr oedd y bachgen yn ddigon o faint i gerdded wrth ei hochr, a than amgylchiadau cyffredin buasai yn ei arwain gerfydd ei law; ond yn awr yr oedd y meddwl am ei ddodi allan o'i breichiau yn ei dychrynu, a hi a'i gwasgodd ef at ei chalon, fel yr oedd yn brysio ymaith.

Yr oedd y ddaear rewlyd yn grinsian dan ei thraed, a dychrynid hi gan y swn; rhedai y gwaed yn ol i'w chalon, pan ysgydwai deilen neu gysgod ar draws ei llwybr, a phrysurai ei cherddediad. Synnai ynddi ei hun o ba le y daethai y nerth oedd ganddi; oherwydd ni theimlai y bachgen o fwy pwysau na phluen, ac ymddangosai y grym goruwch-naturiol oedd yn ei gyrru ymlaen fel yn cynnyddu gyda'i hofnau, tra y llithrai yn aml dros ei gwefusau, saethweddiau at y Ffrind sydd fry—"Duw a'm helpo! O Arglwydd, cadw fi!"

Tydi fam, beth pe buasai dy Harri neu dy Wil *di*, i gael ei gymmeryd ymaith, gan farchnattwr ciaidd mewn gwaed a chnawd dynion, y bore fory—beth pe buasit wedi gweled y dyn â'th lygaid, a chlywed fod y papyrau wedi eu hysgrifenu, ac yn ei feddiant ef, ac nad oedd gennyt ddim ond o hanner nos dan y bore i ddiangc,—pwy mor fuan y gallesit *ti* gerdded? Pa sawl milltir a fuasit yn drafaelio yn yr ychydig oriau byrrion hynny, a'th anwylyd yn dy gessail—ei ben anwyl ar dy ysgwydd,—a'i freichiau bychain ystwyth yn gwlwm am dy wddf?

Oherwydd fe gysgodd y plentyn. Ar y cyntaf, yr oedd y dychryn a'r newydd-beth yn ei gadw yn effro; ond trwy fod ei fam yn ei gadw yn hollol ddistaw, ac yn dal i ddweyd wrtho y byddai hi yn sicr o'i "safio os na wnai gadw swn," efe a lechodd yn ei mynwes, heb ddim ond gofyn fel hyn pan deimlodd ei hun yn gysglyd:

"Mam, oes eisio i mi gadw yn effro?"

"Nagoes, machgen i; cysga, os oes arnat eisiau."

"Ond, mam, os gna i gysgu, 'newch cewi adael iddo fo nghael i?"

"Na wnaf! Duw fo n gymhorth i mi," ebe'r fam, a'i grudd yn llwytach, a'i llygaid mawrion yn fwy tanbaid.

"Ydach chi 'n siccir, ond ydach chi, mam?"

"Ydw'n ddigon siccir!" ebe'r fam, mewn llais ag oedd bron a chodi ofn arni, oherwydd ymddangosai fel llais yspryd o'i mewn nad oedd yn rhan o honi hi ei hun; a phlygodd y plentyn ei ben blinedig ar ei hysgwydd, gan syrthio i drymgwsg mewn ychydig funudau. Fel yr oedd cyffyrddiad ei freichiau cynnes am ei gwddf, a'i anadliad esmwyth i'w brest, yn tanio ei hyspryd o'r newydd! Ymddangosai fel pe buasai nerth yn dylifo iddi megis ffrwd o wefryddiaeth. Mae rhywbeth mawreddus yn nylanwad y meddwl ar y corph, yr hwn, dros amser, a fedr wneud y cnawd yn ddideimlad, a chyffio'r gewynau fel y dur, gan wneuthur gwron daear o'r llestri gwanaf.

Fel yr oedd hi yn myned rhagddi, aeth cloddiau'r ffarm a gwrychoedd y llannerch a'r coed-tir heibio iddi fel breuddwyd; etto ymlaen a hi, gan adael y naill gynnefin beth ar ol y llall, heb aros, heb arafu, hyd nes canfu awyr goch y bore lawer milltir hir tu draw i ddim a adwaenai, ar ganol y ffordd fawr.

Buasai lawer gwaith gyda'i meistres yn ymweled a rhyw gydnabod yn mhentref bach T——, yn lled agos i'r afon Ohio, a gwyddai'r ffordd yn burion. Cyrhaedd yno, a chroesi'r afon, oedd ei chynllun cyntaf i ddiangc; tu draw i hynny, nid oedd ganddi ddim ond hyderu ar Dduw.

Pan ddechreuodd ceffylau a throliau ddyfod ar hyd y ffordd, hi a ganfu yn union, fel pe buasai wedi ei hysprydoli, y tynnai sylw wrth fyned ar y fath frys gwyllt. Yna hi a osododd y bychan i gerdded, ac a daclusodd ei gown a'i bonnet, gan gerdded mor ddichlyn ag y medrai i gadw ymddangosiad. Yr oedd wedi darparu ystôr o gaccenau ac afalau yn ei bwndel, y rhai a ddefnyddid ganddi i yrru'r bychan yn ei flaen, trwy rolio afal ychydig latheni, a'r plentyn yn rhedeg â'i holl egni ar ei ol; gwnaeth hyn gynnifer o weithiau ag a'u dygodd lawer hanner milltir yn y blaen.

Ymhen rhyw gymmaint o amser, daethant i ganol lle coediog, trwy'r hwn y rhedai nant grisialaidd. A chan fod y plentyn yn cwyno syched ac eisiau bwyd, hi a ddringodd dros y clawdd gydag ef; ac eisteddasant yn nghysgod craig fawr oedd rhyngddynt a'r ffordd, lle y cafodd Harri ei foreufwyd allan o'r bwndel. Ni fedrai'r plentyn oddef gweled ei fam heb

fwytta; a phan gydiodd am ei gwddf i geisio gwthio tammaid i'w genau, hi a deimlodd rywbeth yn codi yn ei llwngc, a bron a'i thagu.

"Na, na, Harri, machgen anwyl i! fedr mam ddim bwytta hyd nes byddi di allan o berygl! Rhaid i ni fynd a mynd, hyd nes down ni at yr afon!" Yna hi a frysiodd drachefn i'r ffordd, a cherddodd rhagddi yn ofalus fel o'r blaen.

Yr oedd erbyn hyn lawer milltir tu draw i bawb a'i hadwaenai. Ac os digwyddai iddi gyfarfod rhywun a wyddai pwy oedd, barnai fod nod-weddiad adnabyddus y teulu am eu caredigrwydd yn ddigon o esgus rhag iddynt fedwl mai ar ffo yr oedd. Yr oedd hefyd mor wŷnned ei lliw, fel mai anhawdd gwybod fod gwaed negroaidd ynddi, a thrwy fod y plentyn yn wŷn hefyd, yr oedd yn llawer haws iddi fyned heb i neb ei drwgdybio.

Ar ol ymresymu fel hyn â hi ei hunan, hi a drodd tua'r prydnhawn i dŷ ffarm glanwaith, i orphwyso, ac i brynu tammaid o giniaw iddi hi a'r plentyn; oherwydd, fel yr oedd y pellder yn lleihau'r perygl, yr oedd ei nerth rhyfeddol hithau'n llaccio, a theimlai eisiau bwyd a blinder.

Yr oedd gwraig y tŷ yn garedig ac yn siaradus, ac wrth ei bodd, mwy na pheidio, am gael rhywun i droi i mewn i ymgomio â hi; a derbyniodd chwedl Eliza yn ddigon di-feddwl-drwg, sef "ei bod yn myned dippyn ymhellach, i dreulio wythnos gyda'i ffrindiau,"—yr hyn a ddymunai yn ei chalon mai gwir oedd.

O ddeutu awr cyn machlud haul, hi a gyrhaeddodd bentref T——, ar lan afon Ohio, yn flinedig, a'i thraed yn ddolurus, ond etto yn gryf o galon. Ei hedrychiad cyntaf oedd ar yr afon, pa un, megis yr Iorddonen, oedd rhyngddi a Chanaan ei rhyddid yr ochr draw.

Yr oedd yn awr yn ddechreu'r gwanwyn, a'r afon yn llawn llifogydd, a darnau mawr o rew yn rholio yma a thraw yn ei dyfroedd cymmysglyd. Trwy fod ceulanau'r afon ar ochr Kentucky yn fath o figa-moga, a phentir yn rhedeg ymhell i'r ffrwd, yr oedd llawer iawn o'r rhew wedi ei gloi i fynu, a'r lle cul ar gyfer y pentir yn dŷn o hono, ar draws ei gilydd ymhob ystumiau; ac felly y rhew oddi-arnodd yn croni fel math o argae, yr hwn oedd yn siglo i fynu ac i lawr gan rediad y dyfroedd fel rhyw gors fawr ddychrynllyd, ac yn cyrhaedd bron at y lan yn ochr Kentucky.

Safodd Eliza am funudyn, i syllu'n syn ar yr olygfa anffafriol hon, a chanfu ar unwaith na fedrai cwch y fferri groesi; yna hi a drodd i mewn i ryw dafarndy bychan yn ymyl i holi ac ymofyn.

Yr oedd gwraig y tŷ yn brysur gyda'i phadelli a'i photiau, yn ffrio ac yn stiwio gogyfer a'r hwyrbryd, a hi a drodd, a'i chigwain yn ei llaw, pan glywodd lais mwynaidd Eliza, ac a ofynodd,

"Beth sydd?"

"A oes cwch fferri yn croesi drosodd i B——y, heddyw?" eb Eliza.

"Nagoes, yn wir, mae wedi peidio rhedeg drosodd er's tippyn o amser."

Sylwodd y wraig ar wynebpryd siomedig a gwelwlas Eliza, a gofynodd mewn tôn deimladwy :

"Fe allai fod arnoch chwi eisiau myn'd trosodd ?—oes rhywun yn sal ? 'Rydych yn ymddangos yn awyddus dros ben."

"Mae bachgen bach i mi mewn perygl mawr iawn," eb Eliza. "Ni chlywais i ddim nes oedd hi 'n hwyr neithiwr, ac mi gerddais o bell ffordd heddyw, mewn disgwyliad o fedru croesi'r fferri."

"Wel, y mae 'nyna yn anlwccus," ebe'r wraig; oherwydd deffrowyd teimladau'r fam ynddi; "mae'n ddrwg gen 'y nghalon i drostoch chwi. Solomon !" ebe hi allan o'r ffenestr, tua rhyw le bach yn y cefn; a daeth dyn at y drws a ffedog ledr o'i flaen, a'i ddwylaw yn fudron.

"Gwrando, Sol," ebe hi, "ydi'r dyn yna yn myn'd a'r barila dros yr afon heno ?"

"Fe ddeudodd y treia fo, os bydda hi rwbeth yn debyg," ebe'r dyn.

"Mae dyn dippyn is i lawr yma yn meddwl myn'd trosodd heno, os geill o sut yn y byd; fe ddaw yma i swpper yn y man, ac hwyrach mai gwell i chwi eiste i lawr a gorphwyso. Dyna fachgen bach clws," ebe hi, dan gynnyg caccen iddo.

Ond yr oedd y plentyn druan wedi ei wisgo allan, ac yn crio o wir flinder.

"Druan bach, nid ydi fo ddim yn arfer cerdded, ac mi gyrrais innau fo'n lled galed heddyw," eb Eliza.

"Wel, cym'rwch ef i mewn yna," ebe'r wraig, gan agor drws ystafell wely fechan, lle'r oedd gwely glân a chysurus. Dododd Eliza ef ar y gwely, ac ymaflodd yn ei ddwylaw hyd oni chysgodd yn drwm. Ond nid oedd orphwysfa iddi hi; yr oedd y meddwl am yr heliwr yn dyfod ar ei thrywydd yn llosgi fel tân yn ei hesgyrn; a daliodd i syllu, â golwg hiraethlon, ar y dyfroedd dyfnion oedd rhyngddi hi a'i rhyddid.

Ond rhaid i ni ei gadael yma am dro, hyd oni roddwn hanes ei hymlidwyr.

Er fod Mrs. Shelby wedi addaw y byddai'r ciniaw ar y bwrdd yn gynnar, fe gafwyd allan yn fuan, fel ag y cafwyd lawer gwaith o'r blaen, fod yn gofyn cael dau i wneuthur bargen. Felly, er rhoddi'r gorchymyn allan ynghlyw Haley, ac er fod hanner dwsin o'r rhai bychain wedi cludo gair drachefn a thrachefn at Modryb Cloe, ni wnai'r swyddoges honno ddim ond scrwttian a honco pen, a myned o gylch ei gorchwylion gydag arafwch anarferol a dull paid-a-brysio.

Rywfodd neu gilydd, yr oedd y gweinidogion yn gyffredin yn meddwl na byddai eu meistres yn ddig iawn, os digwyddai i'r ciniaw fod yn hwyr; a rhyfedd gynnifer o ddamweiniau ddigwyddodd y diwrnod hwnnw, i ddyrysu cwrs y ciniaw. Aeth un impin anlwccus, ac a gollodd y grafi, a rhaid i Modryb Cloe wneud peth ffresh, yr hwn a osodwyd ar y tân yn berffaith reolaidd, a Modryb Cloe yn ei droi â'i llwy, mor araf a malwen, ac yn atteb pob cais am frysio gyda, "Ni rof fi ddim grafi oer ar y bwrdd

i helpu hela neb?" Llithrodd un wrth gario'r dwfr, a gorfu arno fyned cyn belled a'r ffynnon i geisio rhagor drachefn; a gollyngodd un arall yr ymenyn ar y llawr; a dygid gair o bryd i bryd i'r gegin, fod "Mas'r Haley 'n bur anesmwyth, na fedrai ddim eiste ar ei gader sut yn y byd; —ei fod yn cerdded o gwmpas, ac yn spio trwy'r ffenestri a thrwy'r drws."

"Sarfio fo'n iawn!" ebe Modryb Cloe, yn eiddigus. "Hi fydd yn waeth nag anesmwyth arno fo un o'r d'rnoda yma, os na altriff o 'i ffordd. Ddaw i fistir *ynta* i yrru am dano fo, a geir gweled sut y bydd o 'n edrach pryd hynny!"

"Mi eiff o i'r llyn o dân a brwmstan, a dim camgymmeriad," ebe Jake.

"Dim ond mae o 'n haeddu," ebe Modryb Cloe, dan wasgu ei dannedd; "llawer, llawer, llawer calon dorrodd o,—'rydw i yn deud i chi bob un o honoch chi," ebe hi, dan sefyll a chodi ei chigwain yn ei llaw, "mae hi 'run fath ag yr oedd Mas'r George yn darllen yn y Datguddiad—eneidia yn llefain, dan yr allor! yn llefain ar Dduw am ddial ar rai fel hwn—a bob yn dippyn mi wrendy'r Arglwydd arnyn nhw—gneiff mi neiff!"

Yr oedd Modryb Cloe yn fath o oracl yn y gegin, a phawb yno yn gwrando arni a'i geg yn agored! a'r pryd hyn, wedi cael y ciniaw oddi ar ffordd, yr oedd yr holl gegin yn cael hamdden i dyrru o'i chwmpas i siarad.

"Geiff rhai fel yna 'i llosgi am byth, a dim camgymmeriad, oni chân nhw?" ebe Andi.

"Mi leicwn i gwel'd nhw, gnawn yn wir," ebe Jake.

"Blant!" ebe llais a wnaeth iddynt oll neidio. F'ewyrth Twm ydoedd, yr hwn a ddaethai i mewn, ac a safodd wrth y drws i wrando arnynt.

"Blant!" eb efe, "mae arna' i ofn na wyddoch chi ddim beth ydach chi 'n ddeud. Mae *byth* yn air dychrynllyd, blant; yn arswydus meddwl am dano. Ni ddylach chi ddim dymuno 'nyna i 'run creadur rhesymol."

"Nid ydan ni ddim yn dymuno i neb ond y rhai sy'n difetha 'neidia," eb Andi; "ni fedyr neb ddim help dymuno i'r rheini, maen nhw mor ofnadwy o ddrwg."

"On'd ydi natur 'i hunan yn gweiddi yn i herbyn nhw?" ebe Modryb Cloe. "On'd ydan nhw'n tynnu'r plentyn sugno odd 'ar fron i fam, ac yn i werthu fo, a'r plant bach sy'n crio, ac yn cydio yn nillad i mam,— on'd ydan nhw yn 'i llusgo nhw i ffwrdd, ac yn gwerthu 'rheiny? On'd ydan nhw yn dwyn gŵr oddi ar eu gwragedd?" ebe Modryb Cloe, a'r dagrau yn dechreu rholio, "pryd y mae o fel myn'd a'u bywyd nhw?—a beth maen nhw 'n deimlo trwy gydol yr amser?—on'd ydan nhw 'n yfed ac yn smoccio, ac yn i chymryd hi yn ddigon esmwyth? Os na neiff y gwr drwg ei faich o'r fath bobol, beth ydi fo da?" Ac fe guddiodd Modryb Cloe ei gwyneb yn ei barclod fraith, gan feichio crio o ddifri calon.

"Mae'r gair yn deud, Gweddiwch dros y rhai a wnant niwed i chwi," ebe Twm.

"Gweddio drostyn nhw, yn wir!" ebe Modryb Cloe, "mae hi 'n rhy galed o lawer! ni fedra i mo'r gweddio drostyn nhw."

"Dyna natur, Cloe, ac y mae natur yn gryf," ebe Twm; "ond y mae gras Duw yn gryfach; ac heblaw hynny, mi ddylat feddwl am gyflwr enaid y dyn 'nelo'r fath betha—ac mi ddylat ddiolch i Dduw nad wyt ti ddim *'run fath* a fo, Cloe. Mi fydda'n well gen i gael fy ngwerthu fil o weithiau drosodd, na ngalw i gyfrif am y petha sy gen y creadur truenus yna i atteb am danynt."

"Felly finna, o lawer," ebe Jake. "Dear mi, caen ni hi *yn iawn*, Andi!"

Fe scrwtiodd Andi ei ysgwyddau, ac a chwibanodd, fel arwydd o'i gydsyniad.

"Mae'n dda gen i nad aeth Meistr ddim ffwrdd bore heddyw, fel 'roedd o'n bwriadu," ebe Twm; "fasa hynny yn 'y mrifo i yn fwy na na'th y gwerthu. Allsa fod yn naturiol iddo fo, ond fasa'n galed iawn arna' i, sy'n ei 'nabod o er pan oedd o'n blentyn; ond mi fum i 'n siarad hefo mistar, ac yr ydw i 'n dechre bodloni i 'wyllys yr Arglwydd 'rwan. Nid oedd gan Mistar ddim help; mi na'th yn i le, ond y mae arna i ofn yr eiff pob peth o chwith 'rol i mi fyn'd i ffwrdd. Nid oes dim disgwyl i Mistar fod ymhob man, a gwelad pob beth, fel 'roeddwn i, a dwad a deupen llinyn ynghyd. Mae'r bechgyn yn amcanu 'n dda, ond y maen nhw yn bur ysgyffala. Dyna be sy 'mlino i."

Gyda hyn canwyd y gloch, a gyrrwyd am Twm i fyned i mewn i'r parlwr.

"Twm," eb ei feistr wrtho, yn garedig, "mae arnaf eisiau i ti ddal sylw fy mod i yn ymrwymo i dalu mil o ddolars i'r gwr bonheddig yma, os na byddi di yn y fan a'r lle pan ddaw ef i alw am danat; mae yn myned heddyw o gylch rhyw fatterion eraill, a galli di gymmeryd y diwrnod i ti dy hun. Dos i'r fan y mynnot ti, machgen i."

"Diolch i chi, Mistar," ebe Twm.

"Ac edrych di attat dy hun," ebe Haley, "a phaid ti a chware castiau niggars hefo dy fistar; oherwydd mi fynna i bob dimma o'r arian ganddo fo, os na byddi di yma. Pe bai o yn gwrando arna' i, ni choelia fo 'run o honoch chi—mor llithrig a llyswennod!"

"Mistar," ebe Twm—ac efe a safodd yn syth—"yr oeddwn i yn wyth oed pan ddar'u fy hen feistres eich rhoi chwi yn 'y mreichia i, a phrin yr oeddach chi yn flwydd oed. 'Dyna,' ebe hi, 'Twm, dyna dy fistir ifangc *di*, cymmer ofal o hono fo,' ebe hi. A 'rwan, gadewch i mi ofyn i chi mistar, a ddar'u mi 'rioed dorri ngair hefo chi, neu'ch croesi chi, 'n enwedig er pan ydw i 'n Gristion?"

Yr oedd Mr. Shelby wedi ei lwyr orchfygu, a dechreuodd ei lygaid lenwi o ddagrau.

"Machgen anwyl i," eb efe, "mae Duw yn gwybod nad wyt ti yn

dweyd dim ond yr union wir; a phe gallwn i helpio fy hun, ni fedrai'r holl fyd ddim dy brynu di."

"A chyn wiried a mod innau yn wraig Gristionogol;" ebe Mrs. Shelby, "ti gei ddyfod yn ol mor gynted ag y gallaf fi gael y modd i wneud hynny. A syr," ebe hi wrth Haley, "byddwch ofalus i bwy y gwerthwch ef, a gadewch i mi gael gwybod."

"Dyn a 'styrio," ebe Haley, "o ran hynny, hwyrach y dof fi a fo'n ol ymhen y flwyddyn, heb fod flewyn gwaeth, ac y gwertha i fo i chi."

"Mi ddeliaf â chwi pryd hynny, a chewch dâl am eich trafferth," ebe Mrs. Shelby.

"Wrth gwrs," ebe yntau, "yr un peth yn union i mi; ni waeth gen i ddwad a nhw i fynu na mynd a nhw i lawr, ond i mi gael busnes da. Nid oes arna i ddim ond eisio ynnill fy nhamad, wyddoch, ma'm; ac mae'n debyg mai dyna sy ar bawb o honon ni eisio."

Teimlodd Mr. a Mrs. Shelby iselhad ac atgasrwydd yn hyfder digywilydd y masnachwr, ac etto gwelodd y naill a'r llall ei bod yn gwbl angenrheidiol gadael iddo, a gosod attaliad ar eu teimladau. A pho mwyaf arian-gar a dideimlad yr ymddangosai, mwyaf fyth oedd ofnau Mrs. Shelby y llwyddai i ddal Eliza a'i phlentyn, ac, wrth reswm, mwyaf awyddus fyth ydoedd i'w gadw yno trwy bob dyfais a fewn i ymennydd merch. O ganlyniad, hi wenodd, ac a gydsyniodd, ac a siaradodd yn gyfeillgar, gan wneud pob peth a fedrai i dynnu ei sylw oddi ar y cloc.

Am ddau o'r gloch, daeth Sam ac Andi a'r ceffylau at y post, wedi eu hadfywio yn rhyfeddol trwy eu gwib-deithiau yn y bore.

Dyna lle'r oedd Sam, newydd ei flonegu gan giniaw, yn llawn zel a phrysurdeb. A phan nesaodd Haley attynt, yr oedd Sam yn ymffrostio wrth Andi, mewn iaith ffigyraidd, pa mor lwyddiannus fyddent, ar ol iddo ef gael "cychwyn yn iawn."

"Mae'n ddigon tebyg nad ydi dy feistr ddim yn cadw cwn," ebe Haley, fel drwyddo ei hun, pan ar godi ei droed i'r wrthafl.

"Lots o honyn nhw," ebe Sam, yn orchestol; "dyna Bruno,—ci heb ei fath ydi fo; a 'blaw hynny, mae pob niggar yn cadw corgi o ryw fath neu gilydd."

"Pw—pw," ebe Haley—ac efe a ddywedodd rywbeth arall hefyd am y cyfryw gwn, i'r hyn yr attebodd Sam dan fwmmian:

"Nis gwn i pwy les ydi rhegu nhw, beth bynnag."

"Ond ydi dy fistar yn cadw cŵn i hel niggars? (mi wranta nad ydi o 'ran hynny)."

Fe wyddai Sam yn burion beth oedd arno eisiau; ond efe a edrychodd mor wirion a'r post.

"Mae'n cŵn ni yn smelio o gwmpas yn lled sharp. Allwn i feddwl bod nhw jest y peth, serch na cheison nhw fawr o ddysg. Mae'n nhw 'n gwn *gweddol* at unpeth, ond i chi cychwyn nhw. Tyr'd yma, Bruno," eb efe gan chwibanu ar y Newfoundland mawr amrosgo, yr hwn a ddaeth atto o glun i glun.

"Dos i dy grogi," ebe Haley, gan neidio ar gefn ei geffyl. "Tyr'd o'na, tymbla i fynu."

"Fe dymblodd Sam i fynu ar wingciad llygad, ond wrth wneud efe a ogleisiodd Andi dan ei asenau, nes y torrodd hwnnw allan i chwerthin nerth ei ben, er mawr ddigofaint i Haley, yr hwn a geisiodd ei daro â'i whip hela.

"Mae'n rhyfedd gen i attat ti, Andi," ebe Sam, gan gymmeryd arno fod yn bur sobr. "Mae hwn yn fatter o bwys. Rhaid i ti beidio gneud sport. Nid dyna'r ffordd i helpu mas'r."

"Mi gymra' i'r ffordd syth at yr afon," ebe Haley, yn benderfynol, ar ol myned o gyffiniau'r ffarm. "Mi wn i ffordd pob un o honyn nhw—mae'n nhw yn cymryd y goes i'r ffordd tan ddaear."

"Shwr iawn," ebe Sam, "dyna'r fel. Mae Mas'r Haley yn taro'r hoel yn 'i chanol. 'Rwan, mae dwy ffordd at yr afon,—ffordd fudyr a'r ffordd fawr—p'run mae mas'r yn feddwl gymryd?"

Trodd Andi ei lygad yn ddiniwed ar Sam, pan glywodd ef mor ddysgedig mewn daearyddiaeth, ond dywedodd yr un peth bron yn yr un anadliad.

"Herwydd pa'm," ebe Sam, "'rydw i braidd yn meddwl y cymrai Lizzy'r ffordd fudyr, am mai ar honno mae lleia o drafaelio."

Er fod Haley yn hen aderyn, ac yn bur naturiol i ddrwgdybio peiswyn, tueddwyd ef i gymmeryd gair Sam.

"Oni bai 'ch bod chi 'ch dau yn gelwydd-gwn diffaith," ebe Haley, megis rhyngddo ag ei hun, gan synfyfyrio.

Yr oedd agwedd a thôn Haley wrth ddweyd hyn mor ddigrif yngolwg Andi, fel yr arhosodd ychydig ar ol, gan chwerthin nes oedd bron syrthio oddi ar ei geffyl; ond tynnodd Sam ei wyneb cyhyd a heddyw ac yfory.

"Wrth gwrs," ebe Sam, "eill mas'r neud fford fynno fo; mynd ffordd fawr, os bydd mas'r yn dewis—'run peth yn union i ni. A 'rwan, wrth feddwl am hynny, 'ddyliwwn i mai'r ffordd fawr pia hi o'r hanner."

"Fyddai'n naturiol iddi gymryd ffordd anghysbell," ebe Haley wrtho ei hun, heb hidio mo Sam.

"'Does dim posib deud," ebe Sam; petha od iawn ydi merched. Ni 'nan' nhw ddim yn y byd ddisgwyliach chi iddyn nhw neud; yn groes i hynny yn gyffredin iawn. Mae merched wedi gneud o chwith; felly, os ydach chi yn meddwl mai ffordd yma'r euthon nhw, gwell i chi fynd ffordd accw, yna fyddwch yn shwr o ddwad o hyd iddyn nhw. 'Rwan, 'rydw i'n meddwl ynof fy hun i Lizzy gymryd y ffordd fudyr; felly mae'n well i ni gymryd y ffordd fawr."

Nid oedd yr olwg ddofn a gwreiddiol hon o'r rhyw fenywaidd yn cael llawer o effaith ar Haley, i'w droi i'r ffordd fawr; ac efe a ddywedodd yn benderfynol y cymmerai'r ffordd arall, a gofynodd i Sam pa hyd y byddent cyn dyfod atti.

"Dippyn bach ymlaen," ebe Sam, gan wingcio'r llygad nesaf at Andi;

ac yn dweyd yn sobr anarferol, "ond yr ydw i yn ail feddwl ar y matter, a marn i ydi na ddylan ni ddim cymryd y ffordd honno. Ni fum i 'rioed ar hyd'ddi hi sut yn y byd. Mae hi'n anghysball ofnadwy, ac mi fedran golli'n ffordd—a Duw sy'n gwybod beth ddoi o honon ni."

"Mi af fi ffordd honno, serch hynny," ebe Haley.

"'Rwan, 'rydw i 'n cofio clywad deud bod hi wedi chau fynu yngwaelod y nant, onitô, Andi?"

Nid oedd Andi ddim yn "shwr," efe a "glywsai sôn" am y ffordd, a dyna'r cwbl. Ni buasai erioed ar hyd 'ddi. Yn fyr, penderfynodd Andi sefyll yn glir.

Arfer Haley fyddai taro'r fantol o debygolrwydd yn ol maint y celwydd, boed fach neu fawr, a barnodd y tro yma fod y trawst yn troi tua'r ffordd fudr. Barnodd mai yn ddifeddwl y gollyngasai Sam hyn allan ar y cyntaf; ac mai ymddyrysu mewn celwydd yr oedd o hyd ar ol hynny, i'r diben o'i berswadio ef i fyned ryw ffordd groes i'r hon yr aethai Eliza.

O ganlyniad, pan ddangosodd Sam y ffordd, trodd Haley ei geffyl iddi ar drot wyllt, a Sam ac Andi ar ei ol. Hen ffordd oedd hon, a ddefnyddid gynt i fyned at yr afon, ond wedi ei gadael er's llawer blwyddyn, ar ol agor y ffordd durnpike. Ond yr oedd etto yn agored am ychydig filltiroedd, ac wedi hynny croesid hi gan amryw ffermydd a chloddiau. Fe wyddai Sam hynny'n burion; yn wir, yr oedd wedi ei chau i fynu cyhyd, fel na chlywsai Andi erioed son am dani. Gan hynny, efe a aeth gerfydd ei drwyn, a grwgnach yn awr ac yn y man, mai ffordd ddrwg gynddeiriog oedd, ac na wyddai beth a ddeuai o droed Jerry.

"'Rwan, waeth i chi un gair na chant," ebe Haley, "mi adwen i chi; ni chewch chi mo hona i oddi ar y ffordd yma, er maint eich swn,—am hynny, cauwch eich cegau!"

"Mi fynniff mas'r ei ffordd ei hun," ebe Sam, â gwyneb hir, ac ar yr un pryd yn crychu congl ei geg ar Andi, yr hwn oedd bron a thorri ar ei draws gan chwerthin.

Yr oedd Sam yn llawn llygaid, ac yn cymmeryd arno weled yr holl wlad o'i amgylch—weithiau efe a grochlefai fod bonnet ar ben rhyw dwmpath ymhell bell draw, ac yna gofynai i Andi ai nid Eliza oedd honaccw yngwaelod y pant—a phob amser yn torri allan fel hyn, yn y lle mwyaf tyllog a cherrigog o'r ffordd, lle y byddai brysio cerddediad yn fwyaf anghyfleus i bawb, ac felly yn cadw Haley ar ddrain a mieri.

Ar ol marchogaeth fel hyn tuag awr, daeth y tri yn sydyn i ydlan rhyw ffarm fawr. Nid oedd yno un enaid byw oddeutu'r tŷ, oherwydd yr oeddynt oll ymhell yn y caeau. Ond gan fod yr ydlan yn hollol ar draws y ffordd, yr oedd yn ddigon amlwg eu bod ar ben eu siwrne yn y ffordd honno.

"Oni ddeudas i wrth mas'r mai dyma fel 'roedd hi?" ebe Sam, gyda golwg dyn wedi cael llawer o gam. "Sut medyr pobol ddiarth ddisgwyl 'nabod y wlad yn well na rhai wedi geni a'u magu ynddi hi?"

ELIZA YN CROESI'R OHIO AR Y RHEW.

" Pan ddisgynodd hi ar y darn anferth o rew gwyrddlâs, dechreuodd hwnnw rolio a chraccio oddi tani;—ond nid arhosodd arno amrantyn. Gyda bloedd wallgofus, ac egni goruwch-naturiol, hi a neidiodd i un arall, ac arall, ac arall drachefn; dan lithro, llamu, syrthio, ac i fynu'r eilwaith. Daccw ei hesgidiau wedi myned, traed ei hosanau wedi rhwygo, a'i gwaed yn lliwio pob cam a roddai."

"Y rascal drwg!" ebe Haley, "mi wyddat ti hyn yn burion."

"On'd ddeudas i gwyddwn i? ond 'choeliach chi mo'na i. Mi ddeudas wrth mas'r fod ffordd wedi chau fynu, ac nad oeddwn i ddim yn disgwyl gallan ni fyn'd at yr afon—mi clywodd Andi fi."

Nid oedd wiw ceisio gwadu hyn, a gorfu ar Haley roi'r gwyneb goreu ar y matter, a phoccedu'r siomedigaeth goreu gallai. Yna troisant eu hwyneban ill tri tua'r ffordd fawr.

Rhwng pob oediad a'i gilydd, yr oedd Eliza wedi cyrhaedd y tafarndy, a dodi ei phlentyn i gysgu, tua thri chwarter awr cyn i Haley a'r ddau heliwr duon gyrhaedd y lle. Yr oedd Eliza yn sefyll wrth y ffenestr, yn edrych ffordd arall, pan ganfu Sam hi â'i lygad barcut. Tua dwylath o'r tu ol iddo yr oedd Haley ac Andi. Bron yn yr adeg, llwyddodd Sam i golli ei het, a gwnaeth nâd na fedrai neb ond ei hunan mo'i gwneud. Deallodd Eliza pwy oeddynt, a neidiodd yn ol, tra'r aethant hwy o gylch congl y tŷ at ddrws y neuadd.

Ymddangosai i Eliza fod mil o fywydau wedi eu crynhoi yn y foment honno. Yr oedd drws ei hystafell yn agor ar yr afon. Hi a gipiodd y plentyn, ac a redodd i lawr y grisiau tua'r dwfr. Cafodd Haley lawn olwg arni, pan ddiflanodd i lawr y geulan; a chan neidio oddi ar ei geffyl, a galw yn uchel ar Sam ac Andi, aeth ar ei hol fel ci ar ol carw. Yn y foment gyfyng honno, prin y cyffyrddai ei thraed â'r llawr, ac yr oedd ar lan yr afon mewn amrantyn. Hi glywai swn eu traed o'r tu ol; a chyda'r fath egni ag a rydd Duw yn unig mewn cyfwng, gyda bloedd a naid hi a ehedodd dros y ffrwd ddychrynllyd oedd rhyngddi a'r rhew. Yr oedd yn naid arswydus—amhossibl i ddim ond gwallgofrwydd a llwyr ymroddiad enaid; a safodd Haley, Sam, ac Andi wrth ei gweled, gan godi eu llais a'u dwylo ar unwaith.

Pan ddisgynodd hi ar y darn anferth o rew gwyrddlâs, dechreuodd hwnnw rolio a chraccio oddi tani;—ond nid arhosodd arno amrantyn. Gyda bloedd wallgofus, ac egni goruwch-naturiol, hi a neidiodd i un arall, ac arall, ac arall drachefn; dan lithro, llamu, syrthio, ac i fynu'r eilwaith! Daccw ei hesgidiau wedi myned, traed ei hosanau wedi rhwygo, a'i gwaed yn lliwio pob cam a roddai. Ond nis gwelodd hi ddim, ni theimlodd ddim, hyd nes y canfu ddyn, megis mewn breuddwyd, ar ochr Ohio i'r afon, yn rhoddi help llaw iddi i fynu'r geulan.

"Wel, lodes heb ei hail wyt ti, pwy bynnag wyt ti!" ebe'r dyn, gyda llw.

"O Mr. Symmes!—safiwch fi—O safiwch fi—cuddiwch fi!" eb Eliza.

"Sut y mae hyn yn bod?" ebe'r dyn. "Nad elw i fyth o'r fan yma, os nid hogen Shelby ydi hi!"

"Machgen bach i—dyma fo—mae mistr wedi werthu fo. Daccw'r dyn prynodd o," ebe hi, gan gyfeirio ei bys dros yr afon. "O Mr. Symmes, mae gennoch chi fachgen bach."

"Oes, y mae," ebe'r dyn, gan ei helpu yn garedig i fynu'r geulan serth. "Heblaw hynny, lodes a rhywbeth ynddi hi wyt ti; mae'n dda gen i weled metel lle bynnag y bo."

Ar ol iddi gyrhaedd pen y geulan, fe safodd y dyn yn ddistaw, dan synfyfyrio.

"Fasa'n dda gen i fod o ryw help i ti," eb efe; "ond nid oes yma unlle medra i dy gymryd di. Y lle gore y galla i dy gyfarwyddo di ydi'r tŷ *accw*," eb efe, gan ddangos clamp o dŷ mawr gwŷn, yn sefyll ar ei ben ei hun, tua chanol y pentref. "Dos yna; maen' nhw 'n bobl garedig. Nid oes dim perygl na helpan nhw di—maen nhw 'n gynnefin â phethau fel hyn."

"Yr Arglwydd a dalo i chwi," eb Eliza, o waelod ei chalon.

"Dim achos, dim achos yn y byd," ebe yntau. "Ni wneis i ddim gwerth son am dano."

"O! syr, 'newch chwi ddim dweyd wrth neb, a wnewch chi!"

"Dos odd'yna, hogen! Beth wyt ti yn feddwl fy mod i? Na 'naf fi, wrth gwrs," ebe'r dyn. "Tyr'd o'na, a dos yn dy flaen, yn lodes gall fel ag yr wyt ti. Ti ynnillaist dy ryddid, a thi a'i cei o'm rhan i."

Yna fe gylymodd Eliza'r bachgen yn ei chessail, ac a gerddodd ymaith ar frys. Safodd y dyn, ac edrychodd ar ei hol.

"Hwyrach na chymmer Shelby mo hyn fel y tro mwyaf cymmydogol ar wyneb y ddaear; ond beth all creadur 'neud? Os gwel Shelby un o fy hogenod i yn yr un amgylchiad, mae iddo groeso talu'r echwyn adref. Rywsut neu gilydd, ni fedrais i erioed fyn'd yn erbyn creaduriaid fo'n rhedeg, ac yn chwythu ac yn tagu, a'r cwn ar eu hola. Heblaw hynny, ni fedraf fi ddim gweled un rheswm dros i mi droi yn heliwr ac yn ddaliwr i bobl eraill."

Felly y siaradodd y truan tywyll yma o Kentucky, yr hwn oedd heb ei addysgu ynghyfreithiau'r Undeb, ac o ganlyniad fe ymddygodd fel Cristion wrth ymbalfalu tan ei ddwylo, yr hyn nis gadewsid iddo wneud pe buasai yn gwybod mwy, ac wedi ei oleuo yn iawn.

Safodd Haley ar lan yr afon, fel dyn gwirion, hyd nes aeth Eliza o'r golwg yr ochr arall; ac yna fe drodd at Sam ac Andi, fel pe buasai yn meddwl gofyn rhywbeth.

"Dyna dippyn o fusnes go smart," ebe Sam.

"Mae saith gythral yn y lodas yna, dyna marn i," ebe Haley. "Yr oedd hi 'n neidio'r un ffunud a châth goed."

"Wel, 'rwan," ebe Sam, "gobeithio nad ydi mas'r ddim yn disgwyl i ni fynd ar i hol hi ffordd yna. Nid ydw i ddim yn ddigon shongc i droedio'r llwybr yna, doed a ddelo," ac fe chwarddodd nerth ei ben.

"Ai chwerthin yr wyt *ti?*" ebe Haley, dan guchio.

"Dyn a'ch helpo chi, mas'r, pwy fedra beidio chwerthin!" ebe Sam, gan ymollwng i arllwys y llawenydd fu yn ei gorcio cyhyd yn ei galon. "On'd oedd hi 'n edrach yn beth digri, yn neidio ac yn piccio—rhew 'n craccio—allsach i chlywad hi—plwmp! ker shynk! ker splash! Spring! Duw fo'n gwarchod! fel 'roedd hi 'n sgubo myn'd!" ac fe chwarddodd Sam ac Andi nes oedd y dagrau yn rholio fel bottyma gwynion ar hyd eu gruddiau gloywddu.

"Mi 'na i chi chwerthin yr ochor arall ich cege," ebe Haley, mewn cynddaredd, gan ddechreu eu whippio.

Ond crymmodd y ddau eu penau rhag ei ergydion, a rhedasant i fynu at y tŷ, ac ar gefnau eu ceffylau cyn iddo allu dyfod yn agos attynt.

"Nosdawch, mas'r," ebe Sam, a'i wyneb yn hirlaes. "Mae arna i lawar o ofn y bydd missis yn anesmwyth ynghylch Jerry. Fydd ar Mas'r Haley ddim eisio ni ddim yn rhagor. Ni fynna missis ar gyfri yn y byd, i ni farchogaeth y creduriad dros bont Lizzy heno;" a chyda phroc i Andi dan ei asenau, efe a gychwynodd tuag adref ar garlam wyllt, ac Andi ar ei ol—y ddau yn chwerthin ha-ha fawr, yr hon a ddygid gan y gwynt am gryn amser i glustiau Haley.

PENNOD VIII.

ELIZA ALLAN O AFAEL YR HELIWR.

Gwnaeth Eliza ei llwybr dychrynllyd dros yr afon yn min t'wyllnos; a chododd tarth yn araf oddi ar y dwfr, a chauodd hi allan o'r golwg yr ochr draw. Nid oedd un gobaith y gallai ei hymlidwyr ei chanlyn dros lifogydd yr afon, a'r darnau peryglus o rew oedd yn siglo ac yn rholio ynddi. O ganlyniad, fe drodd Haley yn arafaidd ac yn ddrwg ei natur tua'r tafarndy, i droi a throsi yn ei feddwl pa beth a wnai nesaf. Agorodd y wraig ddrws y parlwr iddo, lle'r oedd y llawr wedi ei guddio â charped cartref, a bwrdd ar ei ganol a math o liain gloywddu drosto, nifer o gadeiriau coed cefnuchel, a delwau o blaster yn goch, glâs, a melyn ar fantel y shimne, uwch ben aelwyd led fyglyd; ar gyfer y tân, yr oedd hen setl fawr o goed derw, ar ba un y gorweddodd Haley, i synfyfyrio ar anwadalwch happusrwydd daearol yn gyffredin.

"Nis gwn i beth oedd arna' i eisio gan y felldith," eb efe wrtho ei hun, "i gael gneud ffwl o honwy' fel hyn;" ac yna efe a esmwythodd ei feddwl trwy gymhwyso atto ei hun nifer o enwau drwg a rhegfeydd, pa rai, er nad oes un amheuaeth am eu priodoldeb, y mae'n well gennym beidio eu hail-adrodd.

Ond deffrowyd ef yn sydyn o'r hunan-ymholiad hwn gan lais uchel rhyw ddyn oedd megis yn disgyn oddi ar gefn ei geffyl wrth y drws. Ac efe a frysiodd at y ffenestr.

"Fel mae byw fi! os nad ydi hyn y peth tebycca welas i 'rioed i'r hyn mae pobol yn alw trefn rhagluniaeth," ebe Haley. "Nad elw i fyth o'r fan yma, os nid dyna Twm Loker."

Ac allan ag ef ar frys. Wrth y bar, ynghongl yr ystafell, safai dyn

cymmalog ac esgyrnog, yn llawn ddwy lath o hyd, a'i led yn cyfatteb. Yr oedd ganddo am dano gôt o groen buffalo, a'r tu blewog allan, yr hyn a roddai iddo olwg fileinig a dideimlad, ac yn cyttuno yn berffaith â'i wynebpryd. Yn ei ben a'i wyneb yr oedd pob llinell yn dangos mai creadur ciaidd a hollol ddideimlad ydoedd. Yn wir, pe gallai'r darllenydd ddychymygu mastiff wedi tyfu i faintioli dyn, ac yn cerdded o gwmpas mewn côt a het, byddai ganddo ddrychfeddwl lled agos o'i ymddangosiad. Yr oedd ganddo gyd-drafaeliwr, hollol groes iddo bron ymhob peth. Byr, teneu, ystwyth fel câth yn ei holl ysgogiadau, a'i lygaid duon yn spio i bob peth, bob amser yn llygotta, a phob ystum ar ei wyneb yn cyd-daro; yr oedd ei drwyn main hir, fel yn awyddus am chwilio i waelod pob peth, a'i wallt llyfn, du, teneu, wedi ei dynnu ar ymlaen, a phob agwedd, osgo ac ystumiad yn dangos craffder, cywreinrwydd, a drwg-dybiaeth. Fe arllwysodd y cimmwch mawr hanner llond glass tumbler o rum noeth, ac a'i llyngcodd ar un gwynt, fel ei daflu i fudda, heb ddweyd cymmaint a hanner gair. Ond safodd y bychan ar flaena ei draed, gan droi ei ben i un ochr, yna i'r ochr arall, a dodi ei drwyn o'r naill bottel i'r llall, ac o'r diwedd galwodd am fint julep, mewn llais teneu a chrynedig, a chydag arafwch mawreddog. Ar ol ei arllwys i'r gwydryn, efe a'i cododd, ac a edrychodd arno yn graffus, a'i lygad yn llonni, fel dyn wedi gwneud rhyw gamp, a tharo'r hoel ar ei phen, ac yna dechreuodd ei sippian yn araf bach.

"Wel, 'rwan, pwy fasa'n meddwl fod y fath lwc i ddwad i mi? Loker, sut yr wyt ti?" ebe Haley, gan ddyfod ymlaen ac estyn ei law i'r dyn mawr.

"Y cythral!" oedd yr atteb boneddigaidd. "Haley, beth ddaeth a ti i'r fan yma?"

Peidiodd y llygottwr, enw'r hwn oedd Mark, â'i sippian, a gwthiodd ei ben ymlaen, gan edrych yn ymofyngar ar y cydnabod newydd, fel y bydd câth ambell dro yn troi at ddeilen sych, neu ryw wrthddrych i'w ymlid.

"Twm, dyma'r tro mwya lwccus fu 'rioed ar wyneb y ddaear. Yr ydw i ynddi hi dros fy mhen a nghlustia, a rhaid i ti fy helpu i allan o honi hi."

"Wch! aw! wyt, mi wranta," eb ei gydymaith, yn rhwngclyd. "Fe all dyn fod yn ddigon diogel fod rhyw ynnill i'w gael arno, pan fydd *arnat ti* eisiau ei weled. Be' sy'n y gwynt 'rwan?"

"Mae gen'ti ffrind yma," ebe Haley, gan syllu yn amheus ar Mark, "partner, efallai?"

"Oes, y mae. Tyr'd yma Mark, dyma'r cena' bum i gyda fo yn Natchez."

"Fydda'n ddiolchgar am ei gydnabyddiaeth," ebe Mark, gan estyn allan ei fysedd meinion, hirion, fel bagau brain. "Mr. Haley, onite?"

"Ië, shwr, syr," ebe Haley. "Ac yn awr, foneddigions, gan i ni gyfarfod fel yma mor ffortunus, mi tretia i chi yn y parlwr yma. 'Rwan,

yr hen fab gâst," eb efe wrth y gwr tu ol i'r bar, "gyr i mewn y dwr poeth, y siwgwr, y segars, a digonedd o'r *stwff dan gamp*, ac ni fynnwn dynnu'r crychni am unwaith."

Dyna lle'r oedd y tri theilwng, yn eistedd o gwmpas bwrdd wedi ei hilio â'r danteithion crybwylledig, y canhwyllau yn oleu, a'r tân yn llosgi yn glir ar yr aelwyd.

Dechreuodd Haley adrodd ei drafférthion yn bur deimladwy. Gwrandawodd Loker arno hyd ddiwedd ei stori, dan wasgu ei wefusau ynghyd. A Mark yntau, yn llawn prysurdeb gyda darllaw ei lassiad, gan edrych i fynu yn awr ac yn y man yngwyneb Haley, a gwthio ei drwyn bron i'w lygad, ni chollodd gymmaint a gair o'r holl hanes. Ar ei diwedd, ymddangosai wrth fodd ei galon, oherwydd ysgydwodd ei ysgwyddau a'i ochrau yn ddistaw, a chododd ei wefusau teneuon fel arwydd o'i fwyniant tufewnol.

"Felly 'rydych wedi eich gwneud yn iawn, on'd ydach chi?" eb efe, "he! he! he! Tro gwych iawn, yn wir."

"Mae'r plant yma yn gneud llawer iawn o boen a thrafferth yn y busnes," ebe Haley, yn bruddaidd.

"Pedai bossîb cael breed o ferched heb hidio dim am eu plant," ebe Mark, "'r ydw i 'n deud i chi, y bydda fo'r reform mwya gwn i am dano fo yn yr oes yma,"—ac fe chwarddodd Mark ynghorn ei wddf am ben ei ddigrifwch.

"Dyna hi," ebe Haley; "ni fedras i 'rioed ddyall y matter. Mae plant yn llawer iawn o drafferth, feddyliwn i, iddyn nhw—ac mi alla dyn feddwl y bydda'n dda gennyn nhw gael gwared o honyn nhw, ond nid ydi ddim. A pho mwya trwbwl fydd plentyn, mwya di-werth, mwy fyth ydan nhwtha am dano fo, yn bur gyffredin."

"Wel, Mr. Haley," ebe Mark, "estynwch y dwr poeth yna. Ië, syr, yr ydych chi yn deud 'nheimlad i, 'rwan a phob amser. Mi brynas i lodes unwaith, pan oeddwn i yn y busnes—hogan fach smart oedd hi hefyd, a rhwbeth ynddi hi yn fwy na'r cyffredin—ac yr oedd genthi hi un bychan, sâl ofnadwy, yr oedd 'i gefn o'n gam, neu rywbeth neu gilydd, ac mi rhois i fo i ryw ddyn oedd yn foddlon i fagu fo, trwy fod o'n i gael am ddim—heb feddwl 'rioed y gnai'r lodas ddim swn yn i gylch o—ond, gwarchad pawb! p'dasech chi 'n clywad y nâd y na'th hi! Fel 'rydw i yn y fan yma, yr oedd hi fel p'dase'n well genthi hi am y plentyn am fod o'n sâl, ac yn groes, ac yn i phlaggio hi; a nid rhyw gymryd arni 'roedd hi, chwaith,—'roedd hi 'n crio ac yn nadu, ac yn rhedeg o gwmpas fel p'dase hi wedi colli'r ffrind gora ar wyneb y ddaear. Yn wir yr oedd o 'r peth digrifa welas i 'rioed. Dyn a 'styrio, 'does dim diwedd ar wiriondeb y merched."

"Fel yna mae hi 'n union," ebe Haley. "Yr haf diweddaf, i lawr ar y Red River, mi brynas i lodas, a chenthi blentyn digon iachus yr olwg arno fo; yr oedd i lygid o yn edrych cystal a llygid un o honon ninna. Ond erbyn edrych, yr oedd o mor ddalled a'r post, oedd yn wir. Wel

'roeddwn i'n meddwl nad oedd ddim harm treio lwc hefo fo, a mi ffeirias o am gascen o whiskey; ond pan eison ni i'w gymryd odd'ar y lodes, yr oedd hi fel arthes. Yr oedd hyn cyn cychwyn, a minna heb roi'r tresi ar y gang hefo'u gilydd; felly beth y na'th hi, ond hi neidiodd fel cath ar fwndel o gottwm, ac a gipiodd gyllell oddi ar un o'r llongwyr, a chyn wired a mod i'n deud i chi, hi na'th iddyn nhw dd'engyd, bob enaid o honyn nhw, am funud, hyd oni welodd hi nad oedd o un lles; yna hi drodd, ac i lawr a hi ar ei phen i'r afon, y bychan a'r cwbl—hi aeth i lawr yn blwmp, ac ni welwyd dim o honi byth."

"Bah!" ebe Twm Loker, yr hwn a wrandawsai ar yr hanesion hyn gyda selni calon. "Di-fennydd, bob un o honoch chwi 'ch dau! Ni fydd fy merched i byth yn gwneud castia fel yna, 'rydw i'n deud i chi."

"Aie, 'n wir!" ebe Mark, yn brysur, "sut y gallwch chi ddim help iddo?"

"Help, yn wir! Bwriwch mod i'n prynu lodas 'rwan, ac os bydd geni hi un bychan ar werth, mi af atti hi, a nwrn ar ei dannedd hi, ac medda fi, 'Edrych di atti hi, os daw 'run gair o dy ben di, mi dorra i dy ddannedd di. Ni chymra i 'run gair—'run hanner gair—ddim dechra gair.' Medda fi wrthi hi, '*Fi* bia'r bychan yma, ni phia ti mo'no fo, a 'does gen't ti ddim busnes hefo fo. Mi gwertha i fo, y siawns gynta gaf fi; a meindia di, na ddeudi di na siw na miw ynghylch y matter, onite mi 'na i ti 'difaru d'eni erioed.' Mae'n nhw'n gwel'd mai nid chware ydi dwad i ngafael i. Maen nhw mor ddistaw a llygod,—ac os dechreuiff un o honyn nhw wichian, 'does dim ond—" ac fe ddisgynodd dwrn Mr. Loker ar y bwrdd gyda'r fath ergyd, fel yr oedd yn ddigon hawdd deall ei feddwl.

"Dyna beth fedrwn ni alw'n *bwyslais*," ebe Mark, gan broccio Haley dan ei bummed ais, a chwerthin gyda rhwngc yn ei wddf. "Onid ydi Twm yn un digri? ha! ha! ha! Twm, mi fedri di guro synwyr i'w penna celyd crychion nhw. Ni byddan nhw byth yn camgymmeryd dy feddwl di, fyddan nhw? Mi ddeuda i ti beth, Twm, os nid tydi ydi'r gwr drwg ei hunan yn ei gorpholaeth, yr wyt ti ac yntau yn ddau efaill."

Derbyniodd Twm y compliment gyda phob dyledus wylder, a dechreuodd edrych mor ymddenol ag y goddefai ei "natur giaidd" iddo, chwedl John Bunyan.

Yr oedd Haley wedi cyfrannogi yn lled hael o'r gwirod a'r tobacco, ac yn dechreu teimlo ei galon yn agor, a'i dymherau yn ymollwng—nid peth anghyffredin gyda phobl o duedd sobr eu meddyliau dan gyffelyb amgylchiadau.

"Wel, gwrando di, Twm," eb efe, "yn wir yr wyt ti yn rhy ddrwg, fel y deudas i wrthat ti bob amser. Wyddast ti, Twm, sut y byddwn i yn siarad hefo ti am betha fel yma, pan oeddan ni lawr yn Natchez; ac mi fyddwn i 'n dangos i ti ein bod ni yn ynnill llawn cymmint, ac yn llawn cystal allan yn y byd yma, trwy fod yn deimladwy, heblaw cadw gwell

CYFYNGDER Y FAM.

" Hi neidiodd fel cath ar fwndel o gottwm, ac a gipiodd gyllell oddi ar un o'r llongwyr . . . yna hi drodd, ac i lawr a hi ar ei phen i'r afon, y bychan a'r cwbl—hi aeth i lawr yn blwmp, ac ni welwyd dim o honi byth."

siawns am ddwad trwyddi hi yn y byd nesa, pan ddelo'r gwaetha i'r gwaetha, a dim ond cymryd siawns am dani hi, wyddost."

"Twt, lol!" ebe Twm, "wyt ti 'n meddwl na wn i ddim yn byd? paid a ngneud i'n sâl hefo dy stwff—mae fy 'stummog i yn o ddrwg heddyw;" ac fe yfodd Twm draflwngc o frandi noeth.

"Gwrando di," ebe Haley, gan bwyso ar gefn ei gadair, ac estyn allan ei fraich fel i selio'r geiriau, "Mi ddeuda hyn, 'rwan, yr oeddwn i bob amser yn meddwl gneud busnes, fel ag i ynnill arian arno fo, *ynghynta ac ymlaena peth*, heb fod ar ol i undyn; etto, er hyn i gyd, nid busnes ydi pobpeth, oherwydd y mae gan bob un o honon ni enaid. Ni waeth gen i pwy nghlywo i yn i ddeud o, yr *ydw i* yn meddwl llawer iawn am f'enaid, wedi 'n waeth i mi ddeud hynny na pheidio. Yr ydw i yn credu mewn crefydd, ac un o'r dyddia yma, pan 'naf fi bob peth yn sgwâr ac yn gysurus, yr ydw i yn penderfynu gofalu am f'enaid, a matterion felly. O ganlyniad, pwy les ydi gneud mwy o ddrwg nag sy eisio?—nid ydi o ddim yn edrych yn waith call na synhwyrol, sut yn y byd."

"Gofalu am d'enaid!" ebe Twm, gyda chrychiad dirmygus i'w wefus uchaf—"fydd yn anhawdd ffendio dim ffasiwn beth o dy fewn di—paid a thrafferthu dim ar y matter. Pe bai'r gwr drwg ei hun yn dy wegryn mewn gogor rawn, ni chai o ddim llwchyn o enaid yn dy garcas di."

"Twm, Twm, yr wyt ti'n groes," ebe Haley; "pam na chymri di amynedd, 'rwan, pan fo creadur yn siarad er dy les di?"

"Cau dy geg," ebe Twm, gyda math o grochlef: "mi fedraf ddiodda bron bob siarad fo gent ti, ond dy siarad duwiol di—mae hwnyna yn fy lladd i yn lân loyw. Ac yn niwedd y cwbl, beth ydi'r gwahaniaeth rhyngot ti a finna? Nid dy fod di ddim mymryn mwy gofalus, ddim mymryn mwy teimladwy,—un shabbi gwael wyt ti, yn treio twyllo'r gwr drwg, a mynd yn groeniach o'i afael; mi fedra i weld trwyddat ti. Beth ydi dy "fynd at grefydd" di, fel yr wyt ti yn ei alw fo, ar ol y cwbwl? Mi ddeuda i ti, rhedeg i ddyled y gwr grwg bob dydd o dy fywyd, a chymryd y goes pan ddaw amser talu!—y cena' gwael!"

"Dowch, dowch, foneddigion, nid busnes ydi peth fel yna," ebe Mark. "Mae gwahanol ffyrdd, wyddoch, i edrych ar bethau. Mae Mr. Haley yn eitha dyn, ac y mae yn cadw cydwybod; ac y mae gennyt tithau dy ffordd, Twm, ac un dda ydi, ddim dowt; ond ni neiff cweryla, wyddoch, atteb diben yn y byd. Gadewch i ni fynd at y busnes. 'Rwan, Mr. Haley, beth sy arnoch chwi eisia genon ni? mae arnoch eisio i ni ddal y lodes yma, mae'n debyg?"

"Nid oes ddim fynnw i â'r lodes—Shelby pia hi. Dim ond y bachgen i mi. Yr oeddwn i 'n ffwl garw brynu'r mwngci."

"Ni welas i monot ti ddim erioed ond ffwl," ebe Twm, yn sarrug.

"Tyr'd o'na, Loker, paid a bod yn gas, 'rwan," ebe Mark, dan lyfu ei weflau; "ti weli fod Mr. Haley yn rhoi job dda yn ein dwylo ni; bydd di 'n ddistaw—fi ydi'r llaw at bethau fel yma. Y lodes yma, Mr. Haley, beth ydi hi? fath un ydi hi?"

"Wel, lodes wen, glws ydi hi—wedi dwyn i fynu yn dda. Mi roiswn i wyth cant o ddolars i Shelby am dani hi, ac mi faswn yn ynnill yn dda arni hi hefyd."

"Lodes, wen, glws—wedi dwyn i fynu'n dda," ebe Mark, a'i lygaid, ei drwyn, a'i geg yn myn'd fel gwennol y gw'ydd, yn llawn awydd am yr anturiaeth. "Edrych di yma, 'rwan, Loker, dyma siawns. Ni a wnawn dippyn o fusnes i'n llaw'n hunian; ni ydi'r heliwrs; Mr. Haley, wrth reswm, bia'r bachgen,—ond mi awn ni a'r lodes i Orleans i'w gwerthu. Onid ydi hi'n gampus!"

Yr oedd Twm yn gwrando ar Mark, a'i geg yn agored, a phan orphenodd y llygottwr, fe gauodd Twm ei geg ar wingciad, fel y bydd ci yn cau ei safn am ddarn o gig, ac ymddangosai ei fod yn cymhwyso'r drychfeddwl yn hamddenol.

"Dyma fel y mae hi, welwch chi," ebe Mark wrth Haley, "mae genon ni ustusiad yn gyfleus ar bob pwynt hyd lan 'rafon, ac mi wnan ryw jobs bach yn ein ffordd ni yn ddigon rhesymol. Dyna Twm, mae fo'n gneud y taro i lawr, a phetha felly; wedi'n, mi ddo inna i fynu, yn fy nillad cig rhost, a motasau gloywon, pob peth mewn 'style,' pan fo eisio cymryd llw, yn y matter. Chwi ddylech gael golwg am unwaith," ebe Mark, gyda math o falchder yn ei alwedigaeth, "fel y byddaf fi yn ei gneud hi. Un diwrnod, mi fydda'n Mr. Twickem, o New Orleans; d'wrnod arall, mi fydda newydd ddwad o'm plenfeydd ar y Pearl River, lle mae gen i saith cant o niggars; ac wedi hynny mi ddof allan fel perthynas o bell i Henry Clay, neu ryw hen geiliog o Kentucky. Mae talenta pobol yn gwahaniaethu, wyddoch. Dyna Twm, nid oes mo'i fath o pan fo curo, llusgo, a maeddu i'w neud; ond ni thal Twm ddim ar wyneb y ddaear i ddeud celwydd—nid ydi hynny ddim yn dwad yn naturiol ido fo, welwch chi; ond, os oes dyn trwy'r holl wlad fedyr nghuro i am dyngu y naill ffordd neu'r llall, thynnu gwyneb hir, a deud stori mor lithrig, a myn'd a'r maen i'r wal, fyddai 'n dda gen i wel'd o, dyna'r cwbl. Yr ydw i 'n coelio yn fy nghalon, y down i trwyddi hi 'n bensych, pedai'r ustusiaid yn fwy gofalus o'r hanner. Ac weithia mi fydda'n dda gen i pedai nhw 'n fwy gofalus, fyddai'n llawer mwy blasus —mwy o sport, wyddoch."

Dyn go araf, fel y dywedasom eisoes, oedd Twm Loker, ac yma efe a dorrodd ar stori Mark, trwy daro ei ddwrn ar y bwrdd, nes oedd pob peth yn dawnsio arno, a dywedyd, "Mae hi gen i."

"Gwarchod pawb, Twm, nid rhaid i ti ddim torri'r gwydrau," ebe Mark, "cadw dy ddyrna nes bo galw am danyn nhw."

"Ond, foneddigion, ydw i ddim i gael rhan o'r ynnill?" ebe Haley.

"Pwy ynnill sy arnat ti eisio?" ebe Twm; "ydi ddim yn ddigon i ni ddal y bachgen i ti?"

"Wel," ebe Haley, "os rhof fi job yn eich dwylo chwi, mae hi yn werth rhywbeth; deudwch deg punt y cant ar y fael, ar ol talu pob costau."

"'Rwan," ebe Loker, gyda llw dychrynllyd, ac ergyd i'r bwrdd â'i ddwrn nes oedd yn neidio, "paid ti a meddwl nad ydw i yn dy 'nabod ti, Dan Haley! Paid ti a threio myn'd dros mhen i! Wyt ti 'n meddwl fod Mark a finna wedi troi i ddal niggars i blessio gwŷr byddigions fel ti, heb ddim tâl am ein poena? Na choelia i fawr! mi fynnwn ni'r lodes allan ac allan, a bydd di'n bur ddistaw, onite mi fynnwn y ddau —gei di weled—beth sy'n rhwystro? Ddaru ti ddim dangos y 'sgyfarnog, ac y mae mor rhydd i ni dal hi ac ydi i titha, allwn i feddwl. Os bydd arnat ti neu Shelby eisio cael hyd i ni, dos i edrych lle bu'r petris llynedd; ac os dali di nhw neu ninna, mae i ti groeso."

"O, wel, shwr iawn, g'dewch iddi hi fod fel yna," ebe Haley, mewn dychryn am yr hogyn; "daliwch y bachgen i mi, a chymrwch chi'r lodes; ddar'u ti, Twm, ymddwyn yn *onest* bob amser hefo fi, ac mi fuost yn ddyn cystal a d'air."

"Mi wyddast ti hynny," ebe Twm; "ni fydda i byth yn cymryd arna dy hen droion llechwraidd di; ni 'naf fi ddim cam yn 'nghyfrifon â'r gwr drwg ei hun. Peth ddeuda i g'naf fi o, mi g'naf fo; ac mi wyddost ti hynny, Dan Haley."

"Gwn shwr, gwn shwr, mi ddeudas i hynny, Twm," ebe Haley; "ac os gnei di addo i mi gael y bachgen ymhen 'rwythnos, yn unman lle bo gyfleus i ti, dyna i gyd sy arna i eisio."

"Ond y mae arna i eisio can cymmint a hyna," ebe Twm. "Nid wyt ti ddim yn meddwl mai am ddim y gneis a titha fusnes yn Natchez, wyt ti, Haley; yr ydw i wedi dysgu dal llysywen pan gaf fi unwaith afael ynddi. Rhaid i ti roi deugain dolar i lawr ar y bwrdd yma, onite ni syfl y bachgen yma gam. Mi wn i pwy wyt ti."

"Wel, Twm, a chen titha job mewn llaw ddaw ag ynnill o fil neu bymtheg cant o ddolars," ebe Haley, "yr wyt ti allan o bob rheswm!"

"Onid oes gennon ni fusnes ar law, a bery am bump neu chwech wythnos,—a gneud cymmint fyth ag fedrwn ni? A beth pedai ni yn gadael pob beth, a myn'd o gwmpas i guro'r perthi am dy hogyn di, ac yn diwedd methu dal y lodes—oherwydd y cythral ei hun ydi lodes i'w dal—beth wedi'n? a dalat ti ffyrling i ni? wnait ti? Allwn feddwl mod i yn dy wel'd di yn gneud—hych! Na, na; i lawr a dy hanner cant. Os cawn ni'r job, ac os gneiff hi dalu, mi gei d'arian yn ol; ond os na thal hi, mi neiff hynny i fynu am ein trafferth ni—mae hyna 'n ddigon teg, on'd ydi o, Mark?"

"Gwir iawn, gwir iawn," ebe Mark, mewn tôn gyfeillgar.

"Dyna'r ffee, welwch chi, i sicrhau'n gwasaneth ni,—he! he! he! ni'r gwŷr o gyfraith, wyddoch. Wel, rhaid i ni i gyd gadw natur dda—bod yn esmwyth, wyddoch. Mi roiff Twm y bachgen i chwi yn unman 'newch chwi henwi; oni 'nei di, Twm?"

"Os dalia i 'r hogyn, mi gadawaf o yn nhŷ Modryb Belcher, ar lan 'rafon," ebe Loker.

Fe dynnodd Mark lyfryn o'i bocced, ac a ddechreuodd agor papyryn go fawr allan o hono; yna, gan eistedd, a syllu arno â'i lygaid duon treiddgar, aeth i fwmmian rhyngddo ag ef ei hun fel hyn,—"Barnes—sir Shelby—y bachgen Jim, tri chan dolar am dano, yn fyw neu yn farw. Edwards—Dick a Lucy—gwr a gwraig, chwe chwe chan dolar; y lodes Mali, a dau blentyn—chwe chan dolar am dani hi neu ei phen: yr ydw i yn taflu golwg ar y gwaith sy genon ni, Loker, i edrych fydd hi'n gyfleus i ni gymryd y job yma." Ac ar ol synfyfyrio ychydig, efe a ddyweddodd, "Rhaid i ni osod Adams a Springer ar drywydd y rhai'n, oherwydd y maen nhw ar y llyfra er's tro."

"Mi godan' ormod am eu gwaith," ebe Twm.

"Na, na; mi ddof fi i ben a hynny; maen nhw'n ifangc yn y busnes, a rhaid iddyn nhw weithio am bris isel," ebe Mark, gan ddal atti i ddarllen. "Mae tri o honyn nhw yn rhai digon hawdd, oherwydd nid oes gennoch chi ddim i neud ond i saethu nhw, neu gymryd llw bod nhw wedi saethu; ac y mae'r drwg ynyn nhw, os codan nhw lawer am neud hynny. Ac mi fedrwn roi'r lleill o'r naill du am dippyn," ebe efe, gan blygu'r papyr i fynu. "'Rwan, g'dewch i ni gael hanes y lodes yma yn fanylach, Mr. Haley, welsoch chi hi yn mynd i'r lan yr ochor draw?"

"Do shwr—mor amwlg a gwela i chi'r munud yma."

"A dyn yn 'i helpu hi fynu'r geulan?" ebe Loker.

"Ie, shwr iawn."

"Digon tebyg," ebe Mark, "i rywun ei chymryd hi mewn; ond i b'le, dyna'r pwngc. Beth ydi dy farn di, Twm?"

"Rhaid i ni fyn'd tros yr afon heno, a dim camgymmeriad," ebe Twm.

"Ond, nid oes 'run cwch i'w gael yn unlle," ebe Mark, "mae'r rhew yn dwad i lawr yn ddychrynllyd, Twm; wyt ti ddim yn meddwl ei bod hi yn bur beryglus?"

"Ni wn i ddim yn y byd am hynny; ond mi wn y rhaid myn'd drosodd," ebe Twm, yn benderfynol.

"Gwarchod ni," ebe Mark, dan anesmwytho, "mi fydd—gwrando"—eb efe, gan edrych trwy'r ffenestr, "mae hi mor d'wylled a bol llo, ydi mae hi, Twm—."

"Y gwir am dani hi, Mark, ydyw hyn, mae arnat ti ofn; ond nid oes gen i ddim help am hynny, myn'd trosodd raid i ti. Debyg gen i fod arnat ti eisio gorphwyso am dd'wrnod neu ddau, hyd nes bo'r lodes wedi myn'd i Sandusky, hyd y ffordd tan ddaear, cyn i ti—."

"O nagoes; 'does arna i ddim mymryn o ofn," ebe Mark; "ond—."

"Ond beth?" ebe Twm.

"Wel, ynghylch y cwch. Yr wyt ti yn gweled dy hunan nad oes yma 'run cwch."

"Oni chlywas i'r ddynes yn deud fod yma gwch yn dwad heno, a bod

rhyw ddyn yn my'nd i groesi'r afon ynddo fo. Boddi neu beidio, rhaid i ni fynd gyda fo," ebe Twm.

"Mae'n debyg gen i fod gennoch chi gwn da," ebe Haley.

"Oes, rai campus," ebe Mark; "ond pwy les ydi'r cwn? nid oes gennych ddim byd yn perthyn iddi hi iddyn nhw smelio.

"Oes y mae," ebe Haley, yn orchestol, "dyma shawl adawodd hi ar y gwely; a thyma 'i bonnet hi hefyd."

"Mae 'nyna'n lwccus," ebe Loker; "tafl yma nhw."

"Ond hwyrach y gnai'r cwn larpio'r lodes, os do'n nhw o hyd iddi hi'n ddiarwybod," ebe Haley.

"Mae hynny'n fatter i'w ystyried," ebe Mark; "oherwydd mi larpiodd ein cwn ni niggar yn Mobile bron yn yfflon, cyn i ni allu cael nhw'n rhydd oddi wrtho fo."

"Wel, welwch chi, ni ettyb hynny byth mo'r diben hefo rhai fel hon a werthiff am ei bod hi yn edrych yn dda," ebe Haley.

"Mi wela i sut y mae hi," ebe Mark. "Heblaw hynny, os cym'rwyd hi mewn i ryw dŷ, 'dydi cwn werth dim. Yn y taleithiau uchel yma, lle mae creaduriaid fel hyn yn cael eu carrio, mae'r cwn yn colli'r trywydd. Dim 'run fath ag ar blanfeydd, pan fydd niggars yn d'engyd rhaid iddyn nhw neud y rhedeg eu hunain, heb ddim help gan neb."

"Wel," ebe Loker, yr hwn a ddaeth i mewn ar ol bod wrth y bar yn holi ac ymofyn, "mae'n nhw'n deud fod y dyn a'r cwch wedi dwad; felly Mark—"

Taflodd y teilwng hwnnw olwg alarus ar yr ystafell gysurus yr oedd raid ei gadael, ond cyfododd yn araf i ufuddhau. Ac ar ol trefnu rhai pethau ymhellach, fe dalodd Haley yr hanner can dolar yn bur anfoddog, a ffarweliodd y tri am y noson.

Os bydd neb o'n darllenwyr llednais a Christionogol yn dueddol i achwyn ar y cwmpeini yma y dygwyd hwynt iddo, yr ydym yn dymuno arnynt ddodi eu rhagfarn o'r neilldu mewn pryd. Ac yn dwyn argof i ddynt fod y fasnach o ddal pobl dduon, a chaethion croenwyn hefyd, yn dyfod yn un barchus a gwladgarol, dan nawdd cyfraith y tir. Os daw'r holl wledydd ehang rhwng y Mississippi a'r Môr Tawel yn farchnadfa i gyrph ac eneidiau dynion, ac os deil eiddo dynol i gadw gallu ymsymmudol y bedwaredd ganrif a'r bymtheg, gall y prynwr a'r daliwr dynion fod etto ymysg uwchraddolion ein tir.

Tra'r oedd yr ymddiddan yma yn myned ymlaen yn y tafarndy, yr oedd Sam ac Andi, yn llawn direidi a digrifwch yn trafaelio tuag adref.

Yr oedd Sam mewn yspryd llawen ryfeddol, a thorrai allan yn fynych yn y lleisiau a'r nadau mwyaf annaturiol, ac ymhob ystumiau a chastiau a fedrai creadur o ddyn eu gwneud. Weithiau, efe a eisteddai a'i wyneb

at gynffon y ceffyl, dro arall yn groes ochr, yna gyda naid dinbendrosben, a bloedd nes y byddai'r creigiau yn 'spedan, fe ddisgynai yn ei le yn iawn drachefn,—gan ddiweddu â gwefl laes, gyda gwers geryddol i Andi am fod mor ysgafn a chellwerus.

Wedi hynny efe a darawai ei forddwyd, ac a chwarddai nes y byddai'r goedwig yn adsain. Ac felly aethant ar garlam yr holl ffordd, nes cyrhaedd adref rhwng deg ac unarddeg o'r gloch. Pan glywodd Mrs. Shelby swn eu carnau ar y graian, hi a redodd i'r verandah.

"Sam, ai tydi sydd yna? Ymha le y maen nhw?

"Mae Mas'r Haley yn gorphwyso yn tŷ tafarn; wedi blino'n ofnadw, missis."

"Beth am Eliza, Sam?"

"Wel, mae hi wedi myn'd dros yr Iornonan, yn saff i wlad Canaan, fel gallan ni ddeud."

"Beth *wyt* ti'n feddwl, Sam?" ebe Mrs. Shelby, bron allan o wynt, a bron a syrthio mewn llewyg rhag ofn ystyr ei ymadrodd ffigyrol.

"Wel, missis, mae'r Brenin mawr yn cymryd gofal o'r sawl pia fo. Mae Lizzy wedi myn'd tros afon 'Hio mor ryfeddol a ph'dasa'r Arglwydd yn myn'd a hi drosodd mewn cerbyd o dân a deuben o geffyla"

Yr oedd Sam yn ceisio bod yn bur grefyddol yngwydd ei feistres, ac yn bur hael o'i ymadroddion a'i ffigyrau ysgrythyrol.

"Tyr'd i fynu yma Sam," ebe Mr. Shelby, yr hwn, a ddaethai allan erbyn hyn, "a dywed wrth dy feistres beth sydd arni hi eisiau. Dowch, dowch, Emily," eb efe, gan ddodi ei fraich am ei gwasg, "yr ydych bron a rhynnu, ac yn gollwng eich teimladau yn rhy bell."

"Gollwng fy nheimladau yn rhy bell! Onid dynes ydwyf finnau, ac onid wyf fi yn fam i blant? Ac onid ydym ein dau yn gyfrifol i Dduw am y lodes yma, druan? Duw faddeuo i ni'r pechod yma!"

"Pwy bechod, Emily! Chwi welwch eich hunan na wnaethon ni ddim ond oedd raid i ni."

"Etto y mae teimlad arswydus o euogrwydd yn fy meddwl i ar ol y cwbl," ebe Mrs. Shelby. "Ni fedraf fi ddim ei resymu i ffwrdd."

"Tyr'd yma, Andi, bydd effro, niggar," ebe Sam, oddi tan y verandah, "dos a'r ceffyla yma i'r stabal; glywi di mo mas'r yn galw." Ac ymddangosodd Sam wrth ddrws y parlwr, a'i ddeilen palmwydden yn ei law.

"'Rwan, Sam, gad i mi glywed sut y bu hi," ebe Mr. Shelby. "Yn mha le y mae Eliza, os gwyddost ti?"

"Wel, mas'r, mi gwelas hi â'm llygad ff'un, yn mynd trosodd ar dalpia o rew. Peth rhyfedda fu 'rioed; dim llai na gwyrth; ac mi welas ddyn yn i helpu hi i'r lan yn ochor 'Hio, wedi'n mi collas hi yn t'wllnos."

"Sam, mae rhywbeth lled amheus yn hyn—y wyrth yma. Nid mor hawdd ydyw croesi'r afon ar dalpiau o rew," ebe Mr. Shelby.

"Hawdd!—fedsa neb neud heb y Brenin mawr! Dyma fel fu," ebe Sam, "pan oedd Mas'r Haley, a fi, ac Andi, yn ymyl y tŷ tafarn sy ar lan 'rafon, mi eis i dippyn ymlaen—('roeddwn i mor llawn o awydd i ddal Lizzy, fedrwn i ddim stoppio sut yn byd)—a phan ddos i ar gyfar y ffenast, dyna lle'r oedd hi, mor wirad a byw brain, a nhwtha yn dyfod ar f'ol i. Wel, mi fedras i golli ff'et, a mi sgrechias ddigon i godi dyn o farw i fyw. Clywodd Lizzy fi, wrth gwrs, a mi dynnodd yn i hol, pan ddoth Mas'r Haley heibio'r drws; a wedi'ny, ffwr' a hi trwy'r drws cefn, ac i lawr at yr afon a hi. Gwelodd Mas'r Haley hi, a mi weiddodd yn groch, a dyma fynta, a finna, ac Andi ar i hol hi. Daccw hi ar lan 'rafon, a bron dair llath o ddwr rhyngi hi a'r rhew, oedd yn mynd i fynu ac i lawr fel siglandonnan, yn un ynys. 'R'oeddan ni yn i hymyl hi, a mi 'ddylias yn y nghalon i bod hi yn i afa'l o; ond mi roth ffasiwn sgrech na chlywas i 'rioed 'i bath, a dyna lle'r oedd hi, yn piccio ac yn neidio ac yn gweiddi—a'r rhew yn mynd crac, cwalop, wich, shunc, a hitha'n springio fel bwch! Gwarchod pawb! mae rhyw spring digyffelyb yn 'r hogan yna,—dyna marn i."

Eisteddodd Mrs. Shelby heb yngan gair, a'i gwyneb mor wynned a'i chap, tra bu Sam yn adrodd yn hanes.

"Diolch i Dduw fod ei bywyd ganddi," ebe hi; "ond ymha le mae'r plentyn druan?"

"Mae'r Arglwydd yn darparu," ebe Sam, gan droi gwŷn ei lygaid i fynu yn grefyddol dros ben. "Fel deudas i o'r blaen, rhagluniath ydi hyn, a dim camgymmeriad, fel bydd missis bob amser yn dysgu ni. Mae 'fferyna yn cael eu codi bob tro i neud wllys 'r Arglwydd. 'Rwan, oni basa fi heddyw, mi geisa i dal ddwsin o weithia. On'd fi 'chrynodd y ceffyla bora heddyw—a fi ddaliodd i redag ar 'i hola nhw tan' brydcinio? Ac on'd eis i a Mas'r Haley 'ddeutu pum milltir o'r ffordd yn y p'rnawn? on'te mi f'asa'n disgyn ar gefn Lizzy fel barcut ar gyw. Rhagluniath ydi pob un o rhai'n."

"Rhagluniaethau y rhaid i ti fod yn lled brin o honynt, Master Sam. Ni ddiodda i ddim ffasiwn gastiau gyda boneddigion yn fy nhŷ i," ebe Mr. Shelby, gan edrych mor sarrug ag y gallai dan y fath amgylchiad.

Ni wiw i neb gymmeryd arno fod yn ddig wrth y negro, mwy nag wrth blentyn; mae'r naill a'r llall yn gweled trwodd i'r ochr draw, er maint yr ymdrech i'w twyllo; felly ni ddigalonwyd dim ar Sam trwy hyn o gerydd, er iddo gymmeryd arno fod yn hynod o edifeiriol, a thynnu cuchiau hynod o bruddglwyfus.

"Mae mas'r ynghanol ei le—ynghanol ei le; tro digon gwael arna i oedd hynny, dim iws gwadu; a fedr mas'r a missis ddim c'fnogi ffashiwn beth sut yn y byd. 'Rydw i 'n teimlo hynyna; ond mae niggar gwirion fel fi yn cael ei demtio 'n arw iawn ambell waith i fod yn gas, pan fo creduriad fel Haley yna 'n taflu cyrddyna; nid ydi fo ddim gwr bon-

heddig, sut yn y byd—mi eill niggar ga'dd ei ddwyn i fynu fel fi wel'd hynny â hanner llygad."

"Wel Sam," ebe Mrs. Shelby, "gan dy fod di yn syrthio ar dy fai, dos i'r gegin at Modryb Cloe, a gofyn am dippyn o'r ham oer yna ar ol cinio. Rhaid fod arnat ti ac Andi eisiau bwyd."

"Mae missis yn rhy dda o'r hanner wrthon ni," ebe Sam, gan wneud ei ddefosiwn, a brysio allan.

Megis ag yr awgrymwyd o'r blaen, yr oedd gan Sam ddawn naturiol a fuasai yn ei wneuthur yn ddyn llwyddianus yn y byd politicaidd—sef dawn i wneud y goreu o bob digwyddiad at ei wasanaeth a'i enw da ei hun; ac ar ol gweithio ei ostyngeiddrwydd a'i grefydd, yn ei dyb ei hun, i foddloni'r parlwr, efe a darawodd ei ddeilen ar ei ben, dippyn ar un ochr, fel llangc yn swagro mewn ffair, ac a nesaodd at gyffiniau tiriogaeth Modryb Cloe gyda bwriad o fod yn ben dyn yn y gegin.

"Mi 'reithia wrth y niggars yma," ebe efe, "'rwan y ca i siawns. Gwarchod pawb, fel 'llynga i hi allan, i neud iddyn nhw agor 'i llygid!"

Dylid hysbysu mai un o brif bleserau Sam oedd marchogaeth gyda'i feistr i gyfarfodydd politicaidd o bob math, lle y byddai ar ben clawdd, neu yn mrigau coeden, yn gwylio'r areithwyr, ac yn gwrando â'i holl egni; yna disgynai i fysg rhai croenddu cyffelyb iddo ei hun, ag oeddynt yno ar gyffelyb neges, a difyrai hwynt â'r dynwared mwyaf digrif a chwerthinllyd, tra byddai ei wynebpryd ei hun mor sobr a difrifol ag oedd modd i ddyn fod. Yn gyffredin, byddai y gwrandawyr nesaf atto yn frodyr o'r unlliw; ond ceid aml un croenwyn yma a thraw yn gwrando ac yn gwneud ystumiau, er boddlonrwydd nid bychan i Sam. Mewn gair, yr oedd Sam yn tybied ddarfod ei alw i fod yn areithiwr, ac ni chollai un cyfleuasdra o'i wneud ei hun yn ddyn mawr yn y ffordd honno.

Ond yr oedd hen gancr o anghydfod rhwng Sam a Modryb Cloe, neu yn hytrach nid oedd dim da rhyngddynt; etto gan fod Sam yn bwriadu cadarnhau'r dyn oddi mewn, megis parottoad anghenrheidiol i'w hufen areithyddol, efe a benderfynodd fod yn hynod o ffal-lal y tro hwn; oherwydd, er y gwyddai yn burion yr ufuddheid i'r hyn a "ddywedodd missis," i'r llythyren, etto yr oedd ynnill yr ysbryd hefyd yn fatter o gryn bwys.

O ganlyniad, efe a safodd a flaen Modryb Cloe yn bur ostyngedig, a'i wynebpryd pruddaidd yn ymddangos fel un yn teimlo ac yn dioddef llawer iawn yn achos ei gyd-greaduriaid anffortunus—a dywedodd fod missis wedi ei yrru at Modryb Cloe, am yr angenrheidiau i wneud i fynu am y cnawd a gollasai yn ei galedwaith y diwrnod caled hwnnw—felly yn cydnabod ei hawl a'i hawdurdod hi yn y goginiaeth a phob peth perthynol i'r cyfryw.

Llwyddodd yn gampus. Ni chafodd un etholwr diniwed a diddichell

erioed ei gymmeryd i fewn yn fwy, gan fember y parliament, nag y cymmerodd Sam Modryb Cloe â'i fel-dafod; a phe buasai y mab afradlon ei hunan wedi dychwelyd, nis gallasai gael mwy a gro eso; dyna lle'r oedd Sam, mewn byr amser, yn eistedd yn happus yn ei ogoniant, a phadellaid fawr o'i flaen o bob math o olion a fuasai ar fwrdd y parlwr er's tridiau—darnau o ham, o deisenau, o basteiod o bod llun, cymmalau cywion, crombiliau, brestiau, y cwbl ar draws ac ar hyd, yn un gymmysgfa ardderchog, a Sam fel brenin yr adar, a'i ddeilen palmwydden yn siongc ar ochr ei goryn, ac Andi fel prif-weinidog ar ei ddeheulaw.

Yr oedd y gegin yn llawn o'i gymdeithion, y rhai a ymdyrrasant allan o bob bwthyn i glywed hanes gwaith y dydd. Dyma awr gogoniant Sam. Adroddodd yr hanes lawer gwaith drosodd, gyda phob math o addurn ac ychwanegiad angenrheidiol i'w wneud yn fwy effeithiol. Oherwydd yr oedd Sam yn gyffelyb i lawer eraill, ni chollai chwedl ddim o'i goreurad wrth fyned trwy ei law ef. Yr oedd chwerthin di-dor yn cadw amser i adroddiad Sam, a'r bychain yn adsain o bob twll a chornel fel rhyw gyd-gerdd. Ond edrychai Sam trwy gydol yr amser yn berffaith sobr, heb syflyd gewyn o'i wynebpryd, oddieithr ambell waith roddi tro i'w lygaid, ac ysgwintio yn ysmala ar ei wrandawyr, heb ddisgyn oddiar uchelfan godidog ei araethyddiaeth.

"Ydych chi'n dyall, nghyd-wladwrs i?" ebe Sam, gan godi asgwrn coes twrci, gyda golwg awdurdodol; "ydych chi 'n dyall, 'rwan, beth raid i mi neud i'ch 'ddiffyn, bob un—ïe bob un o honoch chi? Oblegid mae'r neb dreio fynd ag un o'n pobol ni cystal a threio mynd a phob un o honyn nhw; ydach chi'n dyall mai'r un ydi'r 'gwyddor—mae hynyna'n ddigon clir. A phan ddaw un o'r porthmons yma i smelio o gwmpas y lle ar ol rhai o'n pobol ni, yr ydw *i* ar 'i ffordd o; *Fi* ydi'r dyn i siarad a fo —*fi* ydi'r dyn i chi bob un ddwad atto, mrodyr i—mi safa *i* drostoch chi —mi 'ddiffyna i chi hyd at y 'nadliad ola o ngwynt."

"Sam, Sam," ebe Andi, "mi ddeudast bore heddyw y basat ti yn dal Lizzy i'r dyn yna; nid ydi dy siarad ti ddim yn gysson."

"Mi ddeuda i ti beth, Andi," ebe Sam, gan gymmeryd arno fod yn fawr ryfeddol, "paid ti a siarad ynghylch petha na wyddost ti ddim byd am danyn nhw; mae hogia fel ti yn amcanu 'n burion, ond fedri di ddim disgwyl y gwyddast ti sut i 'mafiyd mewn 'gwyddorion cabalistiaeth."

Syrthiodd wynebpryd Andi, yn enwedig wrth y gair mawr cabalistiaeth, ac ystyrid gan y rhan ieuangaf o'r gwrandawyr fod Sam yn gwybod llawer mwy nac Andi, ac wedi dodi taw effeithiol arno. Yna aeth Sam ymlaen.

"*Cydwybod* oedd hynny, Andi; pan feddyliais i am ddal Lizzy, 'roeddwn i 'n meddwl yn shwr fod ar mas'r eisio 'i dal hi. Pan welas i fod missis fel arall, dyna *fwy* o gydwybod—'blegid geiff un fwy am ddal ar ochor missis—felly, wel' di, 'roeddwn i 'n gysson bob ffordd, yn dal cydwybod yn glir, ac yn sefyll dros f'egwyddorion. Ië, *'gwyddorion*,"

ebe Sam, gan daflu o'i law wddf ciw iar, "beth ydi 'gwyddorion da, os na fyddwn ni 'n gysson? dyna be sy arna i eisio wybod. Hwde, Andi, gei di'r asgwrn yna, nid ydi o ddim wedi grafu 'n bur lân."

Trwy fod gwrandawyr Sam yn yfed ei eiriau â genau agored, nis gallai lai na myned yn y blaen.

"Nid ydi'r matter yma 'nghylch cyssondeb, fy nghyd-niggars," ebe Sam, fel un yn myned i drin pwngc dwfn a dyrys, "nid ydi'r cyssondeb yma ddim yn bwngc ag y mae memor un yn gallu gweled trwyddo fo. 'Rwan, pan welwch chi un yn sefyll dros hynyma am dd'wrnod a noswath, ac yn sefyll dros beth croes i hynyma drannoeth, mae pobol yn deud (a digon naturiol yn deud), nad ydi fo ddim yn gysson—estyn y tammad pwdin yna i mi, Andi. Ond g'dewch i ni edrych i mewn i'r matter. Gobeithio bydd i'r bon'ddigion o'r rhyw fenywaidd esgusodi cŷ'mariath g'ffredin. 'Rwan! Dyma fi'n treio mynd i ben das wair. Wel, mi ro'r ysgol 'rochor yma—dim iws yma; yna, am na threia i ddim 'r ochor honno ddim yn rhagor, a mynd a f'ysgol i'r ochor arall, ydw i ddim yn gysson? 'Rydw i 'n gysson wrth fynd i ben das, pwy ochor bynnag bo'r ysgol; ydach chi ddim yn gweled, bob enad o honoch chi?'

"Duw ŵyr mai dyna'r unig beth y buost ti 'n gysson erioed yntho fo," ebe Modryb Cloe, yr hon oedd yn dechreu anesmwytho; oherwydd yr oedd y digrifwch iddi hi rywbeth yn gyffelyb i'r gydmariaeth ysgrythyrol—fel "finegr ar nitr."

"Oes 'n wir," ebe Sam, yn llawn o swpper a chlod, "Oes, fy nghyd-ddinasyddion, a'r boneddigesau o'r rhyw arall yn gyffredin, mae gen i gwyddorion, ac yr ydw i 'n falch o honyn nhw—maen nhw 'n 'nillfawr yn 'r oes yma, a phob oes. Mae gen i 'gwyddorion, ac mi ddalia attyn nhw fel pŷg lian a phitsh—beth bynnag gymra i yn 'gwyddor, mi safa drosto fo:—waeth gen i p'daen nhw yn f'llosgi 'n fyw, mi awn yn mlaen at y stangc, ac mi ddeudwn, dyma fi 'n dwad i dywallt y d'feryn ola o ngwaed dros fy 'gwyddorion, dros fy ngwlad, a thros les cyffredin cymdeithas."

"Wel," ebe Modryb Cloe, "un o d'egwyddorion di raid fod mynd i dy wely rywbryd heno, ac nid cadw pawb ar eu traed dan y bore; 'rwan blant, bob un nad oes arno eisio bonclust, aed o'r golwg ynghynt na chynta gallo."

"Niggars," ebe Sam, gan ddal ei ddeilen balmwydd yn ei law, "cymmerwch fy mendith i; cer'wch i'ch gw'lau, a byddwch yn blant da."

A chyda'r gollyngdod teimladwy hwn fe aeth pawb i'w fan.

PENNOD IX.

YN MHA UN YR YMDDENGYS MAI DYN YW SENEDDWR.

FEL yr oedd y Seneddwr Bird yn tynnu ei fottasau, yn barod i roddi ei draed yn y slippers a weuasai ei wraig iddo, pan oddicartref ar ei ymdaith seneddol, ac yn eistedd mewn parlawr cysurus, yr oedd goleuni y tân siriol yn llewyrchu ar y carpet, ac yn disgleirio ar ochrau y cwppanau tê ac ar y têpot gloyw. Yr oedd Mrs. Bird yn edrych yn ddelw o hyfrydwch, ac yn brysur yn edrych ar ol darpariadau y bwrdd, ac yn awr ac yn y man yn dwrdio rhyw haid o blant chwareugar, yn berwi o nwyf ieuange, ac yn neidio a gwneud yr holl ystumiau digrif fu yn syndod i fammau er amser y diluw.

"Tom, gad lonydd i ddyrn'ol y drws—da machgen i! Mary! Mary! paid a thynnu ynghynffon y gâth—druan o pws! Jim, rhaid i ti beidio dringo i ben y bwrdd—na, na!—Ni choeliech, fy anwylyd, fel yr ydym i gyd wedi synnu eich gweled yma heno!" ebe hi, o'r diwedd, pan gafodd hamdden i ddwe'yd rhywbeth wrth ei gŵr.

"Ië, ië, yr oeddwn i'n meddwl y gwnawn redeg i lawr, i aros yma heno, a chael ychydig o bleser gartref. Yr wyf wedi blino agos i farwolaeth, ac y mae'r fath gur yn fy mhen!"

Edrychodd Mrs. Bird tua chwppwrdd hanner-agored, lle yr oedd pottel o gamphyr, ac yr oedd ar fyned tuag atti, ond rhwystrodd ei gŵr iddi.

"Na, na, Mary, dim doctora!—cwppanaid o'ch tê da poeth chwi, ac ychydig o'n bywioliaeth gartrefol ni, sydd arnaf fi ei eisio. Gwaith blin yw bod yn seneddwr!"

A gwenodd y seneddwr, fel pe buasai yn lled hoff o gael ei ystyried yn offrymmu ei hun dros les ei wlad.

"Wel," eb ei wraig, pan oedd y tê agos a myned trosodd, "a pha beth y maent wedi bod yn ei wneud yn y Senedd?"

Yn awr, peth anarferol iawn oedd i Mrs. Bird fach, fwyn, drafferthu ei phen gydag achosion y Senedd-dŷ, gan ystyried yn ddoeth fod ganddi ddigon o waith i edrych ar ol ei chartref. Gan hynny, agorodd Mr. Bird ei lygaid gyda syndod, ac attebodd—

"Dim, o lawer o bwys."

"Wel; ai gwir yw eu bod wedi gwneud cyfraith i wahardd i ni roi bwyd a dïod i'r boblach dduon yna sy'n myn'd heibio? Mi glywais i eu bod yn siarad am wneud rhyw gyfraith o'r fath, ond ni choeliais i fod y fath beth wedi dyfod i ben unrhyw seneddwyr Cristionogol."'

"Yn wir, Mary, yr ydych yn myn'd i drin matterion gwladwriaethol i gyd ar unwaith."

"Twt, nonsens! Ni ro'wn i ddim blewyn am eich holl bethau gwladwriaethol; ond y mae hwn yn rhywbeth mor noeth o greulon ac anghrist'nogol. Yr ydwy' i'n gobeithio, fy ngalon anwyl i, nad oes y fath gyfraith wedi passio."

"Y mae cyfraith wedi ei gwneud, fy ngeneth i, i wahardd pobl rhag helpu y caethion a ddeuant drosodd o Kentucky; y mae cymmaint o'r fath beth wedi cael ei wneud gan y Diddymwyr anystyriol hyn, nes y mae ein brodyr yn Kentucky wedi cael eu cynhyrfu yn dost, ac y mae'n ymddangos yn angenrheidiol, yn Gristionogol, ac yn llesol hefyd, y dylid gwneuthur rhywbeth i dawelu y cyffröad."

"A pha beth ydyw y gyfraith? 'Dyw hi ddim yn rhwystro i ni roi rhywfath o letty i'r creaduriaid tlodion hyn, a ydyw? a rhoddi tammaid iddynt i'w fwytta, ac ychydig o hên ddillad, a'u gyrru o gwmpas eu busnes?"

"Ydyw, fy 'nwylyd i; byddai hynny, chwi wyddoch, yn annog a chynnorthwyo."

Dynes fach ofnus, wylaidd, oedd Mrs. Bird, oddeutu pedair troedfedd o uchder, â llygaid gleision tyner, a "gwyneb gwŷn gwridog," a'r llais mwynaf a melysaf yn y byd—ond am ddewredd, gwnai ceiliog twrci iddi ffoi ar y clwciad cyntaf, ac ond i gî canolig ei faint ddangos ei ddannedd arni, yr oedd yn ddigon iw gyrru i ffitiau. Ei gŵr a'i phlant oedd yr hollfyd iddi hi, ac yr oedd y rhai'n yn cael eu rheoli ganddi yn fwy trwy fwyneidd-dra ac ymbiliad na thrwy awdurdod neu ddadl. Nid oedd ond un peth yn ddigon i'w chynhyrfu, ac yr oedd y cyffröad hwnnw yn tarddu oddiwrth ei thymher radlawn a'i chyd-ymdeimlad; unpeth tebyg i greulondeb a'i taflai i wylltineb; ac ystyried tynerwch cyffredin ei natur yr oedd hynny yn fwy arswydus ac annealladwy. Yn gyffredin yr oedd hi yn un o'r mammau anwylaf ac esmwythaf yn y byd, ond etto yr oedd y bechgyn yn cofio gyda pharch am gerydd a gawsent ganddi unwaith, am iddi eu dala, ynghyd â rhyw fechgyn anraslawn o'r gymmydogaeth, yn llabyddio cath fechan â cherrig.

"Mi ddeuda'i ti beth," meddai Master Bil, yn fynych, "yr oeddwn i wedi dychryn y tro hwnnw, pan ddaeth mam atta' i fel dynes o'i cho', a phan gefais fy chwipio a'm gyrru i'r gwely heb ddim swpper, cyn i mi gael amser i gofio am ba beth; a phan glywais i mam yn crïo y tu allan i'r drws, mi wnaeth hynny fy mrifo yn waeth na'r cwbl. Mi dd'weda' i ti beth," arferai adrodd, "ni ddar'u ni byth labyddio cath ar ol hynny."

Ar yr achlysur hwn, cyfododd Mrs. Bird i fynu yn fywiog, â'i bochau yn gochion iawn, yr hyn a wnaeth iddi edrych yn fwy cariadus nac arferol, ac aeth i fynu at ei gŵr yn ddewrwych, a dywedodd, mewn llais penderfynol,—

"Yn awr, John, y mae arnaf eisiau gwybod a ydych chwi'n meddwl fod y fath gyfraith a hon yn iawn ac yn Gristionogol?"

"Gobeithio na wnewch chwi ddim fy saethu, os dywedaf fy mod!"

"Ni f'aswn byth yn meddwl y fath beth am danoch chwi, John! Ni roisoch mo'ch pleidlais o'i thu, ai do?"

"Rhois, mi rois, fy nadleuyddes lân."

"Mi ddylai fod cywilydd arnoch, John! Y creaduriaid tlodion, heb na thŷ na thwlc! Y mae'n gyfraith warthus, atgas, annuwiol, ac mi torraf i hi, yn un, y cyfle cynta' a gâf; ac yr wyf yn gobeithio *y caf* gyfle, a hynny yn fuan! Yn wir, y mae wedi myn'd yn fyd rhyfedd, na chaiff dynes roddi swpper a gwely cynnes i greaduriaid newynog a rhynnedig, yn unig am eu bod yn gaethion, ac wedi cael eu gorthrymu a'u maeddu ar hyd eu bywyd, y pethau gwirion!"

"Ond, Mary, gwrandewch am funud. Y mae eich teimladau yn eu lle yn hollol, ac yn ddwys, fy nghariad, ac ar ydwyf yn eich caru am hynny; ond et'o, fy nghariad i, ni wiw i ni oddef i'n teimladau redeg ymaith â'n barn. Dylech ystyried nad matter yn perthyn i'n teimladau ni ein hunain ydyw; y mae pethau o bwys gwladwriaethol yn perthyn â hyn, y mae'r fath gyffroad cyffredinol yn cyfodi, nes y mae'n rhaid i ni roi heibio ein teimladau ein hunain."

"Yn awr, John, ni wn i ddim yn y byd am achosion gwladwriaethol, y pethau a elwir gennych chwi yn *bolitics*, ond mi fedraf ddarllen fy Meibl; ac yr wyf yn gweled yn hwnnw fod yn rhaid i mi roi bwyd i'r newynog, dilladu'r noeth, a chysuro'r amddifad; a'r Bibl hwnnw yr wyf fi am ei ddilyn."

"Ond beth pe byddai i'ch gweithred chwi beri niwed cyffredinol—"

"Nid yw ufuddhau i Dduw byth yn dwyn niwed cyffredinol. Mi wn i na's gall. Y ffordd fwyaf diogel bob amser yw gwneud fel y mae *Ef* yn gorchymmyn."

"Yn awr, gwrandewch arnaf fi, Mary, ac mi roddaf i chwi reswm eglur i ddangos—"

"O nonsens, John! Pe siaradech trwy'r nos, ni fedrech ei brofi. Yr wy'n gofyn i chwi, John, a wnaech *chwi* droi creadur newynog, crynedig, dros y drws, oblegid ei fod yn fföadur. A *wnaech* chwi, o ddifrif?"

Yrwan, os rhaid dweyd y gwir, yr oedd ein seneddwr mor anlwccus a bod yn ddyn hynod o dyner-galon, ac ni bu erioed yn ei feddwl droi ymaith neb ag oedd mewn trallod; a'r peth gwaethaf yn ei erbyn yn y ddadl hon oedd, fod ei wraig yn gwybod hynny, ac o ganlyniad yr oedd yn ymosod arno yn ei fan gwan. Felly gorfu arno ddefnyddio y moddion cyffredinol a ddarparwyd i ohirio amser; "Yhèm," eb efe, amryw weithiau, cymmerodd allan ei gadach pocced, a dechreuodd sychu ei spectol. A bu Mrs. Bird, er ei bod yn gweled cyflwr diamddiffyn tir y gelyn, mor ddigydwybod a chario ymlaen ei mantais.

"Mi fydda'n dda genny' eich gweled yn gwneud hynny, John—yn wir, mi fyddai! Troi dynes allan mewn storom o eira, ac fe allai ei chymmeryd i fynu a'i gyrru i garchar? Rhyw ddyn clyfer anghyffredin a fyddech chwi i wneud hynny!"

"Rhyw ddyledswydd boenus fyddai gorfod gwneud hynny, y mae'n rhaid addef," ebe Mr. Bird, mewn rhyw dôn led arafaidd.

"*Dyledswydd*, John! peidiwch âg enwi'r gair. Chwi wyddoch nad dyledswydd ydyw—nis gall fod! Os oes ar bobl eisio cadw eu caethion rhag ffoi, gadewch iddynt fod yn dda wrthynt—dyna fy athrawiaeth i. Pe ba'i gennyf fi gaethion (ond gobeithio na bydd byth), gym'rwn i ofal na cheisient byth redeg i ffordd oddiwrthyf fi, na chwithau, John. Yr ydw' i'n dweyd i chwi nad yw pobl byth yn rhedeg i ffordd pan y maent yn happus; a phan y maent yn rhedeg, y creaduriaid gwirion! y maent yn dioddef digon, trwy oerni, a newyn, ac ofn, heb i bawb droi yn eu herbyn; a chyfraith neu beidio, ni wnaf fi byth y fath beth, trwy gymhorth Duw!"

"Mary! Mary, fy nghalon anwyl i, gadewch i mi resymmu â chwi."

"Y maen' gâs gen' i resymmu, John—yn enwedig ar fatterion fel yna. Y mae rhyw ffordd gennych chwi, y seneddwyr yma, o droi o amgylch ac o amgylch peth sydd mor oleu a'r haul ganol dydd; ac nid ydych yn credu ynddo eich hunain, pan ddaw i ymarferiad. Yr ydw' i yn eich adwaen chwi yn *burion*, John. Nid ydych yn ystyried hynny yn iawn mwy na minnau; ac ni *wnaech* y fath beth, mwy na minnau."

Yn y cyfwng hwn gwthiodd yr hen Cudjoe, y gwas du, ei ben i mewn, gan ofyn i "Missis" ddyfod i'r gegin; a'r seneddwr, wedi cael cryn ymwared, a edrychodd ar ol ei wraig fach gyda rhyw gymmysgedd ysmala o ddifyrwch a gofid, a chan eistedd yn ei gadair freichiau, dechreuodd ddarllen y papyr newydd.

Yn mhen munudyn clywid llais ei wraig wrth y drws, mewn tôn sydyn a difrifol—"John! John! O dowch yma am funud."

Rhoddes ei bapyr heibio ac aeth i'r gegin, ond neidiodd yn ol gan ddychryn a syndod wrth yr olygfa a welodd:—Dynes ieuangc eiddil, â'i dillad wedi eu rhwygo a rhewi, wedi colli ei hesgidiau, a'r hosan wedi ei rhwygo oddi am y troed briwedig a gwaedlyd, yn gorwedd mewn llewyg farwol ar draws y cadeiriau. Yr oedd argraph y rhywogaeth ddiystyrllyd ar ei gwyneb, etto nis gallai neb beidio teimlo ei brydferthwch galarus a serchog, pan ar yr un pryd yr oedd y llymder carregog, y drem oer, sefydlog, angheuol, yn taro iâs ddifrif-ddwys drwyddo. Tynnodd Mr. Bird ei wynt atto yn drwm, a safodd yn syn heb yngan gair. Yr oedd ei wraig, a'u hunig forwyn ddu, yr hen Fodryb Dinah, yn brysur yn ceisio ei hadfywio; tra'r oedd yr hen Cudjoe yn dal y plentyn ar ei lin, yn brysur yn tynnu ymaith ei hosanau a'i esgidiau, ac yn rhwbio ei draed bach oerion.

"Yn shwr, on'd ydi hi 'n olwg resynus!" eb yr hen Ddinah, yn dosturiol; "mi 'ddyliwn i mai'r gwres sy' wedi gwneud iddi ffeintio. Yr oedd hi yn o bert pan ddaeth i mewn, a gofyn a ga' hi ymdwmo tippyn; ac yr oeddwn i jest am ofyn o b'le yr oedd hi'n dwad, ac mi ffeintiodd i lawr yn y munud. Ni 'naeth hi ddim llawer o waith caled yrioed, mi 'ddyliwn wrth ei dwylo."

Y FAM A'I PHLENTYN YN NGHEGIN Y SENNEDDWR.

"Yr oedd Mrs. Bird, a'i hunig forwyn, yn brysur yn ceisio ei hadfywio; tra'r oedd yr hen Cudjoe yn dal y plentyn ar ei lin, ac yn ceisio twymno ei draed bach oerion."

"Y greadures dlawd!" ebe Mrs. Bird, yn dosturiol, fel yr oedd y ddynes yn agor ei llygaid mawrion duon yn raddol, ac yn edrych arni yn anwybodus. Ac yn ddisymmwth daeth gwedd o ddychryndod ar draws ei gwynebpryd, a neidiodd i fynu gan lefain, "O, fy Harri! A gawson nhw fo?"

Gyda hynny llammodd y bachgen oddiar lin Cudjoe, a chan redeg atti, cododd i fynu ei freichiau. "Oh," hi a waeddodd, "y mae yma! y mae yma!"

"O ma'am!" ebe hi, yn wylltwedd, wrth Mrs. Bird, "gwnewch ein hamddiffyn! peidiwch a gadael iddynt gael mhlentyn i!"

"Ni cheiff neb wneud niwed i chwi yma, wreigen dlawd," ebe Mrs. Bird, yn garuaidd. "Yr ydych yn ddiogel; peidiwch ag ofni."

"Duw a'ch bendithio," eb y wraig, gan orchuddio ei gwyneb ac ochneidio; a'r bachgen bach, yn ei gweled yn crïo, a geisiodd ddringo ar ei glin.

Trwy amryw gymmwynasau mwynion a gwreigaidd, na wyddai neb yn well pa fodd i'w gweinyddu na Mrs. Bird, daeth y wraig dlawd yn mhen ennyd yn fwy tawel. Gwnaed gwely iddi ar y setl yn ymyl y tân; ac ymhen ychydig syrthiodd i gwsg trwm, a'r plentyn, yr hwn oedd yn edrych mor flin a hithau, a gysgodd yn drwm ar ei braich; canys ni fynnai er dim ollwng y plentyn o'i gafael; ac hyd yn oed yn ei chwsg yr oedd ei braich yn dyn o'i gwmpas, ïe, yr amser hwnnw, nid oedd dim a allai laccio ei gafael warcheidiol.

Yr oedd Mr. a Mrs. Bird wedi myned yn ol i'r parlwr; ac er mor ryfedd yr ymddengys, ni soniwyd gair o untu am yr ymddiddan o'r blaen; ond yr oedd Mrs. Bird yn brysur gyda'i gwaith gweu, a Mr. Bird yn cymmeryd arno ddarllen y papyr.

"'Sgwn i pwy a pheth ydyw!" meddai Mr. Bird, o'r diwedd, gan roi'r papyr i lawr.

"Pan ddeffry hi, a theimlo ychydig yn well, ni a gawn weled," ebe Mrs. Bird.

"Beth fyddyliach chwi, ngeneth i!" ebe Mr. Bird, ar ol myfyrio yn ddistaw uwch ben y papyr newydd.

"Wel, 'nghalon i!"

"Ni fedra hi ddim gwisgo un o'ch gownau chwi, a fedrai hi, trwy eu gollwng allan, neu rywbeth o'r fath? Y mae hi'n edrych braidd yn fwy na chwi."

Yr oedd rhyw wên dawel, i'w gweled yn lled dywynnu ar wyneb Mrs. Bird, pan yr attebodd, "Ni a gawn weled.

Yna ar ol ychydig o ddistawrwydd, torrodd Mr. Bird allan drachefn—

"Wyddoch chwi beth, ngeneth i?"

"Wel, be' sy 'rwan?"

"Mi ddweyda' i chwi, y mae'r hen glôg yna yr ydych yn ei chadw o bwrpas i'w tharo drostof fi wrth gysgu ganol-dydd; ni waeth i chwi roddi honna iddi—y mae arni eisio dillad."

Gyda hynny edrychodd Dinah i mewn i ddywedyd fod y ddynes wedi deffroi, ac yn dymuno gweled missis.

Aeth Mr. a Mrs. Bird i'r gegin, â'r ddau fachgen hynaf ar eu hol; ond yr oedd y rhai mânaf o'r tylwyth erbyn hyn wedi eu gosod yn ddiogel yn eu gwelyau.

Yr oedd y wraig erbyn hyn yn eistedd ar y setl wrth y tân, yn edrych yn syn ar y ffaglau, â gwynebpryd tawel, trist, annhebyg iawn i'r golwg cythryblus gwyllt oedd arni o'r blaen.

"A oes arnoch eisio fy ngweled i?" ebe Mrs. Bird, mewn llais addfwyn.

"Gobeithio eich bod yn well, druan!"

Yr unig atteb oedd uchenaid drom, grynedig; ond cyfododd ei llygaid duon i fynu, gan syllu ar Mrs. Bird gyda'r fath edrychiad anobeithiol ac erfyniol, nes tynnu 'r dagrau o lygaid y wraig fach.

"Nid rhaid i chwi ofni dim, y beth wirion! Dywedwch i mi o b'le y daethoch, a pha beth sydd arnoch ei eisiau," ebe hi.

"O Kentucky yr wyf fi'n dyfod," attebai y wraig.

"Pa bryd?" ebe Mr. Bird, gan ddilyn i fynu yr holiad.

"Heno."

"Pa fodd y daethoch?"

"Dros y rhew."

"Croesi y rhew!" ebe pawb.

"Do, mi wneuthum," ebe'r ddynes, yn arafaidd. "Gyda chymhorth Duw, deuthum ar draws y rhew; canys yr oeddynt ar fy ol—wrth fy sodlau—ac nid oedd un ffordd arall i ddiange!"

"Gwarchod pawb, missis!" ebe Cudjoe, "y mae'r holl iâ wedi torri i fynu yn dalpiau, ac yn ymsiglo i lawr ac i fynu yn y dŵr!"

"Mi wn—mi wn ei fod!" ebe hi, yn gynhyrfiol; "ni feddyliais byth y medrwn—ond nid oeddwn yn gofalu! Ni fedrwn ond marw, doed a ddêl. Yr Arglwydd a'm cynnorthwyodd; ni wyr neb gymmaint a fedr yr Arglwydd helpu, nes iddynt dreio," ebe'r wraig, â'i llygad yn disgleirio.

"Ai caethferch oeddych chwi?" ebe Mr. Bird.

"Ië, syr; yr oeddwn i'n perthyn i ddyn yn Kentucky."

"A oedd efe'n gâs wrthych?"

"Nac oedd, syr; yr oedd yn feistr da."

"A oedd eich meistres yn gâs wrthych?"

"Oh, nac oedd! yr oedd hi fel mam i mi bob amser."

"Pa beth, ynte, a'ch hudodd i adael cartref da, a rhedeg ymaith, a gwynebu y fath beryglon?"

Edrychodd y ddynes i fynu at Mrs. Bird yn graff, a gwelai ei bod mewn galar-wisg drom.

"Ma'am," ebe hi, yn sydyn, "a ddarfu i chwi erioed golli plentyn bach?"

Yr oedd y gofyniad yn annisgwyliadwy, ac yr oedd yn saeth mewn

briw heb lwyr iachau; canys nid oedd ond mis er pan roddasid plentyn hoff o'r teulu yn y bedd.

Tröes Mr. Bird o amgylch ac aeth ymaith tua'r ffenestr, a Mrs. Bird a dorrodd allan i wylo; ond gan ail-gaffael ei llais, dywedodd—

"Paham yr ydych yn gofyn hynny? Yr ydwyf wedi colli un bychan."

"Yna chwi fedrwch deimlo drostof fi. Yr wyf fi wedi colli dau, y naill ar ol y llall—gadewais hwynt yno yn eu beddau pan ddeuthum ymaith; ac nid oedd gennyf ond hwn yn unig wedi ei adael. Ni chysgais noswaith erioed hebddo; efe oedd y cwbl oedd gennyf yn y byd. Efe oedd fy nghysur a'm balchder, nos a dydd; ac, ma'am, yr oeddynt am ei gymmeryd oddiarnaf—i'w *werthu*—i'w werthu i fyned i lawr i'r dehau ma'am—i fyned yno yn unig—babi na fu erioed oddiwrth ei fam! Ni fedrwn i mo'r diodde hynny, ma'am. Mi wyddwn na buaswn byth yn dda i ddim wedi hynny; a phan wybum fod papyrau wedi eu seinio, ac ei fod wedi ei werthu, cymmerais ef a rhedais i ffwrdd yn y nos; ac ymlidiasant ar fy ol—y dyn a'i prynodd, a rhai o ddynion fy meistr—ac yr oeddynt yn dyfod i lawr ar ein cefnau, a chlywais hwynt. Neidiais yn lân ar y rhew, a pha sut y deuthum drosodd nis gwn; ond y peth a wybum, fod dyn yn fy helpu i ddringo i'r làn."

Nid oedd y ddynes yn ocheneidio nac yn wylo. Yr oedd wedi myned i gyflwr lle y mae dagrau yn sychion; ond yr oedd pob un o'i hamgylch, yn ei ffordd neillduol ei hun, yn dangos cyd-ymdeimlad o galon.

Y ddau fachgen bach wedi chwilio eu poccedau yn egnïol, ond yn ofer, am yr hancetsi pocced hynny y gŵyr mammau yn dda nad ydynt byth ar gael pan f'o angen am danynt, a guddiasant eu pennau yn ngodre gown eu mam, gan grïo, a sychu eu trwynau a'u llygaid, o eithaf calon; yr oedd gwyneb Mrs. Bird wedi ei gelu yn dêg yn ei hances pocced; a'r hen Ddinah, â'r dagrau yn llifo ar hyd ei gwyneb du, gonest, yn llefain, "Arglwydd, trugarhâ wrthym!" gyda gwresogrwydd "cymmanfa fawr;" ac ar yr un pryd gwelid yr hen Cudjoe yn rhwbio ei lygaid yn ei lewis yn iawn, ac yn gwneud gwyneb cuchiog, ac weithiau yn ymuno yn wresog â deisyfiadau Dinah. Yr oedd ein seneddwr yn un o'r prifgynghorwyr, ac nis gellid disgwyl iddo ef grïo, fel dyn arall; felly tröes ei gefn attynt, ac edrychodd allan drwy'r ffenestr, ac ymddangosai megys yn hynod o brysur yn carthu ei wddf ac yn sychu ei spectol, ac yn awr ac yn y man yn chwythu ei drwyn mewn dull ag a fuasai yn ddigon i beri amheuaeth yn meddwl rhyw syllydd manwl.

"Pa fodd y gallech ddywedyd wrthyf fi fod gennych feistr tirion?" eb efe, yn sydyn, gan draflyngcu yn wrol ryw fath o godiad oedd yn ei wddf, a throi yn fyrbwyll tuag at y wraig.

"Oherwydd *ei fod* yn feistr tirion—mi ddyweda hynny am dano, beth bynnag; ac yr oedd fy meistres yn dirion; ond nid oedd ganddynt ddim help. Yr oedd arnynt arian; a rhyw ffordd neu gilydd, nis gwn pa fodd, yr oedd gan ryw ddyn afael arnynt, ac yr oeddynt yn gorfod gadael iddo

gael ei ffordd ei hun. Yr oeddwn i'n gwrando, a chlywais meistr yn dweyd felly wrth fy meistres, a hithau yn pledio ac yn beggio drostof fi a dywedodd wrthi nad oedd ganddo ddim help, ac fod y papyrau wedi eu tynnu i fynu; a'r amser hwnnw y cym'rais y plentyn, a gadewais fy nghartref. Mi wyddwn i nad oedd ond ofer treio byw os gwnaent hynny; oherwydd y plentyn yma ydi'r cwbl sydd geny', welwch chi."

"'Does gennych chwi 'run gŵr?"

"Oes, ond y mae yn perthyn i ddyn arall. Y mae ei feistr yn galed iawn wrtho, ac nid ydyw yn gadael iddo byth agos ddyfod i 'ngweled i; ac y mae yn myn'd yn galettach galettach bob dydd, ac y mae'n bygwth ei werthu i fyn'd i lawr i'r dehau. Mae'n ddigon tebyg na welaf fi byth mo hono *yntau* yn rhagor."

Meddyliasid, oddiwrth y dôn arafaidd yn yr hon y dywedai y wraig y geiriau hyn, ei bod yn hollol ddideimlad; ond yr oedd rhyw ddyfnder tawel, o gystudd yn ei llygad mawr du, yn dywedyd yn wrthwyneb i hynny.

"Ac i ba le yr ydych yn meddwl myned, wreigen druan?" ebe Mrs. Bird.

"I Canada, pe bawn ond gwybod ymh'le y mae. A ydyw Canada yn mhell iawn?" ebe hi, gan edrych yn syml ac ymddiriedol yn ngwyneb Mrs. Bird.

"Y beth wirion!" ebe Mrs. Bird, yn ddiarwybod.

"A ydyw yn mhell iawn, feddyliech?" meddai y wraig, yn ddifrifol.

"Yn mhellach o lawer nac a feddyliech, fy mhlentyn tlawd!" meddai Mrs. Bird; "ond ni a dreiwn feddwl beth a ellir ei wneud drostoch. Hwde, Dinah, gwna wely iddi yn dy 'stafell dy hun, yn ymyl y gegin, a mi a ystyriaf pa beth a ellir ei wneud yn y bore. Yn y cyfamser, gwnewch eich hunan yn esmwyth, wraig dlawd. Rhoddwch eich ymddiried yn Nuw; efe a'ch amddiffyn."

Aeth Mr. a Mrs. Bird i'r parlwr eilwaith. Eisteddodd hi yn ei chadair siglo, o flaen y tân, gan ysgwyd yn ol ac ymlaen yn fyfyriol. Yr oedd Mr. Bird yn bras-gammu i fynu ac i lawr ar hyd yr ystafell, ac yn grwgnach wrtho ei hun. "Pw, pw! busnes anhylaw ofnadwy ydyw hwn!" O'r diwedd, gan fyned i fynu at ei wraig, dywedodd,—

"Wyddoch chwi beth, Mary, y mae'n rhaid iddi fyned oddiyma heno nesaf. Bydd y dihiryn yna ar ei thrywydd y bore fory gyda'r dydd. Pe buasai ond y ddynes ei hun gallasai ymguddio yma yn ddistaw nes i bobpeth fyn'd trosodd; ond nis gallai torf o wŷr meirch a gwŷr traed gadw'r gwalch bach yna yn llonydd, yr wy' i'n siccir; mi fydd yn siwr o ddyfod â'r peth allan, trwy ddangos ei drwyn mewn rhyw ffenestr neu ddrws. Peth clws iawn i minnau hefyd fyddai iddynt gael eu dal yma, jest rwan! Na, y mae'n rhaid eu cael oddiyma heno."

"Heno! Pa fodd y mae'n bossibl?—i ba le?"

"Wel, mi wn i yn o dda i b'le," ebe'r seneddwr, gan ddechreu rhoddi

ei fottasau am ei draed, ac edrych yn fyfyriol; arhosodd pan oedd ei goes ar hanner y ffordd i mewn, ac ymaflodd yn ei lin â'i ddwylaw, megys wedi ei orchfygu gan fyfyrdod.

"Rhyw fatter câs ofnadwy ydyw hwn," eb efe o'r diwedd, gan ddechreu tynnu i fynu ei fottasau drachefn, "dyna'r gwir!" Wedi cael un fottasen yn deg am ei droed, eisteddodd y seneddwr â'r llall yn ei law, gan edrych yn syn ar y lluniau ar y carped. "Er hynny, y mae'n rhaid ei wneud, mor belled ag yr wyf fi'n gweled—plâg arno!" a thynnodd i fynu y fottasen arall yn fyrbwyll, ac edrychodd allan trwy'r ffenestr.

Yn awr, dynes fach bwyllog oedd Mrs. Bird—dynes na ddywedodd erioed, "oni dd'wedais i hynny!" Ac ar yr achlysur hwn, er ei bod yn gwybod yn lled dda pa ffordd yr oedd ei fyfyrdodau yn rhedeg, yn synwyrol iawn peidiodd ag ymyrryd â hwynt, ond eisteddodd yn ddistaw yn ei chadair, gan edrych yn hollol barod i wrando bwriadau ei harglwydd, pan y gwelai yn dda eu traethu.

"Chwi wyddoch," eb efe, "dyna fy hen gyfaill, Van Trompe, wedi dyfod o Kentucky, a gollwng ei holl gaethion yn rhydd; ac y mae wedi prynu tir saith milldir i fynu'r cwm, ynghanol y goedwig, lle nad oes neb yn myned, os nad ânt o bwrpas; ac y mae'n lle na fedr neb ei gael allan ar frys. Byddai yn ddigon diberygl yno; ond y felldith yw, ni all neb yrru cerbyd yno heno ond *y fi*."

"Paham? Y mae Cudjoe yn eithaf gyrrwr."

"Gwir iawn; ond dyma fel y mae hi. Y mae'n rhaid croesi'r afon ddwywaith; ac y mae'r ail groesiad yn dra pheryglus os na bydd rhywun yn adwaen y lle, fel yr wyf fi. Mi a'i croesais gant o weithiau, ar geffyl, ac yr ydwyf yn gwybod yn dda pa droadau i'w cymmeryd. Ac felly chwi welwch nad oes dim help am dani. Y mae'n rhaid i Cudjoe roi'r ceffylau i mewn, mor ddistaw ag y medro, oddeutu hanner nos, ac mi af â hi drosodd; ac yna, i roi lliw ar y matter, y mae'n rhaid iddo ef fy ngyrru i'r dafarn nesaf, i gymmeryd y cerbyd sy'n rhedeg i Columbus, ac yn dyfod heibio o gwmpas tri neu bedwar o'r gloch, ac felly ymddengys fy mod wedi cymmeryd fy ngherbyd fy hun yn unig i hynny; a byddaf yn barod i'm gorchwyl yn siriol ac yn fore. Ond yr wyf fi'n meddwl na byddaf nemmawr o werth yno, ar ol y cwbl a ddywedwyd ac a wnaed; ond, aed y cwbl i'w crogi, nid oes gen' i mo'r help!"

"Y mae eich calon yn well na'ch pen, y tro yma, John," ebe'r wraig, gan roddi ei llaw wen fechan ar ben ei gwr. "A f'aswn i byth yn medru eich caru, pe na buaswn yn eich hadwaen yn well nac yr adwaenwch eich hun?" Ac yr oedd y ddynes fach yn edrych mor brydferth, â'r dagrau yn disgleirio yn ei llygaid, nes i'r seneddwr feddwl ei fod yn ddyn clyfer anghyffredin i fedru ynnill y fath greadur clws i'w hoffi ef mor serchoglawn; ac felly, pa beth a all'sai ei wneud ond myned o ddifrif i edrych am y cerbyd. Modd bynnag, safodd am funud wrth y drws, ac yna, gan droi yn ol, dywedodd, gyda rhyw betrusder,—

"Mary, nis gwn i ddim pa fodd y teimlech chwi ynghylch y peth, ond

y mae'r drôr yn llawn o bethau—Harri bach, druan." A chan ddywedyd felly, troes yn gyflym ar ei sawdl, a chauodd y drws ar ei ol.

Agorodd ei wraig ddrws yr ystafell-wely fechan nesaf at ei hystafell ei hun, a chan gymmeryd y ganwyll, gosododd hi ar ben y gist oedd yno, ac yna cymmerodd agoriad allan o gilfach fechan oedd ynddi, rhoddodd ef, gyda meddwl dwys, yn nghlo un o'r drôrs, a safodd yn sydyn, tra yr oedd dau fachgen, y rhai (fel y gwna bechgyn) a ddilynasent wrth ei sawdl, yn cil-edrych yn sobr ar eu mam. Ac O, y fam a ddarlleno hyn! a fu erioed drôr neu gafell yn dy dŷ di, a ymddangosai wrth gael ei hagor, megys ail-agor bedd bychan? Ah! mam ddedwydd wyt, os na bu felly.

Agorodd Mrs. Bird y drôr yn araf. Yr oedd yno gotiau bychain o amrywiol ddull a phatrwn, pentyrau o fratiau, a rhesi o hosanau byrrion; ac hyd yn oed pâr o esgidiau bychain, wedi cael eu gwisgo a'u rhwbio yn y blaenau. Yr oedd yno geffyl pren, a gwagen, a thop, a phêl—cof-deganau wedi eu casglu gyda llawer deigryn a chalon drom. Eisteddodd i lawr yn ymyl y drôr, a chan orphwys ei phen ar ei dwylaw, wylodd hyd nes oedd y dagrau yn rhedeg rhwng ei bysedd i'r drôr; yna, wedi cyfodi ei phen yn ddisymwth, gyda brys crynedig dechreuodd bigo allan y pethau plaenaf a chynhesaf, a'u casglu yn syppyn.

"Mamma," ebe un o'r bechgyn, gan gyffwrdd â'i braich, "a ydych chi am roddi i ffwrdd y pethau *yna?*"

"Fy mechgyn anwyl," ebe hi, yn ddistaw ac yn ddifrifol, "pe edrychai ein Henri bach anwyl i lawr o'r nefoedd, byddai yn dda ganddo ein gweled yn gwneud hyn. Ni b'aswn yn cael ar fy nghalon eu rhoddi i unrhyw blentyn cyffredin—i neb dedwydd; ond yr wyf yn eu rhoddi i fam fwy tor-galonus a galarus na mi fy hun; a gobeithio yr enfyn Duw ei fendith gyda hwynt!"

Y mae eneidiau bendigedig yn y byd hwn, holl ofidiau pa rai a dyfant i fynu i fod yn llawenydd i eraill; gobaith daearol y rhai, wedi ei roi i orwedd yn y bedd gyda llawer o ddagrau, ydyw yr had o ba un y tardda blodau iachaol a balm i'r amddifad a'r cystuddiedig. Un o'r cyfryw ydyw y wraig dyner sy'n eistedd yna wrth y lamp, yn gollwng dagrau araf, pan yn parottoi i'r crwydryn tlawd gofion ei phlentyn ei hun oedd wedi marw.

Yn mhen ennyd agorodd Mrs. Bird gell ddillad, a chan gymmeryd allan o honi wisg neu ddwy, plaen a gwasanaethgar, eisteddodd i lawr wrth y bwrdd, a chyda nodwydd, a sisswrn, a gwnïadur, dechreuodd yn dawel ar y gwaith o "ollwng allan," a gymmeradwywyd gan ei gwr, a pharhaodd yn ddiwyd wrtho nes i'r cloc yn y gornel daro deuddeg, ac iddi glywed swn yr olwynion wrth y drws.

"Mary," eb ei gwr, wrth ddyfod i mewn, â'i gôt uchaf ar ei fraich, "y mae'n rhaid i chwi ei deffro yn awr, oherwydd y mae'n bryd i mi fyned ymaith."

Rhoddodd Mrs. Bird ar frys y pethau a ddetholodd mewn trwnge

bychan diaddurn, a chan ei gloi, deisyfodd ar ei gwr ei weled yn cael ei ddodi yn y cerbyd, ac yna aeth i alw'r ddynes. Yn ebrwydd ymddangosodd Eliza wrth y drws, â'i phlentyn yn ei breichiau, wedi ei gwisgo mewn bonnet, shawl, a chlog a berthynent gynt i'w chymmwynas-wraig. Prysurodd Mrs. Bird hi i mewn i'r cerbyd, a gwasgodd ar ei hol ar y grisiau. Gogwyddodd Eliza allan o'r cerbyd, ac estynodd ei llaw—llaw mor feddal a chlws a honno a estynwyd iddi hithau. Sefydlodd ei llygaid duon mawrion, yn llawn o feddwl dwys, ar wyneb Mrs. Bird, gan ymddangos fel pe buasai am siarad. Symmudodd ei gwefusau ddwywaith neu dair, ond nid oedd dim llais; a chan bwyntio i fynu, gydag edrychiad na ollyngir byth yn anghof, syrthiodd yn ol i'w heisteddle, a gorchuddiodd ei gwyneb. Cauwyd y drws, a gyrrwyd y cerbyd ymaith.

Y fath sefyllfa i seneddwr gwladgarol fod ynddi, yr hwn trwy yr holl wythnos o'r blaen a fu'n spardynu y llywodraethwyr i wneud cyfreithiau mwy llymion yn erbyn caethion ffoedig, ac yn erbyn y rhai a'u croesawent neu a'u cefnogent!

Nid oedd yr un o'i frodyr yn Washington yn rhagori ar ein seneddwr yn ei Dalaeth ei hun, yn y dull o areithyddiaeth a ennillasai iddynt anrhydedd anfarwol. Mor ardderchog yr eisteddai, â'i ddwylaw yn ei boccedi, gan ddiystyru pob gwendid teimladol yn y rhai a osodent lesâd rhyw ychydig o greaduriaid ffoedig o flaen llwyddiant cyffredinol yr Undeb!

Yr oedd mor hyf a llew yn y matter, ac argyhoeddai yn drwyadl, nid yn unig ef ei hun, ond pawb a'i clywent; ond etto nid oedd ei ddychymyg am ffoadur yn cyrhaedd yn mhellach na'r llythyrenau a spelient y gair; neu i'r eithaf am ddarlun bychan yn y papyr newydd, o ddyn â ffon a bwndel bychan, a'r geiriau, "Wedi diange oddiar ei feistr," o dano. Y swyn o wir bresennoldeb cyfyngder, y llygad taer-erfyniol, y llaw wanllyd, grynedig, appeliad anobeithiol gofid digynnorthwy,—y rhai hyn ni phrofasai erioed. Ni feddyliodd y gallai y ffoadur fod yn fam annedwydd, neu blentyn amddifad, fel yr hwn oedd yn awr yn gwisgo cap bach y plentyn a gollasai ef; gan hynny, am nad oedd ein seneddwr druan yn garreg neu yn ddur, ond yn ddyn drwyddo, ac yn meddu calon odidog hefyd, yr oedd, fel y gwel pawb, mewn cyflwr gresynus oblegid ei wladgarwch. Ac nid rhaid i ti ymorfoleddu arno, y brawd o'r Taleithiau Deheuol; canys y mae gennym ryw amheuaeth na wnelai amryw o honoch chwithau yn amgenach, o dan y cyffelyb amgylchiadau. Yr ydym yn gwybod fod yn Kentucky, yn gystal ac yn Mississippi, galonau godidog a rhwydd, i'r rhai ni adroddwyd cwyn y truenus erioed yn ofer. O, frodyr anwyl! a ydyw yn deg i chwi ddisgwyl gwasanaeth gennym ni, yr hwn ni oddefai eich calon wrol ac anrhydeddus i chwi ei wneuthur pe byddech yn ein lle?

Pa fodd bynnag, os oedd ein seneddwr yn droseddwr gwladwriaethol, yr oedd mewn ffordd deg o wneud iawn am hynny trwy ei bennyd y

noswaith honno. Yr oedd tymhor hir a pharhaus o dywydd gwlawog wedi bod, ac y mae tir bras a meddal Ohio, fel y gŵyr pawb, yn dra chyfaddas i wneud llaid, a rheilffordd Ohio o'r hen ffashiwn ydoedd y ffordd.

"Gyda'ch cennad, pa fath ffordd a allai honno fod?" gofynai rhyw ymdeithydd dwyreiniol, yr hwn na ddychymygodd erioed ddim amgenach yn perthyn i reilffordd nac esmwythder a chyflymdra.

Gwybydd, gan hynny, fy nghyfaill diniwed o'r dwyrain, fod y ffyrdd yn ardaloedd dyryslyd y gorllewin, lle y mae'r mwd yn dew ac o ddyfnder diwaelod, yn cael eu gwneud o foncyffion crynion, geirwon, wedi eu gosod ochr yn ochr ar draws, a'u gorchuddio â phridd a thywyrch, neu unpeth arall nesaf i law, ac yna y mae'r trigolion yn orfoleddus yn ei galw yn ffordd, ac ymaith â hwynt i farchogaeth ar hyd-ddi. Mewn ystod amser y mae'r gwlaw yn golchi ymaith y pridd a'r tywyrch, yn symmud y boncyffion yma ac accw, yn bob ystumiau—i fynu, i lawr, ac ar draws eu gilydd, ynghyd âg amryw agennau a thyllau rhyngddynt, yn llawn o bydew du.

Ar hyd y fath ffordd a hon yr oedd ein seneddwr yn trafaelio, gan adfyfyrio ar bethau y bywyd hwn mor ddidor ag y gellid disgwyl dan yr amgylchiadau, a'r cerbyd yn myned yn ei flaen yn rhywbeth fel y canlyn:—bwmp! bwmp! bwmp! slwsh! i lawr i'r mwd!—y seneddwr, y wraig, a'r plentyn, yn newid llefydd mor ddisymmwth nes syrthio yn bentwr yn erbyn y ffenestr nesaf i'r allt. Y mae'r cerbyd yn glynu yn dynn, a'r hen Cudjoe o'r tu allan yn gwneud ystŵr anghyffredin gyda'r ceffylau. Ar ol llawer o dynnu a chwipio aneffeithiol, a'r seneddwr ar golli pob amynedd, y mae'r cerbyd yn rhoi ysbonge sydyn i'w le, y ddwy olwyn flaen yn disgyn i bwll arall, a'r seneddwr, y wraig, a'r plentyn, yn cwympo ar draws eu gilydd yn erbyn y pen blaen; het y seneddwr yn cael ei churo yn dynn dros ei lygaid a'i drwyn heb ddim seremoni; y plentyn yn llefain, a Chudjoe y tu allan yn bloeddio ar y ceffylau, a'r rheiny yn ciccio, yn ymgreinio, ac yn ymegnïo o dan lymder y fflangell. Y mae'r cerbyd yn neidio i fynu gydag ysbonge arall—i lawr â'r olwynion ol—y seneddwr, y wraig, a'r plentyn yn syrthio yn erbyn y pen ol, ei benelinoedd ef yn cael eu gyrru yn erbyn ei bonnet hi, a'i ddau droed wedi eu gwthio i'w het, yr hon oedd wedi neidio oddiam ei ben yn yr ysgytiad. Ymhen ychydig aethant dros "y gors," ac y mae'r ceffylau yn sefyll i gael gwynt; y mae'r seneddwr yn cael hyd i'w het, y ddynes yn gwastattu ei bonnet, ac yn llonyddu'r plentyn, ac y maent yn ymwregysu erbyn yr hyn oedd i ddyfod.

Dros ennyd, nid oedd ond y bwmp! bwmp! yn parhau, a dechreuasant ymgysuro, a dweyd y gallasai fod yn waeth arnynt, ar ol y cwbl. O'r diwedd, gyda thafliad crynswth, yr hwn a'u cododd i gyd ar eu traed, ac yna i lawr drachefn i'w heisteddleoedd ar amrantyn, y mae'r cerbyd yn sefyll, ac wedi llawer o gynhwrf o'r tu allan, y mae Cudjoe yn ymddangos wrth y drws.

"Os gwelwch yn dda, syr, lleccyn drwg ofnadwy ydi hwn. Ni wn i ar y ddaear pa sut y down yn glir o hono. Yr ydw' i 'n meddwl y bydd rhaid i ni gael trosolion."

Y mae'r seneddwr yn neidio allan ar frys; ond er pigo ei ffordd yn ofalus, i lawr ag un troed i ddyfnder anfesurol, ac wrth geisio ei dynnu i fynu, collodd ei fantol, a syrthiodd i'r mwd, a thynnwyd ef allan gan Cudjoe, mewn cyflwr tra gresynus.

Ond yr ydym yn ymattal, o gydymdeimlad âg esgyrn ein darllenwyr. Bydd gan ymdeithwyr gorllewinol, y rhai a dreuliasant oriau yn nghanol y nos yn y gorchwyl dyddorol o dynnu i fynu y polion o'r gwrychoedd i'w defnyddio fel trosolion i godi eu cerbydau o'r tyllau lleidiog, gydymdeimlad tyner a galarus â'n seneddwr. Yr ydym yn erfyn arnynt ollwng deigryn distaw, a myned yn eu blaenau.

Yr oedd yn hwyr iawn yn y nos pan ddaeth y cerbyd allan o'r gors, yn diferu, ac wedi ei lychwino â baw, a sefyll wrth ddrws ffarmdy mawr. Cafwyd cryn lawer o drafferth i ddeffroi y bobl oddifewn; ond o'r diwedd ymddangosodd y perchenog parchus, ac agorodd y ddôr. Dyn tal, mawr ydoedd, yn llawn ddwylath a rhai modfeddi yn nhraed ei 'sanau, â chrys hela o wlanen goch am dano. *Mat* tew o wallt melyn-goch, tra dyrysyd, a barf o amryw ddyddiau o dyfiant, a roddent i'r gwr teilwng ymddangosiad hollol anfoddhaol ar y cyntaf. Safodd am funudyn gan ddal y ganwyll i fynu a llygadu ar y trafaelwyr gyda rhyw dremiad digroeso ac amheus ag oedd yn hynod o ddigrif. Gorfu ar ein seneddwr wneud llawer o ymdrech i beri iddo ddirnad y matter yn drwyadl; a thra y mae ef yn gwneud ei oreu tuag at hynny, ni a roddwn i'n darllenwyr ychydig o hanes perchenog y tŷ.

Yr oedd yr hen John van Trompe yn wr gonest, gynt yn meddiannu cryn lawer o dir a chaethion yn Kentucky. Nid oedd "dim o'i gwmpas fel arth ond ei groen," ac wedi cael ei gynnysgaeddu gân natur â chalon fawr, gywir, yn llawn gydradd â'i gorph anferth, yr oedd wedi bod am rai blynyddau yn syllu gydag anesmwythder ar weithrediad system ag oedd yn llawn mor niweidiol i'r gorthrymydd ag ydoedd i'r gorthrymedig. O'r diwedd, yr oedd calon John wedi chwyddo yn rhy fawr o lawer i wisgo ei gadwynau yn hwy. Ryw ddiwrnod cymmerodd ei bwrs allan o'r gist, ac aeth drosodd i Ohio, a phrynodd chwarter cwmmwd o dir da, bras; rhoddodd bapyrau rhyddid i'w holl bobl—gwyr, gwragedd, a phlant; paciodd hwynt mewn gwagenni, a gyrrodd hwynt ymaith, i sefydlu yno; ac yna trodd John ei wyneb tua'r cwm, a sefydlodd yn dawel ar ffarm gryno, mewn lle anghysbell, i fwynhau ei gydwybod a'i fyfyrdodau.

"A ydych chwi'n ddyn a rydd nodded i wreigen dlawd a'i phlentyn, rhag helwyr y caethion?" ebe'r seneddwr, yn bendant.

"Yr ydw' i braidd yn meddwl fy mod," ebe John, y glân ei galon, gyda phwyslais.

"Yr oeddwn i 'n meddwl hynny," ebe'r seneddwr.

"Os daw rhywun," ebe'r gwr da, gan ymestyn ei gorph hir, gewynog tuag i fynu, "dyma fi'n barod iddyn nhw; ac y mae gennyf saith o fechgyn, bob un yn chwe' throedfedd; mi fyddan nhwtha'n barod iddynt. Cofiwch ni attyn nhw," ebe John, gan dynnu ei fysedd trwy'r ysgub o wallt oedd yn toi ei ben, a thorri allan mewn bonllef o chwerthin.

Ymlusgodd Eliza tua'r drws, â'i phlentyn yn cysgu yn drwm ar ei braich; daliodd y dyn garw y ganwyll wrth ei gwyneb, a chan fwngial rhyw sain tosturiol, agorodd ddrws ystafell wely fechan yn ymyl y gegin fawr lle yr oeddynt yn sefyll, ac amneidiodd arni i fyned i mewn. Goleuodd ganwyll, gosododd hi ar y bwrdd, ac yna cyfarchodd hi fel hyn:—

"Yrwan, glywi di, lodes, nid rhaid i ti ofni neb a ddaw yma, pwy bynnag a fo. Yr ydw' i'n gwybod am pobpeth fel hyn," eb efe, gan bwyntio at ddau neu dri o ynnau oedd ar y fantel simne; "ac y mae mae pawb sy'n f'adwen i yn gwybod na byddai'n iechyd i'w croen dreio cael neb allan o nhŷ i pan fydda i ynddo. Felly *'nawr* dos i gysgu, mor esmwyth a phe b'ai dy fam yn dy siglo," eb efe, a chauodd y drws.

"Un glws anghyffredin ydi hon," eb efe wrth y seneddwr.

"Ah, wel; gan y rhai clysaf y mae mwya o achos i ddiange weithiau, os bydd ganddynt deimlad yn y byd fel y dylai fod gan ferched symyl. Mi wn i'r cwbwl am hynny."

Mewn ychydig eiriau, eglurodd y seneddwr hanes Eliza.

"Ow, ow, ow! oni wn i'n burion!" ebe'r gwr da, yn dosturiol; "sho, 'rwan, sho! Dyna natur, welwch chi; y creadur tlawd! yn cael ei hela fel 'sgyfarnog—yn cael ei hela am fod ganddi hi deimladau mam, ac am 'neud peth na feder un math o fam beidio ei 'neud! Mi ddeuda i chi beth, y mae pethau fel hyn agos a gneud i ddyn dyngu," ebe John onest, gan sychu ei lygaid â chefn ei law fawr, felen, frech. Mi ddeuda i chi beth, wr diarth, mi fu'm i flynyddoedd a blynyddoedd yn peidio mynd i'r eglwys, am fod y gweinidogion o gwmpas ein lle ni yn pregethu fod y Beibil o du y pethau ofnadwy hyn; ac am nad oeddwn i fynu â nhw yn eu Groeg a'u Hebraeg, felly trois yn eu herbyn nhw, a'r Beibil, a'r cwbl. Ni ddarumi ddim mynd i'r eglwys nes i mi gael gweinidog ag oedd i fynu â nhw i gyd yn y Groeg a'r Hebraeg, a phobpeth, ac yr oedd o'n deud yn y gwrthyneb; ac wedi hyn cymmerais afael yn iawn, ac unais â'r eglwys—mi ddarum yn wir," ebe John, yr hwn oedd yr holl amser hwn yn ceisio tynnu'r corcyn o bottel seider tra bywiog, yr hon a osododd o'u blaenau.

"Fydda'n well i chwi dest roi i fynu gida ni heno, dan fydd hi'n ddydd," ebe efe, yn siriol, "ac mi alwaf yr hen wraig i fynu, a hi a wna wely yn barod i chwi yn y munud."

"Diolch i chwi, fy nghyfaill," ebe'r seneddwr, "y mae'n rhaid i mi fyned ymlaen, i gymmeryd y cerbyd nos i Columbus."

"Ah, wel, os rhaid i chwi fyned, mi af hefo chwi dippyn, a dangosaf i chwi groesffordd a'ch cymmer yn well ac yn nes na'r ffordd y daethoch. Ffordd ddrwg iawn yw honno."

Gwisgodd John am dano, a chyda lantern yn ei law, arweiniodd gerbyd y seneddwr tua ffordd oedd yn rhedeg i lawr i bant y tu cefn i'r tŷ. Pan oeddynt ar ymadael, rhoddodd y seneddwr bapyr deg dolar yn ei law.

"Iddi hi y mae hwnna," eb efe, yn fyr.

"Ie, ie," ebe John, gyda'r un byrdra.

Ysgydwasant ddwylaw, ac ymadawsant â'u gilydd.

PENNOD X.

YR EIDDO YN CAEL EI GYMMERYD YMAITH.

Yr oedd y bore yn Chwefror yn edrych yn llwydlas a gwlith-wlawog trwy ffenestr caban F'ewyrth Twm. Yr oedd yn edrych ar wynebau cymmylog, a chalonnau galarus. Y bwrdd bach yn sefyll o flaen y tân, â brethyn smwddio drosto; crys brâs glân neu ddau, newydd fod o dan yr haiarn, yn hongian ar gefn y gadair wrth y tân, ac yr oedd gan Modryb Cloe un arall wedi ei daenu o'i blaen ar y bwrdd. Yr oedd pob plygiad a gwrym yn cael ei rwbio â'r haiarn yn ofalus ac yn fanwl, ac yn awr ac yn y man cyfodai ei llaw at ei gwyneb i sychu ymaith y dagrau oedd yn treiglo i lawr ei gruddiau.

Yr oedd Twm yn eistedd yn ymyl, a'i Destament yn agored ar eilin, a'i ben yn gorphwys ar ei law; ond nid oedd yr un o honynt yn siarad. Nid oedd ond boreuol etto, a'r plant oll yn cysgu ynghyd yn eu gwely bach troliog.

Twm, yr hwn oedd ganddo galon orlawn o dynerwch a chariad teuluaidd—yr hyn hefyd, gwae iddynt! sydd nodweddiad neillduol yn perthyn i'w hiliogaeth annedwydd—a gododd i fynu, ac a gerddodd yn ddistaw i edrych ar ei blant.

"Dyma'r tro olaf," eb efe.

Nid attebodd Modryb Cloe un gair, ond dal i rwbio'r crys brâs drosodd a throsodd drachefn, er ei fod eisoes mor llyfn ag y gallai dwylaw ei wneud; ac o'r diwedd tarawodd yr haiarn i lawr yn fyrbwyll, eisteddodd wrth y bwrdd, "a chyfododd ei llef ac a wylodd."

"Mae'n debyg fod yn rhaid ymostwng; ond, O Arglwydd! pa sut y medraf? Pe bawn i'n gwybod i b'le wyt ti 'n myn'd, neu pa sut y trina nhw di! Y mae missis yn deud y gwneiff hi dreio dy brynu di ymhen blwyddyn neu ddwy; ond, Duw anwyl! nid oes neb yn dwad yn ol sy' wedi myn'd i lawr yno! Y mae nhw 'n eu lladd nhw. Glywis i sôn fel y mae nhw'n eu gweithio ar y planfeydd rheiny."

"Cloe, mi fydd yr un Duw yno ag sydd yma."

"Wel," ebe Modryb Cloe, "mae'n debyg y bydd! ond y mae'r Arglwydd yn gadel i bethau dychrynllyd hapio weithiau. Nid ydw' i 'n cael dim cymffwrt fel yna, rywsut."

"Yr ydw' i yn llaw yr Arglwydd," ebe Twm; "ni cheiff dim fyn'd ymhellach nag y gwneiff o adel iddo; ac, y mae *un* peth y medra' i ddiolch am dano. Y *fi* sy' wedi 'ngwerthu ac yn myn'd i lawr, a nid ti na'r plant. Yr ydych chi yn sâff yma; yr hyn a ddaw, arna' i daw; ac mi wna yr Arglwydd fy helpu i—mi wn y gwna."

Oh, y galon ddewr, wrol, yn celu ei thristwch ei hun, i gysuro ei anwylion! Yr oedd Twm yn siarad â llais bloesg, a chyda thagfa chwerw yn ei wddf—ond siaradodd yn ddewr ac yn gadarn.

"Gadewch i ni feddwl am ein trugareddau!" eb efe, yn grynedig, fel pe buasai yn gwybod yn sicr fod angen arno i feddwl am danynt yn ddwys.

"Trugareddau!" ebe Modryb Cloe, "dwy' i'n gweld dim trugaredd yn hyn! 'dydi ddim yn iawn! 'dydi ddim yn iawn ei bod felly! Ni ddylsai mas'r adael siawns i neb dy gymmeryd di am ei dd'lêd. Yr wyt ti wedi ynnill iddo ddwywaith gymmint ag a gaiff e am danat ti. Yr oedd yn dd'ledus arno roi i ti dy rydd-did, a dylsai ei roi flynyddoedd yn ol. F'allai na feder ei helpu ei hun yrwan, ond yr wy' i yn teimlo ei fod o'i le. Ni feder dim guro hynna all o hono i. Y fath gr'adur ffyddlon wyt ti wedi bod, bob amser yn gneud ei fusnes e o flaen dy fusnes dy hun bob ffordd, ac yn meddwl mwy am dano fo nac am dy wraig a dy blant dy hun! Y rhai sy'n gwerthu cariad calon a gwaed calon, i gael mynd yn rhydd o'u dryswch eu hunain, mi fydd yr Arglwydd i fynu â nhw!"

"Yn awr, Cloe! os wyt ti yn fy ngharu i, ni 'nei di ddim siarad fel yna, dest y tro ola' f'allai y byddwn gyda'n gilydd byth! Ac mi ddeuda i ti, Cloe, 'dydw' i ddim yn leicio clywed un gair yn erbyn mas'r. Oni rowd o yn y mreichia i yn fabi?—y mae natur yn gneud i mi feddwl llawer o hono fo. A 'doedd dim disgwyl iddo fo feddwl cymmint am Twm dlawd. Mae mistri wedi arfer cael gneud yr holl bethau hyn iddynt, ac yn natrol, nid ydynt yn meddwl cymmint am dano. Ni ellir disgwyl eu bod, mewn unffordd. Gosod o wrth ochor mistri erill—pwy a gafodd y fath driniad da a b'foliaeth ag a gefais i? Ac ni fasai fo byth yn gadel i hyn dd'od arna i pe b'asai yn medru ei wel'd ymlaen llaw."

"Wal, beth bynnag, y mae rhwbeth o'i le yn *rhwle*," ebe Modryb Cloe, yr hon oedd ganddi ryw syniad ystyfnig am gyfiawnder; "ni fedra' i ddim gwel'd yn iawn ym'hle, y mae rhyw gamwri yn rhwle, y mae hynny yn *glîr*."

"Mi ddylit ti edrych i fynu at yr Arglwyd sy' uwch ben; y mae ef yn uwch na phawb—nid oes aderyn tô yn syrthio hebddo."

"'Dydi o ddim fel yn fy nghymfforddio, ond y mae'n debyg y dylai," ebe Modryb Cloe. "Ond 'dydi ddim iws siarad; mi 'na' i dest wlychu teisen, a g'neud un brecwast da i ti, achos ni wyr neb pa bryd y cei di un arall."

Mewn trefn i ddeall yn iawn am ddioddefiadau y negröaid yn y dehau, mae'n rhaid cofio fod holl serchiadau greddfol yr hiliogaeth honno yn hynod o gryfion. Y mae eu hymlyniad a'u serch at gartref yn barhaus iawn. Nid ydynt o natur yn ëofn ac yn anturiol, ond y maent yn caru eu cartref ac yn serchlawn. Ychwaneger at hyn yr arswyd sy'n tarddu oddiar anwybodaeth am bethau anadnabyddus iddynt, a chwaneger at hyn etto, fod gwerthu i'r dehau yn cael ei osod o flaen y negro o'i fabandod fel y gospedigaeth dostaf. Y mae bygwth eu gyrru i lawr yr afon yn eu dychryn yn fwy na chwipio na phennyd o un math. Ni a'u elywsom ein hunain yn adrodd y teimlad hwn, a gwelsom yr arswyd diffuant â'r hwn yr eisteddant i chwedleua, a dywedyd streuon dychrynllyd am "lawr yr afon," yr hon iddynt hwy ydyw

"Yr oror dywyll, o gyffiniau'r hon
Ni ddychwel un ymdeithydd."

Dywedwyd i ni gan gennadwr ymhlith y fföaduriaid yn Canada fod amryw o'r fföaduriaid wedi cyffesu eu hunain eu bod wedi diange oddiwrth feistriaid go hynaws, ac iddynt, agos bob un, gael eu tueddu i wynebu peryglon ffoeddigaeth, oherwydd yr arswyd gorwyllt à'r hwn yr edrychent ar werthu i'r dehau—dedfryd ag oedd yn crogi uwch eu pennau eu hunain, neu eu gwragedd, neu eu plant. Y mae hyn yn cyfnerthu yr African âg eofnder arwraidd, ac yn ei arwain i ddioddef newyn, oerni, poen, peryglon yr anialwch,—a'r braw mwyaf oll, y perygl o gael ei ail-ddal.

Yr oedd y boreubryd yn awr yn mygu ar y bwrdd, canys yr oedd Mrs. Shelby wedi esgusodi Modryb Cloe rhag tendio yn y tŷ mawr y bore hwnnw. Yr oedd y greadures dlawd wedi treulio ei holl egni ar y wledd olaf hon—a lladd a thrin ei chyw iâr goreu, a pharottoi ei theisen boeth yn dra gofalus, yn union at flas ei gwr, ac wedi dwyn allan amryw gostrelau o gyffeithiau na ddefnyddid ond ar achosion neillduol.

"Dyn anwyl, Pete," ebe Mose, yn orfoleddus, "ond oes gennym frecwast ffamws!" ac ar yr un pryd yn ymaflyd mewn darn o'r cyw.

Rhoddodd Modryb Cloe fonclust iddo. "Cymmer hynyna!—yn bostio uwch ben y brecwast ola' y mae dy dadi druan yn gael cyn myn'd oddi cartre'!"

"O Cloe!" ebe Twm, yn dyner.

"Wal, 'does gen' i ddim help," ebe Cloe, gan guddio ei gwyneb yn ei ffedog; "yr ydwy' i 'n cal 'y nhosio gymmint o gwmpas, y mae'n peri i mi 'neud yn gas."

Safodd y bechgyn yn hollol lonydd, gan edrych yn gyntaf ar eu tad ac yna ar eu mam, a'r babi yn dringo i fynu ei dillad, a ddechreuodd grïo yn awdurdodol.

"Dyna!" ebe Modryb Cloe, gan sychu ei llygaid a chymmeryd y babi i fynu; "yr ydwy' i wedi darfod 'rwan, gobeithio—gna fytta rhywbeth. Fy nghyw iâr gore ydi hwn. Dyna, fechgyn, gewch chwithau beth, y cyrduriaid tlodion! Mae eich mammi wedi bod yn groes."

Nid oedd ar y plant ddim eisiau ail wahoddiad, a llyngcasant y bwyd gydag awch wangcus; a da oedd eu bod yn gwneud felly, pe amgen ni buasai ond ychydig wedi cael ei wneud yn y ffordd honno gan y teulu.

"'Rwan," ebe Modryb Cloe, gan ffwdanu o gwmpas ar ol boregwest, "y mae'n rhaid i mi neud i fynu dy ddillad. Y mae'n ddigon tebig y cymmer e nhw i gyd i ffwrdd. Yr ydw i'n gwybod eu ffordd nhw—rhai bawaidd ydyn nhw! Wal, 'rwan, y mae dy wlanenni rhag y rhewmatis yn y gornel yma; felly, bydd yn ofalus; ni wneiff neb yr un i ti etto. Ac yma y mae dy hen grysau, a dyma'r rhai n'w'ddion. Rois i draed yn y sana yma neithwr, a'r bellen ynyn nhw i'w mendio. Ond, dyn a dy helpo, pwy a'u mendia?" A Modryb Cloe, yn colli'r dydd etto, a roes ei phen ar ochr y bocs, ac a wylodd. "Wrth feddwl am hynny! dim un cr'adur i dendio arnat, yn sâl nac yn iach! Yn wir,' dydw i ddim yn meddwl y dylwn i fod yn dda, rwan!"

A'r bechgyn, ar ol bwytta pobpeth oedd ar y bwrdd, a ddechreuasant feddwl rhywfaint am y peth; ac wrth weled eu mam yn crïo, a'u tad yn edrych yn drist iawn, dechreuasant hwythau grïo a rhoddi eu dyrnau yn eu llygaid. Yr oedd y babi gan F'ewyrth Twm ar ei lin, ac yr oedd yn gadael iddi ymlawenhau i'r eithaf, cripio ei wyneb, a thynnu ei wallt, ac weithiau yn torri allan mewn crochlef o hyfrydwch, yn codi, yn ddiammau, oddiar ei myfyrdodau tumewnol ei hun.

"Ie, gorfoledda, y cr'adur tlawd! mi ddoi ditha iddi hefyd! ddoi ditha i weld dy ŵr yn cael ei werthu, neu hwyrach cael dy werthu dy hun; a'r bechgyn yma, f'allai y can nhwtha eu gwerthu hefyd, mae'n ddigon tebyg, pan ddon nhw yn werth rhwbeth; dim iws fod gan niggers ddim yn y byd!"

Yma gwaeddodd un o'r bechgyn, "Dyma missis yn dwad!"

"Feder hi neud dim d'ioni; i be mae hi'n dwad?" ebe Modryb Cloe.

Daeth Mrs. Shelby i mewn. Gosododd Modryb Cloe gadair iddi, yn sarrug ac afrywiog. Ond nid oedd yn ymddangos megys wedi sylwi ar y weithred na'r dull. Yr oedd yn edrych yn llwyd ac yn bryderus.

"Twm," ebe hi, "yr wyf fi wedi dyfod i—" a chan stopio yn sydyn a syllu ar y teulu distaw, hi a eisteddodd i lawr yn y gadair, cuddiodd ei gwyneb yn ei hancas, a dechreuodd wylo.

"O dyn, missis, peidiwch—peidiwch, rwan!" ebe Modryb Cloe, a thorrodd hithau allan; ac am ychydig wylasant oll gyda'u gilydd. Ac yn y dagrau hynny a dywalltasant ynghyd, yr uchel a'r isel, toddodd ymaith wg a chwerwder calon y gorthrymedig. O! chwi sy'n ymweled â'r trallodedig, a wyddoch chwi nad yw pobpeth a eill eich arian ei brynu, os rhoddir â gwyneb oeraidd, yn werth cymmaint ag un deigryn gonest a dywelltir mewn gwir gydymdeimlad?

"Fy machgen anwyl," ebe Mrs. Shelby, "ni fedraf fi roi dim a wna les i ti. Os rhoddaf i ti arian, fe'u cymmerir oddi arnat. Ond yr wyf

fi'n dweyd yn ddifrif, ac o flaen Duw, y cadwaf fi fy ngolwg arnat, ac y mynnaf di adref yn ol mor fuan ag y medraf ddyfod o hyd i'r arian; a hyd hynny, ymddiried yn Nuw!"

Yma gwaeddodd y bechgyn allan fod Mas'r Haley wedi dyfod. Taflodd hwnnw'r drws yn agored gyda chic, a safodd yno mewn natur hynod o ddrwg, wedi marchogaeth yn galed y noswaith o'r blaen, ac yn dra ffyrnig am iddo fethu dal ei ysglyfaeth.

"Tyr'd, wyt ti 'n barod, nigger? Gyda'ch cennad, ma'am!" eb efe, gan dynnu ei het, pan ganfu Mrs. Shelby. Ar ol i Modryb Cloe gau a chordio'r bocs, hi a gododd i fynu, ac a edrychodd yn ddigllon ar y masnachwr, â'i dagrau yn ymddangos megys wedi troi yn wreichion o dân.

Cododd Twm i fynu yn llariaidd, i ddilyn ei feistr newydd, a chododd ei gisten ar ei ysgwydd. Cymmerodd ei wraig y babi yn ei breichiau i fyned gydag ef at y wagen, a'r plant, yn parhau i grïo, yn ymlusgo ar ei hol.

Aeth Mrs. Shelby, i fynu at y masnachwr, a daliodd ef am ychydig funudau, yn ymddiddan mewn modd difrifol; a phan oedd hi yn ymddiddan fel hyn, aeth yr holl deulu ymlaen tua'r wagen, yr hon oedd yn sefyll yn barod. Yr oedd tyrfa o'r holl bobl ar y lle, hen ac ieuange, wedi ymgasglu o'i chwmpas, i ffarwelio â'u hen gyfaill. Edrychid ar Twm gan bawb o gwmpas fel pen gwas yn gystal ag athraw Cristionogol, ac yr oedd llawer o alar a chydymdeimlad diffuant o'r herwydd, yn enwedig ymysg y merched.

"Wal, Cloe, yr wyt ti 'n dal i fynu yn well na ni!" ebe un o'r merched, yr hon oedd wedi bod yn wylo yn hidl, gan sylwi â'r fath brudd-der tawel yr oedd Modryb Cloe yn sefyll wrth y wagen.

"Y mae fy nagrau i wedi darfod!" ebe hi, gan edrych yn wgus ar y masnachwr, yr hwn oedd yn dyfod i fynu. "'Does arna' i ddim eisio crïo o flaen yr hen gena' yna, beth bynnag!"

"Dos i mewn!" ebe Haley wrth Twm, fel yr oedd yn llammu trwy y dorf o weision, y rhai a edrychent arno yn guchiog.

Aeth Twm i mewn, a Haley, gan dynnu allan bâr o efynnau trymion o dan eisteddle y wagen, a'u gosododd yn dynnion am ei ddwy ffêr.

Yr oedd ucheneidiau tagedig o ddigllonedd yn rhedeg trwy yr holl gylch, a gwaeddodd Mrs. Shelby oddiar y verandah,

"Mr. Haley, gallwch gymmeryd fy ngair i fod y gofal yna yn hollol afreidiol."

"Nis gwn i mo hynny, ma'am; mi gollis i bum' can' dolar o'r lle yma, ac ni fedra' i ddim fforddio rhedeg i ddim chwaneg o berygl."

"Beth amgen all'sech ddisgwyl oddi'wrtho fo?" ebe Modryb Cloe, yn ddigllon; a'r ddau fachgen, y rhai oeddynt yn awr yn dechreu amgyffred ar unwaith pa beth oedd tynged eu tad, a ddaliasant afael yn ngown eu mam, gan ochneidio a gruddfan yn dôst.

"Mae'n ddrwg gennyf," ebe Twm, "nad ydi Mas'r George ddim yma."

Yr oedd George wedi myned i dreulio deuddydd neu dri gyda chydymaith ar stât yn y gymmydogaeth, ac am ei fod wedi ymadael yn fore iawn, cyn i anffawd Twm ddyfod yn gyhoeddus, aethai ymaith heb glywed am hynny.

"Cofiwch fi at Mas'r George," ebe Twm, yn ddifrifol.

"Chwipiodd Haley y ceffyl, a chydag edrychiad diysgog a galarus, ac yn dal ei lygad hyd y diwedd ar yr hen le, chwyrn-yrrwyd Twm druan i ffordd.

Y pryd hwn yr oedd Mr. Shelby oddi cartref. Yr oedd wedi gwerthu Twm o dan orfodaeth angenrheidrwydd llym, i ddyfod yn rhydd o grafangau dyn a arswydai, a'i deimlad cyntaf ar ol gwneud y fargen ydoedd math o ymwared. Ond deffröwyd ei edifeirwch hanner cysgiyd gan edliwiadau ei wraig; ac ychwanegwyd anesmwythder ei deimladau gan ffyddlondeb Twm. Ofer oedd iddo ddywedyd wrtho ei hun fod ganddo *hawl* i wneud hynny, fod pawb yn ei wneud, a bod rhai yn gwneud felly heb un esgus o angenrheidrwydd; ni fedrai foddloni ei deimladau ei hun; ac fel na byddai yn dyst i'r olygfa annymunol yn y diwedd, aethai ar ryw neges i fynu i'r wlad, gan obeithio y byddai pobpeth drosodd erbyn ei ddychweliad.

Gyrrodd Twm a Haley yn gyflym ar hyd y ffordd lychlyd, gan chwyrnellu heibio i bob lleccyn cynnefin, nes myned yn deg dros derfynau 'r stât, a dyfod i'r brif-ffordd. Wedi gyrru oddeutu milldir, tynnodd Haley i fynu yn sydyn wrth ddrws gefail gof, a chan gymmeryd pâr o lyffetheiriau gydag ef, picciodd i'r efail, i wneud ychydig o gyfnewidiad ynddynt.

"Y mae rhein yn dippyn rhy fychain iddo fo," gan ddangos y llyffetheiriau, a phwyntio at Twm.

"Gwarchod ni! onid Twm Mr. Shelby yw hwnna. Ni ddaru o ddim ei werthu?" ebe'r gôf.

"Do, mi ddaru," ebe Haley.

"Tewch a deyd! Wel, yn wir; pwy f'asai yn meddwl;" ebe'r gôf. "'Dydych chi ddim yn mynd i lyffetheirio fo fel hyn. Y cr'adur gore, ffyddlona—"

"Ie, ie," ebe Haley; "ond eich gweilch da ydi dest y cyrduriaid sydd eisio rhedeg i ffwrdd. Y pethau dylion hynny, na waeth gennyn' nhw i ble 'r ânt, a'r rhai difedr, meddwon, na waeth gennyn' nhw am ddim yn y byd, mi lynan' wrthych, ac y mae braidd yn dda gennyn' nhw gael eu maeddu o gwmpas; ond y bechgyn brâf yma, y mae nhw yn 'i gashau fel pechod. 'Does dim ffordd ond 'i cadwyno nhw; y mae gennyn' nhw draed—ac mi wna'n ddeunydd o honynt, a dim cam-gymmeriad."

"Wel, wr diarth," ebe'r gôf, gan chwilio ymysg ei gelfi, "lle go ddrwg i niggero Kentuck i fyned iddo ydi y planfeydd i lawr yna; y maent yn marw yn o ffast, ond ydyn nhw?"

"Wel, ydyn', y mae nhw'n marw yn o ffast; rhwng y cleimat a'r

naill beth a'r llall y mae digon yn marw i gadw i fynu'r farchnad yn led fywiog," ebe Haley.

"Wel, rwan, nis geill dyn beidio meddwl fod yn bitti garw wel'd bachgen pert, hardd, a llonydd, fel Twm yna, yn myn'd i lawr i gael ei falu yn deg yn y planfeydd siwgwr."

"Wel, y mae ganddo siawns dda. Yr ydw' i wedi addo gneud rhyw-beth drosto. Mi ga' i le iddo i fod yn was mewn rhyw hen deulu da, ac yna os gwneiff o sefyll y clefyd melyn a'r cleimat, mi geiff gystal lle ag a ddyla un nigger ddisgwyl gael."

"Y mae wedi gadel ei wraig a'i blant i fynu yma, mae'n debyg?"

"Ydi; ond mi geiff un arall yno. Dyn a'ch helpo, y mae digon o ferched ymhob man," ebe Haley.

Yr oedd Twm yn eistedd yn drist iawn y tu allan i'r efail tra bu yr ymddiddan yma yn myned ymlaen. Yn ddisymmwth clywai glic buan byr carn ceffyl o'r tu ol iddo; a chyn iddo ddeffroi yn iawn o'i syndod, neidiodd Mas'r George ieuange i mewn i'r wagen, a thaflodd ei freichiau am ei wddf, gan grïo a dwrdio â'i holl egni.

"Yr ydw' i yn dweyd mai tro bawaidd ydyw! Ni waeth gen' i beth a ddwed neb, yr un o honynt! Tro gwael, budr! Pe bawn i yn ddyn ni chaent ei wneud—ni chaent wneud *felly!*" ebe George, gyda rhyw udfa led-ddistaw.

"O, Mas'r George! y mae hyn yn gneud lles i 'nghalon i!" ebe Twm. "Nid allwn i aros myn'd i ffwrdd heb eich gweled chi! Choeliech ddim gymmint o dd'ioni y mae'n neud i mi!"

Yma symmudodd Twm ychydig ar ei draed, a syrthiodd llygaid George ar y gefynnau.

"Rhag cywilydd!" ebe George, gan godi i fynu ei ddwylaw. "Mi darawa i yr hen gena' yna yn ei dalcen—mi wnaf!"

"Na 'newch, Mas'r George; a rhaid i chi beidio siarad mor uchel. Ni wneiff 'i ddigio fo fod o ddim help i mi."

"Wel, ynte, ni wnaf, er dy fwyn di; ond meddwl am dano—onid ydyw yn gywilydd? Ni ddarfu nhw ddim gyrru atta' i, nac anfon gair, ac oni b'asai Tom Lineon, ni chawswn glywed dim. Mi ddar'u mi ei rhoi hi iddyn' nhw i gyd gartref!"

"Mae arna' i ofn nad oedd hynny yn iawn, Mas'r George."

"Does gen' i ddim help! yr ydw' i yn d'eyd fod yn g'wilydd! Edrych yma, F'ewyrth Twm," eb efe, gan droi ei gefn at yr efail, a siarad mewn tôn gyfrinachol, "*Mi ddois i a nolar gyda mi!*"

"Oh! ni fedra i ddim meddwl ei gym'ryd, mewn modd yn y byd, Mas'r George," ebe Twm, yn gyffröedig.

"Ond y mae'n *rhaid* i ti ei gym'ryd!" ebe George. "Edrych yma, dd'wedais i wrth Modryb Cloe y gwnawn i, ac mi ddaru hi beri i roi dorri twll ynddo, a rhoi llinyn trwyddo i'w hongian am dy wddf, a'i gadw o'r golwg; onite y mae'r dihiryn yma yn ddigon bawaidd i'w

gymmeryd oddi arnat. Yr ydw' i yn dweyd i ti Twm, y mae arna' i eisio rhoi tafod drwg iddo! fe wnai les i mi!"

"Na, peidiwch, Mas'r George; ni wneiff hynny ddim d'ioni i *mi*."

"Wel, ni wna' i ddim, er dy fwyn di," ebe George, gan rwymo 'r dolar o amgylch gwddf Twm, yn brysur; "dyna ti, yrwan bottyma dy gôt yn dyn drosto, a chadw ef, a chofia, bob tro y gweli di ef, y deuaf fi i lawr ar dy ol di, i dy gymmeryd yn ol. Y mae Modryb Cloe a minnau wedi bod yn siarad o'i gwmpas. Ddywedais i wrthi am beidio ofni; mi edrychaf fi ar ol hyn, ac mi blagia einioes fy nhad allan o hono, os na wneiff e."

"O Mas'r George, ni wiw i chwi siarad fel yna am eich tad!"

"Dyn anwyl, F'ewyrth Twm, nid wyf fi yn meddwl dim drwg."

"Ac rwan, Mas'r George," ebe Twm, "y mae'n rhaid i chwi fod yn fachgen da; cofiwch gymmint o galonnau sy' wedi eu gosod arnoch chi. Cadwch yn agos at y'ch mam bob amser. Peidiwch myn'd i'r ffyrdd ffol sy' gen rai bechgyn o feddwl eu hunain yn rhy fawr i hidio eu mammau. Ydw' i yn deyd i chwi Mas'r George, y mae'r Arglwydd yn rhoi llawer o bethau ddwywaith drosodd; ond nid ydi o yn rhoi mam ddim ond unwaith. Ni welwch chi byth y fath ddynes, Mas'r George, pe byddech byw i gant oed. Felly, rwan, daliwch chi wrthi hi, a thyfwch i fynu, a byddwch yn gymffwrt iddi, fy machgen da i—mi 'newch felly, oni 'newch?"

"Gwnaf, yn siccir, F'ewyrth Twm," ebe George, yn ddifrifol.

"A byddwch yn ofalus am eich siarad, Mas'r George. Mae bechgyn ifangc, wedi dyfod i'ch oed chwi, yn gyndyn weithiau—y mae'n natrol iddynt fod. Ond nid yw bonddigions iawn, a gobeithio y byddwch chwithau yn un felly, byth yn d'eyd gair amharchus wrth eu rhieni. 'Dydych ddim wedi digio, Mas'r George?"

"Nac ydwyf yn wir, F'ewyrth Twm; fyddit ti bob amser yn rhoi cyngor da i mi!"

"Yr ydwy' i yn hynach na chwi, mi wyddoch," ebe Twm, gan dynnu ei law fawr gref ar hyd ben crych clws y bachgen, ond â llais mor dyner a merch, "ac yr wy' i'n gwel'd y cwbwl sy' ynoch chwi. O Mas'r George, y mae gennych chi pob peth—dysgeidiath, breintiau, darllen, 'sgrifennu —a thyfwch i fynu yn ddyn mawr, dysgedig, a da, a bydd yr holl bobol ar y lle, a'ch tad, a'ch mam mor falch o honoch! Byddwch yn fas'r da fel eich tad, a byddwch yn Gristion fel eich mam. Cofiwch eich Creawdwr yn nyddiau eich iengetid, Mas'r George."

"Mi fyddaf fi yn dda iawn, F'ewyrth Twm, yn shwr i ti," ebe George. "Yr ydw' i am fod yn ddyn anghyffredin; a phaid â digalonni. Mi fynnaf fi di yn ol i'r lle etto. Ac fel y d'wedais wrth Modryb Cloe y bore heddyw, mi adeilada dy dŷ i gyd drosto, a thi a gei ystafell i fod yn barlwr, a charped arno, pan ddo' i yn ddyn. Oh, mi gei di weled amser da etto!"

Yn awr daeth Haley i'r drws, â'r llyffetheiriau yn ei law.

"Gwrandwch, syr," ebe George, gydag ymddangosiad hynod o oruchel, fel yr oedd yn dyfod allan, "mi ddwedaf fi wrth nhad a mam fel yr ydych yn trin F'ewyrth Twm!"

"Mae i chwi groeso," ebe'r masnachwr.

"Mi 'ddyliwn y dylai fod arnoch gywilydd i dreulio eich holl fywyd yn prynu dynion a merched, ac yn eu cadwyno fel anifeiliaid! Mi feddyliwn i eich bod yn teimlo eich hun yn ddiystyrllyd!" ebe George.

"Cyd ag y b'o ar eich pobol fawr eisio prynu dynion a merched, yr ydw' i gystal a hwythau," ebe Haley; "'Dyw ddim mwy diystyrllyd eu gwerthu nac ydi eu prynu!"

"Ni wna i y naill na'r llall, pan ddelwyf fi yn ddyn," ebe George. "Y mae'n g'wilydd gennyf heddyw fy mod yn un o fechgyn Kentucky. Yr oeddwn yn falch o fod, bob amser o'r blae'n;" ac eisteddodd George yn syth iawn ar ei geffyl, ac edrychodd o'i gwmpas fe pe buasai yn disgwyl y gwnai ei farn effaith ar yr holl dalaeth.

"Ffarwel, F'ewyrth Twm; cadw dy ben i fynu," ebe George.

"Ffarwel, Mas'r George," ebe Twm, gan edrych yn hoffus ac yn barchedig arno. "Duw Hollalluog a'ch bendithio! Ah! 'Does yn Kentucky ond 'chydig o bobol fel chwi!" eb efe, o gyflawnder ei galon, fel yr oedd y gwyneb gonest, bachgenaidd yn diflanu o'i olwg. Ymaith âg ef, ac edrychodd Twm hyd nes oedd sŵn carnau y ceffyl yn myned o'i glyw—y sŵn a'r olygfa olaf yn perthyn i'w gartref. Ond yr oedd lleccyn cynnes ar ei galon, lle y gosodasai y dwylaw ieuainge y dolar gwerthfawr. Cododd Twm ei law i fynu, a daliodd hi'n dynn ar ei galon.

"'Rwan, mi dd'weda i ti, Twm," ebe Haley, gan nesâu at y wagen, a thaflu y llyffetheiriau i mewn; "yr ydw' i am startio yn deg gyda thi, fel y bydda i'n g'neud yn gyffredin efo'm niggers; ac yr wy' i 'n d'eyd i ti rwan, yn y dechre, os gnei di 'nhrin i'n deg, mi 'na inna dy drin ditha' yn deg; nid ydw' i byth yn greulon wrth fy niggers. Ceisio gneud drostyn' nhw y gore a fedraf. 'Rwan, wel'di, mae'n well i ti dest settlo dy hun yn gyfforddus, a pheidio treio tricia; yr ydw' i fynu â holl dricia 'r niggers, a dydyw ddim iws treio. Os bydd niggers yn llonydd, ac yn peidio ceisio myn'd i ffwrdd, mi gân' fyd da gyda mi; ond os na wnânt, eu bai nhw ydyw, nid fy mai i."

Dywedodd Twm wrth Haley nad oedd, yn sier, yn meddwl yn awr am redeg ymaith. Yn wir, yr oedd y cyngor yn ymddangos yn lled afreidiol i ddyn â gefynnau cryfion am ei draed. Ond yr oedd Haley wedi myned i ryw arferiad o ddechreu ei gydnabyddiaeth â'i eiddo dynol gyda rhyw annogaethau o'r fath yma, y rhai, yn ei farn ef, a duedden i beri sirioldeb a hyder, ac i luddias yr angenrheidrwydd o unpeth anhyfryd.

Ac yma, yn bresennol, yr ydym yn ffarwelio â Thwm, gan fyned i ddilyn helyntion rhai eraill yn ein chwedl.

PENNOD XI.

YN MHA UN Y MAE EIDDO YN SYRTHIO I FEDDWL ANFODDLON.

Yr oedd braidd yn hwyr, ar ddiwrnod gwlybyrog, pan ddisgynodd teithiwr wrth ddrws tŷ tafarn yn mhentref N——, yn Kentucky. Yn yr ystafell ddiotta, efe a gafodd gwmpeini cymmysg, wedi troi i mewn i ochel y gwlaw, ac yr oedd yno olygfa a geir yn gyffredin yn y fath le, dan gyffelyb amgylchiadau. Kentuckiaid mawr, tal, esgyrnog, mewn gwisgiad helwriaeth, yn llusgo eu cymmalau dros diriogaethau anferth eu maint, a'u hosgo yn rhongc a di-lun—gynnau yn un pentwr yn y gongl, fflasciau powdwr, cydau helwriaeth, cŵn hela, a negroaid bychain yn y cornelau—oedd prif hynodrwydd y darlun. Un ochr i'r aelwyd eisteddai clummach hirgoes, ei gadair yn gogwyddo yn ol, ei het am ei ben, a sodlau ei fottasau budron yn addurno mantel y simne—ystum (dylem ddweyd i'n darllenwyr) ffafriol iawn i dueddfryd tafarndai'r gorllewin, lle mae teithwyr yn dangos parodrwydd hynod i godi eu sodlau i'r gwynt yn lle hurtio â'u pennau ynddo.

O'r tu ol i'r bar safai gwr y tŷ, yr hwn, fel ei gydwladwyr yn gyffredin, oedd fawr o gorpholaeth, da ei natur, ystwyth o gymmalau, a llwyn o wallt ar ei ben, a het â choryn hir ar ben hynny.

Mewn gair, yr oedd pob un yn yr ystafell yn dwyn ar ei goryn nod unbennaeth dyn, pa un bynnag ai het ffelt, deilen palmwydden, befer seimlyd, neu het newydd spon oedd ganddo, dyna'r lle safai mewn gwir annibyniaeth republicanaidd. Yn wir, yr oedd yr het yn fynegfys i garacter y dyn. Gwisgid hi gan rai yn ysgyffala ar ochr y pen—gweilch llon eu llygaid, siriol eu hwynebpryd, glân eu calon, oedd y rhai hyn; tynnid hi gan eraill i lawr dros eu llygaid—dynion trymion, drwodd a thraw, dim lol, ond yn gwisgo'u hetiau o ddifrif, oedd y rhai hyn; eraill drachefn a'i gwisgent ar eu gwegil—dynion llygad-agored, ac eisiau gweled ymhell; a thrachefn, rhai ysmala, heb wybod na gofalu sut y byddai'r het yn eistedd, ond gadael iddi droi ac ysgwyd yma a thraw fel y digwyddai. Yn wir, yr oedd yr hetiau yn ddigon o wers i philosophydd.

Gwelid yno nifer o negroaid, yn myn'd ac yn dwad, mewn llodrau llac a llaes, a lled lymllyd o ran crysau, heb wneud dim yn y byd yn neilldnol, oddieithr dangos pob parodrwydd i droi a thwmblo'r holl greadigaeth o'r naill ben i'r llall, er mwyn mas'r a'i westwyr. Ac ychwaneger at hyn oll, dân coed goleu, yn fflamio, craccio, a gwreichioni i fynu i'r simne—a drws y tŷ a phob ffenestr yn llydan agored, a'r curtains yn

whippio ac yn snappio yn y gwynt llaith oer—yna bydd gennych ryw draws-amcan o ddull a modd cegin tafarn yn Kentucky.

Mae'r Kentuckiad hyd heddyw yn esponiad rhagorol o'r athrawiaeth o drawsfudiad tymherau a thueddiadau. Heliwr cadarn oedd ei dad—un yn byw yn y goedwig, ac yn cysgu dan awyrgylch y nef, a'r ser yn dal canwyll iddo; ac y mae ei fab yr un fath fyth a hefyd, yn ymddwyn fel pe na b'ai ei dŷ ond gwersyll—yn gwisgo ei het bob amser, ac yn codi ei sodlau ar gefn y gadair neu'r fantel simne, yr un fath ag y byddai ei dad yn rholio ar y glaswellt, ac yn gosod ei draed ar goed a chyffion—cadw'r drysau a'r ffenestri yn agored haf a gauaf, fel y gallo gael digon o awyr i'w gylla mawr—yn galw pawb a gyferfydd yn "wr dieithr," gyda chroeso calon, ac y mae'r creadur mwyaf hywaeth, rhwydd, a glân ei galon ag a anwyd i'r byd erioed.

I ganol y fath gwmpeini difyr a hwnyna y disgynodd ein trafaeliwr. Dyn bychan lled ffurf ydoedd, a'i ddillad am dano'n drwsiadus, a gwyneb pryd crwn, siriol, a da ei natur, ond yn ei ymddygiad yn orofalus, ac yn penderfynu cael ei ffordd ei hun. Cymmerai ofal mawr o'i fwndel a'i umbrela, y rhai a ddygodd i mewn yn ei law, ac ni chymmerai help gan neb, er fod y gweinidogion yn ceisio'n daer. Taflodd ei olwg dros yr ystafell braidd yn bryderus, ac wedi cael allan y gongl fwyaf clyd, efe a eisteddodd, ac a ddododd ei gelfi dan y gadair, gan edrych yn lled amheus ar y teilwng oedd a'i sodlau ar y fantel, yr hwn a boerai trwy ei ddannedd, ar dde ac ar aswy, mor rymmus ac egniol ag i ddychrynu pobl weiniaid, a gofalus am eu dillad.

"Wel, y gwr diarth, sut y mae chi?" ebe'r gwr â'i sodlau i fynu, gan boeri cyfarchiad o sudd tobacco i gyffiniau'r dyn oedd newydd eistedd.

"Yn iach, diolch i chwi," ebe yntau, gan ysgoi yn lled sydyn rhag cael ei daro â'r ergyd o sudd tobacco.

"Dim newydd?" ebe'r llall, gan dynnu darn o dobacco a chloben o gyllell o'i bocced.

"Dim neillduol, am wn i," ebe'r dyn.

"Shaw?" meddai'r cyntaf, gan estyn tammaid o dobacco i'r hen wr, mewn dull ac agwedd hollol frawdol.

"Dim, diolch i chwi, nid yw ddim yn cyttuno à mi," ebe'r dyn bychan, gan nesu draw.

"Ho, felly," ebe'r mawr, yn ddifatter; a tharawodd y tammaid yn ei geg ei hun, i barottoi rhagor o sudd, er lles y cyffredin.

Bob tro y saethai'r hirgoes ei boeryn tua chornel yr hen wr, fe neidiai hwnnw gan ofn; a phan welodd y saethwr hynny, efe a drodd ei fwa ffordd arall, ac a ddaliodd i bledru'r efail dân fel pe buasai yn gwarchae dinas gaerog.

"Beth ydyw hwnyna?" ebe'r hen wr, pan welodd dwr o'r cwmpeini yn darllen rhyw bapyr ar y pared.

"Hyspysiad am nigger," ebe un o'r cwmpeini, yn lled gwtta.

Yna cyfododd Mr. Wilson, oherwydd dyna oedd enw'r hen wr, ac ar

ol edrych a oedd ei fwndel a'i umbrela yn ddiogel, a thynnu ei spectol allan yn arafaidd, a'i gosod ar ei drwyn, efe a ddarllenodd fel hyn:—

" Wedi diangc oddiar y tanysgrifiwr, fy mulatto, George. Mae'r George rhagddywededig yn chwe' throedfedd o daldra, o liw pur oleu, a gwallt rhudd, cyrliog; mae'n bur ddeallus, yn siaradwr da, ac yn medru darllen ac ysgrifenu; mae'n ddigon tebyg o basio fel dyn gwyn; mae creithiau ar ei gefn a'i ysgwyddau, ac y mae'r llythyren H wedi ei llosgi â haiarn poeth ar ei law ddehau.

" Mi rof fi bedwar can' dolar am dano yn fyw, a'r un swm am brawf boddhaol ei' fod yn farw."

Darllenodd yr hen wr yr hyspysiad yma drwyddo o'i ddechreu i'w ddiwedd, mewn llais isel, fel pe buasai yn ei astudio.

Yna cyfododd yr hirgoes fuasai yn gwarchae ar yr efail dân, fel yr adroddwyd yn barod, ac ar ol hel ei gymmalau ynghyd, ac ymsythu, efe a gerddodd at yr hyspysiad ac a boerodd lon'd ei geg o sudd tobacco arno.

" Dyna marn i am dano fo," eb efe, gan eistedd i lawr drachefn.

" Holo, gwr diarth, be ydi hyna da?" ebe gwr y tŷ.

" Mi gawsa'r dyn sgyfenodd o'r un peth, pedasa fo yma," ebe'r hirddyn, gan ail ddechreu torri tobacco, yn hollol ddifatter. " Mae undyn fo â bachgen fel hwn ganddo, ac na wŷr ddim gwell ffordd i'w drin na 'nyna, yn *haeddu* ei golli. Mae'n g'wilydd ac yn warth i Kentucky fod y fath bapyrau a nyna ar y parwydydd; dyna marn i, os oes ar neb eisio gwybod."

" Wel, 'rwan, dyna'r gwir," ebe gwr y tŷ, ac efe a'i hysgrifenodd yn ei gof-lyfr.

" Mae gen i gang o fechgyn," ebe'r dyn tal, gan ail-ddechreu ei ymosodiad ar yr efail dân, " a meddaf fi wrthyn nhw, ' Mechgyn i, *rhedwch* 'rwan, ceibiwch, palwch, carthwch, plannwch, gwnewch y peth fyd a fynnoch chi! Ni ddo i ddim i edrych ar 'ch hola chi." Dyna fel 'rydw i yn cadw mechgyn. G'dewch iddyn nhw wybod y gallan nhw gymryd y goes, os byddan nhw'n dewis, yna fydd arnyn nhw ddim blys d'engyd. A mwy na'r cwbwl i gyd, mae gen i bapyrau yn barod, ac yn llaw'r twrne, i roi rhyddid i bob un o honyn nhw, os digwydd rhyw anghaffael i mi rywdro, ac mi wyddan hynny'n burion. 'Rwan, mi ddeuda i chi beth, y gwr diarth, nid oes yr un dyn yn ein cymmydogaethau ni yn cael mwy allan o'i niggars nag ydw i. Mi fu mechgyn i yn Cincinnati â gwerth pum can' dolar o ebolion, drachefn a thrachefn, ac mi ddaethon a'r arian adre i'r ddima. Mae'n sefyll wrth reswm y g'nan nhw. Trinwch nhw fel cwn, ac mi na'n droion a chastiau cwn. Trinwch nhw fel dynion, ac mi ymddygan fel dynion." Ac fe seliodd y porthmon gonest ei olygiad moesol hwn â chawod o bistylloedd at yr efail dân.

" Yr wyf fi o'r farn, syr, eich bod chwi ynghanol eich lle," ebe Mr. Wilson, " ac y *mae'r* bachgen yna yn llangc digyffelyb—dim camgymmeriad yn ei gylch. Fe fu'n gweithio yn fy ffactri i am chwe blynedd, syr, ac efe oedd y dyn goreu o'i mewn. Mae yn fachgen cywrain ryfeddol, hefyd. Fe ddyfeisiodd beiriant i lanhâu hemp—un hynod o ddefn-

yddiol; mae wedi ei osod i fynu mewn llawer ffactri. Ac y mae ei feistr yn dal y patent o hono hyd heddyw."

"Ydi, mi gwrantaf fo," ebe'r porthmon, "yn ei ddal ac yn gneud arian o hono, ac wedi hynny yn troi ac yn marcio'r bachgen yn ei law ddehau. Pe cawn i ddim ond cyfle, mi ro'wn i fy marc arno yntau, na chai fo ddim gwared o hono ar frys, neu 'rydw i'n camgymmeryd yn rhyfeddol."

"Mae'r bechgyn yma sy'n gwybod tippyn yn bur anodd ymhel â nhw, ac yn bur sossi, 'n gyffredin," ebe rhyw greadur dideimlad o'r ochr arall i'r ystafell: "dyna'r p'am maen' nhw'n cael eu curo a'u baeddu. Ni chaen nhw ddim pe baen' nhw'n behafio eu hunain."

"Cystal a deyd fod yr Hollalluog wedi gwneud nhw'n ddynion, ac mai gwaith caled ydi tynnu nhw i lawr i fod yn anifeiliaid," ebe'r porthmon, dros ei ysgwydd.

"Nid ydi niggars deallus ddim lles yn y byd i'w meistradoedd," ebe'r llall, oherwydd yr oedd yn rhy bendew a chroendew i deimlo awch atteb-iad llym y porthmon, "Pwy les ydi talentau a phethau o'r fath, os na fedrwch gael y defnydd o honyn nhw i chwi'ch hunan. Myn'd dros eich pen chi ydi'r cwbwl mae'r niggars yn 'neud hefo'u talentau. Mi fu gen i ddau neu dri o rai felly, ac mi gwerthis i nhw i lawr yr afon, oherwydd mi wyddwn mai colli nhw 'nawn i yn diwedd, os na werthwn i nhw."

"Fydda'n well i ti yrru gair i fynu at yr Hollalluog i neud set o bwr-pas i ti, a gadael yr eneidiau allan o honyn nhw," ebe'r porthmon.

Ond fe dorrwyd ar yr ymddiddan, trwy glywed swn càr wrth y drws. Yr oedd yr olwg arno'n foneddigaidd, a dyn o wisgiad da yn eistedd ynddo, a gwas du yn ei yrru.

Dechreuodd yr holl gwmpeini rythu llygaid ar y teithwyr, fel y bydd twr o segurwyr mewn tafarn ar ddiwrnod gwlawog. Yr oedd y dyn yn dal, ac o wynebpryd tywyll Hispanaidd, llygaid duon bywiog, a gwallt crych, du fel y frân. Parodd yr olwg ar ei drwyn del, ei wefus deneu, a thlysni cyffredin ei aelodau a'i gorphoriad hardd, i bawb o honynt feddwl ei fod yn rhywun mwy na'r cyffredin. Efe a gerddodd i mewn yn hyf i fysg y cwmpeini, a chydag awgrymiad pen dangosodd i'r gwas ymha le i osod ei drwngc, cyfarchodd y cwmpeini drwy godi ei het, ac aeth at y bar yn arafaidd, gan rodd ei enw i wr y tŷ, Henry Butler, Brynderwen, Sir Shelby. Yna cymmerodd dro o gwmpas yr ystafell yn hamddenol, a darllenodd yr hyspysiad ar y pared.

"Jim," eb efe wrth ei was, "oni welsom ni fachgen tebyg i hwn i fynu tua thŷ Bernan?"

"Do, mas'r," ebe Jim, "ond 'dydw i ddim yn shwr ynghylch y llaw."

"Wel, ddarfu ni ddim edrych, wrth reswm," ebe'r gwr dieithr, gan ymlyfu gên yn ysmala. Yna efe a gyfarchodd wr y tŷ, ac a ofynodd am ystafell wrtho ei hun, am fod ganddo waith ysgrifenu ar frys.

Yr oedd gwr y tŷ yn llawn parodrwydd, a dechreuodd tua chwech neu saith o negroaid, hen ac ieuaingc, gwrryw a benyw, mawr a bychain, redeg drwy eu gilydd, fel gwybed ar brydnawnddydd haf, gan drystio,

rhedeg, sathru ar draed eu gilydd, a syrthio ar draws eu gilydd, yn eu hawydd am wneud ystafell mas'r yn barod. Eisteddodd yntau ar gadair ynghanol y bar, a dechreuodd siarad â'i gymmydog nesaf atto.

"Yr oedd y ffactrwr, Mr. Wilson, yn dal i edrych arno gyda rhyw fath o anesmwythyd, o'r munud y daethai i'r tŷ. Yr oedd yn lled atgof ganddo iddo ei weled o'r blaen, ond ymha le nis gallsai yn ei fyw gofio. Bob ychydig funudau, pan siaradai'r dyn, pan wenai, neu pan symmudai, byddai llygaid y ffactrwr arno, a gostyngai ei aeliau yn y munud, pan gyfarfyddai lygaid duon mawrion y dieithr, yn edrych arno yn hollol ddidaro. O'r diwedd daeth i'w gof ar unwaith, oherwydd efe a edrychodd arno gyda'r fath syndod a dychryn, fel y cododd ac yr aeth aeth atto.

"Mr. Wilson, onite?" ebe yntau, mewn tôn gyfeillgar, gan estyn ei law. Maddeuwch i mi, ni ddarfum i eich adnabod yn gynt. Mi welaf eich bod chwi yn fy nghofio i—Mr. Butler, Brynderwen, Sir Shelby."

"Ie—ïe—ïe, syr," ebe Mr. Wilson, fel un yn siarad mewn breuddwyd.

Gyda hyn daeth bachgenyn du, ac a ddywedodd fod yr ystafell yn barod.

"Edrych at y tryngciau," ebe'r gwr bonheddig, gyda llaw; yna, gan droi at Mr. Wilson, efe a ddywedodd, "Fe fyddai yn dda gennyf gael gair â chwi ar fusnes, yn fy ystafell, am ychydig funudau, os gwelwch fod yn dda."

Aeth Mr. Wilson ar ei ol, fel un yn cerdded trwy gwsg; ac aethant i ystafell i fynu'r grisiau, lle'r oedd tân newydd ei gynneu yn cleccian, a nifer o weinidogion yn gorphen tacluso.

Pan orphenwyd hyn, ac iddynt oll fyned allan, clodd y dieithr y drws, a dododd yr agoriad yn ei boccèd. Yna efe a drodd, a'i freichiau ymhleth, ac a edrychodd yn myw llygad Mr. Wilson.

"George!" ebe Mr. Wilson.

"Ie, George," ebe'r dyn ifangc.

"Ni feddyliais i erioed!"

"Nid hawdd fydd fy adnabod, feddyliwn," ebe yntau, dan wenu. "Mae rhisglyn cnau ffreinig wedi lliwio fy nghroen melyn yn rhuddgoch, ac y mae fy ngwallt wedi ei lifo yn ddu; felly nid wyf yn atteb i'r hyspysiad fodd yn y byd."

"Ond, George anwyl, yr ydych wedi dechreu chware camp beryglus ofnadwy. Ni f'aswn i ddim yn eich cynghori."

"Mi fedraf wneud heb gyngor neb," ebe George, gyda'r un wên falch.

Dylem ddweyd, wrth fyned heibio, fod George yn wŷn o du ei dad. Un o'r llwyth anhappus oedd ei fam, sydd yn aml, oherwydd prydferthwch personol, yn gaethferch i nwydau'r perchennog, ac yn fam i blant na byddant byth yn adnabod eu tad. Yr oedd ei bryd a gwedd Ewropaidd yn etifeddiaeth a ddisgynnodd iddo trwy un o'r teuluoedd mwyaf penuchel yn Kentucky. Oddiwrth ei fam ni chafodd ond ychydig o liw'r mulatto, am yr hyn yr oedd ei lygad du llawn yn ddigon o gynhysgaeth. A'r newidiad lleiaf yn lliw'r croen a'r gwallt a'i trawsnewidiodd

i'r Hispaniad yr ymddangosai ar y pryd: a chan fod osgo celfydd a moesgarwch boneddigaidd yn berffaith naturiol iddo, nid oedd yn anhawdd iddo chware'r gamp a gymmerasai mewn llaw—sef boneddwr yn trafaelio a gwas gydag ef.

Yr oedd Mr. Wilson yn hen wr da iawn ei natur, ond hynod o ofalus ac anesmwyth, ac efe a gerddodd yn ol ac ymlaen, "yn ddyrys iawn yn y dyn oddi mewn," chwedl John Bunyan, ac yn cloffi yn ei feddwl, rhwng ei ddymuniad i wasanaethu George a rhyw dyb niwliog y dylai ufuddhau i'r gyfraith; felly, ar ol hoppian fel iar ar farwor, efe a gyfarchodd George fel hyn:—

"Wel, George, mae'n debyg eich bod yn diangc i ffordd—yn gadael eich meistr cyfreithlon, George—(nid ydyw ryfedd yn y byd)—yr un pryd, George, mae'n ddrwg gennyf eich gweled—ydyw, y mae, yn wir—yr wyf yn meddwl y rhaid i mi ddweyd hynny, George—fy nyledswydd i ydyw dweyd hynny wrthych."

"Paham y mae'n ddrwg gennych?" ebe George, yn llariaidd.

"Am eich gweled, fel pe bai, yn gosod eich hunan yn erbyn cyfreithia 'ch gwlad."

"Fy ngwlad *i?*" ebe George, gyda phwyslais cadarn a chwerw; "pa wlad sydd gennyf fi ond y bedd? ac O na buasai Duw yn gwel'd yn dda fy rhoddi yno!"

"O, George! na, na, ni wna hynna byth mo'r tro; mae siarad fel yna yn bechod—yn anysgrythyrol. George, mi gawsoch chwi feistr caled—yn wir, y mae—wel, y mae i'w feio—ni wiw i mi geisio ei amddiffyn. Ond chwi wyddoch sut y darfu'r angel orchymyn i Hagar ddychwelyd at ei meistres, ac ymostwng dan ei llaw; ac fe yrrodd yr Apostol Onesimus yn ol at ei feistr."

"Peidiwch a chodi'r Bibl attaf fi fel yna, Mr. Wilson," ebe George, a'i lygaid yn melltenu; "peidiwch! oherwydd y mae fy ngwraig yn Gristion, ac yr wyf finnau yn bwriadu bod, os byth y cyrhaeddaf le ag y gallaf fod; ond y mae codi'r Bibl at ddyn yn fy amgylchiadau i yn ddigon a gyrru un i'w wadu o'r dechreu i'r diwedd. Mi appeliaf at y Duw Hollalluog; yr ydwyf yn ddigon boddlon i osod y matter yn ei law Ef, a gofyn iddo os wyf yn pechu trwy geisio ynnill fy rhyddid."

"Mae'r teimladau yma yn ddigon naturiol, George," ebe'r dyn bach da ei natur, gan chwythu ei drwyn. "Ydynt, y maent yn naturiol, ond fy nyledswydd i ydyw peidio eu cefnogi ynoch chwi. Ydyw, machgen i, mae'n ddrwg gennyf drosoch chwi, 'rwan; matter drwg ydyw—drwg iawn; ac y mae'r Apostol yn dweyd, 'Arhosed pob un yn y cyflwr y galwyd ef iddo.' Rhaid i ni oll ymostwng i drefn Rhagluniaeth, George—ydych chwi yn gweled?"

Safodd George a'i ben i fynu, a'i ddwyfraich ymhleth yn dynn ar ei frest lydan, a chyda gwên ddiystyrllyd yn crychu ei wefus.

"Mr. Wilson, beth pe bai'r Indiaid yn dyfod, ac yn eich cymmeryd chwi yn garcharor, oddi wrth eich gwraig a'ch plant, ac yn ceisio eich

cadw dros eich hoes i lafurio drostynt hwy, ai tybed y barnech mai eich dyledswydd fyddai aros yn y cyflwr y galwyd chwi iddo! Braidd na feddyliwn y cymmerech y ceffyl cyntaf y caech afael arno yn drefn Rhagluniaeth i ddiangc oddi yno—oni wnaech?"

Dechreuodd y dyn bach rythu ei ddau lygad pan glywodd yr esponiad yma ar y matter; ac er nad oedd yn llawer o ymresymwr, yr oedd ganddo ddigon o'r synwyr sydd heb fod mor gyffredin gan rai—sef peidio a siarad lle ni bo dim i'w ddweyd. Felly, tra'r oedd yn sefyll ac yn tynnu'r umbrela trwy ei law, ac yn tynnu pob crychni allan o hono, efe a aeth ymlaen â'i gynghorion mewn ffordd gyffredin.

"Edrychwch chwi yma, 'rwan, George; chwi wyddoch i mi sefyll yn ffrind i chwi bob amser; a pha beth bynnag a ddywedais, mi a'i dywedais er eich lles. Dyma i chwi, mae'n ymddangos i mi eich bod yn rhedeg i berygl ofnadwy. Ni fedrwch chwi ddim disgwyl llwyddo. Os delir chwi, hi fydd yn waeth arnoch nag erioed; ni wnant ddim ond eich maeddu, eich hanner ladd chwi, a'ch gwerthu chwi i lawr yr afon yn y diwedd."

"Mi wn hyn i gyd, Mr. Wilson," ebe George. Yr *ydwyf* yn rhedeg i berygl, ond"—ac efe a ddadfottymodd ei gôt uchaf, ac a ddangosodd ddau bistol a llafn o ddur. "Dyna," eb efe, "yr wyf fi yn barod iddynt! *Nid af fi byth* i lawr i'r dehau. Nac af! os daw hi hyd at hynny, mi fedraf ynnill dwylath o leiaf o ddaear rydd—y cyntaf a'r olaf fydd byth yn fy meddiant yn Kentucky."

"George anwyl! mae'r teimladau yma yn ddychrynllyd! mae hi'n myn'd yn arswydus, George. Yr ydych yn codi ofn arnaf fi. Yn myn'd i dorri cyfreithiau'ch gwlad!"

"Fy ngwlad *i*, etto! Mr. Wilson, mae gennych *chwi* wlad; ond pa wlad sydd gennyf *fi?* na neb yr un fath a mi, wedi ei eni o gaethferch? Pa gyfreithiau sydd i ni? Nid ydym ni ddim yn eu gwneud—nid ydym yn cydsynio iddynt—nid oes dim a fynnom a hwynt; y cyfan a wnant i ni ydyw ein malurio, ein llethu i lawr. Oni fum i yn gwrando ar eich areithiau y pedwerydd o Orphenaf? Onid ydych yn dweyd wrthym oll unwaith bob blwyddyn fod llywodraethau yn derbyn eu hawl gyfiawn oddi wrth gydsyniad y sawl a lywodraethir? Ac oni fedr y sawl a glywant y pethau hyn *feddwl?* Oni fedrant ddodi hynyma a hynyna ynghyd, a gweled pa faint ydynt?"

Yr oedd meddwl Mr. Wilson yn un o'r rhai hynny ellir yn ddigon priodol eu cydmaru i sachaid o wlân—esmwyth, meddal, cymmysgfa o natur dda yn ymbalfalu. Yr oedd yn tosturio dros George â'i holl galon, ac yr oedd ganddo ryw draws-amcan o ddirnadaeth am y teimladau oedd yn ei gynhyrfu; etto yr oedd yn barnu mai ei ddyledswydd oedd dal atti yn ddi-ildio i siarad wrtho *er ei les.*

"George, mae hyn yn ddrwg. Rhaid i mi ddweyd wrthych, wyddoch, fel ffrind, mai gwell i chwi adael y fath olygiadau a rhai'n yn llonydd; maent yn ddrwg, George, yn ddrwg iawn, i fechgyn yn eich cyflwr chwi



DIWEIRDEB DAN ERLEDIGAETH.

"Ii gafodd ei whippio, syr, *am fo'l arni eisiau byw bywyd rhinweddol a Christionogol*, yr hyn nis goddef eich cyfreithiau chwi i unrhyw gaeth'erch wneud."

—ydynt, y maent;" ac yna efe a eisteddodd wrth y bwrdd, a chnwp ei umbrela yn ei geg.

"Gwrandewch am funud, Mr. Wilson," ebe George, ac efe a eisteddodd ar ei gyfer mewn dull penderfynol; "edrychwch arnaf fi, yn awr. A ydwyf fi ddim yn eistedd ar eich cyfer, ymhob ffordd, ac ymhob dim, yn ddyn, cymmaint ag ydych chwithau. Edrychwch ar fy ngwyneb—edrychwch ar fy nwylaw—edrychwch ar fy holl gorph," ac fe ymsythodd y dyn ifangc yn falch. "Paham nad wyf fi yn ddyn, cystal a neb arall? Wel, Mr. Wilson, gwrandewch ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweyd. Fe fu gennyf dad—un o'ch boneddigion yn Kentucky—yr hwn nid oedd yn meddwl digon o honof i'm cadw rhag cael fy ngwerthu, gyda'i gwn a'i geffylau, i dalu ei ddyledion, pan fu farw. Mi welais fy mam a'i saith blentyn, yn cael eu gwerthu wrth oeshwn. Gwerthwyd hwynt o flaen ei llygad, bob yn un ac un, i wahanol feistriaid; a myfi oedd yr ieuangaf. Hi aeth ar ei gliniau o flaen fy hen feistr, i feggio arno ei phrynu hi gyda mi, fel y gallai gael cwmni un o'i phlant; ond efe a'i cicciodd ymaith â'i fottasau mawrion. Mi a'i gwelais yn gwneud; a'r olaf a glywais o lais fy mam, oedd ei llefain a'i gruddfanau, pan rwymwyd fi wrth wddf ei geffyl, i'm cymmeryd gydag ef adref."

"Beth wedi hynny?"

"Fe brynodd fy meistr fy chwaer hynaf gan un o'r dynion, ar ol hynny. Yr oedd hi yn lodes dda, dduwiol—yn aelod gyda'r Bedyddwyr—ac mor hardded dynes ag oedd fy mam bob mymryn. Cawsai ei dwyn i fynu yn dda, ac yr oedd yn foesgar iawn ei hymddygiad. Ar y cyntaf yr oedd yn dda gennyf iddo ei phrynu, oherwydd yr oedd gennyf un ffrind yn agos attaf. Ond bu yn ddrwg gennyf yn bur fuan. Mi fum yn sefyll wrth y drws, syr, pan fyddid yn ei whippio, ac yn teimlo fel pe buasai pob ergyd yn taro ar fy nghalon noeth, ac ni fedrwn wneud dim i'w helpu. Hi gafodd ei whippio, syr, am fod arni eisiau byw bywyd rhinweddol a Christionogol, yr hyn nis goddef eich cyfreithiau chwi i unrhyw gaethferch wneud, ac o'r diwedd mi a'i gwelais mewn gefynau gyda nifer mawr o rai eraill, yn cychwyn i farchnad Orleans—gyrrwyd hi yno am ddim yn y byd ond hynny—a thyna'r olaf a wn i am dani. Wel, mi dyfais i fynu—flynyddau hirion meithion—heb dad, heb fam, heb chwaer, heb un enaid byw yn gofalu dim mwy am danaf nac am gi; dim ond fy whippio, fy rhegu, fy hanner lewygu. Mi fum yn dioddef cymmaint o eisiau bwyd, fel ag yr oedd yn dda gennyf grafu'r esgyrn a deflid i'r cwn; ac etto, pan oeddwn yn hogyn bach, ac yn effro trwy gydol y nos yn wylo'r dagrau, nid yr eisiau bwyd, nid y whippio fyddai'r achos. Nage, syr; am fy *mam* a'm *chwaer* y byddai fy nagrau'n rhedeg—am nad oedd gennyf un ffrind ar wyneb yr holl ddaear i ofalu am danaf. Ni wybum erioed pa beth oedd cysur a heddwch. Ni chlywais erioed un gair o garedigrwydd hyd oni ddaethum attoch chwi i weithio i'r ffactri. Mr. Wilson, chwi fuoch yn garedig wrthyf; chwi ddarfu fy annog i fyned yn y blaen, a dysgu darllen ac ysgrifenu, a threio bod yn

rhywbeth, ac y mae Duw yn gwybod pa mor ddiolchgar ydwyf i chwi am hynny. Wedi hynny, syr, mi a gyfarfyddais fy ngwraig; chwi gwelsoch hi—chwi wyddoch hardded dynes ydyw. Pan wybum ei bod yn fy ngharu, a phan briodais hi, prin y medrwn goelio fy mod yn fyw, yr oeddwn mor happus: ac y mae hi mor dda ag ydyw yn hardd, syr. Ond beth nesaf? Dyma fy meistr yn dyfod, ac yn fy nghymmeryd oddi wrth fy ngwaith, oddi wrth fy ffrindiau, a phob peth sy dda gennyf, ac yn fy malu i lawr i'r dom. A phaham? Am fy mod, medd efe, yn anghofio pwy ydwyf; myn fy nysgu, medd ef, nad wyf ddim ond nigger! Wedi'r cwbl, ac yn olaf o'r cwbl, dyma ef yn dyfod rhyngof fi a'm gwraig, ac yn dweyd y rhaid i mi ei gadael, a byw gyda dynes arall. Ac y mae'ch cyfreithiau chwi yn rhoddi iddo awdurdod i wneud hyn oll, er gwaetha Duw na dyn. Edrychwch arno, Mr. Wilson! Nid oes dim *un* o'r holl bethau hyn, a dorrasant galon fy mam, fy chwaer, fy ngwraig, a minnau, nad yw eich cyfreithiau yn eu goddef, ac yn rhoddi i bob dyn o fewn Kentucky awdurdod i'w gwneud, ac ni faidd neb ddywedyd paid wrtho! A fedrwch chwi alw y rhai hyn yn gyfreithiau fy ngwlad *i?* Syr, nid oes gennyf fi wlad, ddim mwy nag y mae gennyf dad. Ond yr wyf yn myned i gael gwlad. Nid oes arnaf eisiau dim gan eich gwlad *chwi*, ond fy ngadael yn llonydd—i fyned yn heddychol allan o honi; a phan gyrhaeddaf Canada, lle y bydd y gyfraith yn fy nghydnabod ac yn fy noddi, *dyna* fy ngwlad i, ac mi gadwaf ei chyfreithiau. Ond os meiddia un-gwr geisio fy rhwystro, edrychedd atti, oherwydd yr wyf fi yn benderfynol. Mi ymladdaf dros fy rhyddid hyd yr anadl olaf yn fy nghorph. Yr ydych chwi yn dweyd fod eich tadau wedi gwneud hynny; os oedd yn iawn ynddynt hwy, mae yn iawn ynwyf finnau."

Traddodwyd yr araith hon mewn rhan pan oedd George yn eistedd wrth y bwrdd, ac mewn rhan pan oedd yn cerdded i fynu ac i lawr ar hyd yr ystafell—traddodwyd hi gyda dagrau, llygaid yn melltenu, ac ystumiau gwallgofus—ac yr oedd yn ormod o lawer i'r creadur tyner galon oedd yn ei gwrando, yr hwn a dynnasai hancas sidan o'i bocced, ac oedd yn moppio ei wyneb nerth ei ddegbys.

"Boeth y bo'n nhw, bob un o honyn nhw," efe a dorrodd allan yn sydyn. "Oni ddeudas i mai felly 'roedd hi bob amser—yr hen felldithion uffernol? Gobeithio nad ydw i ddim yn tyngu 'rwan. Wel, ffwrdd a hi, George, ffwrdd a hi; ond, cymmer ofal, machgen i; paid a saethu neb, George, os na—wel—na, *well* i ti beidio saethu, 'rydw i'n meddwl; o leiaf, ni wnawn i ddim *taro* neb, wyddost. Ymhle mae dy wraig di, George?" eb efe, gan godi yn grynedig o'i gadair, a dechreu cerdded ar hyd yr ystafell.

"Wedi myn'd, syr; wedi myn'd, a'i phlentyn yn ei breichiau. Duw yn unig wyr i b'le. Wedi myn'd ar ol seren y gogledd; a pha bryd y cyfarfyddwn, neu a gyfarfyddwn byth yn rhagor yn y byd yma, nid oes yr un creadur fedr ddweyd."

"Ai possibl! rhyfedd iawn! ac oddi wrth y fath deulu caredig!"

"Mae teulu caredig weithiau yn syrthio mewn dyled, ac y mae cyfreithiau eich gwlad *chwi* yn gadael iddynt werthu'r plentyn o fynwes ei fam i dalu dyled y meistr," ebe George, yn chwerwder ei yspryd.

"Wel, wel," ebe'r hen wr gonest, gan deimlo yn ei bocced. "Mae'n debyg, efallai, nad ydwyf yn gwneud yn ol fy marn—aed i'w chrogi, *ni wnaf* fi ddim yn ol fy marn!" eb efe 'n sydyn, "tyr'd yma, George," a chan gymmeryd twr o filiau banc o'i goden, efe a'u cynnygiodd iddo.

"Na, na, fy anwyl a charedig syr," ebe George, "chwi wnaethoch lawer caredigrwydd à mi, ond fe allai y daw hyn a chwi i drafferth. Mae gennyf ddigon o arian, yr wyf yn gobeithio, i'm cymmeryd mor belled ag y mae arnaf eisiau."

"Na, George, rhaid i ti. Mae arian yn help mawr bob amser; ni fedri byth gael gormod, ond i ti eu cael yn onest. Cymmer nhw—gwna, 'rwan—cymmer nhw, machgen i!"

"Wel, syr, mi wnaf, ar yr ammod y caf ryw ddydd eu talu yn ol," ebe George, gan gymmeryd yr arian i fynu.

"'Rwan, George, pwy hyd yr wyt ti yn myn'd i drafaelio fel yma?—nid yn hir, nac ymhell, gobeithio. Mae'r ddyfais yn dda, ond yn rhy hyf. A'r dyn du yma, pwy ydyw hwn?"

"Un cywir galon; fe aeth i Canada dros flwyddyn yn ol; ond fe glywodd ar ol myned yno fod ei feistr mor ddig wrtho am ddiange, fel y whippiodd ei hen fam dlawd; ac fe ddaeth yr holl ffordd yn ei ol i'w chysuro, ac i dreio ei chymmeryd gydag ef yn ol i Canada."

"A gafodd efe hi?"

"Naddo, etto; mae yn troi o gwmpas y lle, ond heb gael siawns hyd yma. Yn y cyfamser, mae yn myned gyda mi cybelled ag Ohio, i'm gosod ymysg ffrindiau fu'n help iddo ef, yna efe a ddaw yn ei ol i'w cheisio hithau."

"Pur beryglus—peryglus iawn!" ebe'r hen wr.

Ond ymsythodd George, gan edrych yn ddiystyrllyd.

Ac edrychodd yr hen wr arno o'i ben i'w draed, gyda math o hoffder a syndod plentynaidd.

"Wel, George," eb efe, "mae rhywbeth wedi dy aeddfedu di yn rhyfeddol. Yr wyt yn codi dy ben, ac yn siarad fel dyn."

"Am fy mod yn *ddyn rhydd!*" ebe George. "Do, syr, mi ddywedais 'Mas'r' am y tro olaf wrth un-gwr a chwythodd erioed. *Yr wyf yn rhydd!*"

"Cymmer ofal! Paid a bod yn rhy shwr—ti elli gael dy ddal."

"Mae pawb yn rhydd ac yn gydradd—*yn y bedd*, os daw hi hyd at hynny, Mr. Wilson," ebe George.

"Yr wyf yn synnu dy fod yn meiddio gwneud mor hyf, fel yma, yn y tŷ tafarn nesaf at y lle."

"Mae fy ymddygiad *mor* hyf, ac y mae'r dafarn *mor* agos, Mr. Wilson, fel na feddyliant byth am danaf yn y fan yma; bydd y chwilio am danaf ymhell oddi yma. Ni buasai hyd yn nod chwi yn fy adnabod. Nid

ydyw meistr Jim yn byw yn y sir yma, ac nid oes yma neb yn adnabod Jim. Heblaw hynny, y mae ef wedi ei roddi i fynu; nid oes neb yn chwilio am dano; ac mi allwn i feddwl na chymmer neb fi i fynu oddi wrth yr hysbyiad."

"Ond y nôd ar dy law di?" Tynnodd George ei faneg, a dangosodd y graith oedd newydd groenio.

"Dyna'r prawf olaf a gefais o ofal Mr. Harris am danaf," eb efe, yn ddiystyrllyd. "Tua phythefnos yn ol y tarawodd yn ei ben ei roddi i mi, oherwydd ei fod yn credu, meddai, y ceisiwn ddiange un o'r dyddiau yma. Mae'n nod pur hardd, onid ydyw?" ebe efe, gan dynnu ei faneg am ei law.

"Yn wir, mae fy ngwaed yn rhedeg yn oer wrth feddwl am danat—dy gyflwr a dy beryglon," ebe Mr. Wilson.

"Mae fy ngwaed i wedi rhedeg yn oer dros lawer blwyddyn, Mr. Wilson; mae bron a berwi heddyw," ebe George.

"Wel, fy anwyl syr," ebe George, ar ol ychydig funudau o ddistawrwydd rhyngddynt; "mi welais eich bod chwi yn fy ammau, a bernais mai doethach i mi siarad â chwi, rhag i'r olwg syn arnoch fy mradychu. Yr wyf yn meddwl cychwyn yn fore fory, cyn dydd; a nos y fory yr wyf yn disgwyl cael cysgu yn ddiogel yn Ohio. Mi drafaeliaf yn y dydd, gan aros yn y prif westdai, ac eistedd wrth y bwrdd gydag arglwyddi'r tir. Felly, ffarwel i chwi, syr; os clywch fy mod wedi fy nal, gallwch benderfynu fy mod yn ddyn marw."

Safodd George yn dalgryf fel y graig, ac estynodd allan ei law fel tywysog. Ysgydwodd yr hen wr hi hyd at y penelin, ac ar ol arllwys llon'd sach o gynghorion i fod yn ofalus, efe a ymaflodd yn ei umbrela, ac a groppiodd ei ffordd allan o'r ystafell.

Safodd George gan edrych yn synfyfyriol ar y drws, fel yr oedd yr hen wr yn ei gau. Tarawodd rhywbeth yn sydyn yn ei feddwl, ac efe a frysiodd at y drws, ac a alwodd,

"Mr. Wilson, un gair yn rhagor." Trodd yr hen wr yn ol, a chlodd George y drws fel o'r blaen; safodd am funudyn, a'i lygaid tua'r llawr, mewn math o amheuaeth. O'r diwedd efe a edrychodd i fynu ar unwaith—

"Mr. Wilson, chwi a brofasoch eich hunan yn Gristion yn eich ymddygiad tuag attaf fi—ac y mae arnaf chwant gofyn i chwi un gymmwynas Gristionogol etto am y tro olaf."

"Wel, George."

"Wel, syr, mae'r peth ddywedasoch chwi yn ddigon gwir; yr *ydwyf* yn rhedeg i berygl dychrynllyd. Nid oes un enaid byw ar wyneb y ddaear a deimlai pe bawn yn marw," eb efe, gan dynnu uchenaid drom, a siarad trwy boen. "Fe'm teflir i allan, ac fe'm cleddir fel claddu ci, ac ni bydd neb yn cofio am danaf drannoeth—*neb ond fy ngwraig!* Druan oedd hi! fydd hi yn galaru â chalon drom; a phe gallech fodd yn y byd,

Mr. Wilson, yrru'r pin brest yma iddi hi. Fy ngeneth anwyl, ei rhodd hi i mi yn y Gwyliau ydoedd! Gyrrwch ef iddi, a dywedwch fod yn dda gennyf am dani hyd y funud olaf. A wnewch chwi? A *wnewch* chwi?" eb efe, gyd math o daerineb.

"Gwnaf, shwr, machgen anwyl i," ebe'r hen wr, mewn llais crynedig, gan gymmeryd y pin, a'r dagrau yn llenwi ei lygaid.

"Dywedwch un peth wrthi," ebe George, "dyma fy nymuniad olaf; os *gall* fyned i Canada, am fyned yno. Ni waeth pa mor garedig ydyw ei meistres—ni waeth pa mor hoff ydyw o'i chartref; deisyfwch arni beidio myned yn ol yno—oherwydd y mae caethiwed bob amser yn dibenu mewn poen a gofid. Dywedwch wrthi am ddwyn ein bachgen i fynu yn ddyn rhydd, yna ni raid iddo ddioddef fel y darfum i. Dywedwch hyn wrthi, a wnewch chwi, Mr. Wilson?"

"Gwnaf, George, mi ddywedaf wrthi; ond gobeithio na byddi farw; cymmer galon, yr wyt ti yn fachgen gwrol. Ymddiried yn Nuw, George. Yr wyf fi yn dymuno o nghalon i ti fedri llwyddo—ydwyf yn wir."

"A *oes* Duw i ymddiried ynddo?" ebe George, yn y fath gyfyngder enaid ag a ddychrynodd yr hen wr. "Och, mi welais y fath bethau yn fy nydd, ag a wnaethant i mi deimlo nad oes Duw yn bod. Etto nis gŵyr Cristionogion sut y mae pethau fel yma yn edrych i ni. Mae Duw i chwi, ond a oes un i ni?"

"O, paid, 'rwan—paid, machgen i," ebe'r hen wr, a'r dagrau ar ei ruddiau, "paid a theimlo fel yna. Oes, y mae—oes, y mae; 'cymmylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef, ond cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainge!' Y *mae Duw* yn bod, George—creda di; rho dy faich arno,—fydd yn sier o dy helpu. Fe uniawnir pob cam—os nid yn y byd yma, mewn byd arall."

Yr oedd teimladau Cristionogol a dyn-garol yr hen wr yn ei wisgo â math o fawredd ac awdurdod tra'r oedd yn llefaru. A safodd George ynghanol ei gerddediad terfysglyd yn ol ac ymlaen, gan synfyfyrio am funud, yna dywedodd yn arafaidd,

"Diolch i chwi am hynyna, fy anwyl gyfaill; *mi gofiaf hyna.*"

PENNOD XII.

UN O DDIGWYDDIADAU MASNACH GYFREITHLON.

"Llef a glybuwyd yn Rama, galar, ac wylofain, ac ochain mawr; Rachel yn wylo am ei phlant, ac ni fynnai ei chysuro am nad oeddynt."

Yr oedd Haley a Thwm yn hongcian ymlaen yn y wagen, a phob un, am ennyd, yn synfyfyrio wrtho ei hun. Yn awr, peth rhyfedd yw adfyfyr-

dodau dau ddyn yn eistedd ochr yn ochr—yn eistedd ar yr un faingc, a chanddynt yr un fath lygaid, a chlustiau, a dwylaw, a galluoedd o bob math, a'r un gwrthddrychau o flaen eu llygaid: rhyfedd y fath amrywiaeth a geir yn yr adfyfyrdodau hyn!

Fel esiampl, cymmerwn Haley: yr oedd yn meddwl yn gyntaf am hŷd a llêd Twm, ac am ba faint y gwerthai, pe cedwid ef yn dew ac yn raenus hyd nes iddo ei gymmeryd i'r farchnad. Yr oedd yn meddwl pa fodd y gwnelai i fynu ei fintai (gang); yr oedd yn meddwl am bris marchnadol gwragedd, a phlant, a dynion eraill a ddichon fod yn y rhifedi, a matterion eraill yn perthyn i'r busnes; ac yna meddyliodd am dano ei hun, ac mor deimladwy ydoedd, pan oedd pobl eraill yn cadwyno eu niggars law a throed, nid oedd ef yn llyffetheirio ond y traed yn unig, ac yn gadael i Dwm ei ddwylaw yn rhyddion, cyhyd ag yr ymddygai yn iawn; ac ochneidiodd wrth feddwl mor anniolchgar oedd dynion; ac yr oedd lle i ammau nad oedd hyd yn oed Twm yn gwerthfawrogi ei drugareddau. Yr oedd wedi cael ei gymmeryd i mewn mor aml gan niggars y buasai yn dda wrthynt; ac etto yr oedd yn synnu wrtho ei hun ei fod yn parhau mor hynaws er y cwbl!

Ond am Twm, yr oedd ef yn meddwl am eiriau rhyw hen lyfr go gyffredin, y rhai oeddynt yn dal i redeg yn ei ben, drachefn a thrachefn, fel y canlyn: "Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr y'm ni yn ei disgwyl; o achos paham nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy, oblegid efe a barottôdd ddinas iddynt." Y mae'r geirian hyn allan o hen lyfr, a wnaed i fynu'n bennaf gan "ddynion anllythyrenog ac annysgedig," wedi dal rhyw fath o ddylanwad ar feddyliau dynion tlodion, diniwed, fel Twm, trwy bob oes. Y maent yn cynhyrfu yr enaid o'i waelod, ac megys â sain udgorn yn cyffroi gwroldeb, ymegnïad, a gwresogrwydd, lle o'r blaen nid oedd dim ond nos o anobaith.

Tynnodd Haley allan o'i bocced amrywiol bapyrau newyddion, a dechreuodd edrych dros yr hyspysiadau, gyda dyddordeb mawr. Nid oedd yn ddarllenwr hynod o rwydd, a byddai yn arfer darllen mewn rhyw fath o gynghanedd, yn lled uchel, mewn ffordd o alw ei glustiau i brofi gwirionedd yr hyn a gesglid gan ei lygaid. Yn y dôn hon darllenodd yn araf yr hyspysiad a ganlyn:—

"ARWERTHIAD GAN YSGUTORION.—NEGROAID!—Gwerthir, yn ol gorchymmyn y Llys, ar ddydd Mawrth, Chwefror yr 20fed, o flaen drws y Llysdy, yn nhref Washington, Kentucky, y Negroaid canlynol:—Hagar, 60 oed; John, 30 oed; Ben, 21 oed; Saul, 25 oed; Albert, 14 oed; er mael gofynwyr ac aerod Jesse Blutchford, Yswain.

"SAMUEL MORRIS,
"THOMAS FFLINT, } *Ysgutorion.*"

"Rhaid i mi edrych beth ydi hwn," eb efe wrth Twm, o eisiau rhywun arall i siarad âg ef. "Wel'di, yr ydw' i am wneud i fynu gang ragorol i fynd i lawr gyda thi, Twm; mi fydd hynny yn gyfeillgar ac yn ddiddan—cwmpeini da felly, mi wyddost. Yn gynta' ac yn flaena' rhaid i ni yrru

yn syth i Washington, ac mi rhof fi di yn y carchar tra byddw' i'n mynd o gwmpas 'musnes."

Derbyniodd Twm yr hyspysiad cysurus hwn yn hollol addfwyn; gan ryfeddu ynddo ei hun pa sawl un o'r rhai hyn oedd a chanddynt wragedd a phlant, ac oeddynt yn teimlo wrth eu gadael fel yr oedd ef yn teimlo. Y mae'n rhaid addef hefyd nad oedd yr hyspysiad esgeulus a blaenllaw ei fod i gael ei daflu i garchar, yn peri argraph hyfryd iawn ar greadur tlawd a ymfalchïai yn ei onestrwydd a'i fywyd diargyhoedd. Ie, y mae'n rhaid i ni gyffesu, yr oedd Twm braidd yn falch o'i onestrwydd, y peth gwirion—am nad oedd ganddo fawr ddim arall i fod yn falch o hono; pe buasai yn perthyn i'r radd uchaf o'r bobl ni ddygasid ef i'r fath gyfyngder, ond buasai ganddo rywbeth amgenach i ymffrostio ynddo. Modd bynnag, aeth y diwrnod heibio, ac yn yr hwyr gwelid Haley a Thwm wedi eu llettyo yn gysurus yn Washington—y naill mewn tafarn, a'r llall yn y carchardy!

Oddeutu un-ar-ddeg drannoeth yr oedd tyrfa gymmysgedig wedi ymgynnull o gwmpas grisiau y Llysdy—yn smoccio, yn cnoi, yn poeri, yn tyngu, ac yn siarad, bob un yn ei dro ac yn ol ei dueddiad, i ddisgwyl am i'r oeshwn ddechreu. Yr oedd y dynion a'r merched ag oeddynt ar werth yn eistedd ynghyd o'r neilldu, yn siarad â'u gilydd mewn tôn isel. Affrican drwyadl mewn gwynebpryd a llun oedd y ddynes a elwid Hagar yn yr hyspysiad. Efallai ei bod yn dr'ugain oed; ond yr oedd caledwaith ac afiechyd yn peri iddi edrych yn hŷn; yr oedd yn hanner dall, ac yn lled gloff gan y cryd-cymmalau. Wrth ei hochr safai ei mab, bachgen bach pert, oddeutu pedair-ar-ddeg. Efe oedd yr unig un a adawsid iddi allan o deulu lliosog, y rhai a werthwyd y naill ar ol y llall, a gyrrwyd hwynt i'r farchnad yn y dehau. Yr oedd y fam yn dal ei gafael ynddo â'i dwy law grynedig, ac yn syllu gyda dychryndod ar bob un a ddeuai ymlaen i edrych arno.

"Peidiwch ag ofni, Modryb Hagar," ebe'r hynaf o'r dynion, "mi siaradis â Mas'r Thomas am y peth, ac yr oedd yn meddwl y gallai eich gwerthu gyda'ch gilydd, yn un lot."

"Nid rhaid iddyn' nhw ddim deyd 'mod i wedi gwisgo allan yn lân etto," ebe hi, gan godi ei dwylaw crynedig. "Mi fedra i gweio, a scrwbio, a scwrio—yr ydw i'n werth 'y mhrynu, er i mi fynd yn rhad! deudwch chi hynny wrthyn' nhw—*deudwch* chi hynny!" ychwanegodd, yn ddwys.

Ar hyn daeth Haley ymlaen gan ymwthio i'r dyrfa, a cherddodd i fynu at y dyn hynaf, agorodd ei geg, ac edrychodd i mewn iddi, teimlodd ei ddannedd, gwnaeth iddo sefyll ac ymsythu, cammu ei gefn, a gwneud amryw ystumiau i ddangos nerth ei ewynnau; ac yna aeth ymlaen at y nesaf, a gwnaeth i hwnnw fyned trwy'r un treial. Yn olaf aeth i fynu at y bachgen, teimlodd ei freichiau, sythodd ei ddwylaw, edrychodd ar ei fysedd, a gwnaeth iddo neidio, i ddangos ei ystwythder.

"Ni chaiff o moi'i werthu hebdda i!" ebe'r hen wraig, yn awyddus a

chynhyrfiol; "rhaid iddo fo a finna fynd yn un lot gida'n gilydd; yr ydw i yn eitha cry etto, mas'r, fedra i neud hylldod o waith—medra, hylidod.

"Ar y blanfa?" ebe Haley, yn wawdus. "Stori go annhebyg!" ac yna, gan edrych megys wedi cael ei foddloni, cerddodd allan, a safodd a'i ddwylaw yn ei boccedi, a'i het ar ochr ei ben. yn barod i wneud cynnygiad.

"Beda chi'n feddwl am dany' nhw?" ebe un dyn, yr hwn oedd wedi dilyn Haley yn ei chwiliad, megys fel am wneud ei feddwl i fynu oddiar ei farn ef.

"Wel," ebe Haley, gan boeri ar lawr, "mi gynnygia i am y rhai ifange a'r bachgen."

"Y mae arnynt eisio gwerthu y bachgen a'r hen wraig gyda'u gilydd," ebe'r dyn.

"Mi ga'n hynny yn waith go galed; gwarchod ni, nid ydi ddim ond sached o hen esgyrn—dim yn werth ei halen."

"Ac ni 'newch chi mo hynny?" ebe'r dyn.

"Ni wna neb ond ffwl y fath beth. Mae hi'n hanner al, ac wedi ei chammu gan y rhewmatis, ac yn wirion yn y fargen."

"Y mae rhai'n prynu hen gyrduriaid fel hyn, ac yn cael mwy o waith o honynt nac a feddyliai neb," ebe'r dyn, yn syn-fyfyriol.

"Ni thal hi ddim," ebe Haley; yn wir, ni chym'rwn i moni yn rhodd; yr ydw' i'n *gwel'd*."

"Wel, y mae'n resyn garw peidio 'i phrynu hi gyda'i phlentyn; y mae ei chalon hi wedi ei gosod ar y bachgen. Beth pe bydda iddyn' nhw ei thaflu i mewn yn rhad?"

"Byddai hynny'n burion i'r rhai sy' gennyn nhw arian i'w taflu i ffwrdd fel yna. Mi gynnygia i am y bachgen yna, i weithio ar y blanfa; ni chym'rwn i moni am un pris—na wnawn, pe cawn hi am ddim," ebe Haley.

"Mi fydd yr hen wreigen o'i cho!" ebe'r dyn.

"Mae'n naturiol iddi fod felly," ebe'r masnachydd, yn ddifatter.

Torrwyd ar yr ymddiddan gan ryw sibrwd prysur ymysg y dyrfa, a daeth yr arwerthwr—pwttyn ffwdanus, gorchestol ydoedd—gan ymwthio i'r dorf. Tynnodd yr hen wreigen ei hanadl atti, a gafaelodd yn dyn yn ei mab.

"Cadw'n agos at dy fammi, Albert—yn agos iawn—mi ro'n nhw ni i fynu gida'n gilydd," ebe hi.

"Mae arna' i ofn na wnant, mammi," ebe'r bachgen.

"Y mae'n rhaid iddyn nhw, fy mhlentyn: ni fedra i ddim byw yn y byd, os na wnant," ebe'r hen greadures, yn danbaid.

Crochlefodd yr arwerthwr am osteg, a chyhoeddodd fod yr ocshwn ar ddechreu. Cliriwyd lle iddo, a dechreuwyd cynnyg.

Tarawyd i lawr y gwahanol ddynion ar y rhestr am brisiau a ddangosent fod cryn ofyniad yn y farchnad; a syrthiodd dau o honynt i ddwylaw Haley.

"Tyr'd 'rwan, hogyn," ebe'r arwerthwr, gan ei gyffwrdd â'i forthwyl; "neidia i fynu, a dangos dy fod yn shongc."

GWAHANU'R FAM A'I PHLENTYN.

"Ond, rhwng perswadio a thynnu, llwyddodd yr hen bobl o'r cwmpeini i gael ganddi ollwng ei gafael olaf o hono, ac aethant a hi at waggen ei meistr, gan wneud eu goreu i'w chysuro."

" Rhowch ni fynu gida'n gilydd—gida'n gilydd—os gwelwch yn dda, mas'r," ebe'r hen wraig, gan ddal ei gafael yn gyndyn yn y bachgen.

" Cerdd i ffordd," ebe'r dyn, yn sarrug, gan wthio ymaith ei dwylaw; yn olaf yr wyt ti i ddyfod. 'Rwan, y croenddu, neidia i fynu;" a chyda'r gair gwthiodd y bachgen ymlaen at y bloccyn; ac yr oedd uchenaid drom, ddofn, i'w chlywed y tu ol iddo. Safodd y bachgen, ac edrychodd yn ol; ond nid oedd dim amser i aros, a chan daflu y dagrau oddiwrth ei lygaid mawr gloywon, yr oedd ar ei draed mewn moment.

Ei lun hardd, ei aelodau heinif, a'i wyneb disglaer, a barasant gydymryson yn ebrwydd, ac yr oedd hanner dwsin o gynnygion yn taro ar glust yr arwerthydd ar unwaith. Edrychai y bachgen o'r naill ochr i'r llall, yn bryderus a hanner dychrynedig, wrth glywed swn y cynnygion ymrysongar—weithiau yma ac weithiau accw—nes i'r morthwyl syrthio. Haley a'i cafodd. Gwthiwyd ef ymaith oddiwrth y bloccyn tuag at ei feistr newydd, ond safodd am funudyn, ac edrychodd yn ol ar ei hen fam dlawd, yr hon oedd yn crynu bob aelod, ac yn estyn ei dwylaw tuag atto.

" Prynwch finna hefyd, mas'r; er mwyn yr Hollalluog!—prynwch fi—mi fydda i farw, os na 'newch!"

Ni pharhaodd y cynnyg dros yr hen greadures ond byr. Prynwyd hi gan y dyn a siaradasai â Haley, a'r hwn yr oedd ganddo beth tosturi; yna dechreuodd yr edrychwyr ymwasgaru.

A'r trueiniaid a werthwyd, y rhai a fuasent gyda'u gilydd yn yr un man am flynyddoedd, a ymgasglasant o amgylch yr hen fam ofidus, cyfyngder yr hon oedd yn dra gresynus ei weled.

" Oni all'sent adel i mi un? Yr oedd mas'r yn deyd bob amser y cawn i un," ebe hi, drosodd a throsodd drachefn, mewn llais tor-calonus.

" Ymddiriedwch yn yr Arglwydd, Modryb Hagar," ebe'r hynaf o'r dynion.

" Pa les a wna hynny?" ebe hi, gan ochneidio yn orwyllt.

" Mam! mam! Peidiwch, peidiwch!" ebe'r bachgen. "Y maen' nhw'n deyd fod gennych feistr da."

" Nid ydw' i ddim yn hidio—nid ydw' i ddim yn hidio. O, Albert! O, machgen! Ti ydi maban olaf i. Arglwydd, sut y medraf i?"

" Dowch, cym'rwch hi ffwrdd, 'newch chi!" ebe Haley, yn sychlyd. " 'Dydi ddim d'ioni iddi fynd ymlaen fel yna."

Rhwng perswadio a thynnu, llwyddodd yr hen bobl o'r cwmpeini i gael ganddi ollwng ei gafael olaf o hono, ac aethant a hi at wagen ei meistr newydd, gan wneud eu goreu i'w chysuro.

" Yrwan!" ebe Haley, gan wthio ei dri chaethwas ynghyd, a thynnu allan syppyn o lyffetheiriau, rhoddodd hwynt am eu harddyrnau, a gyrrodd hwynt o'i flaen i'r carchar.

Ymhen ychydig o ddyddiau gwelid Haley, a'i eiddo, yn ddiogel ar un o agerdd-longau Ohio. Dechreuad y gyrr oeddynt, a chwanegid attynt fel yr elai y llestr ymlaen, gan amrywiol farsiandiaeth o'r un fath, y rhai a gedwid ganddo ef neu rai o'i oruchwylwyr mewn gwahanol fannau ar y lan.

Yr oedd y *La Belle Rivière*, llestr mor odidog a hardd ag a dramwyodd erioed ar ddyfroedd yr afon o'r un enw, yn nofio yn hoyw i lawr y ffrwd, o dan awyr ddisglaer, a'r brith-resi a'r ser ar faner America rydd yn chwifio uwch ben; yr oedd tyrfa o foneddigesau a boneddigion gwych eu gwisgoedd ar y bwrdd, yn rhodianna ac yn mwynhau y diwrnod hyfryd. Yr oedd pawb yn llawn o fywyd, yn ysgafn, ac yn llawen; pawb ond mintai Haley, y rhai, ynghyd â nwyfau eraill, oeddynt wedi eu stwffio i'r dec isaf, ac nid oeddynt, rywfodd, yn gwerthfawrogi eu hamrywiol freintiau, ond yn eistedd yn swp, ac yn ymddiddan â'u gilydd mewn tôn isel.

"Fechgyn," ebe Haley, gan ddyfod i mewn yn fywiog, "yr ydw' i'n gobeithio eich bod yn cadw eich calon yn llawen ac yn siriol. Yrwan, dim sylcs, welwch chi; daliwch y'ch penna i fynu; gnewch yn iawn â mi, ac mi 'na inna 'n iawn â chwitha."

Ac attèbodd y bechgyn a annerchwyd yn y dull digyfnewid o "Ydan, mas'r,"—arwyddair Affrica dlawd er's oesoedd; ond y mae'n rhaid addef nad oeddynt yn edrych yn siriol iawn. Yr oedd ganddynt eu hamrywiol ragfarnau bychain, am eu gwragedd, eu mammau, eu chwiorydd, a'u plant, a welsent am y tro olaf; ac er i'r "rhai a'i hanrheithiasent ofyn ganddynt lawenydd," nid oedd yn dyfod mewn munud.

"Y mae gen i wraig," ebe'r peth a elwid "John, deg-ar-hugain oed," a gosododd ei law gadwynog ar lin Twm, "ac ni ŵyr hi 'run gair am hyn, yr eneth wirion!"

"Ymhle mae hi'n byw?" ebe Twm.

"Mewn tafarn, ychydig i lawr yna," ebe John; "yrwan mi fydda 'n dda gen i ei gweld unwaith yn rhagor yn y byd yma," eb efe.

John dlawd! *yr oedd* braidd yn naturiol; a'r dagrau a syrthient fel yr oedd yn siarad, a ddaethant mor naturiol a phe buasai yn ddyn gwyn. Tynnodd Twm anadliad hir allan o galon drom, ac ymdrechodd ei gysuro, yn ei ffordd drwsgl ei hun.

Ac uwch ben, yn y caban, yr oedd tadau a mammau yn eistedd, gwyr a gwragedd; a phlant llawen yn dawnsio ac yn gweu yn eu plith fel gloywon byw, a phobpeth yn myned ymlaen yn esmwyth ac yn gysurus.

"O mamma," ebe bachgen bach, yr hwn oedd newydd ddyfod i fynu o'r gwaelod, "y mae prynwr dynion ar y bwrdd, ac y mae wedi dyfod â phedwar neu bump o gaethion i lawr yma."

"Y creaduriaid gwirion!" ebe'r fam, mewn rhyw lais rhwng galar a digllonedd.

"Beth ydyw hynyna?" ebe gwraig arall.

"Rhyw gaethion tlodion o danom yn y gwaelod," ebe'r fam.

"Ac y maent mewn cadwyni," ebe'r bachgenyn.

"Y mae'n gywilydd i'n gwlad fod y fath bethau i'w gweled!" ebe'r wraig arall.

"Oh, y mae llawer i'w ddweyd o bob tu i'r cwestiwn," ebe gwraig foneddigaidd, yr hon oedd yn eistedd wrth ddrws y brif-ystafell, yn

gwnïo, a geneth fechan a bachgen yn chwareu yn ei hymyl. "Yr ydwyf fi wedi bod yn y dehau, ac y mae'n rhaid i mi ddweyd fy mod i'n meddwl eu bod yn well allan na phe byddent yn rhyddion."

"Mewn rhai ystyriaethau y mae yn dda arnynt, mi addefaf," ebe'r llall. "Y peth mwyaf dychrynllyd yn perthyn i gaethiwed, yn fy marn i, ydyw yr ysgelerder tuag at eu teimladau a'u serchiadau—megys eu gwahanu oddiwrth eu teuluoedd, fel engraifft."

"Y *mae* hynny yn gas, yn sicr," ebe'r wraig arall, gan ddal i fynu wisg i'w babi, newydd ei gorphen, ac yn edrych yn siriol ar yr addurniadau; "ond nid ydwyf fi'n meddwl fod hynny yn digwydd yn aml."

"Oh, ond y mae," ebe'r gyntaf, yn wresog. "Mi fu'm i'n byw yn Kentucky ac yn Virginia am lawer o flynyddoedd, ac mi welais i ddigon i beri i'n calon lesmeirio. Beth pe byddai i'ch dau blentyn chwi gael eu cymmeryd oddiwrthych, a'u gwerthu?"

"Ni fedrwn ni ddim rhesymmu ynghylch pobl fel hyn oddiwrth ein teimladau ein hunain," ebe'r llall, gan drefnu rhyw wyrstyd oedd ganddi ar ei glin.

"Yn wir, ma'm, ni wyddoch chwi ddim am danynt os ydych yn medru dweyd felly," attebai y wraig arall, yn wresog. Yr ydwyf fi wedi fy ngeni a'm magu yn eu plith. Yr ydwyf fi'n gwybod eu *bod* yn teimlo, yn llawn mor llym—ac fe allai yn llymmach—nac yr ydym ni."

"Felly'n wir!" ebe'r llall, gan ddylyfu ei gen, ac edrych allan trwy ffenestr y caban, ac fel diweddglo, ail-adroddodd y sylwad gyda'r hwn y dechreuasai—"Ar ol y cwbl, yr wyf fi'n meddwl eu bod yn well allan na phe byddent yn rhyddion."

"Mae'n ddiamheuol mai diben Rhagluniaeth yw fod i'r Affricaniaid barhau yn weision—a'u cadw mewn cyflwr isel," ebe gwr bonheddig o ymddangosiad difrifol, mewn dillad duon, gweinidog, yn eistedd wrth ddrws y caban. "'Melldigedig fyddo Canaan; gwas gweision ei frodyr fydd,' medd yr Ysgrythyr."

"A glywch chi, wr diarth, ai hynyna yw meddwl y gair?" ebe dyn tal oedd yn sefyll ger llaw.

"Ie, yn ddiamheuol. Y mae wedi rhyngu bodd i Ragluniaeth, oblegid rhyw reswm anchwiliadwy, ddyfarnu yr hiliogaeth i gaethiwed, oesoedd yn ol; ac ni ddylem ni osod i fynu ein mympwy yn erbyn hynny."

"Wel, ynte, mi awn ni 'mlaen i brynu niggars," ebe'r dyn, "os hynyna yw ffordd Rhagluniaeth—oni 'nawn ni, scwïer?" eb efe, gan droi at Haley, yr hwn oedd yn sefyll wrth y tân, a'i ddwylaw yn ei boccedi, ac yn gwrando yn astud ar yr ymddiddan.

"Ie," aeth y dyn tal ymlaen gan ddywedyd, "rhaid i ni i gyd fodloni ar drefn Rhagluniaeth. Y mae'n rhaid gwerthu niggars, a'u cludo o gwmpas, a'u cadw danodd; i hynny y gwnaed nhw. Y mae eich golygiad chwi ar y matter yn ein llonni, ond ydi o, wr diarth?" ebe efe wrth Haley, drachefn.

"Ddaru mi 'rioed feddwl am y peth," ebe Haley. "Ni f'aswn i ddim

yn medru deyd cymmint, fy hun; ni chefis i ddim dysgeidiath. Mi ddaru mi gym'ryd i fynu y tråd dest i gael byfoliath; os nad ydi'n iawn, yr ydw' i'n disgwyl cael amser i 'difarhau, wyddoch chi."

"Ac yn awr chwi spariwch i chi'ch hun y drafferth, oni 'newch?" ebe'r dyn tal. "On'd ydech chi'n gweld beth ydi gwybod yr Ysgrythyrau. Pe b'asech chi ond stydio'r Beibil, fel y gwr da yma, gall'sech ei wybod o'r blaen, ac achub llawer o drwbwl. Gall'sech ddeyd, 'Melldigedig fyddo'—beth ydi enw fo?—a b'asai pobpeth yn dyfod yn iawn." A'r gwr dieithr, yr hwn nid oedd amgen na'r porthmon gonest a ddygasom ger bron ein darllenwyr yn y dafarn yn Kentucky, a eisteddodd i lawr, a dechreuodd smoccio, â rhyw wên ddigrif ar ei wyneb hir, sychlyd.

Yma daeth dyn ieuangc, eiddil, ymlaen, â chanddo wyneb yn dangos teimlad cryf a llawer o wybodaeth, ac adroddodd y geiriau, "'Pa bethau bynnag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy.' Ysgrythyr ydyw hynyna hefyd, mae'n debyg," eb efe, "yn gystal a 'Melldigedig fyddo Canaan.'"

"Wel, wr diarth," ebe John y porthmon, "y mae'n ymddangos i gyrduriaid dylion fel ni yn destyn llawn mor blaen a'r llall;" a smocciodd John fel mynydd tanllyd.

Arhosodd y gwr ieuangc, ac edrychodd fel pe buasai am ddywedyd ychwaneg, ond yn ddisymmwth safodd y llestr, a rhuthrodd y bobl, fel arferol mewn agerdd-long, i edrych ymhle'r oeddynt yn glanio.

"Personiaid ydi'r ddau walch yna, onite?" ebe John wrth un o'r dynion, fel yr oeddynt yn myned allan.

Attebodd y dyn, trwy amnaid, mai ïe.

Pan safodd y llong, daeth dynes ddu gan redeg yn wyllt i fynu'r plangc, rhuthrodd i ganol y dyrfa, a phicciodd i'r lle yr oedd y caethion yn eistedd, a chlymmodd ei breichiau o amgylch y darn o farsiandïaeth a grybwyllwyd o'r blaen, sef "John, deg-ar-hugain oed," a chydag ochenaidiau a dagrau, galarodd yn ddwys dros ei gwr.

Ond pa raid dywedyd y chwedl a ddywedir mor fynych—a ddywedir bob dydd—am galonau yn cael eu rhwygo, er elw a chyfleusdra i'r cadarn! Nid oes eisiau ei dywedyd; y mae pob diwrnod yn ei dywedyd—ac yn dywedyd hefyd yn nghlustiau Un nad yw yn fyddar, er ei fod yn hir yn ddistaw.

Yr oedd y dyn ieuangc a siaradasai o'r blaen o blaid dynoliaeth ac o blaid Duw, yn sefyll a'i freichiau ymhleth, yn syllu ar yr olygfa. Troes ei wyneb, a gwelai Haley yn sefyll wrth ei ochr. "Fy nghyfaill," eb efe, gan lefaru'n grynedig, "pa fodd y medrwch, pa fodd y meiddiwch, ddwyn ymlaen y fath fasnach a hon? Edrychwch ar y creaduriaid truain yna! Dyma fi, yn llawenychu yn fy nghalon fy mod yn myned adref at fy ngwraig a'm plentyn; a'r un gloch ag sy'n fy ngalw i i fyned ymlaen attynt hwy, sydd yn arwydd i'r dyn tlawd hwn a'i wraig i ymadael â'u gilydd am byth. Gellwch benderfynu y dwg Duw chwi i'r farn am hyn oll."

Aeth y masnachydd ymaith yn fud.

"'Rwan, welwch chi," ebe'r porthmon, gan gyffwrdd â'i benelin, "y mae rhagoriath yn y personiaid yma, on'd oes? Nid yw 'melldigedig fyddo Canaan' yn myn'd i lawr yn rhwydd gyda hwn, a ydi?"

Rhoddodd Haley ryw chwyrniad anesmwyth.

"Ac nid dyna'r gwaetha' o hono," ebe John; "f'allai nad eiff i lawr gyda'r Arglwydd 'chwaith, pan ddowch i settlo cyfrifon gyd ag Ef, ryw ddiwrnod, fel y bydd raid i ni gyd, mae'n debyg."

Cerddodd Haley ymaith yn synfyfyriol i'r pen arall i'r llestr.

"Os gwna' i arian go glws gida'r gyrr neu ddau nesa', yr ydw' i'n meddwl y stopia i ar hynny; y mae'n wir yn myned yn enbyd." A chymmerodd allan ei lyfr, a dechreuodd wneud i fynu ei gyfrifon—gorchwyl a gafwyd allan gan amryw foneddigion heblaw Haley, yn hynod o effeithiol i lonyddu cydwybod euog.

Ysgubodd yr agerdd-long yn odidog oddiwrth y lan, ac aeth pobpeth ymlaen yn siriol fel cynt. Tarawodd a dynion atti i siarad, lolian, darllen a smoccio. Gwnïodd y merched, chwareuodd y plant, ac aeth y llestr ymlaen ar ei mordaith.

Un diwrnod, pan oedd yn gorwedd am ennyd ar gyfer tref fechan yn Kentucky, aeth Haley i fynu i'r lle ar ryw neges.

Gan fod llyffetheiriau Twm yn goddef iddo fyned ychydig o amgylch, efe a nesaodd at ochr y llong a rhoddodd ei bwys ar y ganllaw, gan edrych drosodd yn lled ddifeddwl. Ymhen ychydig gwelai ei feistr yn dychwelyd, yn nghwmpeini dynes ddu, â phlentyn bach yn ei breichiau. Yr oedd wedi ymwisgo yn dra pharchus, a dyn du yn dyfod ar ei hol, ac yn cario trwnge bychan. Daeth y ddynes ymlaen yn llon, gan siarad â'r dyn oedd yn cludo ei thrwnge; ac felly aeth i fynu'r plange i'r llestr. Canwyd y gloch, chwibanodd yr agerdd, gruddfanodd a phesychodd y peiriant, ac ymaith â hi i lawr yr afon.

Cerddodd y ddynes ymlaen i blith y cistennau a'r paciau ar y dec isaf, ac eisteddodd i lawr, gan ddifyrru ei hun trwy drydar wrth ei babi.

Rhoes Haley dro neu ddau o amgylch y llestr, ac yna gan ddyfod ymlaen, eisteddodd yn ei hymyl, a dechreuodd ddywedyd rhywbeth wrthi yn lled ddistaw.

Gwelodd Twm yn fuan fod cwmmwl tywyll yn sefydlu ar dalcen y wraig, a'i bod yn atteb yn gyflym ac yn danbaid.

"Nid ydw' i'n coelio; ac ni wna' i ddim coelio!" clywai hi yn dywedyd. "'Dydech chi ddim ond ceisio gwneud ffwl o honof."

"Os na choeli, edrych yma!" ebe 'r dyn, gan dynnu papyr allan; "dyma ysgrif y gwerthiad, a dyna enw dy feistr wrtho; ac mi delais i lawr arian sychion am dano, hefyd—a wel'di 'rwan?"

"Ni choelia i ddim y twyllai mas'r fi fel yna; nid ydi o ddim yn wir!" ebe'r wraig, gan gynhyrfu yn waeth waeth.

"Mi elli ofyn i rai o'r dynion yma sy'n medru darllen. Hwdiwch!" eb efe wrth ddyn oedd yn myned heibio; "dest darllenwch y papyr

yma, newch chi! Nid ydi'r lodes yma ddim yn fy nghoelio i, a minna yn deyd beth ydi fo."

"Ysgrif gwerthiad ydyw, wedi ei seinio gan John Fosdick," ebe'r dyn, "yn troi Lusy a'i phlentyn drosodd i chwi. Y mae pobpeth yn ddigon teg, am a wela' i."

Parodd crochlefau gorwyllt y wraig i dyrfa o bobl gasglu o'i hamgylch, ac eglurodd y masnachwr iddynt yn fyr yr achos o'r cynnwrf.

"Yr oedd yn deyd wrtha i fy mod yn mynd i lawr i Louisville, i gyflogi yn gogyddes yn y dafarn lle mae ngwr yn gweithio; dyna ddeudodd mas'r wrtha' i, â'i dafod ei hun, ac ni choeliwn i yn fy nyw y gwnai ddweyd celwydd," ebe'r wraig.

"Ond y mae wedi eich gwerthu, wreigen druan, nid oes dim dadl am hynny," ebe un dyn â golwg teimladwy arno, yr hwn a edrychasai ar y papyrau; "y mae wedi ei wneud, a dim camgymmeriad."

"Wel, 'dydi ddim iws siarad," ebe'r wraig, gan droi yn hollol dawel mewn munud; a chan gofleidio ei phlentyn yn dynnach yn ei breichiau, eisteddodd i lawr ar ei chisten, troes ei chefn, ac edrychodd yn syn tua'r afon.

"Myn'd i gym'ryd pethau yn bur esmwyth, wedi'r cwbwl," ebe'r masnachwr. "Y mae gan y lodes synwyr, mi wela'."

Fel yr oedd y llong yn myned ymlaen, edrychai y ddynes yn hollol ddigyffro; chwythai awel hafaidd, dyner, heibio uwch ei phen, fel rhyw yspryd tosturiol—yr awel dyner nad yw byth yn ymofyn pa un ai du ai gwyn yw y talcen y mae yn ei sirioli. A gwelai yr haulwen yn disgleirio ar y dwfr, yn grychiadau euraidd, a chlywai leisiau hoenus, yn gyflawn o esmwythyd a pleser, yn siarad o'i chwmpas yn mhob man; ond yr oedd ei chalon hi yn gorwedd fel pe buasai maen mawr wedi syrthio arni. Ymgyfododd ei babi ar ei glin, a dylofodd ei gruddiau â'i ddwylaw bychain; a chan neidio i fynu ac i lawr, ac ymorfoleddu, a pharablu, fel yn penderfynu codi ei hysprydoedd. Gwasgodd ef at ei mynwes yn sydyn ac yn dyn, a syrthiai yn arafaidd, y naill ddeigryn ar ol y llall, ar ei wyneb synedig a diniwed; ac yn raddol, o dippyn i dippyn, daeth yn dawelach, a cheisiodd ddifyru ei hun wrth ei dendio a'i feithrin.

Bachgen deng-mis oed oedd y plentyn, anghyffredin o fawr a chryf o'i oed, ac yn dra bywiog yn ei aelodau. Nid oedd byth yn llonydd, ac yr oedd ei fam yn cael digon o waith i'w ddal, a gwarchod ei siongcrwydd aflonydd.

"Gwalch bach braf yw hwnna!" ebe rhyw ddyn, gan sefyll yn sydyn ar ei gyfer, â'i ddwylaw yn ei boccedi. "Beth ydi ei oed?"

"Deng mis a hanner," ebe'r fam.

Chwibanodd y dyn arno, a rhoes iddo ddarn o siwgwr candi, yn yr hwn yr ymaflodd yn awyddus, ac yn ddioed rhoes yn nhrysorle cyffredinol y baban, sef ei geg.

"Gwalch digrif!" ebe'r dyn. "Y mae o'n gwybod beth y mae o'i

gwmpas!' a chwibanodd a cherddodd ymaith. Wedi myned i'r ochr arall i'r llong, daeth ar draws Haley, yr hwn oedd yn smoccio ar bentwr o gistiau.

Tynnodd y dyn dieithr fatshen allan o'i bocced, a goleuodd ei segar, ac wrth wneud hynny, dywedodd—

"Geneth go weddol yw honna sydd gennych, wr diarth."

"Wel, yr ydw' i'n cynsidro *ei bod* yn un go lew," ebe Haley, gan chwythu'r mwg allan o'i geg.

"Myn'd â hi i lawr i'r dehau?" ebe 'r dyn.

Amneidiodd Haley, ac aeth ymlaen gyda'i smoccio.

"Llaw ar y blanfa?" ebe'r dyn.

'Wel," ebe Haley, "yr ydw' i yn gwneud i fynu gang i fynd i blanfa, ac yr wyf yn meddwl ei rhoi hithau i mewn. Y mae nhw yn deyd i mi mai cogyddes dda ydi hi; ac mi allan' ei hiwsio i hynny, neu ei gosod i bigo cottwn. Y mae ganddi eitha' bysedd i hynny; mi 'drychais i arnyn nhw. Mi werth yn dda, unrhyw ffordd;" ac ail-gymmerodd i fynu ei segar.

"Ni bydd arnyn nhw ddim eisio'r plentyn ar blanfa," ebe'r dyn.

"Mi gwertha i fo, y siawns gynta' a gaf," ebe Haley, gan danio ei segar drachefn.

"Mae'n debyg y gwerthwch chi e yn o rad," ebe'r dyn dieithr, gan ddringo ar y cistiau, ac eistedd i lawr yn gysurus.

"Nis gwn i p'run," ebe Haley; "cyw bach go smart ydi fo—syth, tew, cry'; cnawd mor g'letted a charreg!"

"Gwir iawn; ond etto, dyna'r drafferth a'r gost i'w fagu."

"Nonsens!" ebe Haley; "y maent mor hawdd eu magu ag unrhyw greadur arall; 'does dammed mwy o drafferth gyda nhw na chyda cwn bach. Mi fydd y gwalch yma yn rhedeg o gwmpas ymhob man ymhen y mis."

"Y mae gen i le da i fagu, ac yr oeddwn i'n meddwl cymmeryd i mewn ychydig yn rhagor o stoc," ebe'r dyn. "Y mae un gogyddes wedi colli ei hun bychan yr wythnos ddiweddaf—boddodd yn y twb golchi, pan oedd ei fam allan yn taenu'r dillad; ac yr ydw' i'n meddwl y byddai gystal ei rhoi ar waith i fagu hwn."

Smocciodd Haley a'r dyn dieithr am ennyd mewn distawrwydd, y naill a'r llall yn anfoddlon i ofyn y prif gwestiwn. O'r diwedd aeth y dyn ymlaen:—

"Ni feddyliech am ofyn dim mwy na deg dolar am y gwalch yna, yn enwedig gan fod yn *rhaid* i chwi ymadael âg ef rywsut."

Ysgydwodd Haley ei ben, a phoerodd yn ffyrnig.

"Ni wna hynny byth mo'r tro, fodd yn y byd," eb efe, a dechreuodd smoccio drachefn.

"Wel, wr diarth, pa faint a gym'rwch?"

"Wel, rwan," ebe Haley, "mi *fedrwn* i fagu'r cyw yna fy hun, neu gael ei fagu; y mae'n hynod o iach a bywiog, ac mi gawn gan' dolar am

dano ymhen chwe mis; ac ymhen blwyddyn neu ddwy mi ddoi a dau gant i mewn ond myn'd âg e i'r lleeeyn iawn; felly ni chyma' i ddim dimme llai na hanner cant am dano 'rwan."

"O, wr diarth! y mae hynny dros ben pob rheswm," ebe'r dyn.

"Mae'n wir!" ebe Haley, gan amneidio yn benderfynol â'i ben.

"Mi ro' i ddeg-ar-hugain am dano," ebe'r llall, "a dim dimme'n chwaneg."

"Yrwan, mi ddeuda i chi beth a wnaf," meddai Haley, gan boeri gyda phenderfyniad adnewyddol; "mi ranna 'r ymrafel, a d'wedwn bump-a-deugain; a dyna yr eitha a wnaf."

"Dyna gyttundeb!" ebe 'r dyn, ymhen ennyd.

"Dyna ben!" ebe Haley. "Ymh'le yr ydych yn lanio?"

"Yn Louisville," ebe'r dyn.

"Louisville," ebe Haley. "Go lew; mi fyddwn yno tua min nos. Bydd y gwalch bach yn cysgu—pobpeth yn iawn—ni a'i cawn i ffwrdd yn ddistaw, a dim gwichian—happ'nio i'r dim—dda gen' i wneud pethau yn dawel—mae'n gas gen i bob math o ddwndwr a chynhwrf." Felly, wedi trosglwyddo rhyw bapyrau o bocced y dyn i'r masnachydd, cymmerodd i fynu ei segar.

Noswaith ddisglaer, dawel ydoedd pan droes y llestr i borthladd Louisville. Yr oedd y ddynes wedi bod yn eistedd â'i babi yn ei breichiau, yn cysgu yn drwm. Pan glywodd y bobl yn gwaeddi allan enw y lle, gosododd y plentyn i lawr ar frys mewn math o gryd a wnaethai iddo ymysg y cistiau, wedi iddi yn gyntaf daenu ei chlôg yn ofalus o dano; ac yna llammodd tuag ochr y llestr, gan ddisgwyl cael gweled ei gwr ymysg y gweision tafarnau oedd yn ymdyrru ar y lanfa. Gyda 'r gobaith hwn ymwthiodd tua'r canllawiau blaenaf, a chan ymestyn drostynt yn mhell, edrychai yn egnïol ar y pennau oedd yn ymsymmud ar y lan, a phwysodd y dyrfa rhyngddi hi â'r plentyn.

"Dyma'r amser," ebe Haley, gan gymmeryd y plentyn yn ei gwsg, a'i roddi i'r dyn dieithr. "Peidiwch ei ddeffro a gwneud iddo nadu 'rwan; bydd helynt cynddeiriog efo'r hogen." Cymmerodd y dyn y bwndel yn ofalus, ac aeth o'r golwg yn fuan ymysg y dorf oedd yn myned i fynu i'r dref.

Pan oedd y llestr wedi ei gollwng yn rhydd oddiwrth y lan, ac yn dechreu crecian, a thuchan, a phiffio, ac yn cychwyn ymlaen yn araf, daeth y ddynes yn ol i'w hen eisteddle. Yr oedd y masnachydd yn eistedd yno—ond yr oedd y plentyn wedi myned!

"Beth ydi hyn—ymh'le y mae—?"—dechreuodd, mewn syndod gwallgofus.

"Lusy," ebe'r masnachwr, "y mae dy blentyn wedi myn'd; ni waeth i ti ei wybod yn fuan nac yn hwyr. Yr oeddwn i 'n gwybod, wel'di, na fedrit ti ei gym'ryd i lawr i'r dehau; a chefis siawns i'w werthu i deulu da, y rhai a'i dygant i fynu yn well nac y medrit ti."

Yr oedd y masnachwr wedi dyfod i'r sefyllfa honno o berffeithrwydd

Cristionogol a gwladwriaethol a gymmeradwyid yn ddiweddar gan rai pregethwyr a gwladgarwyr yn y gogledd, yn yr hon yr oedd wedi gorchfygu yn hollol bob gwendid a rhagfarn ddynol. Yr oedd ei galon, syr, yn union yn yr un man ag y gellid dwyn eich calon chwi a minnau iddo trwy ymdrech briodol a meithriniad. Buasai yr olwg wyllt o ofid a pherffaith anobaith a daflodd y ddynes tuag atto, yn aflonyddu unrhyw ddyn anghynnefin; ond yr oedd ef wedi cynnefino â hynny. Gwelsai yr un fath olwg gannoedd o weithiau. Gallech chwithau hefyd, fy nghyfaill, ddyfod yn gynnefin â'r fath bethau; a diben mawr yr ymdrechiadau diweddar ydyw dwyn y bobl yn y gogledd yn arferol â hwynt, er gogoniant yr Undeb. Felly, nid oedd y masnachydd yn edrych ar y gloesion angeuol a welai yn gweithio yn ei gwynebpryd tywyll, y dwylaw tyngauad, a'r anadliad tagedig, ond pethau angenrheidiol yn perthyn i'r fasnach, ac yn gobeithio nad oedd hi yn myned i ysgrechain ac i godi cynhwrf ar fwrdd y llestr; ac fel eraill sy'n dal i fynu ein sefydliadau neillduol, yr oedd yn cashau terfysg a chythrwfl o'i galon.

Ond nid ysgrechiodd y ddynes. Yr oedd y saeth wedi myned yn rhy union drwy ei chalon iddi fedru gwaeddi na chrïo.

Eisteddodd i lawr a'i phen fel yn nofio. Syrthiodd ei dwylaw yn farw wrth ei hochr. Yr oedd ei llygaid yn edrych yn syth rhag ei blaen, ond ni welai ddim. Holl swn a sibrwd y llestr, a gruddfanau 'r peiriant, a gymmysgent fel breuddwyd yn ei chlustiau dyryslyd; ac nid oedd gan y galon druenus, archolledig, na llef na dagrau i'w dangos dros ei hadfyd eithaf. Yr oedd yn hollol dawel.

Yr oedd y masnachwr, ac ystyried ei fanteision, agos mor deimladwy â rhai o'n gwladwriaethwyr, ac ymddangosai megys yn teimlo yn ddyledus arno weini iddi y fath gysur ag a oddefai yr achlysur iddo.

"Yr ydw' i'n gwybod fod yn d'od yn galed iawn yn y dechreu, Lusy," eb efe; "ond ni wneiff lodes smart, gall, fel di ymroi iddo. Mae yn *angenrheidiol*, wel'di, a 'does dim help am dano."

"Oh, peidiwch, mas'r! peidiwch!" ebe'r wraig, â llais fel un yn tagu.

"Yr wyt ti 'n lodes smart, Lusy," eb efe drachefn. "Yr ydw' i am neud yn dda i ti, a chael lle braf i ti i lawr yr afon; ac mi gei wr arall yn fuan—y fath eneth olygus a'ch di—"

"Oh mas'r, na pheidiech a siarad â mi 'rwan!" ebe'r wraig, mewn llais o ofid mor dorgalonus, nes y teimlodd y masnachydd fod rhywbeth yn y matter presennol tu hwnt i'w drefn ef o weithredu. Cododd i fynu, a throes y ddynes draw, a chuddiodd ei gwyneb yn ei chlôg.

Cerddodd y masnachwr yn ol ac ymlaen am ennyd, gan sefyll ac edrych arni yn awr ac yn y man.

"Y mae'n cym'ryd atti yn o dost," eb efe wrtho ei hun; "ond yn llonydd, er hynny; gadewch iddi chw'su am dippyn; mi ddaw atti hun, yn y man."

Yr oedd Twm wedi bod yn sylwi ar y cwbl o'r dechreu i'r diwedd, ac

yr oedd yn deall yn berffaith y canlyniadau. Iddo ef edrychai fel rhywbeth annhraethadwy o erchyll a chreulon, oblegid nid oedd ef, y creadur du, tlawd, annysgedig! wedi dysgu rhesymu ol a blaen, a chymmeryd golygiadau eang. Pe buasai ef ond wedi cael ei addysgu gan rai gweinidogion Cristionogol, efallai y meddyliasai yn well o'r peth, ac na welsai ynddo ond digwyddiadau beunyddiol yn perthyn i fasnach gyfreithlon: masnach, ag sydd yn gynnaliaeth bywiol i sefydliad, yr hwn, fel y dywedir wrthym gan ddifinydd o'r America, "*nad oes ynddo ddim drygau nad ydynt yn anwahanol âg unrhyw berthynasau gwladol neu deuluaidd eraill.*" Ond gan fod Twm, fel y gwelwn, yn adyn tlawd, anwybodus, yr hwn na ddarllenodd lyfr erioed ond y Testament Newydd, ni fedrai ei gysuro a'i ddiddanu ei hun â golygiadau fel hyn. Yr oedd ei enaid yn gwaedu o'i fewn wrth edrych ar y *camwri* a ddioddefid gan y greadures dlawd oedd yn gorwedd fel corsen ysig ymysg y cistiau; y darn eiddo, â theimlad a bywyd a gwaed ynddo, etto yn anfarwol, yr hwn y mae cyfraith dalaethol America yn ei restru gyda'r bwndeli, y paciau, a'r cistiau ymysg pa rai y mae'n gorwedd.

Nesaodd Twm, a cheisiodd ddywedyd rhywbeth! ond ni wnaeth hi ond gruddfan. Yn onest, ac â dagrau yn treiglo i lawr ei ruddiau ei hun, dywedodd wrthi am galon lawn o gariad fry, am Iesu tosturiol, a chartref tragywyddol; ond yr oedd y glust yn fyddar gan drallod, ac nid oedd y galon wywedig yn teimlo.

Daeth y nos—noson dawel, ddigyffro, a gogoneddus, yn tywynu i lawr â'i llygaid angylaidd, dirif, gwreichionog, a phrydferth, ond distaw. Nid oedd nac iaith nac ymadrodd, nid oedd un llais tosturiol na llaw o gynnorthwy, o'r awyr bell honno. Y naill ar ol y llall distawai y swn masnachol a'r sain hyfrydwch; yr oedd pawb ar y llestr yn cysgu, a chlywid yn eglur swn y dwfr ymlaen y llong. Ymestynodd Twm ar un o'r cistiau, ac fel yr oedd yn gorwedd yno, clywai yn awr ac yn y man ryw uchenaid neu gri isel oddiwrth y greadures druenus—"Oh, beth a wnaf? O Arglwydd! O Arglwydd da, helpa fi!" Ac felly, yn awr ac eilwaith, nes i'r murmur ddarfod mewn distawrwydd.

Tua hanner nos deffrodd Twm yn sydyn. Aeth rhywbeth tywyll heibio iddo ar frys at ochr y llong, a chlywai shoch yn y dwfr. Ni welodd ac ni chlywodd neb arall ddim. Cyfododd ei ben—yr oedd lle'r ddynes yn wag! Cododd i fynu, a chwiliodd o'i amgylch, and yn ofer. Yr oedd y galon derfysglyd wedi llonyddu o'r diwedd, ac yr oedd yr afon yn rhedeg yn grych-nyddiadau clysion, ac yn disgleirio yn union fel na chauasai am dani.

Amynedd! amynedd! chwi sy' â'ch calonau yn chwyddo o ddigllonedd tuag at drais fel hyn. Ni anghofir un uchenaid drist, nac un o ddagrau y cystuddiedig, gan y Gwr Gofidus, Arglwydd y Gogoniant. Y mae Efe yn goddef cystuddiau byd yn ei fynwes amyneddgar a haelionus. Goddef dithau, fel yntef, a gweithia mewn cariad; canys mor wired a'i fod yn Dduw, fe ddaw "blwyddyn ei waredigion."

Y DORGALONUS.

" Tua hanner nos, fe ddeffrodd Twm yn sydyn. Aeth rhywbeth tywyll heibio iddo ar frys at ochr y llong, ac efe a glywai shoch yn y dwfr."

Deffrodd y masnachydd yn siriol ac yn fore, a daeth allan i edrych ar ol ei dda byw. Ond yn awr, daeth ei dro yntau i edrych o'i amgylch yn ddyryslyd.

"Ymhle ddrwg y mae'r hogen yna?" eb efe wrth Twm.

Ni theimlai Twm, yr hwn a ddysgasid yn y ddoethineb o gadw cyfrinach—ni theimlai fod yn ddyledus arno draethu ei sylwadau a'i amheuaeth—ond dywedodd nas gwyddai.

"Yn shwr nis gallai hi fynd i ffwrdd yn y nos yn un o'r llefydd glanio, oherwydd yr oeddwn i'n effro, ac yn edrych allan, bob tro y stopiai'r llestr. Nid ydw' i byth yn trystio y pethau hyn i bobol erill."

Yr oedd yr araith hon yn cael ei chyfeirio at Twm, yn gyfrinachol, megys pe buasai yn rhywbeth hynod o ddyddorol iddo ef. Ond ni roes Twm un atteb.

Chwiliodd y masnachydd y llestr o ben bwygilydd, ymysg y cistiau, a'r pacciau, a'r barilau, o amgylch y peiriant, a'r simneiau, ond yn ofer.

"'Rwan, a glywi di, Twm, actia 'n deg yn y peth yma," eb efe, pan ddaeth at y lle 'r oedd Twm yn sefyll. "Yr wyt ti 'n gwbod rhwbeth am dani, 'rwan. Paid a gwadu—yr ydw' i'n shwr dy fod. Mi welis i yr hogen yn gorwedd yma o gwmpas deg o'r gloch, ac wedyn rhwng un a dau; ac am bedwar yr oedd wedi mynd, a thitha'n cysgu yn y fan o hyd. Yrwan, mi wyddost ti rwbeth—nid oes dim possib na wyddost ti."

"Wel, mas'r," ebe Twm, "yn y bore, mi aeth rhwbeth heibio i mi, ac mi ddarum riw hanner deffro; ac wedi hynny clywis splash fawr yn y dwr, ac yna mi ddarum ddeffro 'n lân, ac yr oedd y lodes wedi mynd. Dyna gymmint a wn i am dano."

Nid oedd y masnachydd wedi na brawychu na synnu; oherwydd, fel y dywedasom o'r blaen, yr oedd yn gynnefin â llawer iawn o bethau na wyddoch chwi ddim am danynt. Ni tharawyd ef âg un iâs ddifrifol, hyd yn oed yngwydd Angau. Gwelsai ef Angau lawer gwaith—cyfarfu âg ef yn ffordd masnach, a daeth yn gydnabyddus âg ef—ac ni feddyliai am dano ond fel prynwr caled, yr hwn oedd yn dyrysu ei orchwyl yn annheg iawn; ac felly tyngodd nad oedd y lodes ond dyhiren, ac ei fod yn anlwccus ofnadwy, ac os âi pethau ymlaen fel hynny na cnnillai un ddime ar y daith. Yn fyr, yr oedd yn ei ystyried ei hun fel dyn wedi cael llawer iawn o gam; ond nid oedd dim help am dani, gan fod y ddynes wedi diangc i Dalaeth nad yw byth yn rhoi i fynu ffoadur—hyd yn oed ar archiad yr holl Undeb. Gan hynny, eisteddodd y masnachydd yn foddlon, â'i lyfr cyfrifon bychan yn ei law, a rhoddes i lawr y corph a'r enaid o dan y pen *colledion!*

"Rhyw greadur echryslawn yw'r masnachwr yma, onite?—mor ddideimlad! Y mae'n arswydus, yn wir!"

"Oh, ond nid oes neb yn meddwl dim o'r masnachwyr yma! Y maent yn cael eu diystyru yn gyffredinol—nid ydynt byth yn cael myned i gwmpeini pobl barchus."

Ond pwy, syr, sy'n gwneud y masnachwr? Ar bwy mae'r bai mwyaf?

Y dyn goleuedig, dysgedig, gwybodus, yr hwn sy'n cynnal y gyfundrefn o ba un nid yw y masnachwr ond y canlyniad anocheladwy? ynte'r masnachwr tlawd ei hun? Y chwi, sy'n creu archwaeth y cyhoedd, sy'n galw am ei fasnach, ac sydd yn ei lygru ac yn ei halogi ef, nes y mae'n methu teimlo cywilydd o'r herwydd; ac yn mha beth yr ydych chwi yn rhagori arno ef?

A ydych chwi'n ddysgedig ac yntau yn anwybodus? chwi yn uchel ac yntau yn isel? chwi yn foneddigaidd ac yntau yn drwsgl? chwi yn ddoniol ac yntau yn ddwl?

Yn nydd y farn a ddaw, efallai y bydd i'r ystyriaethau hyn ei gwneud yn esmwythach iddo ef nac i chwi.

Wrth ddibenu y digwyddiadau bychain hyn mewn masnach gyfreithlon, y mae'n rhaid i ni erfyn ar y byd beidio meddwl fod seneddwyr America yn hollol amddifad o deimladrwydd, fel y gellid, hwyrach, gasglu yn annheg oddiwrth yr ymdrechiadau a wneir yn ein senedd i amddiffyn a pharhau y dull yma o fasnach.

Pwy sydd heb wybod fel y mae ein gwyr mawr yn myned y tu hwnt iddynt eu hunain yn eu hareithiau yn erbyn caeth-fasnach dramor? Y mae llawer Clarkson a Wilberforce wedi codi yn ein mysg ar y testun hwnnw, yn dra addysgiadol i'w clywed a'u gweled. Fy anwyl ddarllenwyr, peth echrydus yw cludo negroaid o Affrica! ni ddylid meddwl am dano heb arswyd! Ond eu cludo o Kentucky a'u gwerthu—peth arall hollol ydyw hynny.

PENNOD XIII.

SEFYDLIAD Y CRYNWYR.

MAE golygfa dawel yn awr yn ymagor o'n blaen. Cegin fawr, helaeth, wedi ei phaentio yn làn, a'r llawr melyn yn disgleirio, heb gymmaint a llwchyn i'w weled arno; offer coginiaeth gloywddu, rhesi o ddysglau metel disglaer, yn arwyddion afrifed o ddaionus bethau at archwaeth dyn; cadeiriau cryfion wedi gweled llawer o ddyddiau, etto mor ddisglaer a'r gwydr; cadair siglo fechan, a chlustog o wahanol ddarnau o frethyn ynddi, ac un arall fwy ac esmwythach â breichiau agored yn gwahodd pawb yn deuluaidd i ymorphwys ar ei chlustogau o fânblu—cadair ddirodres, lawn o esmwythyd a chysur, amgenach ganwaith na dwsin o'ch cadeiriau cerfiedig ac addurnedig mewn parlyrau; ac yn y gadair hon eisteddai ein hen ffrind Eliza, a'i llygaid yn craffu ar fân wniadwaith. Ië, dyna lle'r oedd hi, yn llwytach ac yn deneuach nag yn ei chartref yn

Kentucky, a byd o ofid distaw yn gorwedd dan ei haeliau hirion, ac yn tynnu ei linellau o gylch ei gwefus ddel! Yr oedd yn hawdd canfod mor henaidd a diysgog y tyfasai ei chalon blentynaidd dan ddisgyblaeth chwerwder chwerw; a phan godai ei llygad, yn awr ac yn y man, i edrych ar gampiau ei hanwyl Harri, yr hwn oedd yn chware fel gloywyn byw yn llygad haul, yn ol ac ymlaen ar hyd y llawr, gwelid ynddo benderfyniad dwfn a diysgog, nas gwelsid erioed yn ei dyddiau boreuaf a happusaf.

Yn ei hymyl, eisteddai dynes, â phadell loyw ar ei glin, i ba un yr oedd yn pigo ffrwythydd sychion yn araf a gofalus. Ymddangosai rhwng pymtheg a deugain a thrugain oed; ond yr oedd ei hwynebpryd hi yn un o'r rhai hynny ag y mae cyffyrddiad henaint yn eu gloywi a'u haddurno. Gwelid ar unwaith pwy oedd ei phobl, oddi wrth y cap gauze gwyn fel yr eira, wedi ei wneud yn null y Crynwyr, yr hancas gwyn yn blygion esmwyth ar ei brest, a'r shawl a gown llwyd yn gorwedd mor naturiol am dani. Yr oedd ei gwyneb yn grwn a gwridgoch, yn llawn a meddal fel afal aeddfed; a'i gwallt, wedi ei arianu gan amser, yn rhanedig mor wastad a llyfn ar ei thalcen uchel ac agored, ar ba un nid oedd blynyddoedd wedi ysgrifenu dim ond "ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da;" ac oddi tanodd disgleiriai dau lygad mawr, clir, gonest, euraidd, anwyl,—nid oedd dim ond eisiau edrych yn syth iddynt, i deimlo eich bod yn gweled i waelod un o'r calonau goreu a chywiraf a gurodd yn mynwes merch erioed. Mae llawer wedi ei ddweyd a'i ganu am brydferthwch merched ifangc, paham na chymmerai rhywun mewn llaw ganu clod prydferthwch hen wragedd. Os clyw neb ar ei galon, ac arno chwant cael ei ysprydoli at hynyma, cynghorwn ef i fyned at ein ffrind Rachel Haliday, fel ag y mae'n eistedd y fan yna, yn ei chadair siglo. Yr oedd gan y gadair yna ryw hen gast o wichian—trwy gael anwyd yn more ei hoes, neu trwy glefyd yr asthma, neu efallai y rhewmatis yn ei chymmalau; ond, fel y byddai yn siglo yn ol ac ymlaen, canai yr hen gadair fath o "wich wach" fuasai yn annioddefol mewn unrhyw gadair arall. Ond byddai yr hen Simon Haliday yn arfer dweyd ei fod cystal a miwisg iddo ef; ac yr oedd y plant bob un yn dweyd na chollent swn cadair mam er dim yn y byd. Paham? Oherwydd, dros fwy nag ugain mlynedd, na ddaeth o'r hen gadair honno ddim ond geiriau caredig, cynghorion tyner, a serch anwylaidd mam—llawer cur mewn pen, a llawer gofid calon a symmudwyd ynddi—a phrofedigaethau, ysprydol a thymhorol, y cafwyd ynddi ollyngdod o honynt—oll gan un wraig anwyl; Duw dalo iddi.

"Ac felly, Eliza, yr ydwyt ti yn dal i feddwl o hyd am fyned i Canada?" ebe hi, tra'r oedd hi yn edrych yn arafaidd dros ei ffrwythydd.

"Ydwyf, ma'am," eb Eliza, yn benderfynol. "Rhaid i mi fyned ymlaen. Ni wiw i mi aros."

"A pha beth a wnei ar ol cyrhaedd yno? Rhaid i ti feddwl am hynny, fy merch."

Diferodd "fy merch" yn bur naturiol dros wefusau Rachel Haliday; oherwydd yr oedd ei hwynebpryd a'i hymddangosiad yn gwneud "fy mam," y gair mwyaf naturiol ar wyneb daear. Dechreuodd dwylaw Eliza grynu, a syrthiodd dagrau ar y gwaith oedd ganddi, ond hi a attebodd yn hyderus,

"Mi wnaf—unpeth a gâf. Yr wyf yn gobeithio cael rhywbeth i'w wneud."

"Ti a wyddost y gelli aros yma yr hyd fyd fynnot ti," ebe Rachel.

"O, diolch i chwi," eb Eliza; "ond"—a hi gyfeiriodd at Harri—"nis gallaf gysgu'r nos—dim gorphwys. Mi welais y dyn hwnnw yn dyfod i'r buarth neithiwr yn fy mreuddwyd," ebe hi, gan grynu o ofn.

"Druan oeddat ti!" ebe Rachel, gan sychu ei llygaid; ond rhaid i ti beidio meddwl fel yna. Mae'r Arglwydd wedi darparu na ddygwyd neb erioed o'r pentref yma; ac yr wyf yn hyderu mai nid dy blentyn di fydd y cyntaf."

Ar hyn agorwyd y drws, a daeth dynes fach, fer, gron, gryno, daclus, fel y pin yn y papyr, i mewn, a'i gwyneb siriol bochgoch yn edrych fel afal pêr. Yr oedd ei gwisgiad llwyd sobr yn gyffelyb i un Rachel, a'r muslin wedi ei blygu mor ddel ar ei brest fach, gron, gwmpasog.

"Ruth Stedman, sut yr wyt ti?" ebe Rachel, gan godi yn groesawus i'w chyfarfod, a'i hysgwyd yn garedig gerfydd ei dwy law.

"Harti," ebe Ruth; a thynnodd ei bonnet lwyd, gan sychu'r llwch oddi arni â'i hancas pocced, ac felly dangos pen bach crwn, ar ba un yr eisteddai cap y crynwyr dippyn yn chwareugar, er gwaetha'r holl lyfnhau â'i dwylo bach crynion. Diangodd ambell gudyn troellog, er maint ei gofal a'i gwyliadwriaeth, a gorfu arni eu perswadio yn ol i'w lle drachefn; edrychai tua phump-ar-hugain oed; yna hi a drodd oddi wrth y drych, lle buasai yn ymdacluso, ac a edrychodd yn happus ac wrth ei bodd—fel ag y gallai pawb a edrychent arni fod; oherwydd yr oedd yn ddiau yn un o'r gwragedd bach mwyaf siriol, lawen-galon, siaradgar, a happus a lonnodd galon dyn erioed.

"Ruth, dyma fy ffrind Eliza Harris, a dyna'r bachgen bach y bum yn son am dano wrthyt."

"Mae yn dda gennyf dy weled, Eliza—yn dda iawn," ebe Ruth, gan ysgwyd dwylaw, fel pe buasai Eliza yn hen ffrind fu yn hir ddisgwyl am dani; "a dyma'r bachgen bach—mi ddois a chaccen iddo," ebe hi, gan estyn llun calon iddo; daeth yntau ymlaen i'w chymmeryd yn wylaidd, gan dremio trwy ei wallt troellog.

"Lle mae dy blentyn di, Ruth?" ebe Rachel.

"O, mae yn ymyl; fe cym'rodd Mari ef pan ddaethum i mewn, ac a redodd i'r ysgubor, i'w ddangos i'r plant."

A chyda'r gair, dyma'r drws yn agor, a daeth Mari (lodes fochgoch, lân, â llygaid tywyll fel ei mam) i mewn a'r plentyn ganddi.

"Ha! ha!" ebe Rachel, gan godi ac ymaflyd yn y pathew tew, "mor dda mae'n edrych, ac fel y mae'n prifio!"

"Debyg gen i'n wir," ebe Ruth, yn llawn busnes, gan gymmeryd y plentyn, a thynnu ei hwd sidan glâs, a nifer o blygion o ddillad uchaf oedd ganddo; ac ar ol tynnu'r peth yma, cwttio'r peth accw, a'i dacluso o'i ben i'w draed, hi a'i cusanodd o ewyllys calon, ac a'i gosododd ar lawr, i hel ei feddyliau ynghyd. Ymddangosai y plentyn yn ddigon cynnefin â thriniaeth o'r fath yma, oherwydd efe a wthiodd ei fawd i'w geg (fel matter o dyledswydd), a syrthiodd i synfyfyrio rhyngddo ag ef ei hun, tra'r oedd ei fam yn tynnu allan hosan fraith hir, ac yn dechreu gweu mor gynted a'r gwynt,

"Mari, fyddai ddim yn well i ti lenwi'r tecetl, oni byddai?" ebe'r fam, yn arafaidd.

Cymmerodd Mari'r cetl i'r ffynnon, a daeth yn ol yn fuan, a gosododd ef ar y tân, lle y dechreuodd ganu ac agerddu, megis thuser llettygarwch a chroeso. Ac ar awgrymiad Rachel, dodwyd yr afalau gan yr un llaw mewn scelet ar y tân.

Yna ymaflodd Rachel mewn noe lân, a dododd ffedog o'i blaen, i barottoi teisenau, ond yn gyntaf dywedodd wrth Mari, "A fyddai ddim yn well i ti ddweyd wrth John am barottoi cywan?" Aeth Mari ynghylch ei shwrne.

"Sut y mae Abigail Peters?" ebe Rachel, fel yr oedd yn myned ymlaen â'i theisenau.

"O, mae hi yn well," ebe Ruth; "mi fum i yno'r bore; mi gyweirias y gwely, ac mi daclusas y tŷ. Fe aeth Leah Hils yno'r prydnhawn, ac hi bobodd gymmaint fydd eisiau am rai diwrnodau; ac yr ydwyf finnau wedi addaw galw yno heno."

"Mi af finnau yno bore fory, ac mi wnaf y glanhau a'r trwssio," ebe Rachel.

"O'r goreu," ebe Ruth. "Mi glywais," ebe hi drachefn, "fod Hannah Stanwood yn sâl. Fu John i fynu yno neithiwr—rhaid i minnau fyn'd yno fory."

"Os bydd achos am i ti aros trwy'r dydd, fe all John ddyfod yma i nol ei brydiau," ebe Rachel.

"Diolch i ti, Rachel; ni gawn weled fory: ond dyma Simon."

A phwy ddeuai i mewn ond Simon Haliday,—dyn mawr, tal, syth, a llyfndew, mewn cot lwyd, a throwsis, a het a chantal llydan.

"'Sut yr wyt ti, Ruth?" eb efe yn serchlon, gan ymafiyd yn gynhesol yn ei llaw fechan, â'i gledr lydan agored: "a sut y mae John?"

"O, mae John a'r teulu'n iach," ebe Ruth, yn llawen.

"Oes dim newydd, Simon?" ebe Rachel, pan oedd yn rhoi'r teisenau i grasu.

"Fe ddeudodd Peter Stebbins y byddai yma heno, hefo *ffrindiau*," ebe Simon, gyda phwyslais, gan olchi ei ddwylaw mewn sinc fâch lân gryno yn y cefn.

"Felly'n wir?" ebe Rachel, gan daflu ei golygon yn ystyriol ar Eliza.

"A ddywedaist ti mai Harris y gelwir di?" ebe Simon wrth Eliza, pan ddaeth i mewn yr ail waith.

Edrychodd Rachel yn bryderus ar ei gwr, pan attebodd Eliza yn grynedig "do;" ei hofnau, bob amser yn effro, yn dweyd wrthi y gallasai fod hysbysiadau allan.

"Rachel," ebe Simon, gan sefyll wrth y drws cefn.

"Beth a fynni di?" ebe hithau, gan rwbbio'r toes oddiar ei dwylo, a myned allan atto.

"Mae gwr y ddynes yn y sefydliad, ac fe ddaw yma heno," ebe Simon.

"Wel, 'rwan, ai tybed?" ebe Rachel, a'i hwynebpryd yn disgleirio o lawenydd.

"Mae'n ddigon gwir. Fu Peter i lawr ddoe, hefo'r wagen, ac yr oedd yno hen wraig a dau ddyn, ac fe ddywedodd un mai George Harris oedd ei enw; ac yr wyf fi yn sicr mai efe ydyw'r dyn, oddi wrth hynny o'i hanes a gefais. Dyn hardd cariadus iawn ydyw hefyd."

"A gawn ni ddweyd wrthi ar unwaith?"

"Gad i ni ddweyd wrth Ruth," ebe Rachel.

"Gwrando Ruth—tyr'd yma!"

Gosododd Ruth ei phellen a'i hosan heibio, a brysiodd at y drws cefn.

"Beth feddyliat ti, Ruth?" ebe Rachel. "Mae Simon yn dweyd fod gwr Eliza newydd ddyfod i'r sefydliad, ac y bydd yma heno."

Dechreuodd y Gwaceres fach waeddi 'diolch'; ac wrth iddi neidio oddi ar y llawr, gan guro ei dwylaw bychain, diangodd dwy droellen o'i gwallt oddi tan ei chap, a safasant ar ei hancas wen fel dau gyhuddwr y brodyr.

"Hist, taw ngeneth anwyl i," ebe Rachel, yn addfwyn; "taw, Ruth! Dywed, a gawn ni ddweyd wrthi 'rwan?"

"'Rwan! shwr iawn, y munud yma. Beth pedase fo John ni, sut y baswn i yn teimlo? Dywed wrthi ar unwaith."

"Nid wyt ti yn gwneud dim ond dysgu caru dy gymmydog, Ruth," ebe Simon, gan edrych yn siriol ar y wraig fach.

"Gwir iawn. Onid i hynny y gwnawd ni? Pe na basa'n dda gen i am John a'r babi, fedswn i ddim teimlo drosti hithau. Tyr'd 'rwan, dywed wrthi—paid ac oedi!" a hi a osododd ei llaw ar fraich Rachel i'w thynnu. "Cymmer hi i'th ystafell dy hun, dos, mi ferwa i 'r cyw tra byddi di 'n gneud."

Yna aeth Rachel i mewn i'r gegin, lle'r oedd Eliza yn gwnïo, a chan agor drws ystafell wely fechan, hi a ddywedodd yn arafaidd, "Tyr'd i mewn yma, fy merch; mae gennyf newydd i ti."

"Gwridodd Eliza hyd at ei chlustiau; a hi a gododd yn grynedig, a'i llygad ar y plentyn."

"Na, na," ebe Ruth, gan redeg atti; ac ymaflyd yn ei llaw; "paid a dychrynu; newydd da, Eliza—dos i mewn, dos i mewn!" A gwthiodd hi yn garedig at y drws, yr hwn a gauwyd ar ei hol. Yna gafaelodd Ruth yn Harri bach, a dechreuodd ei gusanu.

"Mi gei di wel'd dy dad, 'mychan i. Wyddost ti! Mae dy dad yn

dwad," ebe hi drosodd a throsodd drachefn, fel yr oedd y plentyn yn synnu arni.

Yn y cyfamser, o'r tu fewn i'r ystafell, yr oedd gwaith arall yn myned ymlaen. Fe dynnodd Rachel Haliday Eliza tuag atti, ac a ddywedodd, "Mae'r Arglwydd wedi cymmeryd trugaredd arnat, fy merch; mae dy briod wedi diange o dy'r caethiwed."

"Rhuthrodd y gwaed fel ffrwd i wyneb Eliza, ac yn ol i'w chalon yn gyffelyb. A hi a eisteddodd i lawr yn welw, bron mewn llewygfa.

"Cymmer galon, fy merch," ebe Rachel, gan ddodi ei llaw ar dalcen Eliza; "mae yn mysg cyfeillion, a hwy a'u dygant yma heno."

"Heno!" ebe Eliza, "Heno!" Hi a gollodd ystyr y gair; trodd ei phen yn gymmylog a dyryslyd; ac am foment yr oedd pob peth mewn niwl a thywyllwch.

Pan ddeffrodd, hi a ganfu ei bod mewn gwely, a phlanced drosti, a Ruth yn rhwbio ei dwylo â champhyr. Agorodd ei llygaid fel mewn hanner breuddwyd, a'i theimladau mor hyfryd a phe buasai bwn mawr wedi ei symmud oddi ar ei chefn, a hithau yn chwennych gorphwyso. Yr oedd yr ofn aruthol a ymaflodd ynddi ar y cyntaf, ac heb laccio dim o'i afael hyd yn hyn, wedi ei symmud ymaith, a theimlai esmwythyd a diogelwch annirnadwy; ac fel yr oedd yn gorwedd, a'i llygaid mawrion yn dilyn symmudiadau'r sawl oedd o'i hamgylch, megys mewn breuddwyd melys, hi a ganfu'r drws yn agored, a'r bwrdd a llian gwyn arno wedi ei hilio at swpper; hi glywai'r tecetl yn suo canu, ac a welai Ruth yn gwibio yn ol ac ymlaen gyda phlatiau a chacenau, a soseri yn llawn cyffeithiau, ac yn awr ac yn y man yn sefyll i roddi cacen yn llaw Harri, neu i osod ei llaw ar ei ben, neu i ddirwyn ei wallt troellog o gwmpas ei bysedd bach gwynion. Hi a welai Rachel hefyd, a golwg mam ar bob cymmal o honi, yn dyfod at ochr y gwely yn aml, ac yn tyccio a thacluso'r dillad, fel argoel o'i serch a'i gofal; a theimlai fod math o belydrau heulog yn tywynnu arni o'i llygaid mawrion, clirion, cynhesol. Hi a welodd wr Ruth yn dyfod i mewn—a hithau yn rhedeg atto, gan sisial yn difrifol, a chyfeirio 'n fynych tua'r ystafell wely. Hi a'i gwelodd, a'i babi ar ei glin, yn eistedd i yfed tê; gwelodd hwynt oll o gwmpas y bwrdd, a Harri bâch ar gadair uchel, dan gysgod edyn Ruth; lle'r oedd swn siarad isel, a thincian y llwyau tê, a miwsig y cwppanau a'r soseri,—y cyfan oll mewn breuddwyd o dawelwch a gorphwysfa; a chysgodd Eliza mewn ffordd na chysgasai o'r blaen, er yr awr arswydus y diangodd gyda'i phlentyn ar noswaith rewlyd a serenog.

Hi a freuddwydiodd am wlad hyfryd—gwlad lle'r oedd gorphwysfa—glannau afonydd gwyrddlas, ynysoedd prydferth, dyfroedd grisialaidd,—ac yno, mewn tŷ ag y dywedid wrthi yn serchlon mai ei chartref oedd, hi a welai ei phlentyn yn chware yn fachgen rhydd a happus. Hi a glywai swn troed ei gwr, hi a'i teimlai yn nesâu atti; yr oedd ei freichiau am dani, a'i ddagrau yn syrthio ar ei gwyneb, a hi a ddeffrodd. Ond nid breuddwyd mo hono. Yr oedd y dydd wedi darfod er's meityn;

ei phlentyn yn cysgu'n dawel yn ei hymyl; y ganwyll yn llosgi'n ddwl ar y bwrdd, a'i phriod yn wylo'r dagrau'n hidl ar ei gobennydd.

Yr oedd drannoeth yn fore llawen yn nhy'r Cwacer. "Y Fam" wrthi hi gyda'r dydd, a bechgyn a genethod yn brysur o'i chwmpas, y rhai ni fedrem prin eu henwi ddoe, ac yr oeddynt yn myn'd ac yn dyfod mewn ufudd-dod i awgrymiad tyner Rachel—dim ond "Fyddai'n well i ti," neu yn fwynach fyth, "Oni byddai'n well i ti?" yn y gwaith o barottoi'r boreubryd; oherwydd y mae'r pryd hwnnw yn gofyn llawer iawn o barottoadau yn nyffrynoedd breision Indiana, fel ag y mae pigo dail rhosynau a chroppio'r perthi ym Mharadwys yn gofyn dwylaw eraill heblaw yr eiddo mam pob dyn byw. Gan hynny, tra'r oedd John yn rhedeg i'r ffynnon i gyrchu dwfr glân, Simon yr ail yn gogryn blawd at y teisenau, a Mary yn malu'r coffi, yr oedd Rachel wrthi hi'n dawel o fan i fan, yn gwneud caccenau, yn parottoi'r cyw iâr, ac yn pelydru math o heulwen ac yr holl beirian-waith. Os digwyddai fod rhyw grange yn gweithio'n anesmwyth, oddiar fawr awydd yr ieuainge i ragori yn eu gwahanol orchwylion, dodai irad arno â "Dowch, dowch!" neu "Ni wnawn i ddim fel yna;" yr hyn fyddai'n hen ddigon i rwyddhau pob anhawsder. Mae llawer o'r Beirdd wedi ysgrifenu am wregys Venus, ddarfod iddo roddi'r bendro i'r holl fyd y naill oes ar ol y llall. O'n rhan ni, byddai yn fwy dewisol gennym wregys Rachel Haliday, i gadw eu pennau rhag troi, a gwneud i bobpeth fyned yn y blaen yn esmwyth. Mae yn ddiau yn fwy priodol i'r oes hon.

Tra'r oedd y parottoadau hyn yn myned ymlaen, safai Simon yr hynaf yn llewys ei grys o flaen drych mewn congl, gyda'r gorchwyl gwrth-batriarchaidd o ymeillio. Yr oedd pob peth yn myned ymlaen yn y gegin fawr honno mor rwydd, mor esmwyth, mor lithrig,—fel yr ymddangosai mai pleser pawb oedd gwneud yr hyn oedd ganddo i'w wneud—yr oeddynt yn byw mewn awyr o gyd-gordiad a chyd-ymddiried; yr oedd hyd yn nod y cyllill a'r ffyrcs yn gwneud swn cartrefol wrth fyned ar y bwrdd; a'r ham a'r cyw yn y badell yn ffrio mor siriol, fel pe buasai yn well ganddynt eu coginio na pheidio; a phan ddaeth George, ac Eliza, a Harri bach i'r gegin, hwy a gawsant y fath groeso calon, fel nad rhyfedd ei fod yn ymddangos megis breuddwyd iddynt. O'r diwedd, yr oeddynt oll yn eistedd wrth eu boregwest, a Mari yn sefyll wrth y stove, i wneud leitcacs, y rhai a ddodid ar y bwrdd yn barhaus, fel y cyrhaeddent berffeithrwydd.

Nid oedd unman lle'r edrychai Rachel mor berffaith happus ag wrth ben ei bwrdd. Yr oedd cymmaint o galon anwyl mam yn ei dull o estyn plât neu dywallt cwppanaid, fel yr oedd yn gwneud ei bwyd a'i diod yn fwy blasus.

Dyma'r tro cyntaf i George erioed eistedd wrth fwrdd dyn gwyn fel ei gydradd; ac yr oedd ar y dechreu yn teimlo braidd yn yswil ac

anghynnefin; ond diflanodd y cwbl yn fuan dan ddylanwad y fath garedigrwydd teuluaidd, yn gyffelyb i darth o flaen pelydrau'r haul.

Mewn gwirionedd, yr oedd hwn yn gartref—*yn gartref*—gair na wybuasai George erioed ei ystyr; a dechreuodd cred yn Nuw ac ymddiried yn ei ragluniaeth dyfu o amgylch ei galon, megis, mewn cwmmwl euraidd o nawdd ac amddiffyn, y mae amheuon tywyll, anfoddog, grwgnachlyd, atheistaidd, yn toddi o flaen goleuni'r Efengyl—a hwnnw'n adlewyrchu o wynebau siriol, ac yn cael ei bregethu â thafodau gweithredoedd aneirif o gariad ac ewyllys da, pa rai, fel y cwppanaid o ddwfr yn enw disgybl, ni chollant byth mo'u gwobr.

"Beth os ceir di allan etto, fy nhad?" ebe Simon yr ail, pan oedd yn taenu'r 'menyn ar ei deisen.

"Mi dalaf y ddirwy," ebe Simon yn ddigon didaro.

"Beth os gyrrant di i garchar?"

"Oni fedret ti a dy fam drin y ffarm?" ebe Simon, a gwên ar ei enau.

"Fedr mam wneud bron bobpeth," ebe'r bachgen. "Onid ydi'n gywilydd gwneud y fath gyfreithiau?"

"Na ddywed yn ddrwg am bennaeth dy bobl, Simon," eb ei dad, yn sobr. "Nid yw'r Arglwydd yn rhoddi da'r byd hwn i ni i ddim ond gwneud yn iawn ac yn drugarog; os bydd ein pennaethiaid yn gofyn pris am hynny, rhaid i ni ei dalu."

"Wel, mae'n gâs gen i'r hen gaethfeistri yna!" ebe'r bachgen, yr hwn a deimlai mor anghristionogol ag y gweddai i un o ddiwygwyr y dyddiau hyn.

"Mae'n rhyfedd gennyf attat, fy mab," ebe Simon: "ni ddysgaist erioed mo hyna gan dy fam. Mi wnawn i yr un fath i'r caethfeistr ag i'r caethwas, pe dygai'r Arglwydd ef at fy mhorth yn drallodedig."

Gwridodd Simon yr ail fel yscarlad; ond gwenodd ei fam, a dywedodd, "Machgen da i ydi Simon; fe dyf yn hŷn bob yn dippyn, yna fe fydd fel ei dad."

"Gobeithio, fy anwyl syr, nad ydych mewn dim perygl o'n hachos ni," ebe George, yn ofnus.

"Paid ag ofni dim, George, oherwydd i hynny yr anfonwyd ni i'r byd. Os nad awn i berygl mewn achos da, yr ydym yn annheilwng o'n henw.

"Ond *o'm hachos i!*" ebe George, "nis medraf oddef y fath beth."

"Nac ofna, ffrind George, nid trosot ti, ond tros Dduw, yr ydym ni yn gwneud," ebe Simon. "Ac yn awr rhaid i ti aros yma yn ddistaw am heddyw, a heno, am ddeg o'r gloch, fe cymmer Phineas Ffletcher di hyd y lle nesaf sydd gennym—tydi a'r rhai oll sy gyda thi. Mae dy ymlidwyr yn gyrru yn drwm ar dy ol; nid oes gennym ddim amser i'w golli."

"Os felly, paham aros tan nos?" ebe George.

"Yr wyt ti yn ddiogel yma liw dydd, oherwydd Ffrind ydyw pob un yn y sefydliad, ac y mae pob un ar ei wyliadwriaeth. Heblaw hynny, mae'n fwy diogel trafaelio'r nos."

PENNOD XIV.

EFANGEL.

Seren ddisglaer am funudyn,
Yn pelydru heb ei hail ;
Prin 'r agorai'r peraidd rosyn
Cyn i'r gawod ddwyn ei ddail ·
Bun anwylaidd,
Ber, ond hawddgar, fu ei hoes.

Y Mississippi! Fel y mae wedi newid, megis à gwialen y swynwr, er pan ddarluniwyd hi gan Chateaubriand, yn afon fawr, ddi-dor, ac anghyfannedd, yn ymrolio trwy ryfeddodau anhyspys y greadigaeth lysieuaidd ac anifeilaidd.

Ond, megys mewn awr, mae'r afon hon o freuddwydion a gwyllt anturiaethau wedi torri allan i hanfodiad sylweddol, llawn mor hynod ag oedd dychymygion yr amser gynt. Pa afon arall ar wyneb y ddaear a gluda ar ei mynwes i'r weilgi, oludoedd ac anturiaethau gwlad nad oes ei chyffelyb,—gwlad ag y mae ei chynnyrchion yn cynnwys pobpeth rhwng y pegynau a'r gwregys llosg!

Mae llifddyfroedd cochddu'r afon hon, yn rhuthro, yn ffrothio, ac yn rhwygo ymlaen, yn adlewyrchiad priodol o'r llif o fasnach a ymarllwys ar hyd ei gwyneb, yn nwylaw dynion mwy diorphwys ac ymroddol nac a welodd y byd mewn unrhyw oes. O! na pheidiai a chludo hefyd, yn ei llong-lwythi, ddagrau'r gorthrymedig, ucheneidiau'r amddifad, a gweddïau chwerwon calonau tlodion ac anwybodus at Dduw nad adwaenant—anadnabyddus, anweledig, distaw, ond Duw a ddaw etto "allan o'i fangre, ac a weryd holl drueiniaid y ddaear."

Fel yr oedd yr agerdd-long drom-lwythog yn ymrwyfo ymlaen, yr oedd pelydrau haul brydnawn yn gwefrio ar wyneb dyfroedd llydain yr afon, a'r hesg a'r sypreswydd mawrion yn orchuddiedig â mwswgl yn hongian ar ei glannau, ac yn benthyca o'r adlewyrchiad euraidd.

Yn llawn o fwndeli cottwm, o'r amrywiol blanfeydd, i fynu dros ei bwrdd a'i hochrau, mae'r agerdd-long yn ymddangos oddiyma draw fel crynswth llwyd ysgwâr yn dynesu at borthladd y farchnadfa. Rhaid i ni chwilio am gryn amser ar hyd ei bwrdd llawn, cyn dyfod drachefn o hyd i'n hen gyfaill Twm, druan. O'r diwedd dyma fe, i fynu ar y bwrdd uchaf, mewn congl ymysg y bwndeli cottwm.

Mewn rhan trwy'r darluniad a gawsai gan Mr. Shelby, ac mewn rhan trwy ymddygiad rheolaidd a llonydd Twm, yr oedd hyd yn oed Haley wedi gadael iddo ynnill ei ymddiried i raddau pell.

Ar y dechreu gwyliodd ef yn fanwl trwy gydol y dydd, ac nis gadawai iddo gysgu'r nos heb osod gefynnau ar ei draed; ond efe a adawodd heibio y pethau hyn yn raddol, trwy ei fod yn gweled amynedd diachwyn Twm, a'i ymddangosiad boddlon o leiaf. Felly'r oedd Twm er's tippyn o amser megys ar air o ymddiried, yn cael rhyddid i fyned a dyfod fel y mynnai, ar fwrdd yr agerdd-long.

Un distaw, llonydd, a chymmwynasgar oedd Twm erioed, a dangosai bob parodrwydd i estyn help llaw i'r llongwyr; felly ynnillodd serch a ffafr pob un o honynt, a threuliodd lawer awr yn eu helpu mor ddifrifol a phe buasai ar ffarm yn Kentucky.

Pan welai nad oedd dim neillduol i'w wneud, efe a ddringai i ryw gongl ymysg y bwndeli cottwm ar y bwrdd uchaf, lle'r ymdrechai astudio ei Fibl, ac yno y cawn ef yn awr.

Dros gan' milltir neu ragor oddiar New Orleans, y mae'r afon yn uwch na'r wlad o amgylch, ac yn treiglo ei ffrwd anferth rhwng dau glawdd llanw cryfion, tuag ugain troedfedd o uchder. Mae'r teithiwr oddiar fwrdd yr agerdd-long, megys oddiar dyrrau castell nofiadwy, yn canfod y wlad o bobtu am filltiroedd lawer. O ganlyniad, yr oedd Twm yn gweled o'i flaen fap o'r byd oedd yn ei aros, yn llydan agored, yn blanfa ar ol planfa.

Efe a welai'r caethion oddiyma draw gyda'u caledwaith; ac efe a welai ymhell-bell eu rhesi o fythynod, yn disgleirio yn yr haul, a chryn dippyn rhyngddynt â phalasau a rhodfeydd gorwychion y meistri; ac fel yr oedd y pictiwr yn myned heibio iddo, troai ei galon yn ol at y ffarm yn Kentucky, a'r hen goedydd cysgodfawr—at dŷ ei feistr a'r neuadd ehang, oer, yn agos i'r caban bach, lle tyfai y rhosynau a'r briallu. Yno tybiai weled ei hen gyd-weision, y rhai a gyd-dyfasent âg ef er yn blant; efe a welai ei wraig yn brysur yn parottoi'r hwyrbryd; a chlywai grechwen lawen y plant wrth eu chware, a'r fechan yn pratlo o gwmpas ei draed; yna, gyda naid, diflannai'r cwbl ar unwaith, ac efe a welai drachefn y corsydd, yr hesg, a'r sypreswydd ar y planfeydd, a chlywai chwythiad a thuchan y peiriannau, yn dweyd yn rhy bendant fod byw yn Kentucky wedi myned heibio iddo am byth.

Dan y fath amgylchiadau, buasit ti yn ysgrifenu at dy wraig, ac yn gyrru annerchion at dy blant; ond ni fedrai Twm ddim ysgrifenu—nid oedd llythyrfa yn hanfodi iddo ef, ac yr oedd gagendor ymadawiad heb gymmaint a phont o air cyfeillgar neu arwydd o bell. Ai rhyfedd, ynte, fod ambell i ddeigryn hallt yn syrthio ar ddalenau ei Fibl, fel y mae o'i flaen ar y bwndel cottwm, a'i fys yn araf bach yn myn'd o air i air, i ddyfod o hyd i'r addewidion? Heb ond ychydig o ddysg yn ei ocs, nid oedd Twm ond darllenydd pur araf, ac âi ymlaen yn llafurus o adnod i adnod. Ond yr oedd yn lwccus iddo ef fod y llyfr y myfyriai ynddo yn un na wnai ei ddarllen yn araf ddim cam âg ef—ïe, un ag y mae ei eiriau, fel darnau o aur, yn gofyn eu pwyso ar wahan, fel y gallo'r meddwl deimlo eu hannhraethol werth. Gadewch i ni ei ganlyn am funud, tra mae yn dodi ei fys ar bob gair, ac yn ei ddarllen yn lled uchel:—"Na—thralloder

—eich—calcn. Yn—nhŷ—fy—Nhad—y—mae—llawer—o—drigfanau. Wele,—yr—ydwyf—fi—yn—myned—i—barottoi—lle—i—chwi."

Pan gladdodd Cicero ei unig a'i anwyl ferch, yr oedd ei galon mor lawn o alar gwirioneddol a chalon Twm—ddim llawnach, fe allai, oherwydd dyn oedd y naill, a dyn oedd y llall; ond nis medrai Cicero syllu uwch ben y fath eiriau gogoneddus o obaith, nac edrych ymlaen am gyfarfod mewn byd arall; a phe *buasai* yn eu gweled, deg i un na chredasai mo honynt,—buasai raid iddo lenwi ei ben yn gyntaf â miloedd o gwestiynau ynghylch gwirionedd yr ysgrifenlaw, a chywirdeb y cyfieithiad. Ond i Twm druan, dyna lle'r oedd, yn atteb i'r dim i'r hyn oedd arno eisiau, mor bendant yn wirionedd dwyfol, fel nad oedd yn bossibl i amheuaeth fyned i'w ben diniwed. Rhaid ei fod yn wir; oherwydd os nad oedd yn wir, pa fodd y gallai ef fyw?

Am Fibl Twm, er nad oedd ar ei ymylion help mewn nodiadau gan esponwyr dysgedig, etto yr oedd yno ryw fath o fynegbyst o ddyfais Twm ei hun, y rhai oeddynt fwy o gymhorth iddo ef na'r esponiadau mwyaf dysgedig. Byddai yn arfer cael plant ei feistr i ddarllen ei Fibl iddo, yn enwedig Mas'r George; ac wrth iddynt ddarllen, efe a roddai â phin ac inc ryw grisgroes ar gyfer yr adnodau mwyaf trawiadol i'w glust neu fwyaf effeithiol ar ei galon. Yr oedd ei Fibl wedi ei farcio fel hyn drwyddo draw, gydag amryw nodau a lluniau, a gallai ar gip-olwg droi at yr adnodau fyddai arno eisiau, heb fyned i'r boen o spelio allan yr hyn oedd rhyngddynt; ac fel yr oedd yn gorwedd yno o'i flaen, a phob adnod yn dwyn ar gof rywbeth a ddigwyddasai gartref, ac yn galw yn ol fwyniant a aethai heibio, yr oedd ei Fibl yn cynnwys y cwbl o'r byd hwn oedd yn ei feddiant, yn gystal a'r addewid am fyd i ddyfod.

Ymysg yr ymdeithwyr ar fwrdd y llong, yr oedd gwr ieuangc o gynhysgaeth a theulu da, a'i gartref yn New Orleans; St. Clare y gelwid ef. Yr oedd gydag ef ferch fechan, rhwng pump a chwech oed, ynghyda boneddiges a ymddangosai fel perthynas i'r ddau, a gofal neillduol y fechan ar ei llaw.

Cafodd Twm gip-olwg ar y ferch fach hon lawer gwaith—oherwydd yr oedd yn un o'r creaduriaid shongc, aflonydd, na fedrai aros yn yr unman ddim mwy na llygedyn haul neu awelon haf; ac os unwaith y gwelid hi, nid hawdd oedd ei gollwng yn anghof.

Yn lluniad ei chorpholaeth yr oedd yn berffeithrwydd o harddwch plentynaidd, heb ddim o'i besgiad lympaidd ac amrosgo. Yr oedd yn ei symmudiadau fath o brydferthwch awyrol ag a barai i ni feddwl mai creadur angylaidd ydoedd. Ymddangosai ei gwynebpryd yn hynottach am ryw ddifrifoldeb nodedig nac am berffaith lendid ei wedd, yr hyn a wnai i'r bywiog ei ddychymyg synnu wrth yr olwg arni, ac i'r dylaf deimlo rhyw argraph na wyddai paham. Yr oedd llun ei phen a ffurfiad ei gwddf a'i mynwes yn odidog ragorol, a'i gwallt llaes gwineu euraidd yn eu hamgylchu fel cwmmwl yn mhelydrau haul; a'i llygaid gleision yn edrych yn ddifrifol dan aeliau eurwych—y cwbl oll yn ei nodi allan o

fysg plant y byd, ac yn tynnu sylw pawb, gan beri iddynt droi ac edrych arni, yn ei gwibiad yma ac accw ar fwrdd y llong. Ëtto, er hyn i gyd, nid oedd y plentyn yn un a ellid ystyried yn drist neu drymaidd. Yn y gwrthwyneb, yr oedd diniweidrwydd ysgafn, chwareugar, plentynaidd, yn hofian o gylch ei symmudiadau awyrol, fel cysgod dail yr haf. Ni byddai byth yn llonydd yn yr unman, a phob amser â hanner gwên ar ei gwefus rosynaidd, yn gwibio yma a thraw fel gloywyn byw, gan suo canu wrthi ei hun fel mewn breuddwyd. Yr oedd ei thad a'i mammaeth ar ei hol yn ddibaid, a phan ddalient hi, diflannai o'u gafael fel cwmmwl haf; a pha beth bynnag a wnai, neu i ba le bynnag yr elai, ni chlywai air croes na sen gan ei thad na neb arall. Gwyn oedd ei gwisgiad yn wastadol, ac ymddangosai fel cysgod yn symmud yma a thraw, trwy bob math o le, heb lychwino nac ysmotio dim. Ac nid oedd na chell na chongl, i fynu nac i lawr, nad oedd ei hysgafndroed wedi bod ynddo, a'r pen euraidd gyda'i lygaid gleision wedi bod yn syllu arno.

Edrychai'r peiriannydd, yn chwys ac yn darth, i fynu oddiwrth ei ffwrnes danboeth, a gwelai'r llygaid gleision yn tremio mewn syndod i ddyfnderoedd ei boethfyd, ac fel yn tosturio wrth ei gyflwr annedwydd, gan feddwl ei fod mewn dirfawr berygl. Dro arall safai y dyn wrth y llyw, a gwenai pan gai gip-olwg ar ei phen fel pictiwr yn ffenestr y caban, ac yna'n diflanu ar amrantyn. Filwaith yn y dydd clywid lleisiau cryg yn ei bendithio, ac wrth fyned heibio eisteddai gwên lawn o serch ar ei hwynebpryd; a phan ddigwyddai iddi droedio llefydd peryglus, neidiai dwylaw geirwon, fel heb yn wybod, i'w helpu neu wastattau ei llwybr.

Twm, yr hwn oedd yn llawn o natur dyner a serchiadol ei bobl, a phob amser yn hiraethu am y diniwed a'r plentynaidd, a sylwai fwyfwy bob dydd ar y plentyn anwyl hwn. Ymddangosai iddo ef yn greadur nefolaidd o'r bron; a phryd bynnag y gwelai ei phen euraidd, a'i llygaid mawr gleision yn tremio arno heibio i fwndel o gottwm, neu yn edrych i lawr arno dros ryw ganllawiau, byddai yn dychymygu ei fod yn gweled rhai o'r angylion yn neidio allan o'i Destament.

Gwelid hi yn aml iawn yn cerdded yn bendrist o gylch y fan lle'r oedd caethion Haley, yn ferched a meibion, yn eistedd yn eu gefynau heiyrn. Ai i mewn i'w mysg, a syllai arnynt mewn math o boen a dyryswch difrifol; ac ambell waith hi a ymaflai â'i llaw fechan yn eu gefynau, a rhedai ymaith gydag uchenaid. Llawer gwaith yr ymddangosodd yn eu canol fel drychiolaeth, a'i dwylaw'n llawn o siwgwr candi, cnau, ac oranges, y rhai a rannai rhyngddynt, ac yna ymaith a hi.

Bu Twm yn hir yn gwylio'r fechan, cyn anturio tynnu cydnabyddiaeth â hi. Efe a wyddai am ddigonedd o ffyrdd i dynnu sylw plant a'u serch, a phenderfynodd ymaflyd yn y gorchwyl yn fedrus. Efe a fedrai wneud basgedi allan o gerrig eirin, a gwneud gwynebau digrif o gnau hiccory, a llunio jack y neidiwr allan o galon pren yscawen, ac am wneud chwibanoglau yr oedd yn drech na dewin. Byddai ei boccedi yn llawn o bresantau bach fel hyn i ddenu plant, y rhai a wnai ac a gadwai i foddio

plant ei feistr, a thynnodd hwynt allan gyda chynnildeb canmoladwy, bob yn un ac un, gan eu rhoddi iddi fel y gwelai gyfleusdra, i ynnill cydnabyddiaeth a serch.

Er fod y fechan yn awyddus am weled pobpeth oedd yn myn'd ymlaen, etto yr oedd yn yswil, ac nid hawdd oedd ei dofi. Weithiau hi safai fel aderyn ar ryw fwndel yn lled agos i Twm, tra byddai ef yn brysur yn dangos ei fàn delmau, a chymmerai'r hyn a gynnygid iddi, gyda math o wylder. Ond yn y diwedd daethant yn gryn ffrindiau.

"Beth gelwir chi, mechan i?" ebe Twm, o'r diwedd, ar ol i bethau aeddfedu mor bell a hynny.

"Efangel St. Clare," ebe hithau; ond y mae 'nhad a phawb arall yn fy ngalw Efa. Yn awr, beth gelwir chwi?"

"Twm ydi f'enw i; ond mi fyddai plant bach yn fy ngalw F'ewyrth Twm, draw ymhell yn Kentucky."

"O'r gore, mi galwaf finnau chwi F'ewyrth Twm—mae'n dda gen i am danoch, welwch chwi," eb Efa. "'Rwan, F'ewyrth Twm, i ble'r ewch chwi?"

"Nis gwn i ddim, Miss Efa."

"Ni wyddoch chwi ddim!" eb Efa.

"Na wn; maent am fy ngwerthu i rywun, ond nis gwn i ddim i bwy."

"Fedr nhad eich prynu," eb Efa, yn union; "ac os pryn ef chwi, cewch fyd esmwyth. Mi ofynaf iddo heddyw nesaf."

"Diolch i chwi, y plentyn anwyl," ebe Twm.

Safodd y llestr am ychydig i gymmeryd tanwydd i mewn, a chlywodd Efa lais ei thad, a rhedodd atto yn ysgafndroed.

Aeth Sam ymlaen i helpu cario'r coed, ac yr oedd yn fuan yn brysur ynghanol y llongwyr.

Yr oedd Efa a'i thad yn sefyll yn ymyl y ganllaw, i weled y llestr yn ail-gychwyn oddiwrth y lanfa; a chyda bod yr olwyn wedi rhoddi dau dro neu dri yn y dwfr, trwy ryw symmudiad neu gilydd, fe dripiodd y fechan, ac a syrthiodd dros ochr y llestr i'r afon. Cynnygiodd ei thad neidio ar ei hol, heb wybod pa beth yr oedd yn ei wneuthur, ond daliwyd ef o'r tu ol gan rai a welsant fod cynnorthwy llawer mwy effeithiol wedi myned ar ol ei blentyn.

Yr oedd Twm yn sefyll ar y dec isaf, yn union oddi tani pan gollodd ei gafael. Ac efe a'i gwelodd yn disgyn ac yn suddo; aeth ar ei hol ar amrantiad llygad. I ddyn mawr, brest-lydan, cryf ei freichiau fel efe, nid oedd cadw ar wyneb y dwfr boen yn y byd, hyd nes yr ail-ymddangosodd y plentyn, mewn moment neu ddau; ac efe a'i daliodd yn ei freichiau, a chan nofio at ymyl y llong, efe a'i hestynodd, yn wlyb ddiferu, i afael cannoedd o ddwylaw awyddus, y rhai a estynid allan i'w derbyn fel pe buasent oll yn eiddo un dyn. Ymhen ychydig funudau, dygwyd hi i ystafell y gwragedd, yn mreichiau ei thad, heb ond prin arwydd bywyd ynddi; lle y bu'r hyn sydd arferol dan y fath amgylchiadau—natur dda'r gwragedd yn ymryson am fod o ryw wasanaeth, ac felly yn achosi mwy o drwst a dyryswch, ac yn rhwystro ei hadferiad hyd yr oedd yn bossibl.

F'EWYRTH TWM YN ACHUB EFA RHAG DYFRLLYD FEDD.

" Efe a'i gwelodd yn suddo, a neidiodd ar amrantyn ar ei hol. . . . . Daliodd hi yn ei freichiau, a nofiodd i ymyl y llong, gan ei hestyn yn wlyb ddiferu i afael cannoedd o ddwylaw awyddus."

Drannoeth, diwrnod mwll, trymaidd, yr oedd yr agerdd-lestr yn nesâu at New Orleans; a gwelwyd arwyddion o barottoad a disgwyliad ymhob man trwyddi. Yn y cabin yr oedd pawb yn casglu eu pethau ynghyd, ac yn eu trefnu i fod yn barod i lanio. Gwelid y steward a phawb yn glanhau ac yn scrwbio, ac yn gosod pobpeth yn ei le yn y llestr hardd, fel y gallent lanio dan gamp. Ar y dec isaf eisteddai ein hen ffrind Twm, â'i freichiau ymhleth, a'i lygad, yn awr ac yn y man, yn troi yn bryderus at rywrai oedd yn sefyll ar ei gyfer yr ochr arall.

Dyna lle'r oedd yr Efangel brydferth, braidd yn llwyttach na'r dydd o'r blaen, ond heb ddim yn rhagor o effaith y ddamwain. Yn ei hymyl safai dyn lled ieuangc, hardd o gorpholaeth, ac argraph bonedd ar ei bryd a gwedd; pwysai ei benelin yn ddiofal ar fwndel o gottwm, ac yr oedd pwrs yn agored o'i flaen. Yr oedd cip-olwg ar y boneddwr yn ddigon i brofi mai tad Efa ydoedd. Yr un pen lluniaidd a hardd, yr un llygad mawr glas, yr un gwallt euraidd; ac etto yr oedd gwahaniaeth mawr yn eu hwynebpryd. Yn y llygad mawr, clir, goleu, yr un lliw a'r un llun, yr un fath yn union, etto heb ddim o'r ysbryd tawel, cymmylog breuddwydiol oedd yn meddiannu'r fechan: yr oedd y cwbl ynddo ef yn glir, yn eofn, ac yn oleu, ond goleuni'r byd hwn yn gwbl; ar ei wefus ddel a hardd eisteddai gwên falch, yn tueddu at ddiystyrwch, a chyda'r fath uwchraddoliaeth esmwyth a rhydd ag oedd yn gosod allan bob symmudiad o'i eiddo yn brydferth a deniadol. Yr oedd ar y pryd yn gwrando ar Haley, gyda math o osgo ysgyffala, hanner digrif a hanner diystyrllyd, yr hwn oedd yn siarad yn llithrig am ragoriaethau rhyw anifail yr oeddynt yn bargenio am dano.

"Yr holl rasau moesol a Christionogol, yn llyfr perffaith, wedi ei rwymo mewn morocco du!" eb efe, pan ddarfyddodd Haley.

"Wel, 'rwan, machgen anwyl i, faint ydi'r gost? fel y byddant yn dweyd yn Kentucky; mewn gair, pa swm raid dalu am hyn oll? Faint ydych am fy nghymmeryd i mewn, yn awr? Allan a hi!"

"Wal," ebe Haley, "pe bawn i yn deyd tri chant-ar-ddeg o ddolars am hwnyna, 'nawn i ddim ond dest safio mhen—na 'nawn, yn wir."

"Druan oedd o!" ebe'r boneddwr, gan syllu arno'n watwarus, â'i lygad llym a bywiog; "ond y mae'n debyg y gadewch i mi ei gael am hynny, am fod yn neillduol o dda gennych am danaf."

"Wal, mae'r ferch ifangc yma yn meddwl llawer iawn o hono fo, ac yn bur natrol."

"Oh, shwr iawn, dyna alwad am eich ewyllys da, fy ffrind. 'Rwan, fel math o elusengarwch Cristionogol, pwy mor rad y gallech fforddio ei werthu, o ran cymmwynas i ferch ifangc sy'n awyddus iawn am ei gael?"

"Wal, 'rwan 'styriwch y matter," ebe Haley; "'drychwch ar ei 'lodau fo, a'i frest lydan—mor gryfed a cheffyl. 'Drychwch ar ei ben o; mae'r talcenni uchel yna bob amser yn dangos fod y niggar yn dyall cyfrifon; mi 'nan y peth fyd fynnoch chi. Mi sylwas i ar hynyna. 'Rwan, mae niggar o garn a llafn fel hwnna yn werth cryn dippyn, o ran ei gorph yn

unig, fel pedai, a barnu fod o'n bendew; ond rhowch chi alluoedd meddwl i fewn, a mi fedra i ddangos fod gan hwn feddwl anghommon, wrth gwrs, mae o'n werth mwy o lawer. Mae'r gwalch yna wedi bod â holl ofal ffarm ei feistr ar 'i 'sgwydda. Mae gantho fo dalenta embydus at fusnes."

" Drwg, drwg, drwg iawn; mae'n gwybod gormod o lawer!" ebe'r dyn ifangc, gyda'r un wên o sport ar ei wynebryd. " Ni wnaiff o byth mo'r tro. Mae'ch pobl glyfer chwi bob amser yn diangc i ffordd, yn dwyn ceffylau, ac yn codi'r gwr drwg, yn gyffredin. Y mae arnaf ofn y rhaid i chwi ostwng cant neu ddau am ei fod mor glyfer."

" Wal, hwyrach y gallai fod rhwbeth yn hyna, oni b'ai garitor o; ond mi fedra' i ddangos o dan law i feistr ac erill, fod o'n reit grefyddol—y cradur mwya am weddïo, mwya gostyngedig, a mwya duwiol welsoch chi 'rioed. Mi fyddan' yn 'i alw fo'n bregethwr yn y wlad lle'r oedd o."

" Ac fe wnai'r tro yn gaplan teuluol i minnau," ebe'r dyn ifangc, yn sychlyd. " Dyna ddrych-feddwl campus. Mae crefydd yn beth digon prin yn ein tŷ ni."

" Siarad coegni yr ydych."

" Sut y gwyddoch chwi hynny? Onid ydych newydd roi'ch gair ei fod yn bregethwr? A gafodd ef ei urddo gan gymmanfa neu gyngor? Dowch, rhowch weled y papyrau."

Gallasai y masnachwr golli ei dymher, pe nas gwelsai yn nhroad y llygad fod yr holl ddigrifwch yma yn debyg o droi yn arian yn y diwedd; ond fel ag yr oedd, efe a osododd goden seimlyd ar y bwndel cottwm, ac a ddechreuodd chwilio rhyw bapyrau yn fanylaidd, a'r llall yn sefyll i edrych arno gyda math o ddigrifwch diofal.

" O papa, g'newch ei brynu! ni waeth faint daloch chwi am dano," eb Efa yn ei glust, a chan sefyll ar y bwndel, hi a osododd ei breichiau am wddf ei thad. " Mae gennych ddigon o arian. Mae arnaf fi ei eisiau."

" I ba beth, pwssi. Ydych chwi yn myn'd i'w gymmeryd yn degan chware, neu geffyl pren, neu pa beth?"

" Mae arnaf eisiau ei wneud yn happus."

" Dyna reswm newydd, beth bynnag."

Yma estynodd Haley bapyr o garacter a ysgrifenasid gan Mr. Shelby, a chydiodd St. Clare ynddo rhwng bys a bawd, a thaflodd olwg ysgyffala drosto.

" Llaw-ysgrifen gwr bonheddig," eb efe, " spelio'n dda hefyd. Wel, 'rwan, nid wyf fi ddim yn shwr, wedi'r cwbl, ynghylch y grefydd yma," gyda'r un troad rogus yn ei lygad. " Mae'r wlad wedi ei throi bron tu gwrthwyneb allan gan y crefyddwyr croenwyn; y fath boliticiaid crefyddol sydd gennym o flaen etholiad—ac y mae cymmaint o grefydd yn cael ei drafod, mewn gwlad ac eglwys, na wŷr creadur ddim pwy a'i twylla nesaf. Nis gwn i ddim ychwaith sut y mae crefydd yn sefyll yn y farchnad y dyddiau yma. Nid edrychais i ar y papyrau yn ddiweddar i weled y prisiau. Sawl cant o ddolars ydych yn ofyn ar gyfrif crefydd hwn?"

"Mae'n dda gennoch chi siarad yn ddigri," ebe Haley; "ond y mae *synwyr* dan hyna i gyd. Mi wn i fod gwahaniaeth mewn crefydd. Mae ambell un yn wael druenus; dyna grefydd y tŷ cwrdd, 'rwan; dyna grefydd y gweiddi a bloeddio, nid ydi rhai'n werth dim, mewn du na gwyn; ond y mae crefydd iawn, ac mi gwelis i hi mewn niggers mor amal a neb—y rhai llonydd, difrif, gonest, na 'nai'r holl fyd ddim 'i temtio nhw i neud peth feddylian nhw fod yn ddrwg; ac mi welwch yn y llythyr yma beth mae meistr Twm yn ddeyd am dano fo."

"Yn awr," ebe St. Clare, gan edrych yn ddifrifol ar y banc notes, "os gallwch chwi roi eich gair y medraf fi brynu crefydd *fel yna*, ac y bydd hynny rywbeth yn fy ffafr i yn y llyfr fry, fel fy eiddo i, ni hidiwn i ddim pe bawn yn talu tippyn yn rhagor am dano. Beth ydych yn ddweyd?"

"Wal, yn wir, fedra i ddim dweyd hynny," ebe'r masnachydd. "Mae gen i ryw feddwl y rhaid i bawb atteb drosto ei hun fan honno."

"Mae hynny'n lled galed ar ddyn fo'n talu mwy am grefydd, ac na fedr o wneud dim defnydd o honi hi yn y lle bo mwyaf o'i heisiau," ebe St. Clare, tra bu'n cyfrif twr o filiau. "Dyna, cyfra d'arian, yr hen walch!" eb efe, gan estyn y dyrnaid i Haley.

"Pob peth yn ei le," ebe Haley, a'i wyneb yn disgleirio o bleser; yna efe a dynnodd allan hen bottel ingc, ac a lanwodd bapyr y gwerthiad, yr yr hwn a estynodd ymhen ychydig funudau i'r gwr bonheddig.

"Beth pe bawn i yn cael fy nosparthu 'rwan," eb efe, wrth daflu golwg ar y papyryn, "nis gwn i faint a dalwn! Dywedwch hyn-a-hyn am lun fy mhen, hyn-a-hyn am dalcen uchel, hyn-a-hyn am fy mreichiau, fy nwylaw, a'm coesau; ac wedi hynny, hyn-a-hyn am addysg, gwybodaeth, talentau, gonestrwydd, crefydd! Gwarchod ni, mae arnaf ofn mai ychydig iawn fyddai gwerth yr olaf yna. Ond dowch Efa," eb efe, gan ymaflyd yn llaw ei ferch, a myned ar draws y llestr; dododd ei fys yn chwareugar dan ên Twm, a dywedodd, mewn tymher lawen, "Cwyd dy ben, Twm, ac edrych sut yr wyt yn leicio dy feistr newydd."

Cododd Twm ei olygon. Nid oedd yn bossibl i natur beidio llonni wrth edrych ar wyneb hardd a siriol y dyn ifangc; a theimlodd Twm y dagrau yn llenwi ei lygaid, pryd y dywedodd o waelod ei galon, "Bendith Dduw a'ch dilyno chi, mas'r!"

"Wel, gobeithio gwneiff hi, Twm. Mae mor debyg o wneud ar dy gais di a nghais innau, yn ol pobpeth a glywais i. Fedri di yrru ceffylau, Twm?"

"Wedi 'marfer â cheffylau 'rioed," ebe Twm. "Fydda Mas'r Shelby yn cadw llawer iawn."

"Wel, yr wy'n meddwl dy osod i yrru'r cerbyd, ar yr ammod na wnei di ddim meddwi yn amlach na dwywaith yn yr wythnos, oddigerth y bydd rhyw alwad neillduol."

Edrychodd Twm yn hynod o wirion, ac fel pe buasai wedi cael briwo ei deimladau, a dywedodd, "Ni bydda i byth yn yfed, mas'r."

"Mi glywais y stori yna o'r blaen, Twm, ond ni gawn weled. Fydd yn gyfleusdra neillduol i bawb y perthyn iddynt os na byddi. Na hidia, machgen i," eb efe, gyda gwên, pan welodd fod Twm yn dal i edrych yn drist, "nid oes gennyf un amheuaeth nad wyt yn bwriadu gwneud yn dda."

"Ydw'n wir, mas'r," ebe Twm.

"Ac mi gei fyd da hefyd, eb Efa; mae papa yn dda wrth bawb, ond ei fod yn chwerthin am ben pawb bob amser."

"Mae papa dan lawer o ddyled i chwi am y ganmoliaeth," ebe St. Clare, gan chwerthin a throi ar ei sawdl, a cherdded ymaith.

PENNOD XV.

AM FEISTR NEWYDD TWM, AC AMRYWIOL FATTERION ERAILL.

GAN fod edef bywyd ein cyfaill tlawd wedi dyfod yn awr yn gydweuedig â rhai o radd uwch, y mae'n angenrheidiol gwneud rhyw ychydig o sylwadau arweiniol yn eu cylch.

Un o honynt, sef Augustine St. Clare, ydoedd fab i blannwr cyfoethog yn Louisiana. Cafodd y teulu eu dechreuad yn Canada. O ddau frawd, tra thebyg i'w gilydd mewn tymher a nodweddiad, sefydlasai un ar ffarm flodeuog yn Vermont, a daeth y llall yn blannwr goludog yn Louisiana. Gwraig fonheddig o Ffraingc, un o'r Huguenotiaid, ydoedd mam Augustine teulu yr hon a ymfudasent i Louisiana yn nyddiau ei sefydliad cyntaf. Augustine a brawd arall oedd unig blant eu rhieni. Am fod cyfansoddiad ei gorph yn hynod o wanllyd, fel ei fam, anfonwyd ef i Vermont, fel y cryfheid ei gorph trwy effaith yr hin oeraidd ac iachus, a bu yno trwy ystod amryw flynyddoedd o'i ieuengctyd.

Yn ei faboed yr oedd yn nodedig iawn am ei deimladrwydd, yn debycach i dynerwch dynes nac i galedrwydd cyffredinol ei rywogaeth ei hun. Pa fodd bynnag, mewn amser tyfodd rhisglyn garw gwrolaeth dros y tynerwch hwnnw, ac ychydig feddyliasent mor fywiog a newydd yr oedd yn gorwedd yn ei galon, er hynny. Yr oedd ganddo dalentau o'r radd uchaf, er fod ei feddwl bob amser yn tueddu at y dychymmygol a'r chwaethus; ac yr oedd ganddo ryw wrthwynebiad i wir fusnes bywyd ag sydd yn ganlyniad cyffredinol a'r cydbwys yma yn ngalluoedd y meddwl. Yn fuan wedi gorphen ei addysg colegol, ennynodd ei holl natur yn un gorferwad nwdwyllt o naws ffugiol. Daeth ei awr—yr awr nad yw'n dyfod ond unwaith: cyfododd ei seren yn y terfyn-gylch—y seren honno sy'n codi mor fynch yn ofer, i'w chofio ond megys rhywbeth mewn breuddwyd; ac yn ofer y cyfododd iddo ef. Ond i roi heibio y gyffelybiaeth, carodd ac ennillodd serch dynes brydferth ac o feddwl godidog, yn un o'r

Talaethau gogleddol, a dyweddïwyd hwynt. Dychwelodd i'r dehau i wneud parottoadau erbyn eu priodas, ond, yn dra annisgwyliadwy, anfonwyd ei lythyrau yn ol iddo gyda'r post, ynghyda llythyr byr oddiwrth ei gwarchodwr yn dywedyd y byddai y ferch fonheddig yn eiddo un arall cyn iddo ef dderbyn y llythyr. Wedi ei frathu i'r byw, meddyliodd yn ei wallgofrwydd, fel llawer un arall, y medrai fwrw y cwbl allan o'i galon trwy un ymdrech egnïol—ond yn ofer. Yr oedd yn rhy falch i ymbil neu ofyn am eglurhad, gan hynny ymdaflodd ar unwaith i ganol ystwr cymdeithas y moeswych a'r llednais, ac ymhen y pymthengnos ar ol derbyn y llythyr anffodus, croesawyd ef fel cariad gan y ferch lân oedd yn brif-hudoles y lle yn y tymhor hwnnw; ac mor fuan ag y gellid gwneud pobpeth yn barod, ymbriododd â'r corph lluniaidd, y ddau lygad duon, disglaer,—a chan mil o ddolars; ac o ganlyniad, meddyliai pawb mai efe oedd y dyn dedwyddaf yn y wlad.

Un diwrnod, pan oedd y ddeuddyn yn cadw gwyl eu priodas, ac yn croesawu nifer dewisol o'u cyfeillion gwych yn eu hafdy ysplenydd, ger llaw Llyn Portchartrain, dygwyd llythyr iddo, mewn llaw-ysgrifen digon adnabyddus. Estynwyd iddo, pan ynghanol ymddiddan pleserus a chroesawus, mewn ystafell lawn o gwmpeini. Pan ganfu y llaw-ysgrifen, troes mor welw a'r angau, ond er hynny *edrychodd* yn dawel, a gorphenodd yr ymrafael chwarëus rhyngddo ef â gwraig fonheddig ar ei gyfer; ond ymhen ychydig, ymneillduodd o'r gymdeithas. Yn ei ystafell, ar ei ben ei hun, agorodd a darllenodd y llythyr, yr hwn yn awr oedd waeth nac ofer ac annefnyddiol. Oddi wrthi hi yr oedd y llythyr, yn rhoi hanes manwl am yr erledigaethau a ddioddefasai gan deulu ei gwarchodwr, i'r diben o'i hudo i briodi eu mab hwy; ac adroddodd am yr hir amser yr amddifadwyd hi o'i lythyrau; ei bod wedi ysgrifenu drachefn a thrachefn, nes dechreu blino ac ammau; ac fod ei hiechyd wedi methu o dan y cystudd; ac, o'r diwedd, ei bod wedi cael allan yr holl dwyll a arferid tuag attynt eill dau. Diweddodd y llythyr gydag ymadroddion o obaith a diolchgarwch, ac addefiadau o serch anfarwol, hyd angau—yr hyn oedd chwerwach nac angau ei hun i'r gwr ieuange annedwydd. Ysgrifenodd atti yn ddioed:—

"Derbyniais eich llythyr—ond yn rhy hwyr; credais y cwbl a glywswn. Yr oeddwn yn orwyllt. *Yr ydwyf yn briod*, ac y mae pobpeth drosodd. Yn unig, anghofiwch—dyma 'r cwbl a fedrwn wneud."

Ac fel hyn y terfynodd i Augustine St. Clare holl ffug a dychymmyg bywyd. Ond yr oedd y gwirionedd yn parhau—y sylwedd, fel y draethell, lom, leidiog, wedi i'r cychod buain, y llongau a'u hadnenydd gwynion, a swn y rhwyfau a chynghanedd y dwfr, lithro yn llyfn drosti, a myned heibio a distewi, yno y mae'r llaid yn gorwedd yn wastad-lyfn, yn llyslyd, ac yn noeth—ond yn sylweddol.

Mewn ffug-draethawd, gellir torri calonau pobl, ac y maent yn marw, a dyna ddiwedd am danynt; ac mewn chwedl y mae hyn yn gyfleus iawn. Ond mewn buchedd naturiol nid ydym yn marw pan y mae pobpeth

sy'n hyfryd i ni mewn bywyd yn marw. Ond y mae tymhor prysur a phwysig o fwytta, yfed, gwisgo, rhodio, ymweled, prynu, gwerthu, ymddiddan, darllen, a phobpeth sy'n gwneud i fynu yr hyn a elwir *byw*, i fyned trwyddo; ac yr oedd hyn etto i ddyfod i Augustine. Pe buasai ei wraig yn ddynes drwyddi, gallasai etto wneud rhywbeth—a medr dynes iawn wneud—rhywbeth i adglymu edafedd torredig einioes, a'u gweu drachefn yn bleth eirianwych. Ond ni fedrai Marie St. Clare gymmaint a gweled eu bod wedi eu torri. Fel y dywedwyd o'r blaen, yr oedd yn ddynes hardd o lun, â dau lygad ysplenydd, a chan mil o ddolars, ond nid oedd yr un o'r rhai hyn yn eli i iachau meddwl clwyfus.

Pan gafwyd Augustine yn gorwedd ar y soffa, yn welw iawn ei wedd, ac yn cwyno mai cur tost yn ei ben oedd yn achos o'i gystudd, estynodd iddo ei phottel o arogl adfywiol; a phan ddaeth y llwydni a'r cur yn y pen wythnos ar ol wythnos, cymmaint a ddywedodd oedd na feddyliasai erioed fod Mr. St. Clare yn ddyn afiach; ond y mae'n ymddangos ei fod yn ddarostyngedig i boen yn y pen, ac fod hynny yn anlwccus iawn iddi hi, oherwydd nad oedd yn bleser iddo fyned gyda hi i gwmpeini, ac y mae'n elrych mor chwithig i ddynes fyned ar ei phen ei hun, a hwythau newydd briodi. Yr oedd yn dda gan Augustine yn ei galon ei fod wedi priodi dynes mor ddi-ddeall; and wedi i fwynder a llyfnder y mis cyntaf wisgo ymaith, canfyddodd y gallai merch ieuange bryferth, yr hon a fynwesid ac a weinyddid iddi ar hyd ei bywyd, fod yn feistres galed mewn teulu. Ni bu gan Marie erioed lawer iawn o serch, na llawer o deimlad; ac yr oedd yr ychydig a feddiannai wedi suddo i ryw hunan-serch diarwybod a dwys. Yr oedd wedi ei hamgylchynu â gweision a morwynion o'i mebyd, holl waith y rhai oedd gweini i'w mympwy hi; ni feddyliasai erioed fod ganddynt na theimladau na hawl o'r eiddynt eu hunain. Unig blentyn ei thad oedd hi, ac ni ommeddasai hwnnw erioed iddi ddim a fewn gallu dynol ei gyrhaedd; a phan ddaeth i'w hoedran, yn brydferth, yn foneddigaidd, ac yn etifeddes, o ganlyniad yr oedd y meibion oll, dewisol ac annewisol, yn ymgrymu wrth ei thraed, ac nid oedd ganddi un amheuaeth nad oedd Augustine yn ddyn ffortunus anghyffredin i gael meddiant o honi. Camgymeriad mawr yw meddwl fod dynes heb galon dyner yn gyfnewidiad dymunol am un serchog. Nid oes neb ar y ddaear yn gofyn mwy o gariad gan arall na dynes hollol hunanol; a pho mwyaf anghariadus y mae hi'n myned, mwyaf eiddigus a manwl y mae hi yn gofyn serch, a hynny i'r ffyrling eithaf. Gan hynny, pan ddechreuodd St. Clare adael heibio y dyfalwch a'r hoffder a ddangosai yn y dechreu, canfyddodd nad oedd ei arglwyddes yn barod iawn i ryddhau ei chaethwas; yr oedd digon o ddagrau, sorri, a mân dymhestloedd, yr oedd anfoddlondeb, a churio, ac edliwiadau. Yr oedd St. Clare yn dda ei natur ac yn dyner, a cheisiai wneud i fynu trwy roddi iddi anrhegion a'i gwenieithio; a phan ddaeth Marie yn fam i ferch dlws, fe deimlodd, mewn gwirionedd, ryw ddeffroad o dynerwch. Yr oedd mam St. Clare yn ddynes o garacter dyrchafedig a difrycheulyd, a

galwodd y plentyn hwn ar enw ei fam, gan ddychymmygu yn hoff y byddai yn ail ddelw o honi. Sylwasai ei wraig ar y peth gydag eiddigedd anfoddlawn, ac edrychai ar orhoffder ei gwr am y plentyn gyda drwg-dybiaeth ac anesmwythder. Ymddangosai iddi hi fod y cwbl o'i serch tuag at Efa megys yn cael ei ddwyn oddi arni ei hunan. O amser genedigaeth y plentyn hwn dechreuodd ei hiechyd wanhau.

Ymhen ychydig o flynyddau,—oherwydd bywyd o syrthni parhaus, mewn corph a meddwl, prudd-der ac anfoddlonrwydd dibaid, ynghyd a'r gwendid cyffredinol sydd ynglyn ag amser magu—trowyd y ferch ieuange wridog yn ddynes felen, wywedig, afiachus, a threuliodd ei hamser o dan amrywiol glefydon dychymmygol, ac ystyriai ei hun ymhob modd fel yn cael ei thrin yn waeth ac yn dioddef mwy na neb yn y byd.

Nid oedd dim diwedd ar ei hamrywiol gwynfanau; ond ei phrif ddolur oedd llesgedd a phoen yn y pen, yr hyn a'i cadwai weithiau yn ei hystafell am dri diwrnod o'r chwech. O ganlyniad, yr oedd holl reolaeth y tŷ wedi disgyn i ddwylaw gweinidogion, a gwelodd St. Clare fod pobpeth yn myned ymlaen yn dra anghysurus. Yr oedd ei unig ferch yn hynod o wanllyd, ac am nad oedd ganddi neb i edrych ar ei hol a gweini iddi, ofnai y collai ei hiechyd, ac efallai ei bywyd hefyd, oherwydd anallu ei mam. Yr oedd wedi ei chymmeryd gydag ef ar daith i Vermont, ac wedi perswadio ei gyfnither, Miss Ophelia St. Clare, i ddyfod gydag ef i'w breswylfod ddeheuol; ac y maent yn awr yn dychwelyd yn y llestr hwn, lle y dygasom hwynt ger bron ein darllenwyr.

Ac yn awr, tra y mae tyrrau a phinaclau New Orleans yn dyfod i'r golwg draw, y mae gennym etto ddigon a hamdden i ddyfod â Miss Ophelia ymlaen.

Pwy bynnag a drafaeliodd yn Nhalaethau New England, daw i'w gof weled mewn rhyw bentref tawel, y ffarmdy mawr, gyda'r llannerch wyrddlas lân o flaen y drws, wedi ei chysgodi â dail llydain y sugar-maple; cofia hefyd am yr olygfa o drefnusrwydd a thawelwch, o lonyddwch parhaus a digyfnewid sydd megys yn gorphwys ar yr holl fan. Nid oedd dim ar goll, dim o'i le, dim cymmaint a pholyn yn rhydd yn y gwrych, dim llaesod nac annhrefu yn y buarth, a'r llwyni clysion o lilac yn tyfu o dan y ffenestri. Cofia hefyd am yr ystafelloedd eang, glân, o'r tu mewn i'r tŷ, nad ymddengys byth fod dim yn cael ei wneud neu am gael ei wneud ynddo, lle y mae pobpeth ar unwaith ac am byth yn hollol yn ei le, a'r holl drefniadau teuluaidd yn symmud mor fanwl a chywir a'r hen gloc yn y gornel. Ac yn "ystafell y teulu," fel ei gelwir, cofia fod yno hen lyfrgell barchus, â'i drws gwydr, yn cynnwys Hanesyddiaeth yr Hen Oesoedd, gan Rollin, Coll Gwynfa, gan Milton, Taith y Pererin, a Bibl Teuluaidd Scott, yn sefyll yn drefnus yn ochr yn ochr, ynghydâ lliaws o lyfrau difrifol a pharchus eraill. Nid oes na gweision na morwynion yn y tŷ, neb ond yr hen wraig fonheddig yn y cap claerwyn, a'i spectol ar ei thrwyn, yn eistedd i wnïo gyda'i merched bob prydnawn,

fel pe na buasai dim erioed wedi cael ei wneud, neu i gael ei wneud—yr oedd hi a'i merched *wedi gwneud y gwaith*, mewn rhyw ran foreuol o'r dydd, ac ar bob awr, efallai, o'r gweddill o hono yr oedd pobpeth yn ymddangos wedi ei orphen. Ni welid byth gymmaint ag ysmottyn ar lawr yr hen gegin, ac nid oedd y byrddau, y cadeiriau a'r amrywiol lestri, byth allan o'u lle, er fod tri ac weithiau bedwar o brydiau bwyd yn cael eu parottoi yno, a'r holl olchi a'r smwddio i'r teulu yn cael ei wneud yno, a phwysi o fenyn a chaws yn dyfod i fodoliaeth yno mewn ffordd ddistaw a dirgelaidd.

Ar y fath ffarm, ac yn y fath dŷ a theulu, y treuliasai Miss Ophelia bump-a-deugain mlynedd o fywyd tawel, pan wahoddwyd hi gan ei chefnder i ymweled â'i blàs yn y dehau. Er mai hi oedd yr hynaf o'r teulu mawr, etto yr oedd yn cael ei hystyried gan ei thad a'i mam fel un o'r "plant," ac yr oedd y cynnygiad iddi fyned i Orleans yn ddigwyddiad tra phwysig yn y teulu. Cymmerodd yr hen dad penllwyd ei fap allan o'r llyfrgell, ac edrychodd am hydred a lledred y lle, a chwiliodd lyfr o deithiau i gael boddloni ei hun mewn perthynas i natur y wlad.

Gofynnai yr hen fam dda, yn bryderus, "ai nid lle drygionus iawn oedd Orleans," gan ddywedyd ei fod yn ymddangos iddi hi agos mor waethed a myned i'r ynysoedd Sandwich, neu i rywle arall ymysg y paganiaid.

Gwyddid yn nhŷ'r gweinidog, yn nhŷ'r doctor, ac yn shop Miss Peabody, y miliner, fod Ophelia St. Clare "yn siarad" am fyned i lawr i Orleans gyda'i chefnder; ac o ganlyniad nis gallai yr holl bentref lai na rhoi eu cynnorthwy i *siarad* am y fath fatter pwysfawr. Nid oedd y gweinidog, yr hwn a safai yn dalgryf o blaid diddymiad y gaeth-fasnach, yn hollol ddiamheus na byddai cymmeryd y fath daith yn gefnogiad i'r deheuwyr i ddal eu gafael yn eu caethion; ond y doctor, yr hwn oedd yn drefedigaethwr diysgog, a farnai y dylsai Miss Ophelia fyned yno, i ddangos i bobl Orleans nad oedd pobl y gogledd yn meddwl mor galed am danynt ar ol y cwbl. Yn wir, yr oedd ef yn tybied y dylai pobl y dehau gael eu cefnogi. Pa fodd bynnag, pan wybuwyd yn sicr ei bod wedi penderfynu myned, gwahoddwyd hi allan i dê gan ei holl gyfeillion a'i chymmydogion bob dydd am bythefnos gyfan, a chwiliwyd allan yn drwyadl i'w diben yn myned, a pheth oedd ganddi mewn golwg. Yr oedd Miss Moseley, yr hon a daethai i'r tŷ i gynnorthwyo i wneud y gwisgoedd, yn cynnyddu beunydd mewn cymmeriad oherwydd ei medrusrwydd yn y gorchwyl pwysig hwnnw. Cafwyd allan fod y Scwïer Sinclare (fel y talfyrrid yr enw yn gyffredin yn y gymmydogaeth) wedi rhoddi i Miss Ophelia hanner can dolar, a pheri iddi brynu unhyw ddillad a welai yn dda; ac fod dwy wisg newydd o sidan, a bonnet, wedi cael anfon am danynt i Boston. Mewn perthynas i'r priodoldeb o fyned i'r fath gost, yr oedd gwahaniaeth yn meddyliau pobl. Rhai yn haeru fod y peth yn burion, am unwaith mewn oes, ac ystyried pobpeth; a'r lleill yn haeru yn gadarn mai gwell fuasai anfon yr arian i'r cenhadon; ond yr oedd pob plaid yn cyttuno na welwyd erioed yn y parthau hynny y fath barasol a

honno a dderbyniwyd o New York, ac fod ganddi un wisg sidan mor dew ag y gallai sefyll ei hun, pa beth bynnag ellid ddywedyd am ei pherchenog. Yr oedd chwedl gredadwy ar led fod gan Miss Ophelia un hances pocced a lâs o'i chwmpas—a dywedid fod hyd yn oed y conglau wedi eu gweithio; ond ni chafwyd dim sicrwydd boddhaol ar y pwngc olaf hwn, ac yn wir, y mae heb ei settlo hyd y dydd heddyw.

Y mae Miss Ophelia, fel y gwelir hi'n awr yn sefyll o'ch blaenau, mewn gwisg drafaelio o lïain llwyd gloyw iawn, yn dal, yn scŵar ei llun, a chornelog. Yr oedd ei gwyneb yn deneu, ac yn lled lym; y gwefusau wedi eu gwasgu at eu gilydd, fel rhywun sy'n arferol o wneud ei meddwl i fynu yn benderfynol ar bobpeth; ac yr oedd ei llygaid craff, tywyll, yn hynod o chwiliadwy, ac yn ochelgar yn eu symmudiad, yn rhedeg dros bobpeth, fel pe byddent yn edrych am rywbeth i gymmeryd gofal o hono.

Yr oedd ei holl symmudiadau yn gyflym, yn benderfynol, ac yn egnïol; ac er nad oedd hi byth yn siarad llawer, yr oedd yr hyn a ddywedai yn union i'r pwrpas.

Yn ei harferion yr oedd yn gorpholaeth byw o iawndrefn, rheol, a manylder. Yr oedd mor gywir i'w hamser a'r cloc, ac mor anhawdd ei heddychu a pheiriant rheilffordd; ac yr oedd yn diystyru ac yn ffieiddio pobpeth i'r gwrthwyneb.

Pechod y pechodau—swm pob drygau—a ddarlunid ganddi mewn un gair cyffredin a phwysig yn ei geirlyfr, "diymadferth." I ddangos ei diystyrwch eithaf rhoddai bwyslais mawr ar y gair "diymadferth;" ac â hwn y desgrifiai bobpeth oedd yn myned ymlaen heb berthynas union-gyrchiol ac anffaeledig â chyflawniad yr hyn fyddai mewn golwg. Pobl na wnaent ddim, neu na wyddent yn iawn pa beth oeddynt am ei wneud, neu na chymmerent y ffordd unionaf i gyflawni yr hyn a gymmerent mewn llaw, oeddynt wrthddrychau o'i llwyr ddiystyrwch; diystyrwch a ddangosai trwy ryw edrychiad gwgus, caled, yn hytrach nac mewn geiriau, fel pe buasai yn scornio dywedyd dim ynghylch y matter.

Mewn perthynas i addysg, yr oedd ganddi feddwl clir, cadarn, a bywiog, ac wedi darllen llawer mewn hanesyddiaeth a'r hen awduron Seisnig goreu, ac yn meddwl yn rymmus, o fewn cyffiniau rhyw gylch cyfyng. Yr oedd ei daliadau crefyddol i gyd wedi eu gwneud i fynu, a'u henwau yn ysgrifenedig arnynt yn bendant ac eglur, fel y bwndeli o glytwaith yn ei thrwngc; yr oedd nifer pennodol o honynt, ac heb gymmaint ag un i'w chwanegu attynt byth. Felly hefyd yr oedd ei drychfeddyliau mewn perthynas i fatterion ymarferol y bywyd hwn—megys cadw tŷ, yn ei holl ganghenau, ac achosion gwladol ei phentref ei hun.

Ac o dan y cwbl, yn ddyfnach na dim arall, yn uwch ac yn llettach, gorweddai yr egwyddor gryfaf yn ei bodoliaeth, sef cydwybodoldeb. Nid oes unman lle y mae cydwybod mor hollol arglwyddiaethol ag ydyw ymysg merched New England. Hi ydyw y sylfaen o wenithfaen sy'n

gorwedd ddyfnaf yn y ddaear, ac yn dyrchafu allan, hyd yn oed i bennau y mynyddoedd uchaf.

Yr oedd Miss Ophelia yn gaethforwyn hollol i'r "*mi ddylai*." Ond iddi unwaith wybod yn sicr fod "llwybr dyledswydd" yn rhyw fan ar ei chyfer, nid oedd na dwfr na thân a'i rhwystrai ar hyd'ddo. Hi a gerddai yn syth i lawr i waelod ffynnon, neu i fynu at drwyn magnel ag ergyd ynddo, os byddai ond yn berffaith sicr mai yno yr oedd y llwybr yn arwain. Yr oedd ei phrawfreol o'r hyn sydd iawn mor ddyrchafedig, mor oll-gofleidiol, ac mor fanwl, ac yn cyd-ddwyn mor lleied â gwendid dynol, er iddi ymdrechu yn orchestol i'w chyrhaedd, ni fedrodd erioed wneud hynny yn wirioneddol, ac o ganlyniad yr oedd yn cael ei blino beunydd gan deimlad o'i diffygion. Rhoddai hyn ryw wawr led erwin a phruddaidd ar ei nodweddiad crefyddol.

Ond pa sut yn y byd y mae Miss Ophelia yn medru cydfyn'd âg Augustine St. Clare—y gorhoenus, yr esgeulus, y rhydd-dybiwr—yn fyr, un yn sangu yn ddigywilydd ac yn ddiofal ar ei harferion a'i mympwyau hoffaf?

Wel, i ddweyd y gwir, yr oedd Ophelia yn hoff iawn o hono.

Pan oedd yn fachgen, hi a ddysgai iddo ei Gatecism, a drwsiai ei ddillad, a gribai ei ben, a'i dygai ef i fynu yn y ffordd y dylai rodio ynddi; a chan fod yn ei chalon ryw led gynhesrwydd tuag atto, ennillodd Augustine (fel yr arferai wneud â'r rhan fwyaf o bobl) ran fawr o honi iddo ei hun, ac oherwydd hynny llwyddodd yn hawdd iawn i'w pherswadio fod "llwybr ei dyledswydd" yn arwain tua New Orleans, ac fod yn rhaid iddi fyned gydag ef i gymmeryd gofal am Efa, ac i achub pethau rhag myned i ddistryw yn ystod mynych selni ei wraig Merwinodd ei chalon wrth feddwl fod tŷ heb neb i edrych ar ei ol; ac hefyd, yr oedd yn caru y lodes fach hawddgar, fel, yn wir, y gwnai pawb arall; ac er ei bod yn edrych ar Augustine fel rhyw hanner pagan, etto yr oedd yn ei hoffi, yn chwerthin am ben ei ddigrifwch, ac yn cyd-ymddwyn â'i wendidau, i'r fath raddau ag oedd yn syndod i'r rhai a'i hadwaenent. Ond pa faint bynnag ychwaneg sydd ddymunol i'w wybod am Ophelia, rhaid i'r darllenydd ei gael allan trwy gydnabyddiaeth bersonol.

Dyna hi, yn eistedd yn ystafell wych y llestr, wedi ei hamgylchu â llu o gydau carped bychain, tryngciau, basgedi, pob un yn cynnwys rhywbeth gwerthfawr, yr hwn gyda gwyneb difrifol y mae hi'n brysur yn ei rwymo, ei g'lymmu, ei baccio, neu ei sicrhau.

"Yrwan, Efa, a ydych wedi cadw cyfrif o'r pethau? Na ddo, mae'n debyg—nid ydi plant byth yn gwneud; dyna'r cwd carped smotiog, a'r band-bocs glas bach, a'ch bonnet oreu ynddo—dyna ddau; a'r gôd o India rwbber, yn dri; a'm blwch tâp a nodwyddau, yn bedwar; a'm band-bocs i yn bump; a'm bocs coleri, yn chwech; a'r trwngc bach blewog hwnnw yn saith. Pa beth a wnaethoch â'ch cysgod rhag yr haul? Rhoddwch ef i mi, a gadewch i mi roi tippyn o bapyr o'i gwmpas, a'i rwymo wrth yr umbrela gyda'm cysgod i; dyna chwi."

"O Modryb, nid ydan' ni ddim ond myn'd adre—pwy iws?"

"I'w gadw'n ddel, blentyn; rhaid i bobl gymmeryd gofal gyda'u pethau os ydyn' byth yn meddwl am gael pethau; ac 'rwan, Efa, ydi eich gwnïadur wedi ei chadw?"

"Yn wir, modryb, ni wn i ddim."

"Wel, na hidiwch; mi edrychaf fi dros eich bocs chwi; gwnïadur, cwyr, dwy lwy, sisswrn, cyllell, nodwydd-dâp; pobpeth yn iawn—dodwch nhw i mewn yma. Pa sut y gwnaethoch, blentyn, wrth ddyfod, a neb ond eich tad gyda chwi? Mi feddyliwn i b'asech yn colli pobpeth oedd gennych."

"Wel, modryb, mi ddaru mi golli llawer iawn; ac yna, pan 'rosem yn rhywle, gwnai papa brynu rhai yn eu lle."

"Gwarchod ni, blentyn, fashwn ffordd."

"Ffordd esmwyth iawn oedd hi," eb Efa.

"Un annarbodus ofnadwy oedd hi," ebe modryb.

"O, modryb, beth a 'newch chwi rwan?" eb Efa. "Y mae'r trwngc yna yn rhy lawn i gau."

"Y mae'n *rhaid* iddo gau," ebe modryb, gan edrych fel cad-lywydd, ac ar yr un pryd yn stwffio'r pethau i mewn ac yn neidio ar y cauad; ond yr oedd agen fechan i'w gweled etto rhwng yr ymylau.

"Neidiwch i fynu yma Efa!" ebe Miss Ophelia, yn wrol; "yr hyn a wnaed unwaith, gellir ei wneud etto. Mae y trwngc yma *i gael* ei gau a'i gloi—nid oes dim dwywaith am dani."

A'r trwngc, wedi cael ei ddychrynu gan y geiriau penderfynol hyn, a gauodd. Rhoes yr hespan glec yn y twll, a throes Miss Ophelia yr agoriad yn y clo, a dododd yn ei phocced yn fuddugoliaethus.

"Yrwan, yr ydym yn barod. Ymhle mae eich papa? Yr ydwyf fi'n meddwl ei bod yn bryd i yrru'r pethau yma allan. Edrychwch o gwmpas, Efa, a chwiliwch am eich tad."

"O, y mae yn y pen draw i gabin y boneddigion, yn sugno orange."

"Nid ydyw yn gwybod ein bod yn dyfod mor agos," ebe'r fodryb; "oni byddai yn well i chwi fyned a siarad âg ef?"

"Nid yw papa byth mewn brys o gwmpas dim yn y byd," eb Efa, "ac nid ydym wedi dyfod at y làn etto. Picciwch i fynu at y canllawiau, modryb. Edrychwch! Dyna ein tŷ ni, i fynu fan accw."

Yn awr, dechreuodd y llestr duchan yn drwm, fel rhyw anghenfil mawr wedi blino, a gwthiodd ymlaen i fysg y lliaws o agerdd-longau yn y porthladd; ac Efa, gyda llawenydd, a bwyntiodd allan y gwahanol glochdai, tyrau, a phethau hynod eraill, a welai yn ei dinas enedigol.

"Ie, ïe, y mae'r cwbl yn glws iawn," ebe Miss Ophelia. "Ond, gwarchod ni! y mae'r llong wedi sefyll! Ymhle mae eich tad?"

Ac yn awr daeth y dwndwr o lanio—oddeutu ugain o waiters yn rhedeg ar unwaith—dynion yn tynnu yn y tryngciau, y cydau, a'r cistiau—merched yn galw ar eu plant, a phawb yn ymdyrru at y plangciau, i fyned i'r làn.

Eisteddodd Miss Ophelia yn benderfynol ar y trwngc ystyfnig a orchfygasid ganddi, a chan osod ei holl eiddo yn rhes drefnus, ymddangosai megys yn penderfynu eu hamddiffyn hyd y diwedd.

"A gaf fi gym'ryd eich trwngc, ma'am?" "A gaf fi gym'ryd eich pacciau, ma'am?" "Gadewch i mi edrych ar ol eich pethau, ma'am." "Oni chaf fi gym'ryd y rhai'n, missis?" yn byddaru ei chlustiau. Ond eisteddodd yn ddiysgog, mor syth a nodwydd 'sanau wedi ei phlanu mewn bwrdd, gan ddal gafael yn dyn yn ei humbrela a'i pharasol, ac atteb gyda'r fath benderfyniad ag oedd yn ddigon i daro dychryn hyd yn oed i galon cludydd llog, a synnu yn awr ac yn y man, a dywedyd wrth Efa, "pa beth ar y ddaear y mae eich tad yn ei feddwl?—yn shwr, nid yw o ddim wedi syrthio dros y bwrdd—y mae'n rhaid fod rhywbeth wedi digwydd;" a chyda'i bod yn dechreu ei dirwyn ei hun dros ei phen i drallod, daeth St. Clare i fynu gyda'i ysgogiad ysmala arferol, a chan roddi i Efa ddarn o'r orange, dywedodd,—

"Wel, fy nghares Vermont, y mae'n debyg eich bod yn hollol barod?'

"Yr ydwyf fi'n barod, ac wedi bod yn disgwyl er's agos i awr," ebe Ophelia; "yr oeddwn i'n dechreu bod yn anesmwyth iawn am danoch."

"Wel, y mae'r cerbyd yn ymyl, ac y mae'r dyrfa wedi myned heibio 'nawr, ac mi fedrwn gerdded yn rhwydd ac mewn dull Cristionogol, heb gael ein gwthio a'n pwnio. Hwde," eb efe wrth yrrwr oedd yn sefyll y tu ol iddo, "cymmer y pethau yma."

"Mi edrychaf fi ar ei ol i weled ei fod yn eu rhoddi i mewn," ebe Ophelia.

"Oh, nonsens, 'nghares, i ba ddefnydd?" ebe St. Clare.

"Wel, modd bynnag, mi gariaf fi hwn, a hwn, a hwn," ebe Miss Ophelia, gan bigo allan dri bocs a bag bychan.

"Fy Miss Vermont anwyl," ni wiw i chwi wneud yma fel y byddech yn gwneud ar y Moelydd Gwyrddion. Y mae'n rhaid i chwi ymddwyn yn rhywbeth tebyg i bobl y dehau, a pheidio cerdded o dan yr holl lwyth yna. Mi feddyliant eich bod mewn gwasanaeth; rhoddwch hwynt i'r dyn yma; efe a'u gesyd ar lawr mor esmwyth a phe byddent yn wyau."

"Edrychodd Miss Ophelia yn drist pan gymmerodd ei chefnder y trysorau oddi arni, ond troes yn llawen iawn pan ganfu ei holl bethau gyda hi yn ddiangol yn y cerbyd.

"Ymhle mae Twm?" eb Efa.

"Oh, y mae yna, o'r tu allan, fy ngeneth i. Yr ydwyf fi yn myn'd i'w gymmeryd i fynu at eich mam, i wneud hedd-offrwm yn llc'r cena' meddw a ddymchwelodd y cerbyd."

"Oh, mi wneiff Twm yrrwr gwych, yr ydwyf fi'n shwr," ebe Efa; "ni wneiff o byth feddwi."

Safodd y cerbyd o flaen drws hen blasdy, wedi ei adeiladu yn y dull hanner Yspaenaidd hanner Ffrengig hwnnw a welir yma ac accw mewn rhai parthau o New Orleans. Adeiladasid ef yn ol cynllun y Moors—yn bedwar-ochrog, ac yn amgylchu cyntedd, i'r hwn y gyrrwyd y cerbyd

o dan fwa. Yr oedd yn amlwg fod y cyntedd o'r tu mewn wedi cael ei drefnu i foddhau blys moethus a chywrain. Yr oedd rhodfeydd yn rhedg o amgylch y pedair ochr, yn gorphwys ar fwäu ysgafn a cholofnau meinion, âg addurniadau Arabaidd arnynt, y rhai a ddygent y meddwl yn ol, megys mewn breuddwyd, i hen oesoedd dychymygol Yspaen. Ynghanol y cyntedd yr oedd ffynnon yn pistyllio i fynu ddwfr arianwyn, yr hwn a ddisgynai yn barhaus yn wreichion disglaer i gafn o fynor, wedi ei wregysu âg ymylwaith llydan o grinllys pêr eu harogl. Yr oedd y dwfr gloyw grisialaidd yn llawn o bysgod euraidd ac ariannaidd, yn saethu drwyddo ac yn serennu fel gemmau byw. Oddiamgylch y ffynnon yr oedd cerddedfa, wedi ei phalmantu â cherrig mân amryliw; ac yr oedd y llwybr hwn wedi ei amgylchynu â chantell o laswellt llyfn, esmwyth fel melfed, ac yn am-gau y cwbl yr oedd ffordd gerbyd wastad. Yr oedd dwy goeden aur-afalaidd fawr, yn llawn blodau, yn taflu eu cysgod hyfryd dros y cyfan; ac o bob tu i'r glaswellt yr oedd llestri mawrion o waith cywrain a lliwiau gwych, yn cynnwys planhigion blodeuog dewisol, o'r gwledydd poethion. Yr oedd yno bomgranadwydd mawrion, â'u dail llyfnion gloywon, a'u blodau fflamgoch; y jessamine Arabaidd, dywylldeiliog, â'u ser disgleirwych; geraniums; rhosynau mawrion, yn crymu o dan eu gorlwyth gwych; y verbenum lemon-aroglaidd; y cwbl yn taflu allan eu blodau ac yn gwasgaru eu harogl peraidd; ac yma ac accw gwelid rhyw hen aloe, â'i ddail trymion, yn eistedd yn dawel fel rhyw swynwr oedranus yn gorphwys yn ardderchog ymysg y llysiau darfodedig o'i amgylch.

O flaen y rhodfeydd o amgylch y cyntedd yr oedd llenni cywrein-we, o ryw fath o ddefnydd Mooraidd, y rhai a dynnid i lawr i gau allan belydrau yr haul, pan y mynnid. Ar y cyfan, yr oedd golygfa'r lle yn odidog ac yn rhyfeddol.

Fel yr oedd y cerbyd yn gyrru i mewn, yr oedd llawenydd Efa mor awyddus ag aderyn yn barod i ehedeg o'i fagl.

"Oh, fy nghartref clws, onid ydyw yn anwyl!" ebe hi wrth Miss Ophelia. "Onid ydyw yn brydferth!"

"Mae yn lle hardd," ebe Miss Ophelia, fel yr oedd yn disgyn o'r cerbyd; "ond y mae'n ymddangos i mi yn o hen ac yn lled baganaidd."

Neidiodd Twm i lawr, ac edrychodd o'i gwmpas gyda rhyw fwynhad tawel, distaw. Dylid cofio fod y negro wedi cael ei drosglwyddo o'r gwledydd gorwychaf yn y byd, ac y mae serch yn ei galon at bobpeth sy'n ardderchog, yn wych, ac yn ddychymygol; ond y mae'r serch yma, pan na ddefnyddir yn iawn ac heb chwaeth priodol, yn dwyn arno ddirmyg y dyn gwyn oeraidd a mwy manwl.

St. Clare, calon yr hwn oedd yn llawn o awenydd a serch at bobpeth prydferth, nis gallai lai na gwenu ar sylwad Miss Ophelia mewn perthynas i'w breswylfod, a chan droi at Twm, yr hwn oedd yn sefyll ac yn edrych o'i gwmpas, â'i wyneb du yn disgleirio gan ryfeddod, dywedodd—

"Twm, fy machgen i, mae hyn yn ymddangos megys yn dy foddio."

"Ydi, mas'r, mae'n apped i'r dim," ebe Twm.

Aeth yr ymddiddan hwn heibio mewn amrantyn, a dygwyd y tryngciau i mewn, talwyd i'r cludydd, a daeth tyrfa o bob oedran a maintioli—dynion, merched, a phlant—dan redeg ar hyd y rhodfeydd, i lawr ac i fynu, i weled mas'r yn dyfod i mewn. Ymhlith y cyntaf o honynt daeth dyn ieuangc melynddu ymlaen, yr hwn, fel y gwelid yn amlwg, oedd yn rhywun nodedig, wedi ymwisgo yn y modd gwychaf, ac yn chwyfio ei hancets bocced beraroglaidd, o gambric gwyn.

Yr oedd y gwr yma wedi bod yn hynod o egnïol a bywiog yn gyrru ymaith y dorf o weision a morwynion i'r pen draw i'r verandah.

"Sefwch yn ol, i gyd! Y mae'n g'wilydd gen i drostoch," eb efe, mewn llais awdurdodol. "A fynnech chwi ymwthio i gwmpeini teuluaidd eich meistr yr awr gyntaf ar ol ei ddychweliad?"

Edrychasant i gyd yn swil ar ol yr araith hyawdl hon, a safasant yn dwrr gyda'u gilydd o hirbell, oddieithr dau neu dri o borthorion, y rhai a ddaethant ymlaen i gario'r pacciau i mewn.

Mewn canlyniad i drefniadau rhagorol Mr. Adolph, pan droes St. Clare o amgylch wedi talu ei gyflog i'r cludydd, nid oedd neb mewn golwg ond Mr. Adolph ei hun, yn sefyll yn wych yn ei wasgod sidan, a'i lodrau gwynion, a chadwen aur wrth ei watch, ac yn ymgrymu yn hynod o fwyn a boneddigaidd.

"Ah, Adolph, ai ti sy 'na?" ebe ei feistr, gan estyn iddo ei law; "sut yr wyt ti machgen i?" tra yr oedd Adolph yn tywallt allan araith dafodrydd, yr hon a barottoisai bythefnos o'r blaen.

"Wel, wel," ebe St. Clare, gan fyned heibio yn ei ddull ysmala arferol, "mae'r araith yna wedi ei gwneud yn glyfer iawn. Edrych ar ol y pacciau. Mi ddeuaf fi at y bobl yn y munud;" a chan ddywedyd felly, arweiniodd Miss Ophelia i mewn i barlwr mawr oedd yn agor ar y verandah.

Tra'r oedd hyn yn myn'd ymlaen, yr oedd Efa wedi rhedeg fel aderyn trwy 'r porth, a thrwy 'r parlwr, i ystafell fechan o'r neilldu.

Cyfododd dynes dal, lygad-ddu, felynlwyd, ar ei lled-eistedd ar esmwyth-faingc y gorweddai arni.

"Mamma!" ebai Efa, gyda gorlondeb, gan daflu ei hun ar ei gwddf, a'i chofleidio drosodd a throsodd drachefn.

"Mi wneiff hynna'r tro—cym'rwch ofal blentyn—peidiwch, yr ydych yn codi cur yn fy mhen!" eb ei mam, gan ei chusanu yn lled oeraidd.

Daeth St. Clare i mewn, cofleidiodd ei wraig mewn dull diffuant, priodasol, ac yna dygodd ei gyfnither ymlaen. Cyfododd Marie ei llygaid mawrion i fynu at ei chyfnither, edrychodd arni yn hanner syn, a derbyniodd hi gyda rhyw foesgarwch marwaidd. Yn awr ymwthiodd tyrfa o wasanaethyddion ymlaen at y drws, ac yn eu mysg yr oedd dynes felynddu, o ganol oedran, o ymddangosiad tra pharchus, yr hon a ddaeth i mewn yn flaenaf, dan gryndod o ddisgwyliad a llawenydd.

"Oh, dyna Mammy!" eb Efa, gan neidio ar draws yr ystafell; a chan daflu ei hun i'w breichiau, cusanodd hi drachefn a thrachefn.

Ni ddywedodd y ddynes hon wrthi ei bod yn codi cur yn ei phen, ond yn y gwrthwyneb, cofleidiodd hi, chwarddodd, a chrïodd, fel pe buasai wedi dyrysu yn ei meddwl; ac wedi ei rhyddhau oddi wrthi, rhedodd Efa oddiwrth y naill at y llall, gan ysgwyd dwylaw a chusanu, nes ffieiddio Miss Ophelia yn deg, fel y dywedai wedi hynny.

"Wel!" ebe Miss Ophelia, "yr ydych chwi plant y dehau yma yn gwneud peth na fedrwn i byth mo'i wneuthur?"

"Pa beth sydd 'rwan?" ebe St. Clare.

"Wel, y mae arnaf fi eisiau bod yn fwyn wrth bawb, ac ni ddymunwn friwo dim yn y byd; ond am gusanu—"

"Negroaid," ebe St. Clare; "nid ydych chwi i fynu â hynny etto, a ydych?"

"Ie, dyna fo. Pa sut y medr hi?"

Chwarddodd St. Clare, ac aeth tua'r drws. Hylo! beth ydi'r dwndwr yma? Dewch yma, bod-ag-un—Mammy, Jimmy, Polly, Sukey—onid ydych yn falch o wel'd eich meistr?" eb efe, gan fyned o amgylch ac ysgwyd llaw â phawb. "Edrychwch ar ol y babis!" meddai efe, wrth dripio ar draws rhyw greadur du bach oedd yn ymgripio ar hyd y llawr. "Os sathraf fi ar rywun, gwaedded allan."

Yr oedd digon o chwerthin a bendithio mas'r, pan oedd St. Clare yn rhannu darnau bychain o arian rhyngddynt.

"Yn awr, ffwrdd â chwi, fel bechgyn a genethod da," eb efe; ac ymaith a'r holl dyrfa, yn dywyll a goleu, trwy 'r drws i verandah fawr, ac Efa ar eu hol, â chydaid mawr o afalau, cnau, siwgwr candi, rhubanau, lasiau, a theganau o bob math a gasglasai iddynt ar ei hymdaith adref.

Fel yr oedd St. Clare yn troi i fyned yn ol, disgynodd ei lygad ar Twm, yr hwn oedd yn sefyll yn anesmwyth, gan symmud y naill droed yn lle'r llall, ac Adolph yn sefyll yn ddioglyd â'i bwys ar y canllawiau, yn llygadrythu ar Twm drwy wydryn, mewn agwedd mor uchelfalch ag a fuasai'n gweddu i unrhyw ddandi yn y byd.

"Pw, y corgi!" eb ei feistr, gan daro i lawr y gwydryn; "ai dyna fel yr wyt ti'n ymddwyn at dy gyd-was? Mae'n ymddangos i mi, Dolph," eb efe, "mai fy ngwasgod i ydyw honna," gan osod ei fys ar y wasgod sidan wych oedd am Adolph.

"Oh, meistr, y wasgod yma wedi ei smottio â gwin! Yr ydw' i yn shwr na wisga gwr bonheddig fel fy meistr byth y fath beth a hon. Yr oeddwn i'n dyall fy mod i i'w chael. Mae'n gwneud yn burion i nigger tlawd."

A chododd ei ben yn drwynuchel, a thynnodd ei fysedd yn araf trwy ei wallt per-aroglaidd.

"O, ai dyna fel y mae hi, aie?" ebe St. Clare, yn ddiofal. "Wel, yn awr, yr ydwyf fi am ddangos Twm i'w feistres, ac yna cymmer di ef

i'r gegin! a chymmer ofal na ddangosi di ddim o dy lol iddo. Y mae'n werth dau o gorgwn fel ti."

"Rhaid i meistr gael ei ysmaldod," ebe Adolph, dan chwerthin. "Mae'n dda gen i wel'd meistr mor llawn o ysbryd."

"Tyr'd yma, Twm," ebe St. Clare, gan roddi amnaid iddo.

Aeth Twm i mewn i'r ystafell. Edrychodd gyda syndod ar y carpedau melfedaidd, y drychau gwychion, y pictiwrs, y delwau, ar llenni, ac fel brenhines Sheba o flaen Solomon, nid oedd ysbryd ynddo mwyach. Yr oedd yn ofni gosod ei droed ar lawr.

"Edrychwch yma, Marie," ebe St. Clare wrth ei wraig, "yr ydwyf wedi prynu cerbydwr i chwi, o'r diwedd, yn ol eich gorchymyn. Y mae mor ddu a sobor ag elor-gerbyd, efe a'ch gyrra fel cynhebrwng, os dymunwch. Agorwch eich llygaid yn awr, ac edrychwch arno. Peidiwch a dweyd fy mod yn eich gollwng yn anghof pan fyddwyf o'r golwg."

Cyfododd Marie ei llygaid, ac edrychodd ar Twm, heb symmud.

"Mi wn y gwneiff o feddwi." ebe hi.

"Na wneiff, yr ydwyf fi 'n dweyd i chwi yn sicr; y mae yn ddyn duwiol, sobor."

"Wel, gobeithio ei fod felly," ebe'r wraig fonheddig; "ond y mae'n fwy nac ydwyf fi'n ei ddisgwyl, er hynny."

"Dolph," ebe St. Clare, dos a Twm i lawr y grisiau; ac edrych attat dy hun; cofia beth a ddywedais wrthyt."

Picciodd Adolph ymlaen yn ysgafn, ac aeth Twm i lawr ar ei ol yn drwsgl.

"Y mae hwnna 'n rhyw gawrfil o ddyn!" ebe Marie.

"De'wch, Marie, a dywedwch rywbeth yn fwynaidd wrth ddyn," ebe St. Clare, gan eistedd ar ystôl yn ei hymyl.

"Yr ydych wedi bod ymaith bythefnos dros ben eich amser," ebe'r wraig fonheddig, yn llaesweft.

"Wel, mi 'sgrifenais attoch i ddweyd yr achos, chwi wyddoch."

"Y fath lythyr byr, oerllyd!" ebe'r wraig.

"Dyn anwyl! yr oedd y post ar gychwyn, ac yr oedd yn rhaid i'r llythyr fod yn fyr neu ddim."

"Dyna hi 'yn union," ebe'r wraig; "rhywbeth bob amser yn gwneud y siwrneion yn hir a'r llythyrau yn fyrion."

"Edrychwch yma," eb efe, gan dynnu allan o'i bocced wain o felfed clws, a'i agor; "dyma i chwi anrheg o New York." Darlun cywir ydoedd o Efa a'i thad yn eistedd law yn llaw.

Edrychodd Marie arno yn anfoddlawn.

"Pa beth oedd yn peri i chwi eistedd mor chwithig?" ebe hi.

"Wel, nid yw yr agwedd nemmor o bwys; ond beth ydych yn feddwl am y cyffelybrwydd?"

"Os ydych yn meddwl ond ychydig am fy marn mewn un peth, y mae'n debyg na feddyliech yn amgenach mewn peth arall," ebe'r wraig fonheddig, gan gau i fynu y darlun.

"Ynghrôg y bo'r ddynes!" eb efe, wrtho ei hun; ond dywedodd yn ddigon uchel, "De'wch, Marie, beth ydyw eich meddwl am y tebygolrwydd? Peidiwch a bod yn wirion, 'rwan."

"Yr ydych yn anystyriol iawn, St. Clare, yn gwneud i mi siarad, ac edrych ar bethau fel hyn. Chwi wyddoch fy mod yn gorwedd yn sâl drwy'r dydd, a dolur mawr yn fy mhen; ac y mae'r fath swŷn o hyd er pan ddaethoch adref, nes ydwyf agos yn hanner marw."

"Yr ydych yn ddarostyngedig i boen yn y pen, ma'am!" ebe Miss Ophelia, gan godi o'r gadair freichiau fawr, lle yr eisteddasai yn ddistaw, yn cyfrif i fynu werth y dodrefn drudfawr.

"Ydwyf; yr wyf fi'n ferthyr hollol iddo," ebe'r wraig fonheddig.

"Y mae tê o had y ferywen yn beth da iawn rhag cur yn y pen," ebe Miss Ophelia; "o leiaf, felly y dywedai Auguste, gwraig y dïacon Abraham Parri; ac yr oedd hi yn ddoctores nodedig."

"Mi fynnaf fi yr had merywen cyntaf a ddaw yn aeddfed yn yr ardd, o bwrpas," ebe St. Clare, gan edrych yn ddifrifol, a thynnu yn rhaff y gloch. "Yn y cyfamser, 'nghyfnither, mae'n rhaid fod arnoch eisiau myned i'ch ystafell, i ymadfywio ychydig ar ol eich taith. Dolph," eb efe, "galwch ar Mammy i ddyfod yma." Daeth y ddynes felynddu barchus ymlaen, yr hon a gofleidiasai Efa mor serchog; yr oedd wedi ymwisgo yn drefnus, â chanddi durban uchel o goch a melyn ar ei phen, yr hwn a roddasid iddi gan Efa.

"Mammy," ebe St. Clare, "yr wyf fi'n gosod y ferch fonheddig yma o dan eich gofal chwi; y mae hi wedi blino, ac eisiau gorphwyso. Cymmerwch hi i'w hystafell, a byddwch yn sicr o'i gwneud hi yn gymfforddus;" a diflanodd Miss Ophelia ynghysgod Mammy.

PENNOD XVI.

MEISTRES TWM A'I HOPINYNAU.

"WEL Marie," ebe St. Clare, "mae'ch dyddiau hafaidd yn dechreu gwawrio o'r diwedd. Dyma nghares o Vermont, un drefnus a medrus ymhobpeth, a gymmer holl faich eich trafferthion oddi ar eich ysgwyddau, a chwi gewch ddigon o amser i orphwyso, a hamdden i fyned yn ieuange ac yn dlws yn eich hol. Gwell myned trwy'r seremoni o roddi'r agoriadau i fynu ar unwaith."

Dywedwyd hyn ar foregwest ymhen dau fore neu dri ar ol dyfodiad Miss Ophelia.

"Yn wir, y mae iddi groeso," ebe Marie, gan bwyso ei phen yn

glafaidd ar ei llaw. "Hi ddaw o hyd i un peth os gwneiff, sef mai ni'r meistresi ydyw'r slafiaid i lawr yma."

"O, shwr iawn, hi ddaw o hyd i hynny, a chant a mil o wirioneddau eraill a wnant les iddi, heb ddim amheuaeth," ebe St. Clare.

"Siarad am gadw caethion, yn wir, fel pe bai hynny yn *gyfleusdra i ni*," ebe Marie. Yr ydw i yn ddigon shwr, pe *hynny* fyddai mewn golwg, y gallem adael iddynt fyned ymaith ar unwaith."

Rhythodd Efa ei dau lygad mawr difrifol ar ei mam, ac mewn math o ddyryswch hi a ofynodd yn ddiniwed, "Paham yr ydych yn eu cadw ynte, mamma?"

"Yn wir, nis gwn i ddim, os nid i'n plaggio; maen nhw'n blâg ar nghalon i. Yr ydw i 'n credu fod fy saldra i yn fwy o'u hachos nhw na dim arall; ac y mae'n caethion ni yn waeth na rhai neb arall."

"O dowch, Marie, nid ydych chwi ddim yn eich natur dda'r bore yma," ebe St. Clare; "chwi wyddoch yn burion mai nid felly mae hi. Dyna Mammy, 'rwan, y greadures oreu droediodd erioed—beth fedrach chwi wneud hebddi?"

"Mae Mammy yr oreu welais i erioed," ebe Marie; "ond etto mae Mammy yn meddwl llawer mwy am dani ei hun na neb arall—lawer iawn mwy; dyna fel y mae pob un o honyn nhw."

"*Mae* hynny 'n fatter c'wilyddus!" ebe St. Clare, yn sobr.

"Dyna Mammy, 'rwan," ebe Marie; "onid ydi'n rhy ddrwg ei bod hi'n cysgu mor drwm y nos; hi ŵyr yn burion fod arna' i eisiau rhyw dro neu gilydd bob awr trwy gydol y nos tan y bore, pan fydda i sala, ac etto mae mor anhawdd ei deffro hi. Yn wir 'rydw i 'n sâl heddyw, ar ol y boen gefis i'w deffro hi neithiwr."

"Fu hi ddim yn eiste i fynu hefo chwi lawer noswaith yn ddiweddar, mamma?" eb Efa.

"Sut y gwyddoch chwi hynny?" ebe Marie, yn sarrug; "hi fu'n achwyn, debyg gen i."

"Na, ddaru hi ddim achwyn; na'th hi ddim ond deud mor sâl fuoch chwi lawer o nosweithiau'n ddiweddar—bob nos ar ol ei gilydd."

"Pa'm na adawech i Jane neu Rosa gymmeryd ei lle am noswaith neu ddwy?" ebe St. Clare, "fel gallo hi gael gorphwyso."

"Sut y gallwch chwi gynnyg ffashiwn beth?" ebe Marie. "Yn wir, St. Clare, yr ydych yn bur anystyriol! A minna mor wael, fel y mae'r peth lleia yn fy ngweud yn salach. Pebai law ddiarth yn dwad yn agos attaf, mi gyrrai fi o ngho! Pebai Mammy yn teimlo tuag attaf fi fel y dylai hi, mi ddeffroi 'n haws—wrth gwrs mi wnai. Mi glywis am bobol yn cael gweinidogion yn barod i wneud unpeth drostyn nhw, ond ni fum i erioed mor lwccus a chael un o'r rheiny;" ac fe ucheneidiodd Marie.

Gwrandawodd Miss Ophelia yn graffus ar yr ymddiddan hwn; a daliodd ei gwefusau yn dynn, gan benderfynu gwybod ymha le'r oedd yn sefyll cyn dweyd na siw na miw.

"Mae *rhyw fath* o ddaioni yn perthyn i Mammy," ebe Marie; "mae

hi'n esmwyth ac yn barchus, ond nid oes dim gwaelod ynddi hi. Mae hi'n dal atti yn ddibaid i ffretio ynghylch ei gwr. Pan briodas i, welwch chi, a dwad i fyw i lawr yma, wrth gwrs rhaid i mi chael hitha gyda fi, ond ni fedrai nhad ddim gadael i'w gwr hi ddyfod. Gof oedd, ac yn ddyn pur ddefnyddiol, wrth reswm; a marn i oedd, ac mi ddeudas ar y pryd, mai gwell fasa iddyn nhw roi'r naill y llall i fynu, oherwydd 'doedd ddim yn debyg y gallsan nhw fyw hefo'u gilydd byth wedi'n. Ac y mae'n 'difar gen i rwan, na baswn i'n gneud i hynny fod, ac yn priodi Mammy hefo rhyw ddyn arall. Ond yr oeddwn i 'n rhy esmwyth a da fy natur. Mi ddeudas i wrth Mammy ar y pryd, nad oedd dim iws iddi ddisgwyl ei weled fwy nag unwaith neu ddwy tra bydda hi byw, oherwydd nid ydi lle nhad ddim yn cyttuno â fi, ac ni fedra i ddim mynd yno; mi cynghoras hi i fyw efo rhyw ddyn arall; ond na—ni wnai hi ddim. Mae Mammy dippyn yn benstiff, mewn petha nad ydi pawb yn eu gweled fel fi."

"Oes ganddi hi blant?" ebe Miss Ophelia.

"Oes; mae ganddi ddau."

"Mae'n debyg ei bod yn teimlo eu colled."

"Wel, fedrwn i ddim gadael iddyn nhw ddwad yma, wrth reswm. Petha bach budron oeddan nhw—allswn i ddim eu diodda o gwmpas; heblaw hynny, yr oeddan nhw yn mynd a gormod o'i hamser hi o lawer. Ond mae gen i ryw amcan fod hyn yn ei gwaelod hi o hyd. Ni fyn hi ddim priodi neb arall; ac er ei bod yn gwybod yn burion mor angenrheidiol ydi hi i mi, ac mor wael ydi fy iechyd i, yr ydw i'n credu yn fy nghalon yr ai hi yn ol at ei gwr fory nesa pe gallai hi. Ydw'n wir," ebe Marie; "maen nhw gymmint am danynt eu hunain, y goreu o honyn nhw."

"Mae'n fatter sobr i feddwl am dano," ebe St. Clare, yn sychlyd.

Syllodd Miss Ophelia yn graff arno, a chanfu oddi wrth ei wynebpryd, mai gwaith caled oedd iddo guddio eiddigedd ei galon.

"Mae Mammy, 'rwan, wedi bod bob amser yn ffafrat i mi," ebe Marie. "Trueni na chai rhai o'ch morwynion chwi yn y gogledd weled ei chloset dillad hi—gownau sidan, muslin, ac un o gamrig pur, yn hongian ynddo. Weithiau, mi fum yn gweithio trwy gydol y prydnhawn, i neud cap iddi, a'i gwneud hi'n barod i fynd allan i dê. Am gael ei maeddu, nis gŵyr hi ddim beth ydi fo. Ac ni chadd hi mo'i whippio ddim ond unwaith neu ddwy yn ei hoes. Mae yn cael tê a choffi cryf bob dydd, a siwgwr gwyn ynddo fo. Mae'n rhy ddrwg, yn wir; ond mi fyn St. Clare iddyn nhw fyw'n fras yn y gegin. Ac y maen' nhw, bob pen o honyn nhw, yn gneud fel fyd fynnon nhw. Mae'n gweinidogion ni yn cael gormod o'u ffordd eu hun, dyna'r gwir am dani hi. Mae'n debyg mai'n bai ni, mewn rhan, ydi bod nhw gymmint am danyn eu hunan, a'u bod nhw'n ymddwyn fel plant moethus; ond yr ydw i wedi siarad wrth St. Clare nes ydw i wedi blino."

"A minnau hefyd," ebe St. Clare, gan ymaflyd yn y papyr newydd.

Safodd Efa, yr anwyl Efa, yn gwrando ar ei mam, gyda'r astudrwydd dwfn a sobr oedd mor naturiol iddi; a cherddodd yn ddistaw tu cefn i gadair ei man, a chododd ei dwy law am ei gwddf.

"Wel, Efa, beth 'rwan?" ebe Marie.

"Mamma, a gaf fi aros i fynu efo chwi un noswaith—dim ond un? Mi wn i na wnawn mo honoch yn anesmwyth, ac ni chysgwn i ddim. Fydda i yn effro trwy'r nos yn aml, yn meddwl—"

"O, nonsens, Efa—nonsens!" ebe Marie, "yr ydych yn blentyn digrif!"

"Ond, a gaf fi, mamma? Yr ydw i'n meddwl," ebe hi'n ofnus, "fod Mammy'n sâl. Hi ddeuododd fod cur yn ei phen trwy gydol yr amser, er's tro."

"O, un o driccia Mammy ydi 'nyna! Mae hi 'run fath a'r cwbl o honyn nhw—yn gneud llawer o stwr am bob piff o gur mewn pen, a gwaew mewn bys; ni wiw gadael iddynt gael eu ffordd—neiff hynny byth mo'r tro! Mae hwn yn fatter cydwybod gen i," ebe hi, gan droi at Miss Ophelia; "chwi gewch allan y rhaid ei wneud felly. Os gwrandewch chwi ar bob cwyn fydd gan y gweinidogion, fydd gennych ddigon a gormod i'w wneud yn bur fuan. Ni fyddaf fi byth yn cwyno fy hun—ac nis gŵyr neb beth wyf fi yn ddiodda. Yr ydw i'n teimlo mai nyledswydd i ydi diodda'n ddistaw, ac felly 'rydw i 'n gneud."

Rhythodd Miss Ophelia ei llygaid mawrion mewn syndod amlwg, a tharawodd y fath haeriad ar glust St. Clare mor ddigrif, fel y chwarddodd allan ac allan.

"Mae St. Clare yn chwerthin bob amser, pan ddeuda i air am fy selni," ebe Marie, a llais un yn dioddef merthyrdod. "Gobeithio na wel o mo'r dydd y bydd yn edifar ganddo;" a dechreuodd sychu ei llygaid.

Fel y gallesid disgwyl, bu yno ryw fath o ddistawrwydd trwsgl ar ol hyn. Ac o'r diwedd, edrychodd St. Clare beth oedd yr amser, a dywedodd fod arno eisiau cyfarfod rhywun. Rhedodd Efa allan ar ei ol, a gadawyd Miss Ophelia a Marie wrth y bwrdd gyda'u gilydd.

"'Rwan, dyna ffordd St. Clare!" ebe Marie, gan dynnu'r hancas oddiar ei llygaid â chalon led iach, pryd nad oedd yr euog a gospid ganddo yno i'w weled. "Ni ŵyr o ddim, fedyr o ddim, ni fyn o ddim gwybod, faint ydi mhoen i, er's blynyddoedd. Pe baswn i yn un o'r rhai sy bob amser yn clwccian ac yn achwyn, fasa rhyw reswm ynddo fo. Mae dynion, yn naturiol, yn blino ar wraig sâl. Ond mi gedwis i bob peth i mi fy hun, mi ddioddis, mi ddioddis, nes y mae St. Clare yn meddwl y medra i ddiodda pobpeth."

Rhy brin y gwyddai Miss Ophelia pa atteb a ddisgwylid iddi roddi i'r sylw hwn.

Tra bu hi yn troi'r matter yn ei meddwl, fe sychodd Marie ymaith ei dagrau yn raddol, ac hi drwsiodd ei phlu mewn ffordd gyffredin, fel colommen ar ol cawod o wlaw, ac a ddechreuodd ymgomio, ar fatterion

hyswiaeth, ynghylch cyppyrddau, closets, press dillad, buttri, a phethau eraill, y rhai y bwriedid eu gosod, trwy gydsyniad cyffredinol, dan ofal Miss Ophelia—gan roddi iddi gynnifer o gynghorion a rhybuddion ag a fuasai yn dyrysu pen llai ei drefn a'i gynnwysiad.

"'Rwan," ebe Marie, "yr ydw i'n meddwl i mi ddeud y cwbwl; a phan ddaw fy saldra nesaf i, chwi allwch fynd ymlaen hebddw i; ond yn nghylch Efa—mae'n gofyn edrych atti hi."

"Mae hi'n ymddangos yn lodes dda dros ben," ebe Miss Ophelia. "Ni welais i 'run plentyn gwell erioed."

"Un od iawn ydi Efa," eb ei mam; "od anghyffredin. Mae hi mor annhebyg i bob plentyn arall; nid oes dim mymryn ynddi hi yn debyg i mi;" ac fe ucheneidiodd Marie, fel pe buasai hyn yn fatter sobr ryfeddol.

"Gobeithio nad ydyw hi," ebe Miss Ophelia yn ei meddwl; ond bu mor gall a'i gadw iddi ei hun.

"Mae Efa bob amser yn ffond o gwmpeini 'r gweinidogion; ac y mae hynny'n burion mewn rhai plant. Mi fyddwn i fy hunan yn chware hefo niggars bach 'nhad—ni wnaeth hynny harm yn y byd i mi. Ond y mae Efa rywsut yn ei gwneud ei hun yn gydradd â phob creadur ddaw yn agos atti. Mae hynny'n rhyfedd iawn yn y plentyn. Ni fedrais i erioed ei dynnu allan o honi. Ond yr ydw i'n meddwl fod St. Clare yn ei hannog hi. Y gwir ydi, mae St. Clare yn rhoi moethau i bob creadur ddaw i'r tŷ yma, ond ei wraig ei hun."

Eisteddodd Miss Ophelia mor ddistaw a'r post, drachefn.

"Nid oes dim modd ymhel â gweinidogion, ond *eu gosod i lawr a'u cadw danodd*," ebe Marie. "Yr oedd yn naturiol i mi bob amser er yn blentyn. Mae Efa yn ddigon i spwylio llon'd tŷ o honyn nhw. Beth neiff hi pan ddaw hi i gadw tŷ ei hun, nis gwn i ddim yn wir. Yr ydw i am fod yn *garedig* wrth weinidogion—ac mi fydda felly bob amser; ond rhaid eu dysgu i *'nabod eu lle*. 'Fydd Efa byth yn gneud; fedrwch chwi ddim gyrru i ben y plentyn un dechreu dychymyg am le gwas neu forwyn! Chwi clywsoch hi yn cynnyg eiste i fynu hefo fi 'r nos, i adael i Mammy gael cysgu. Dyna siampel o'r peth wnai'r plentyn o hyd, pe cai hi ei ffordd ei hun."

"Mae'n debyg eich bod yn meddwl mai creaduriaid rhesymol ydy'ch gweinidogion, ac y dylent gael gorphwyso rywbryd," ebe Miss Ophelia, yn ffrwt.

"Ydw, wrth reswm. Yr wyf fi yn ofalus iawn am iddyn nhw gael pob peth fo'n gyfleus—beth bynnag na fo'n tafiu un allan o'r ffordd, wyddoch. Mi eill Mammy gael ei chysgu rywbryd neu gilydd; nid oes dim sy haws. Mae hi'r greadures fwyaf cysglyd welais i 'rioed; wrth wnïo, sefyll, neu eistedd, hi fedyr gysgu fan y mynno hi a phryd y mynno hi. Dim perygl nad ydi Mammy yn cael digon o gysgu. Ond y mae trin gweinidogion fel pe bai'n nhw rosyn coch neu gwppan tshina yn ormod o lawer," ebe Marie, fel yr ymollyngodd i ganol clustogau, gan

dynnu atti bottel perarogl ddrudfawr. "Yr ydych yn gweled," ebe hi, mewn llais moethus gwraig fawr, fel anadliad olaf eos ac drangoedigaeth, neu rywbeth llawn mor awyrawl—

"Yr ydych yn gweled, fy nghares Ophelia, nad wyf fi yn siarad llawer am danaf fy hun; ni ddarfum i erioed arfer; peth annymunol iawn i mi ydyw. Yn wir, ni fedda i mor nerth i wneud. Ond y mae rhai phethau na fedra i a St. Clare ddim cyttuno arnynt. Ni fedrodd St. Clare erioed ddeall fy ffordd i, na gwybod fy ngwerth i. Mae hyn yn gorwedd wrth wraidd fy holl anhwyldeb i. Yr un pryd, yr ydw i 'n credu fod St. Clare yn amcanu'n dda; ond y mae dynion yn naturiol a'u serch arnynt eu hunain, ac yn ddideimlad o'r merched. O leiaf, dyna marn i."

Yr oedd Miss Ophelia yn lled lawn o ysbryd gochelgar Vermont, ac yn atgas ganddi gael ei thynnu i gwerylon teuluaidd; ond canfu yn awr ei bod mewn perygl o rywbeth o'r fath; o ganlyniad hi a ysgrifenodd 'dim ymyrraeth' ar ei gwynebpryd, ac a dynnodd allan globen o hosen fawr, yr hon a gadwai fel tarian rhag y demtasiwn y dywed Doctor Watts fod Satan yn debyg o ddwyn dwylaw segur iddi, ac a ddechreuodd weu nerth ei bysedd, gan gau ei gwefusau mor dynn, mewn ffordd a ddywedai yn llawn mor eglur a geiriau, "Ni waeth i chwi beidio a cheisio gen i siarad. Nid oes arnaf fi ddim eisio rhoi mys yn eich brywes chwi"—mewn gair, hi a ddangosodd gymmaint o gydymdeimlad a phe buasai yn llew o garreg nadd. Ond nid oedd Marie yn hidio. Yr oedd ganddi rywun i wrando arni'n siarad, a theimlai mai siarad oedd ei dyledswydd—dyna ddigon; ac wedi adgyfnerthu ei hun o'r bottel berarogl drachefn, hi aeth ymlaen.

"Pan briodais i St. Clare, wyddoch, mi ddois a f'eiddo a ngweinidogion fy hun yma, ac y mae gen i hawl i neud fel y mynna i â nhw. Yr oedd gan St. Clare ei ffortiwn a'i weision, a gwnaed fel y mynno â nhw o'm rhan i; ond rhaid iddo ef gael ymyrraeth. Mae ganddo'r opinynau rhyfedda fu erioed, yn enwedig ynghylch trin gweinidogion. Yn wir, allai un feddwl ei fod yn rhoi'r gweinidogion uwch fy mhen i, ac uwch ei ben yntau hefyd; oherwydd y maent yn llawer iawn o boen iddo, ac ni fynn gymmaint a chodi bys. Mae St. Clare yn arswydus mewn rhai pethau—fydd yn fy nychrynu i—er mor dda ei natur ydyw yn gyffredin. Mae wedi taro 'i droed yn llawr, a dweyd, doed a ddelo, na chaiff neb godi ei law o fewn y tŷ, ond y fo a finnau; ac y mae wedi dweyd hynny yn y fath ffordd, na feiddia i mo'i groesi. Wel, mae'n ddigon hawdd gweled y canlyniad o hyn; oherwydd ni chodai St. Clare mo'i ddwrn pe sangen nhw arno, bob un o fewn y tŷ—ac am danaf fi, chwi welwch beth mor ddigydwybod fyddai gofyn i mi fyned i'r boen. Chwi wyddoch, 'rwan, nad ydi'r gweinidogion yma ddim ond twr o blant mawr wedi tyfu i fynu."

"Nis gwn i ddim yn y byd am danynt; a diolch i Dduw na wn i ddim," ebe Miss Ophelia yn bur fyr.

"Wel, fydd yn rhaid i chwi wybod, a hynny er eich gofid, os arhoswch yma. Ni wyddoch chwi ddim pa fath dwr o greaduriaid câs, penstiff, di-ofal, di-reswm, plentynaidd, ac anniolchgar ydynt."

Ymddangosai Marie bob amser yn hynod a fywiog pan ddechreuai ar bwngc fel hwn; ac agorodd ei llygaid gan lwyr anghofio ei selni.

"Ni wyddoch chwi ddim,—ni fedrwch chwi ddim gwybod, y poenau ydyn nhw i'r neb fo'n cadw tŷ, bob dydd, a phob awr o'r dydd, yn mhob dull a modd. Ond ni wiw achwyn wrth St. Clare. Mae yn siarad y stwff digrifa. Mae yn dweyd mai ni gwnaeth nhw y peth ydyn nhw. Fe fynn mai ni ydi achos eu holl ddrygau, ac y byddai'n greulon ynom ni wneud y drwg a'u cospi hwy am dano hefyd. Mae'n dweyd na wnaem ni ddim gwell yn eu cyflwr hwy, fel pe basa'n bossibl eu cydmaru hwy â ni, wyddoch."

"Ydych chwi ddim yn meddwl i'r Hollalluog eu gwneud o'r un gwaed a chnawd a ninnau?" ebe Miss Ophelia.

"Na choelia i fawr! Stori braf iawn yn wir. Mae'r holl hiliogaeth dan felldith."

"Ydych chwi ddim yn meddwl fod ganddynt eneidiau anfarwol?" ebe Miss Ophelia, gan ddechreu gwresogi.

"O, wel!" ebe Marie, gan ymlyfu gen, "wrth reswm y mae—nid oes neb yn amman hynny. Ond am eu cydmaru hwy â ni; fel pe baen nhw'n gydradd, wyddoch, mae yn beth amhossibl! Ond dyna St. Clare, mae yn siarad â fi ynghylch cadw Mammy oddi with ei gwr, fel pe bai yr un peth a nghadw i oddi wrth fy ngwr. Nid oes dim byd yn debyg yn y ddau. Nid oes gan Mammy ddim teimladau fel fi. Mae yn beth hollol wahanol, wrth reswm; ac etto mae St. Clare yn cymmeryd arno na fedr weled un gwahaniaeth; fel pe bai yn bossibl fod mor dda gan Mammy am ei chorgwn budron ag ydyw gen i am Efa! Etto, mi fu St. Clare yn siarad o ddifrif unwaith mai nyledswydd i oedd gadael iddi fynd at ei gwr, a chymmeryd rhywun arall, a minnau mor wael, ac yn dioddef cymmaint. Yr oedd hynny braidd yn ormod hyd yn nod i *mi*. Nid aml y byddaf fi yn dangos fy natur. Mae yn fatter o gydwybod gen i ddiodde pobpeth yn ddistaw; dyna dynged galed gwraig, ac yr wyf fi yn rhoi fynu iddi. Ond mi dorris allan y tro hwnnw; ac ni soniodd air byth wedi hynny am y matter. Ond mi wn i'n burion oddi wrth ei olwg, ac oddi wrth ambell air yn awr ac yn y man, ei fod yn meddwl felly gymmaint ag erioed; ac y mae hynny mor gas ac mor ddigysur!"

Edrychodd Miss Ophelia fel pe buasai mewn perygl o ddweyd rhywbeth; ond gweu nerth ei gwinedd a wnaeth,—ac yr oedd llawer iawn yn hynny, pe buasai Marie ddim ond yn ei ddeall.

"Felly chwi welwch," ebe hi, "pa beth sydd gennych i ofalu am dano. Tŷ heb un drefn, lle mae'r gweinidogion yn cael eu ffordd eu hun, yn gwneud fel y mynnont, ac yn cael y peth fynnont, oddieithr hyd y gellais i gadw i fynu fath o awdurdod, gyda fy iechyd gwael. Mae gen i whip o groen eidion wrth law, ac ambell dro hi fydd mewn gwaith;

ond y mae'r twrw yn ormod i mi. Pe bai St. Clare ddim ond cael gneud y peth fel y mae pobl eraill yn cael ——"

"Sut y mae hynny?"

"Eu gyrru i'r calabws, neu rywle, i'w fflangellu. Dyna'r unig ffordd. Pe baswn i heb fod y fath gre'dures wael ac afiach, yr ydw i 'n meddwl y b'aswn i 'n medru cadw trefn yn well o'r hanner na St. Clare."

"Sut y mae St. Clare yn gwneud, ynte?" ebe Miss Ophelia. "Yr ydych yn dweyd na bydd byth yn eu curo."

"Wel, chwi wyddoch fod gan y dynion ffordd mwy awdurdodol; mae'n llawer haws iddyn nhw; heblaw hynny, os dar'u chwi 'rioed edrych yn myw ei lygad, mae ynddo rywbeth od—yn ei lygad—ac os sieryd yn benderfynol, mae yno rywfath o felltenu. Mae yn fy nychrynu i fy hunan; ac fe wŷr y gweinidogion y rhaid iddynt ysmicio. Pe bawn i yn myn'd o ngho lâs, ac yn trin fy nhafod hyd y pen draw, ni wnawn i ddim cymmaint ag un tro llygad St. Clare, pan fydd o ddifrif. O, nid oes dim trwbl ynghylch St. Clare; a dyna'r rheswm paham nad yw yn teimlo mwy droswyf fi. Ond chwi gewch weled pan gymmerwch y peth mewn llaw, nad oes fodd myned ymlaen heb fod yn ddideimlad—maen' nhw mor ddrwg, mor dwyllodrus, ac mor ddiog."

"Yr un hen dôn," ebe St. Clare, gan longcian i mewn; "rhaid i'r creaduriaid drygionus yma roi cyfrif arswydus ryw ddiwrnod, yn enwedig am fod yn ddiog! Chwi welwch, fy nghares," ebe efe, gan orwedd o'i hyd-gyhyd ar esmwythle ar gyfer Marie, "fod y diogi yma yn hollol ddiesgus ynddynt yngoleuni'r esiamplau a gânt gan Marie a minnau."

"Yn wir, yr ydych yn rhy ddrwg St. Clare," ebe Marie.

"Yr ydw i? a minnau'n meddwl fy mod yn siarad yn dda, peth anarferol yn fy math i. Mi fyddaf bob amser yn ceisio gwneud eich sylwadau chwi yn ymarferol, Marie."

"Chwi wyddoch yn burion nad oeddych yn meddwl dim o'r fath beth, St. Clare," ebe Marie.

"O, wel, mi gamgymmerais, ynte. Diolch i chwi am fy rhoi ar y ffordd iawn."

"Treio nhymer i yr ydych, onite?" ebe Marie.

"O Marie, mae'r diwrnod yn gynnes iawn, a ninnau wedi bod yn cweryla gyda Dolph, nes ydw i 'n flin fy nghalon; byddwch yn siriol, da chwi, a gadewch i mi orphwyso yngwedd eich gwyneb."

"Beth sy ar Dolph?" ebe Marie. "Mae hyfdra'r gwalch yna wedi tyfu yn annioddefol i mi. Pedawn yn cael fy ffordd fy hun hefo fo am dippyn, mi ddown i a fo at ei gyrddynau!"

"Mae'r peth ydych chwi yn ddywedyd, Marie, fel arferol, yn llawn craffder a synwyr," ebe St. Clare. "Dyma fel y mae hi'n sefyll hefo Dolph; mae wedi bod cyhyd yn dynwared fy ffordd a'm perffeithrwydd i, fel ag y mae o'r diwedd wedi camgymmeryd ei hun am ei feistr; a gorfu i mi agor ei lygad i weled ei fod allan o'i elfen."

"Sut?" ebe Marie.

"Wel, mi roddais ar ddeall iddo yn benderfynol, fy mod yn dewis cadw *rhai* o fy nillad i mi fy hun eu gwisgo; dodais ei uchelder ar ei ran o eau-de-cologne, a bum mor greulon a'i attal i gael mwy na dwsin o'm hancetsi cambric. Aeth Dolph yn lled ddywedwst o'r achos, a bu raid i mi siarad wrtho fel tad i ddyfod ag ef atto ei hun."

"O, St. Clare, pa bryd y dysgwch chwi feistroli'ch gweinidogion? Mae'n g'wilyddus fel yr ydych yn gadael iddynt gael eu ffordd," ebe Marie.

"Wel, ar ol y cwbl, pwy harm i'r cena' geisio bod fel ei feistr? ac os na ddysgais i ef i werthfawrogi dim yn fwy na dwfr cologne a hancetsi cambric, paham na cheiff y fath bethau?"

"Pa'm na buasech yn dysgu gwell pethau iddo?" ebe Miss Ophelia, yn awdurdodol.

"Gormod o drafferth; diogi, 'nghares, diogi—yr hyn sy'n lladd mwy o eneidiau nag y gallwch ysgwyd dwrn arnynt. Mi fuaswn i yn angel perffaith, fy hun, oni bai ddiogi. Yr ydwyf fi bron o'r farn mai diogi ydyw 'gwreiddyn drwg moesol,' chwedl yr hen Ddoctor Boddro i fynu yn Vermont. Mae'n beth sobr iawn i feddwl am dano."

"Yr ydwyf fi o'r farn fod cyfrifoldeb arswydus yn gorwedd arnoch chwi'r caeth-feistri," ebe Miss Ophelia. "Ni chymmerwn i mono am fil o fydoedd. Chwi ddylech ddysgu'ch caethion, a'u dwyn i fynu fel creaduriaid rhesymol, fel creaduriaid anfarwol, ag y rhaid i chwi sefyll o flaen gorsedd Duw gyda hwynt. Dyna fy meddwl i," ebe'r hen ferch, gan dorri allan mewn ffrwd o zel fuasai'n cronni yn ei meddwl trwy'r bore.

"O, arhoswch, arhoswch," ebe St. Clare, gan neidio i fynu'n sydyn, beth wyddoch chwi am danom ni?" Ac efe a eisteddodd wrth y piano, ac a chwareuodd ddarn o fiwsig bywiog a gwisgi. Yr oedd St. Clare yn llawn peroriaeth, a'i gyffyrddiad â'r offeryn yn ardderchog,—rhedai ei fysedd dros y tannau fel ehediad aderyn, yn awyrol, ac etto yn berffaith gywir. Chwareuodd ddarn ar ol darn, fel dyn yn penderfynu ei chware ei hun i dymmer dda. Ar ol dodi'r llyfr o'r neilldu, efe a gododd yn siriol, ac a ddywedodd,—"Wel, nghares, chwi ddarfuch siarad yn dda, a gwnaethoch eich dyledswydd; ar y cyfan, yr wyf yn meddwl mwy o honoch am hynny. Nid oes gennyf un amheuaeth na thaflasoch em o wirionedd attaf fi, er iddo fy nharo yn union yn fy nannedd, ac na phrisiais mo hono ar y pryd."

"Nid ydwyf fi ddim yn gweled lles yn y byd yn y fath siarad, o'm rhan i," ebe Marie. "Os oes neb yn gwneud mwy dros eu caethion na ni, mi fydda'n dda gen i wybod pwy; ond nid yw yn gwneud dim lles iddynt—dim un mymryn; maent yn mynd waeth waeth. Am siarad wrthyn nhw, a phethau felly, yr ydw' i'n shwr mod i wedi siarad nes blino a chrygu, yn dweyd wrthynt eu dyledswydd, a phobpeth felly; ac yr ydw i'n shwr y medran nhw fyn'd i'r eglwys pan fynnont, er nad ydynt yn deall un gair o'r bregeth, ddim mwy na phac o foch, felly nis gwn i pwy les iddyn nhw fyn'd yno; ond y maen' nhw'n mynd, ac yn

cael pob siawns; ond, fel y deudais i o'r blaen, creaduriaid isel ydynt, a dyna fyddant byth, ac nid oes dim help am dani hi; ni fedrwch chwi wneud dim yn y byd o honynt, er gwneud eich goreu. Yr ydw i wedi treio, ond ni ddaru chwi ddim, Miss Ophelia; mi gefis i fy ngeni a'm magu yn eu canol, ac mi wn beth ydynt."

Yr oedd Miss Ophelia yn meddwl iddi ddweyd digon, o ganlyniad hi a eisteddodd yn fud, a chwibanodd St. Clare ryw dôn.

"Peidiwch a chwibanu, St. Clare," ebe Marie, "mae yn gyrru fy mhen i'n waeth."

"O'r gore," ebe St, Clare, "oes dim arall y dymunech i mi beidio ei wneud?"

"Mi fyddai'n dda gen i pe *gwnaech* gyd-ymdeimlo rhywfaint â mhoenau i; nid ydych byth yn meddwl am danaf fi."

"Fy anwyl angel achwyn-gar!" ebe St. Clare.

"Mae'n gas gen i glywed siarad fel yna."

"Sut, ynte, y mynnech i mi siarad? Mi siaradaf ffordd fyd fynnoch chwi, os gallaf wneud wrth eich bodd rywsut."

Daeth chwerthiniad uchel o'r cwrt gyda'r awel. Edrychodd St. Clare drwy'r ffenestr, a chwarddodd yntau hefyd.

"Beth ydyw'r matter?" ebe Miss Ophelia, gan edrych dros ganllaw'r verandah.

Dyna lle'r oedd Twm yn eistedd ar dwmpath mwsyglyd yn y cwrt, a phob twll bottwm yn llawn briallu, ac Efa, dan chwerthin, yn crogi cadwyn o rosynau o gylch ei wddf; yna hi a eisteddodd ar ei lin; gan ddal i chwerthin fel pe buasai aderyn.

"O Twm, yr wyt ti'n edrych yn ddigrif."

Yr oedd gan Twm wên sobr, a serchiadol, ac ymddangosai, yn ei ddull tawel ei hun, fel pe buasai yn mwynhau'r sport llawn cymmaint a'i feistres fechan. Pan weledd ei feistr, efe a gododd ei lygaid fel pe buasai yn hanner beggio pardwn.

"Sut yr ydych yn gadael iddi?" ebe Miss Ophelia.

"Pa'm na chaiff hi?" ebe St. Clare.

"Wel, nis gwn i ddim, mae mor annaturiol."

"Ni welech chwi ddim harm i blentyn gofleidio clamp o gi, hyd yn nod pe b'ai yn ddu; ond creadur rhesymol, yn medru teimlo, a meddwl, a chanddo enaid anfarwol, yr ydych yn dychrynu rhagddo; dewch, fy nghares, gwnewch gyfaddef. Mi wn i'n burion sut y mae rhai o honoch chwi pobl y gogledd yn teimlo. Etto nid oes dim mymryn o rinwedd ynom ni am fod heb y fath deimlad, ond y mae arferiad wedi effeithio yma yr hyn a ddylai Cristionogaeth ei wneud—diddymu y teimlad o ragfarn personol. Mi sylwais yn fynych yn fy nheithiau yn y gogledd, mor gryf ydyw'r rhagfarn hon yno ragor yma. Mae mor ffiaidd gennych chwi y bobl dduon ag ydyw gennych lyffant neu neidr, ac etto chwi sydd uwchaf eich cloch yn erbyn eu camwri. Ni fynnwch wneud cam â hwy, ond ni fynnwch iddynt ddyfod yn agos attoch. Chwi a'u hanfonwch i

EFA YN ADDURNO TWM.

"Dyna lle'r oedd Twm yn eistedd ar dwmpath mwsyglyd yn y cwrt, a phob twll bottwm yn llawn briallu, ac Efa, dan chwerthin, yn crogi cadwyn o rosynau o gylch ei wddf."

Affrica allan o'ch golwg, ac o gyrhaedd eich arogliad, ac wedi hynny anfonwch genhadwr neu ddau attynt i wneud yr hunan-ymwadiad o'u dyrchafu yn y crynswth. Onid fel yna y mae hi?"

"Wel, fe allai fod peth gwir yn hynna," ebe Miss Ophelia.

"Beth a wnai'r tlawd a'r isel heb blant?" ebe St. Clare, a'i bwys ar y ganllaw, yn edrych ar Efa yn rhedeg i ffordd, ac yn arwain Twm gyda hi. "Y plentyn ydi'r gwir ddemocrat. Mae Twm yn arwr yngolwg Efa; mae ei chwedlau yn rhyfeddodau, ei gerddi a'i hymnau yn well na'r chwareudy, a'r telmau bychain yn ei bocced fel mwn-glawdd o berlau, ac yntau'r Twm ryfeddaf a wisgodd groen du erioed. Dyma un o rosynau Paradwys, a ollyngodd yr Hollalluog i lawr o wir bwrpas i'r tlawd a'r anghenus, y rhai nid ydynt yn cael ond ychydig iawn o un math arall."

"Mae'n beth rhyfedd iawn," ebe Miss Ophelia, "fe allai un feddwl eich bod yn broffeswr, wrth eich clywed yn siarad."

"Yn broffeswr!" ebe St. Clare.

"Ie; proffeswr crefydd."

"Dim fath beth; dim proffeswr, fel y mae pobl eich trefydd yn deall y gair; a pheth sy waeth, mae arnaf ofn, dim yn *wneuthurwr* ychwaith."

"Beth sy'n peri i chwi siarad fel yna, ynte?"

"Nid oes dim sy haws na siarad," ebe St. Clare. "Mae Shakespeare yn dweyd yn rhywle, os da 'rwy'n cofio, 'Fyddai'n haws gennyf ddangos ugain peth da i'w wneud, na bod yn un o ugain i wneud yr hyn a ddangoswyf.' Nid oes dim yn debyg i rannu gwaith. Siarad ydyw fy rhan i, a gwneud yw eich rhan chwithau, fy nghares."

Yn amgylchiadau allanol Twm, nid oedd dim y pryd hwn i achwyn arnynt, fel y dywedir yn gyffredin. Yr oedd hoffder Efa o hono, a mwyneidd-dra diolchgar ei natur, wedi peri iddi ofyn i'w thad adael iddo fod yn was iddi hi pa bryd bynnag y byddai arni eisiau, yn ei rhodfeydd, neu wrth farchogaeth allan; ac yr oedd Twm wedi cael gorchymyn i adael pob peth, a bod wrth alwad Miss Efa, pa bryd bynnag y byddai hi yn dewis—gorchymyn ag y mae'n hawdd gwybod ei fod wrth fodd ei galon. Yr oedd wedi ei ddilladu yn wych, oherwydd yr oedd St. Clare yn fanwl iawn ar y matter o wisgiad. Prin yr oedd ei ddyledswyddau yn y stabl yn deilwng o'r enw gwaith,—dim ond arolygu gwas oedd dano,—canys nis gallai Marie St. Clare oddef arogl y ceffylau arno pan ddeuai yn agos atti, oherwydd yr oedd ei chyfansoddiad yn rhy wan i ddal dim o'r fath beth; yn ol ei chyfrif hi, yr oedd un arogliad annymunol yn ddigon i dorri llinyn ei bywyd, a gosod terfyn ar ei holl dreialon dacarol ar unwaith. O ganlyniad, yr oedd Twm yn ei ddillad brethyn hardd, ei het befer loyw, ei fottasau disglaer, a'r llian claerwyn yn ei goleri ac am ei arddyrnau, gyda'i wyneb du, llyfn, sobr, a da ei natur, yn edrych yn ddigon hybarch i fod yn esgob Carthage, fel y bu rhai o'r un lliw ag yntau mewn oesoedd a aethant heibio.

Drachefn, yr oedd mewn lle hynod o harddwych, ystyriaeth nad yw byth yn un ysgafn gan ei bobl deimladwy ef; ac yr oedd yn mwynhau mewn tawelwch yr adar, y blodau, y ffrydiau dwfr, y peraroglau, goleuni a heddwch y cyntedd, y llenni o sidan, y pictiwrs, y gwydr-ddrychau, y cerf-luniau, a'r aur-olchiadau, pethau oeddynt yn gwneud y parlyrau o fewn megys palas Aladin iddo ef.

Os byth y gwel Affrica bobl gwaraidd a chelfyddgar, a rhaid y daw hithau ryw ddydd i wneud ei rhan ar chwareufwrdd dynoliaeth,—fe ddeffry bywyd ynddi yn oroludog ac ysplenydd, mewn dull ac agwedd tu hwnt i ddychymyg araf ac oerllyd pobl y gorllewin. Yn mhell-diroedd yr aur a'r gemau, y perlysiau a'r palmwydd cysgodfawr, y blodau rhyfeddol, a'r cynnyrchion gwyrthiol, fe ddeffry celfyddydau a gwybod-aethau mewn dull newydd ac mewn ardderchowgrwydd na welodd y byd mo'u bath; a bydd y negro, ond odid, heb fod mwyach yn ddirmygedig a than draed, yn dangos rhagoroldeb diweddaf, hynottaf, a mwyaf mawreddog y natur ddynol. Mae tu hwnt i bob dadl y byddant felly yn eu mwyneidd-der, yngostyngeiddrwydd tawel y galon, yn eu parodrwydd i ymorphwys yn ffyddiog ar ehangder gwybodaeth a gallu goruwch-naturiol, yn eu serch didwyll a phlentynaidd, ac yn eu parodrwydd i faddeu pob camwri. Yn y rhai hyn oll, hwy a ddangosant *fywyd Cristionogal* yn ei ddullwedd mwyaf gourchel; a phwy a ŵyr, gan fod Duw yn ceryddu y sawl y mae yn eu caru, nad yw wedi dewis gosod Affrica dlawd yn mhair tanllyd cystudd, i'r diben o'i gwneud y ragoraf, y loywaf, a'r fwyaf ogoneddus yn y deyrnas honno a esyd Ef i fynu, pan y bydd pob teyrnas arall wedi treio a methu; oherwydd y blaenaf fyddant olaf, a'r olaf ymlaenaf.

Ai tybed mai am hyn yr oedd Marie St. Clare yn meddwl pan yn sefyll ar y verandah ar fore Sul, mewn gwisgoedd gwychion, yn cau clasp o ddiamond am ei harddwrn! Digon tebyg. Ond os nid am hynny, yr oedd yn meddwl am rywbeth arall; oherwydd yr oedd Marie yn hoff o gefnogi 'r hyn sy dda, ac yr oedd yn awr ar gychwyn yn rhwysg-fawr—y diamond, y sidanau, y lasiau, y perlau a'r cwbl—i'r Eglwys fwyaf yn y ffashiwn, i fod yn bur grefyddol. Byddai yn ofalus iawn am fod yn grefyddol ar y Sul. Dyna lle'r oedd hi'n sefyll, mor orwychaidd, mor drwsiadus, mor brydferth yn mhob ysgogiad, a'r scarff o lâs yn ei gorchuddio fel haenen o niwl. Edrychai yn greadures harddwych, a theimlai yn bur dda ac yn bur brydferth. Safai Miss Ophelia wrth ei hochr, yn wrthlun perffaith o honi. Nid am nad oedd ganddi gystal gown sidan a shawl, a hancas pocced mor feined ei edafedd; ond gwisgid hi, gan agwedd stiff, scwâr, unionsyth, â phresennoldeb mor annirnadwy, ac etto mor serchiadol, ag ydoedd y llall yn ei hymyl trwy ei hardd-wychedd a'i daioni—ond nid daioni Duw—peth gwahanol iawn oedd hynny!

"Ymh'le mae Efa?" ebe Marie.

"Hi safodd ar y grisiau i siarâd â Mammy."

A pha beth oedd gan Efa i'w ddweyd wrth Mammy ar y grisiau? Gwrando, ddarllenydd, a thi gai glywed, er nad yw Marie yn clywed.

"Mammy anwyl, mi wn fod cur garw yn eich pen."

"O Miss Efa bach, mae cur yn mhen i bob amser, ers talwm. Peidiwch a thrafferthu."

"Wel, mae'n dda gen i eich bod yn myn'd allan, cym'rwch hon"—ac fe ymaflodd y ferch fach am ei gwddf,—"Mammy, rhaid i chwi gymmeryd fy mhottel fach i."

"Beth! y bottel aur yna, a'r diamond! O miss, peth allan o le'n hollol fydda hynny."

"Pa'm? mae arnoch chwi ei heisiau; nid oes arnaf fi ddim. Fydd Mamma yn ei chymmeryd rhag cur yn ei phen bob amser, ac mi fyddwch chwitha'n well. Rhaid i chwi ei chymmeryd, i mhlesio i."

"Glywch chwi ngeneth anwyl i 'n siarad, 'rwan!" ebe Mammy, tra'r oedd Efa yn gwthio'r bottel fach a'r perarogl i'w brest; ac ar ol ei chusanu, hi a redodd i lawr at ei mam.

"Am ba beth yr oeddych yn aros?"

"Aros i roi fy mhottel fach i Mammy i fyn'd â hi i'r eglwys."

"Efa!" eb ei mam, gan daro ei throed yn y llawr yn sarrug, "eich pottel i *Mammy!* Pa bryd y dysgwch beth sydd *weddus?* Ewch a chymmerwch hi oddi arni mewn munud!"

Syrthiodd wynebpryd Efa, a hi drodd yn bendrist, ac yn araf.

"Marie, gadewch lonydd i'r plentyn," ebe St. Clare, "hi gaiff wneud fel y mynno hi."

"Sut yr eiff hi byth trwy'r byd, St. Clare?" ebe Marie.

'Duw ŵyr," ebe St. Clare; "ond hi a aiff drwyddi hi i'r nefoedd yn llawer gwell na chwi na minnau."

"O peidiwch, papa," eb Efa, gan gyffwrdd â'i benelin, "mae mamma yn poeni."

"Wel, nghefnder," ydych chwi yn barod i ddyfod i'r eglwys?" ebe Miss Ophelia, gan droi yn sydyn atto.

"Nid af fi ddim y bore yma, diolch i chwi."

"Mi fyddai'n dda gen i pebai St. Clare yn dyfod i'r eglwys ambell waith," ebe Marie; "ond nid oes 'run llwchyn o grefydd o'i gwmpas. Yn wir nid ydi ddim yn *respectable.*"

"Mi wn hynny'n burion," ebe St. Clare. "Yr ydych chwi'r merched yn myn'd i'r eglwys i ddysgu myn'd trwy'r byd, debyg gen i, ac felly yn ein gwneud ni'r dynion yn *respectable.* Pe bawn i yn myn'd oll, mi awn lle mae Mammy yn myn'd; mae yno rywbeth i gadw un yn effro o leiaf."

"P'beth! y methodistiaid ceg-agored? Wfft iddynt!" ebe Marie.

"Rhywbeth, yn hytrach na môr marw eich eglwysi *respectable.* Yn wir, Marie, mae yn ormod i ofyn i ddyn fyn'd. Efa, ydych chwi yn dewis myn'd. Dowch, arhoswch gartref i chware gyda fi."

"Mae'n well geni fyn'd i'r eglwys, diolch i chwi, papa."

"Onid ydi yn hynod o flinderus?" ebe St. Clare.

"Mae braidd yn flinderus," eb Efa; "ac mi fyddaf bron a chysgu; ond byddaf yn treio cadw'n effro."

"I ba beth, ynte, yr ydych yn myned?"

"Wel, papa, wyddoch," ebe hi 'n ddistaw yn ei glust, "mi ddeudodd nghyfnither fod Duw eisio i ni fyn'd; a fo sy'n rhoi pob peth i ni, wyddoch; ac nid ydi ddim llawer gneud hynny, os oes arno eisio ni 'neud. Nid ydi ddim mor flinderus ar ol y cwbl."

"Fy ngeneth fach ddiolchgar anwyl!" ebe St. Clare, gan ei chusanu; "ffwrdd a chwi, byddwch lodes dda, a gweddïwch droswyf fi."

"Shwr iawn, mi fydda'n g'neud bob amser," ebe'r plentyn, a rhedodd ar ar ol ei mam i'r cerbyd.

Safodd St. Clare ar y grisiau a chusanodd ei law iddi, a'r dagrau yn llenwi ei lygaid.

"O Efangel! iawn y'th enwyd," eb efe; "oni wnaeth Duw di yn Efengyl i mi?"

Felly y teimlodd am funudyn; yna efe a smocciodd ei segar, ac a anghofiodd ei Efengyl. A oedd ef ddim rywbeth yn debyg i bobl eraill?

"Gwrandewch, Efa," eb ei mam, "mae'n burion bod yn garedig wrth weinidogion, ond peth anweddus ydyw ymddwyn tuag attynt fel pe baent yn berthynasau, neu bobl o'r un gradd a sefyllfa â ni ein hunain. 'Rwan, pebai Mammy yn sâl, fyddai arnoch ddim eisiau ei dodi yn eich gwely eich hun?"

"Fyddai'n dda iawn gen i wneud hynny, mamma," eb Efa, "oherwydd mi fyddai'n haws i mi ei thendio, ac y mae ngwely fi yn well na'i gwely hi, wyddoch."

Syrthiodd Marie yn llwyr i anobaith, trwy'r absennoldeb o ddirnadaeth foesol yn yr attebiad hwn.

"Sut y medraf fi wneud i'r plentyn yma ddeall?" ebe hi.

"Fedrwch chwi ddim," ebe Miss Ophelia, yn gwtta.

Edrychodd Efa yn drist ac mewn dyryswch am funud! ond, fel mae goreu'r lwc, nid yw plant yn cadw at yr un peth yn hir; ac yn mhen ychydig yr oedd yn ddigon gwyneb-lawen, yn chwerthin ar y naill beth a'r llall a welai trwy ffenestr y cerbyd.

* * * * * * * *

"Wel, ffrindia," ebe St. Clare, pan oeddynt yn eistedd yn gymfforddus o gylch y bwrdd ciniaw, "beth oedd ar y bwrdd yn yr eglwys heddyw?"

"O, fe bregethodd Dr. G—— yn rhagorol. Pregeth ag y dylsech chwi ei chlywed; yr oedd yn cynnwys fy marn i yn hollol."

"Rhaid ei bod yn bur adeiladol," ebe St. Clare. "Yr oedd ei destyn yn hynod o gynnwysfawr."

"Wel, dyna oeddwn i'n feddwl—fy marn am gymdeithas, a phethau felly," ebe Marie. "Dyma'r testyn, 'Efe a wnaeth bob peth yn deg yn ei amser;' ac efe a ddangosodd sut y mae gwahanol raddau a sefyllfaoedd pobl wedi dyfod oddi wrth Dduw; ac y mae mor gymmwys a dymunol, wyddoch, fod rhai yn uchel a rhai yn isel, rhai wedi eu geni i

lywodraethu, a'r lleill i wasanaethu, a phob peth yn ei le fel yna, wyddoch; ac efe a'i cymhwysodd mor ddel at yr holl swn a dwndwr sydd ynghylch caeth-fasnach; ac mi brofodd yn ddigon amlwg fod y Bibl o'n hochr ni, ac yn cefnogi ein sefydliadau tu hwnt i bob dadl. Fasa'n dda gen i pe buasech chwi yn gwrando."

"O, nid oedd arnaf fi ddim eisiau," ebe St. Clare. "Mi fedraf gael allan o'r papyr newydd y pryd a fynnaf yr hyn wneiff gymmaint o les i mi, a smoccio segar yn y fargen, yr hyn nis gallwn ei gael yn yr eglwys, chwi wyddoch."

"P'beth!" ebe Miss Ophelia, "a ydych chwi ddim yn credu'r golygiadau yna?"

"Pwy—fi? Chwi wyddoch fy mod i'r fath flaidd diras, nad ydyw'r golygiadau crefyddol yma ar bethau yn cael unrhyw effaith arnaf. Pe bawn i yn dweyd dim ar y pwnge yma o gaeth-wasanaeth, mi a'i dywedwn yn onest allan ac allan, 'Ni sydd â'r llaw uchaf; mae gennym gaethion; ac yr ydym yn penderfynu eu cadw—mae hynny yn gyfleusdra ac yn elw;' oherwydd dyna ol a blaen y matter; dyna swm a sylwedd yr holl stwff sanctaiddiol ar ol y cwbl; ac yr wyf fi o'r farn fod hyna yn ddealladwy i bawb yn mhob man."

"Yn wir, Augustine, yr ydych yn gableddus!" ebe Marie, "mae'n arswydus gwrando arnoch."

"Arswydus! mae'n wir. Am y lol grefyddol yma ynghylch caeth-wasanaeth, pa'm na charian nhw'r matter dippin pellach, a dangos mor ddymunol, yn ei amser, ydyw i ddyn yfed gwydraid yn ormod, ac eistedd yn lled hwyr i chware cardiau, a nifer o ddarpariadau rhagluniaethol eraill a geir yn fynych ymysg pobl ifainge; fe fyddai'n dda gennym ni glywed fod pethau felly hefyd yn ol y Bibl."

"Wel," ebe Miss Ophelia, "a ydych chwi'n barnu caeth-wasanaeth yn ddrwg neu beidio?"

"Fy nghares anwyl," ebe St. Clare, dan chwerthin, "ni chymmeraf fi mo fy holi'n glos, yn ol hen arfer Vermont. Os attebaf fi'r gofyniad yna, fe ddaw hanner dwsin yn ei gynffon, a phob un yn galettach na'i frawd; ni ddywedaf fi mo fy marn. Yr wyf fi yn un o'r rhai sy'n byw wrth daflu cerrig at dai gwydr pobl eraill, ond nid af i osod tŷ gwydr i fynu iddynt hwy luchio cerrig atto."

"Dyna fel y bydd St. Clare yn siarad bob amser," ebe Marie, "ni chewch chwi byth ddim boddlonrwydd allan o hono fo. Yr wyf fi yn credu ei fod yn rhedeg pethau fel hyn i lawr am fod yn gas ganddo grefydd."

"Crefydd!" ebe St. Clare, mewn llais a barodd i'r ddwy rythu llygaid arno. "Crefydd! Ai crefydd ydyw'r hyn a glywch chwi yn yr eglwys? Ai crefydd ydyw'r hyn a fedr blygu a throi, a chodi a gostwng, i ffitio gwyrgemni a hunanoldeb mewn cymdeithas? Ai crefydd ydyw'r hyn sydd lai cydwybodol, lai hael, lai cyfiawn, lai ystyriol dros greadur o ddyn, na fy natur ddall, fydol, a phechadurus i fy hunan? Nage. Pan

chwiliwyf fi am grefydd, mi edrychaf yn rhywle uwchlaw i mi, ac nid oddi tanaf."

"Felly, nid ydych yn credu fod y Bibl yn cefnogi caeth-wasanaeth?" ebe Miss Ophelia.

"Y Bibl oedd llyfr fy *mam*," ebe St. Clare. "Yn ei oleuni y bu fyw a marw, ac ni fynnwn er dim feddwl ei fod yn cefnogi'r fath beth. Fyddai mor hawdd gennyf geisio profi fod fy mam yn yfed brandi, yn cnoi tobacco, ac yn tyngu, er mwyn fy nghyfiawnhau fy hun yn hynny. Ni fyddwn i ddim mymryn mwy boddlon i'r arferion hyn ynof fy hun, ac yspeiliai fi o'r cysur o'i pharchu hi; ac y mae'n gryn gysur yn y byd yma i ddyn gael rhywbeth i'w barchu. Mewn gair, welwch chwi," eb efe, gan droi i'w ffordd ddigrif ar unwaith, "y cwbl sydd arnaf fi eisiau ydyw cadw gwahanol bethau mewn gwahanol flychau. Mae holl ffurf-waith cymdeithas, yn Ewrop ac America, wedi ei wneud o wahanol ddarnau, y rhai ni safant chwiliad manwl wrth unrhyw faen prawf o foesoldeb. Mae'n ddigon hysbys nad yw pobl yn ceisio ymgyrhaedd at berffeithrwydd, ond yn hytrach yn treio gwneud fel y bydd y byd yn gyffredin. Yn awr, pan safo un i fynu, fel dyn, a dywedyd fod caeth-wasanaeth yn angenrheidiol i ni, na fedrwn wneud hebddo, y difethid ni os rhoddir ef i fynu, ac, wrth reswm, ein bod yn penderfynu dal gafael ynddo—dyna iaith gadarn, glir, a di-gamgymmeriad; mae bonedd y gwir yn perthyn iddi; ac os gallwn farnu oddiwrth eu hymddygiadau, y mae'r rhan fwyaf o'r byd yn ein cefnogi. Ond pan elo un i dynnu gwyneb hir, ac i ochneidio, a chodi ysgrythyrau, yr wyf fi yn cael fy nhueddu i feddwl nad yw ddim gwell nag y dylai fod."

"Yr ydych yn bur ragfarnllyd," ebe Marie.

"Wel," ebe St. Clare, "meddyliwch pe b'ai rhywbeth yn gostwng pris y cottwm unwaith ac am byth, ac yn gwneud llafur y caethion yn hollol ddiwerth; ydych chwi ddim yn meddwl na chaem ni esponiad arall ar y Bibl? Y fath ffrwd o oleuni a ddisgynai ar yr eglwys ar unwaith, ac mor fuan y ceid allan fod y Bibl a rheswm dros yr ochr arall!"

"Wel, ni waeth gen i," ebe Marie, gan ymestyn ar orweddle o glustogau esmwyth, "yr wyf fi'n ddiolchgar mod i wedi ngeni lle mae caeth-wasanaeth; ac yr wyf fi yn meddwl ei fod yn iawn—yn wir, yr wyf yn teimlo y rhaid ei fod; o leiaf, nis medrwn i fyn'd ymlaen hebddo."

"Beth ydyw'ch barn chwi, pwssi?" eb ei thad wrth Efa, yr hon a ddaeth i mewn ar y pryd â rhosyn yn ei llaw.

"Am beth, papa?"

"P'run oreu gennych, fyw yn nhŷ'ch ewythr yn Vermont, ai cael tŷ llawn o weinidogion, fel sydd yma?"

"O, ein ffordd ni ydi'r happusa, wrth reswm," eb Efa.

"Sut felly?" ebe St. Clare, â'i law ar ei phen.

"Wel, mae mwy o lawer o'n hamgylch i'w caru," eb Efa, gan edrych i fynu yn ddifrifol.

"Dyna Efa i'r dim," ebe Marie; "un o'i dywediadau digrif hi."

"Ydi o'n ddywediad digrif, papa?" eb Efa ynghlust ei thad.

"Ydi, braidd, fel y mae'r byd yn myn'd," ebe St. Clare. "Ond ymhle bu Efa bach amser cinio?"

"O, mi fu'm yn ystafell Twm, yn gwrando arno'n canu, ac mi gefais fy nghinio gan modryb Dinah."

"Yn gwrando ar Twm yn canu, aïe?"

"O, ïe, mae yn canu pethau anwyl, am y Jerusalem newydd, a'r angylion glân, a gwlad Canaan."

"Ydi mi wranta; mae'n well na'r *play*, onid ydi?"

"Ydi; ac y mae'n mynd i'w dysgu i minnau."

"Gwersi canu, aïe!—wel, yr *ydych* yn dyfod ymlaen."

"Ydw; mae Twm yn canu i mi, a finna yn darllen fy Mibl iddo yntau; ac y mae'n esponio beth mae'n feddwl, wyddoch."

"Wel, yn wir," ebe Marie, "dyma'r newydd diweddaf eleni."

"Nid rhyw law wael ydyw Twm am esponio'r Bibl, mi rof fi 'ngair," ebe St. Clare. "Mae gan Twm ddawn naturiol at grefydd. Yr oedd arnaf fi eisiau'r ceffylau allan yn o fore heddyw, ac mi eis yn lled ddistaw i hun-gell Twm, yn llofft y stabal, a dyna lle'r oedd o, yn cadw cwrdd gweddi wrtho ei hun; ac, yn wir, ni chlywais i ddim mor flasus a gweddi Twm er's cryn amser. Fe weddïodd droswyf fi mor selog a phe buasai yn apostol."

"Ond odid nad oedd yn meddwl eich bod yn gwrando. Mi glywais am y cast yna cyn hyn," ebe Marie.

"Os oedd, ni ddangosodd lawer o gyfrwysder; oherwydd fe roddodd ei farn am danaf i'r Hollalluog yn bur ddidderbyn wyneb. Yr oedd yn meddwl fod gennyf lawer o le i wella, ac ymddangosai yn daer iawn am i mi gael tröedigaeth."

"Gobeithio y gosodwch hyn at eich calon," ebe Miss Ophelia.

"Mae'n debyg eich bod chwithau bron o'r un farn â Thwm," ebe St. Clare. "Wel, ni gawn weled,—oni chawn ni, Efa?"

PENNOD XVII.

AMDDIFFYNIAD Y DYN RHYDD.

Yr oedd rhyw ffwdan go dawel yn nhŷ 'r Crynwr, tua'r hwyr. Gwelid Rachel Haliday yn ymsymud yma a thraw yn ddistaw, yn casglu allan o'i thrysorau teuluaidd y fath angenrheidiau a ellid eu gwasgu i'r cwmpas lleiaf, er cysur i'r crwydriaid truain oedd i fyned allan y noswaith honno. Yr oedd cysgodau'r prydnawn yn ymestyn tua'r dwyrain, a'r haul crwn coch yn sefyll yn syn yn yr awyrgylch, a'i belydrau 'n tywynu yn felynion ac yn feddal i mewn i'r ystafell fechan lle yr eis-

teddai George a'i wraig. Yr oedd ei blentyn ar lin George, a llaw ei wraig yn ei law yntau. Edrychai y ddau yn fyfyrgar ac yn brudd, ac yr oedd ôl dagrau ar eu gruddiau.

"Ie, Eliza," ebe George, "yr ydwyf yn gwybod fod y cwbl ydych yn ddeyd yn wir. Yr ydych yn eneth dda—yn llawer gwell nac ydw' i; ac mi dreia neud fel yr ydych chwi'n deyd. Mi ymdrecha ymddwyn yn deilwng o ryddid. Mi dreia deimlo fel Cristion. Mae Duw Hollalluog yn gwybod i mi feddwl gwneud yn dda—ymdrechu'n galed i wneud yn dda—ond yr oedd pobpeth yn fy erbyn; ac yn awr mi anghofiaf y cwbl aeth heibio, a rhof heibio bob teimlad chwerw, a darllen af fy Mibl, a dysgaf fod yn ddyn da."

"A phan ddelom i Canada," eb Eliza, "mi fedraf fi eich helpu. Yr ydwyf yn wnïadwraig dda iawn; ac mi fedraf olchi a smwddio yn glws; a rhyngom ein dau mi fyddwn yn shwr o gael rhywbeth tuag at fywoliaeth."

"Ie, Eliza, cyhyd ag y meddiannom ein gilydd a'n bachgen. O Eliza, pe bae'r bobl yma ond gwybod y fath fendith ydyw i ddyn deimlo mai ei eiddo *ef ei hun* ydyw ei wraig a'i blentyn! Rhyfeddais lawer gwaith weled pobl a fedrent alw eu gwragedd a'u plant yn eiddo *hwy eu hunain*, yn ymofidio ac yn ymdrallodi ynghylch unpeth arall. Yr ydw' i'n teimlo fy hun yn gryf ac yn gyfoethog, er nad oes gennym ddim ond ein dwylaw mioelion. Yr wyf yn teimlo fel prin y medrwn ofyn gan Dduw ddim yn rhagor. Do, mi weithiais yn galed bob dydd nes dyfod yn bump-ar-hugain oed; er hynny, nid oes gennyf gymmaint a dimma o arian, na thô uwch fy mhen, na llathen o dir; etto, os gwnant ond fy ngadael yn llonydd yn awr, byddaf yn fodlon—yn ddiolchgar; mi weithiaf, ac anfonaf yr arian i chwi a'm plentyn. Am fy hen feistr, y mae o wedi cael ei dâl bum' gwaith drosodd am y cwbl a wariodd arna' i. 'Does arna' i ddim dyled iddo ef."

"Ond nid ydym etto yn hollol allan o berygl," eb Eliza; "nid ydym wedi cyrhaedd Canada etto."

"Gwir," ebe George, "ond yr wy'n teimlo fel pe bawn yn anadlu awyr rhyddid, ac y mae'n fy ngwneud yn gryf."

Gyda hyn clywent leisiau yn yr ystafell allanol, yn ymddiddan yn ddifrifol, a rhoddwyd cnoc ar y drws. Neidiodd Eliza i fynu, ac agorodd.

Simon Haliday oedd yno, a chydag ef un o'i frodyr y Cwaceriaid, yr hwn a ddygodd o'u blaenau dan yr enw Phineas Ffletcher. Dyn tal, teneu, pen-goch, ydoedd Phineas, â gwynebpryd yn dangos llawer iawn o ddeall a chyfrwysder. Nid oedd ganddo wedd siriol, dawel, grdfyddol, fel Simon Haliday; ond i'r gwrthwyneb, ymddangosai yn hynod o lygad-effro a chraff, fel dyn yn ymfalchio ei fod yn gwybod mor dda beth oedd e o'i gwmpas, ac yn edrych ymlaen yn ofalus; pethau lled anghyson â'r het a'r cantel mawr a'r ymadrodd ffurfiol.

"Mae ein ffrind Phineas wedi cael allan rywbeth o bwys i ti a'th bobl, George," ebe Simon: "byddai gystal i ti ei glywed."



NEWYDD DRWG GAN PHINEAS FFLETCHER.

"Safodd Rachel Haliday wrth y twb tylino, gan godi ei dwylaw, yn does ac yn flawd i gyd, ac edrych fel un wedi dychrynu. Edrychodd Simon yn sobr anarferol; a safodd George a'i ddyrnau yn gauad, a'i lygaid yn gwreichioni."

"Do, mi gefais," ebe Phineas, "ac y mae'n dangos y buddioldeb o gysgu bob amser âg un glust yn 'agored, mewn rhai manna,' fel y byddaf yn dweyd. Trois neithiwr i ryw dafarn fach anghysbell ar y ffordd. Yr wyt ti'n cofio'r fan Simon, lle y gwerth'som yr afalau y llynedd i'r ddynes dew honno â modrwyau mawr yn ei chlustiau. Wel, yr oeddwn i wedi gyrru 'n galed ac wedi blino, ac ar ol swpper taflais fy hun i lawr ar bentwr o sachau oedd yn y gornel, a thynnais y croen buffalo drostaf, i aros nes i'r gwely fod yn barod; a beth a 'neis ond cysgu 'n drwm."

"Ac un glust yn agored, Phineas?" ebe Simon, yn arafaidd.

"Nage! Mi ddaru mi gysgu, y clustia a'r cwbl, am awr neu ddwy; oherwydd yr oeddwn i wedi blino yn o lew; ond pan ddois dippyn attaf fy hun, deallais fod rhyw ddynion yn y 'stafell, yn eistedd o gwmpas y bwrdd, yn yfed ac yn siarad; a chyn gneud llawer o 'stŵr, t'rawodd yn fy mhen i wrando beth oeddynt o'i gwmpas, ac yn enwedig gan eu bod wedi dweyd rhwbeth am y Cwacers. 'Felly,' ebe un o'r dynion, 'y maent yn sefydliad y Cwacers, yn ddiammau,' eb efe. Yna gwrandewis â'm dwyglust, a deallis mai am y bobl hyn yr oeddynt yn siarad. Felly gorweddis, a chlywis hwynt yn parottoi eu holl blaniau. Yr oedd y dyn ieuange yma i gael ei anfon yn ol i Kentucky, at ei feistr, yr hwn oedd am wneud siampl o hono, i rwystro 'r niggers redeg i ffwrdd; yr oeddynt am ddwyn ei wraig i lawr i New Orleans, a'i gwerthu yno er mael iddynt eu hunain, ac yn disgwyl cael o un-ar-bymtheg i ddeunaw cant dolar am dani; a dywedent fod y plentyn i gael ei gy'mryd i fas-nachydd, yr hwn a'i prynasai; ac yna, am y bachgen Jim a'i fam, yr oeddynt hwy i fyned yn ol at eu meistraid i Kentucky. Dywedent fod dau gwnstabl mewn tref dippyn ymlaen y rhai aent gyda hwynt i'w cym'ryd i fynu, ac yr oedd y ddynes ieuange i gael ei dwyn o flaen barnwr; ac un o'r dyhirod, dyn bychan, llyfn ei dafod, oedd i dyngu mai ei eiddo ef ydoedd, fel y rhoddid hi fynu i'w ddwylaw ef, i'w chym'ryd i lawr i'r dehau. Y maent yn gwybod yn dda am y ffordd yr ydym ar fyned heno; a byddant ar ein holau yn o fuan, chwech neu saith o honynt. Felly, 'rwan, pa beth sydd i'w neud?" Yr oedd y twr o bobl a wrandawent ar yr adroddiad yma yn sefyll mewn agweddau mor ddy-ddorol ag a fuasent yn werth sylw paentiwr. Rachel Haliday, wrth y twb tylino, yn codi ei dwylaw, yn does ac yn flawd i gyd, ac yn edrych fel un wedi dychrynu. Edrychodd Simon yn sobr anarferol. Eliza â'i breichiau am ei gwr, ac yn edrych yn drist yn ei wyneb. Safai George â'i ddyrnau yn gauad, a'i lygaid yn gwreichioni, yn edrych yn union fel y disgwylid i ddyn wneud pan y mae ei wraig ar gael ei gwerthu ar ocshwn, a'i fab ar gael ei anfon i gaethiwed, a hyn oll o dan nodded cyfreithiau cenedl Gristionogol.

"Pa beth *a wnawn* ni, George?" eb Eliza, yn wanllyd.

"Mi wn beth a wnaf *fi*," ebe George, gan biccio i'r ystafell fechan, a threio ei bistols.

" Ie, ïe," ebe Phineas, gan awgrymu ei ben ar Simon, " ti a weli sut y mae hi'n gweithio."

" Gwelaf," ebe Simon, gydag uchenaid; " gobeithio na ddaw hi ddim i hynyna."

" 'Does arna' i ddim eisio dyfod a neb i ddrwg gyda mi na throstof fi," ebe George. " Os rhowch i mi fenthyg eich càr, a nghyf'rwyddo, mi af fy hunan i ben yr yrfa nesaf. Y mae Jim cyn gryfed a chawr ac mor hyf a'r angau, ac felly 'rwyf finnau."

" Ah, wel, ffrind," ebe Phineas, " ond bydd raid i ti wrth rywun i dy yrru di. Mae i ti groeso i 'neud yr holl ymladd dy hun, wyddost; ond yr ydw' i'n gwybod rhwbeth am y ffordd na's gwyddost ti."

" Ond 'does arnaf fi ddim eisiau dyfod â neb o honoch chwi i berygl," ebe George.

" Dwad à mi i berygl!" ebe Phineas, gan edrych yn ymofyngar ac yn graff. " Pan ddoi di â mi i ddrwg, mi ddoi à hen lwynog."

" Dyn call, clyfer, ydyw Phineas," ebe Simon. " Cymmer di ei gyngor ef;" a chan osod ei law ar ysgwydd George, a phwyntio at y pistols, ychwanegodd, " paid a bod yn rhy fyrbwyll gyda'r rhai'n—y mae gwaed ifangc yn boeth."

" Ni wnaf fi ddim ymosod ar neb," ebe George. " Cymmaint ydwyf fi'n ofyn gan y wlad yma ydyw gadael i mi fyn'd allan yn heddychlon; ond"—tawodd ar hyn, daeth cwmmwl du dros ei dalcen, ac ymgynhyrfodd gewynnau ei wyneb,—" gwerthwyd chwaer i mi yn marchnad New Orleans yna. Mi wn i ba beth y gwerthir hwynt; ac a ydwyf fi'n myn'd i sefyll yn llonydd ac edrych arnyn nhw yn cymmeryd fy ngwraig i'w gwerthu, pan y mae Duw wedi rhoi i mi ddwy fraich gref i'w hamddiffyn?" Na wnaf; trwy gymhorth Duw! Mi ymladdaf hyd yr anadl olaf, cyn y cânt gymmeryd fy ngwraig a'm bachgen. A ydych chwi'n gweled bai arnaf?"

" Nis gall undyn byw dy feio di, George. Ni allai gwaed a chnawd wneuthur yn amgen," ebe Simon. " Gwae'r byd oblegid rhwystrau; er hynny, gwae y dyn trwy'r hwn y daw y rhwystr."

" Pe b'ai hyd yn oed y chwi, syr, yn fy lle i, oni wnaech yr un peth?"

" Gweddïaf na chaffwyf fy nhemtio," ebe Simon; " y mae'r cnawd yn wan."

" Yr ydw' i'n meddwl y byddai 'nghnawd i yn o gryf ar achos felly," ebe Phineas, gan estyn allan bâr o freichiau fel hwyliau melin wynt. " Nid ydw' i'n shwr, ffrind George, na ddaliwn i ryw genna gerfydd ei froccen tra byddit ti'n settlo dy gyfri âg e!"

" Pe dylai dyn *byth* wrthwynebu cam," ebe Simon, " dylai George fod yn rhydd i wneud hynny 'rwan; ond y mae arweinwyr ein pobl ni wedi dysgu ysbryd gwell; canys nid yw digofaint gwr yn cyflawni cyfiawnder Duw; y mae'n myn'd yn dost iawn yn erbyn ewyllys llygredig dyn, ac ni ddichon neb ei dderbyn ond y rhai y rhoddir iddynt. Gweddïwn ar yr Arglwydd na chaffom ein temtio."

"Felly yr ydw *inna* 'n gneud," ebe Phineas; "ond os cawn y'n temtio'n ormod, edrychant attyn 'u hunain, dyna'r cwbl."

"Mae'n ddigon amlwg na chefaist ti dy eni yn Ffrind," ebe Simon, dan wenu; "y mae'r hen natur yn mynnu ei ffordd ynot ti yn lled gryf etto."

I ddweyd y gwir, rhyw ddyn diffuant, llafurus, o'r goedwig oedd Phineas gynt, yn heliwr bywiog, ac yn saethwr i drwch y blewyn; ond wedi hoffi Cwaceres glws, cynhyrfwyd ef i ymuno â'r gymdeithas yn y gymmydogaeth; ac er ei fod yn aelod gonest, sobr, a defnyddiol, ac nad oedd dim neillduol yn ei erbyn, etto yr oedd rhywbeth ynddo nad oedd yn hollol at archwaeth y mwyaf ysbrydol o honynt.

"Bydd gan ein ffrind Phineas ryw ffyrdd o'i eiddo ei hun byth," ebe Rachel Haliday, dan wenu; "ond yr ydym oll yn meddwl fod ei galon yn yr iawn le, er hynny."

"Wel," ebe George, "onid gwell fyddai i ni brysuro i ffoi?"

"Mi godais i am bedwar o'r gloch, a dois ymlaen gyda nerth y carnau, ddwyawr neu dair cyn iddynt hwy gychwyn, yn ol eu trefniad. Nid ydi ddim yn ddiogel cychwyn cyn iddi dywyllu, beth bynnag; oherwydd y mae rhyw ddynion drwg yn y pentrefydd ar y ffordd, a ddichon ymyrreth â ni os gwelant y wagen, a gwnelai hynny ein gohirio yn fwy na'r disgwyl; ond yr ydw i'n meddwl y gallwn fentro ymhen y ddwyawr. Mi af fi drosodd at Michael Cross, ac mi geisia' i ganddo ddyfod ar ei geffyl buan y tu ol i ni, ac edrych allan yn ofalus ar hyd y ffordd, a rhoi rhybudd i ni os gwel unrhyw gwmpeini o ddynion yn dyfod. Y mae Michael yn cadw march a ddengys ei sodlau i'r rhan fwyaf o geffylau; a medr ef garlamu ymlaen i ddywedyd i nî pe byddai ryw berygl. Yr ydw' i'n myn'd allan 'rwan i ddweyd wrth Jim a'r hen wraig i fod yn barod, ac i edrych ar ol y ceffylau. Yr ydym yn o flaenllaw arnynt, ac yn sefyll siawns go dda i gyrhaedd pen yr yrfa cyn iddyn nhw'n dal ni. Felly, cadw i fynu dy galon, ffrind George; nid dyma 'r perygl cyntaf y bu'm i ynddo gyda dy bobl di," ebe Phineas, gan gau'r drws.

"Y mae Phineas yn o hen-gall," ebe Simon. "Fydd e'n sicr o wneud trosot y peth goreu a ellir ei wneud, George."

"Y cwbwl ydw i'n ofidio am dano," ebe George, "ydyw y perygl i chwi."

"Ti a'n boddhei ni, ffrind George, os tewi a sôn dim 'chwaneg am hynyna. Beth bynnag ydan ni yn ei neud, yr ydym yn rhwym, o gydwybod, i hynny; ni fedrwn ei neud mewn un ffordd arall. Ac yrwan, mam," eb efe, gan droi at Rachel, "brysia gyda'r parottoad i'r cyfeillion yma, ni wiw i ni eu gyrru ymaith ar eu cythlwng."

A thra'r oedd Rachel a'r plant yn brysur yn gwneud teisenau, ac yn cwcio'r ham a'r cyw iar, ac yn parottoi y pethau eraill i swpper, eisteddai George a'i wraig yn eu hystafell fachan, â'u breichiau ymhleth am eu gilydd, yn y fath ymddiddan ag a gymmer le rhwng gwr a gwraig pan, efallai, ar ymadael oddiwrth eu gilydd am byth.

"Eliza," ebe George, "*nis geill* pobl ag sydd ganddynt ffrindiau, a thai, a thiroedd, ac arian, a'r holl bethau hynny, garu fel yr ydym ni, sy'n perchen dim yn y byd ond ein gilydd. Cyn eich adwen chwi, Eliza, ni charwyd fi gan un creadur, ond fy mam dlawd a'm chwaer. Gwelais Emily druan y bore y dygwyd hi i ffordd gan y masnachwr. Daeth i'r gornel lle'r oeddwn i'n cysgu, a dywedodd, George wirion, y mae dy ffrind olaf yn mynd. Pa beth a ddaw a honot, fy machgen tlawd?' Cŏdais i fynu a thaflais fy mreichiau am dani, a chrïais ac ochneidiais, a chrïodd hithau hefyd; a dyna'r geiriau mwynion olaf a glywais am ddeng mlynedd hir; a fy nghalon wedi gwywo, ac yn teimlo mor sychlyd a lludw, nes i mi gyfarfod â chwi. A 'ch cariad chwi—yr oedd agos fel codi dyn o farw yn fyw! Yr ydwyf fi wedi bod yn ddyn newydd byth wedi hynny. Ac yrwan, Eliza, mi dywalltaf y diferyn olaf o'm gwaed, cyn y cânt eich cym'ryd chwi. Pwy bynnag a'ch cymmer chwi, rhaid iddo gammu dros fy nghorph marw i."

"O Arglwydd, cymmer drugaredd arnom!" eb Eliza, gan ochneidio'n ddwys. "Pe gwelai'n dda ond goddef i ni fynd allan o'r wlad yma gyda'n gilydd, dyma'r cwbl yr y'm yn ei ofyn."

"A ydyw Duw o'u plaid?" ebe George, gan dywallt allan ei deimladau chwerwon ei hunan, yn hytrach na siarad â'i wraig. "A ydyw Ef yn gweled beth y mae nhw'n wneud? Paham y mae'n dioddef y fath bethau? Ac y mae nhw'n dweyd fod y Bibl o'u tu; yn wir, y mae'r holl allu o'u tu. Y maent yn happus; maent yn aelodau o eglwysi, yn disgwyl myn'd i'r nefoedd; ac y maent yn myn'd trwy'r byd mor esmwyth, ac yn cael eu ffordd eu hunain yn mhobpeth; a Christionogion tlodion, gonest, ffyddlon—Cristionogion cystal a nhwythau, neu well—yn gorwedd yn y llwch o dan eu traed. Maent yn eu prynu nhw, yn eu gwerthu nhw, ac yn gwneud masnach o waed eu calon, a'u griddfanau, a'u dagrau—a Duw *yn gadael* iddynt."

"Ffrind George," ebe Simon, allan o'r gegin, "gwrando ar y Salm hon; fe allai y gwna les i ti."

Tynnodd George ei gadair at y drws, ac Eliza, gan sychu ei dagrau, a ddaeth ymlaen i wrando, tra yr oedd Simon yn darllen fel y canlyn:—

"'Minnau, braidd na lithrodd fy nhraed; prin na thripiodd fy ngherddediad. Canys cenfigenais wrth y rhai ynfyd, pan welais lwyddiant y rhai annuwiol. Canys nid oes rhwymau yn eu marwolaeth; a'u cryfder sydd heini. Nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill. Am hynny y cadwynodd balchder hwynt, ac y gwisg trawsder am danynt fel dilledyn. Eu llygaid a saif gan frasder: aethant dros feddwl calon o gyfoeth. Y maent wedi llygru, yn chwedleua yn ddrygionus am drawsder; yn dywedyd yn uchel. Am hynny y dychwel ei bobl ef yma; ac y gwesgir iddynt ddwfr phiol lawn. Dywedant hefyd, Pa fodd y gŵyr Duw? a oes gwybodaeth gan y Goruchaf?' Onid dyna fel y mae gyda thi, George?"

"Felly mae, yn wir," ebe George, "yr un fath a phe buaswn wedi ei 'sgrifenu fy hun."

"Gan hynny, gwrando," ebe Simon: "'Pan amcenais wybod hyn, blin oedd hynny yn fy ngolwg i; hyd onid aethum i gyssegr Duw: yna y deallais eu diwedd hwynt. Diau osod o honot hwynt mewn llithrigfa, a chwympo o honot hwynt i ddinystr. Fel breuddwyd wrth ddihuno un, felly, O Arglwydd, pan ddeffroech, y dirmygi eu gwedd hwynt. Etto yr ydwyf yn wastad gyda thi: ymaflaist yn fy llaw ddehau. A'th gyngor y'm harweini: ac wedi hynny y'm cymmeri i ogoniant. Minnau, nesâu at Dduw sy dda i mi: yn yr Arglwydd Dduw y gosodais fy ngobaith.'"

Anadlwyd y geiriau hyn o ymddiried duwiol, gan yr hen wr cyfeillgar, ac ymdywalltasant fel miwsig cyssegredig dros ysbryd blinderus a chythruddol George; ac wedi iddo ddarfod, eisteddodd â gwedd dawel a darostyngedig ar ei wyneb hardd.

"Pe y byd hwn fyddai'r cwbl, George," ebe Simon, "gellit, yn wir, ofyn, Ymh'le mae'r Arglwydd? Ond y rhai sydd ganddynt leiaf yn y byd hwn, yn fynych, a ddewisir ganddo Ef i'r deyrnas. Dyro dy ymddired ynddo, ac ni waeth beth a ddigwydd i ti yma; efe a wna bobpeth yn iawn i ti yn y byd a ddaw."

Pe llefarasid y geiriau hyn gan ryw gynghorwr esmwyth, hunanol, o enau yr hwn y daethent allan yn unig fel rhyw araith grefyddol a blodeuog, briodol i'w harfer wrth bobl mewn trallod, efallai na chawsent fawr o effaith; ond yn dyfod oddiwrth ddyn ag oedd beunydd yn rhedeg y perygl o gael ei ddirwyo a'i garcharu dros achos Duw a dyn, yr oedd ynddynt y fath bwys nad oedd modd peidio ei deimlo, a'r crwydriaid tlodion amddifad a deimlasant dawelwch a nerth yn anadlu i'w mewn.

Ac yn awr cymmerodd Rachel Eliza yn fwynaidd gerfydd ei llaw, ac arweiniodd hi at y bwrdd swpper. Fel yr oeddynt yn eistedd i lawr, clywid cnoc bach ar y drws, a daeth Ruth i mewn.

"Mi ddaru mi dest redeg i mewn," ebe hi, "gyda'r sanau bach yma i'r bachgen—tri phar o rai gwlân, cynnes, del. Mi fydd yn oer iawn yn Canada, ti wyddost. A wyt ti 'n cadw dy galon i fynu, Eliza?" ebe hi, gan biccio o gwmpas at ochr Eliza i'r bwrdd, ac ysgwyd ei llaw yn wresog, a rhoi caccen hâd yn llaw Harri. "Mi ddois i â pharsel bach o'r rhai'n iddo," ebe hi, gan dynnu yn ei phocced i gael y peccyn allan. "Rhaid i blant gael bwytta bob amser, wyddost."

"O, diolch i chwi; yr ydych yn rhy ffeind," eb Eliza.

"Tyr'd Ruth, eiste i lawr i swpper," ebe Rachel.

"Ni fedra' i ddim aros 'rwan. Yr ydwyf wedi gadael John gyda'r babi ac y mae ychydig o deisenau yn y pobty; ni fedra' i ddim ymdroi un munudyn, onte mi âd John i'r teisenau losgi yn golsyn, a rhydd yr holl siwgwr yn y fowlan i'r plentyn. Dyna fel mae o'n gwneud," ebe'r Gwaceres fach, dan chwerthin. "Felly, ffarwel, Eliza; ffarwel, George; yr Arglwydd a roddo i chwi siwrne ddiogel;" a phicciodd Ruth allan o'r tŷ.

Ymhen ychydig ennyd wedi swpper tynnwyd gwagen fawr at y drws, â chysgod drosti. Yr oedd y noswaith yn glir ac yn serenog; a neidiodd Phineas i lawr o'i eisteddle i drefnu ei dramwywyr. Cerddodd George

allan â'i blentyn ar un fraich a'i wraig yn pwyso ar y llall. Yr oedd ei gamrau yn ddiysgog, a'i wynebpryd yn sefydlog a phenderfynol. Daeth Rachel a Simon allan ar eu hol.

"Dewch allan am funud," ebe Phineas wrth y rhai o'r tu mewn, "a gadewch i mi ficsio cefn y wagen, fel yna, i'r merched a'r bachgen."

"Dyma'r ddau groen buffalo," ebe Rachel. "Gwna'r setti mor gymfforddus ag y medri; gwaith caled ydi gyrru drwy'r nos."

Daeth Jim allan yn gyntaf, a helpiodd ei hen fam yn ofalus, yr hon oedd yn cydio yn ei fraich ac yn edrych yn bryderus, fel yn disgwyl yr ymlidiwr bob amrantyn.

"Jim, a ydi dy bistols di i gyd mewn cywair?" ebe George, mewn llais distaw, cadarn.

"Ydyn' yn wir," ebe Jim.

"Ac nid oes un amhenaeth gen' ti beth i neud os deuant?"

"Yr ydw' i braidd yn coelio nad oes," ebe Jim, gan daflu allan ei fonwes lydan, a thynnu ei anadl yn gryf. "Wyt ti'n meddwl y gadawa' i iddyn nhw gym'ryd y mam etto?"

Yn ystod yr ymddiddan byr hwn bu Eliza yn ffarwelio â'i ffrind garedig Rachel, a chynnorthwywyd hi i'r cerbyd gan Simon, a chan ymwthio i'r tu ol i'r cerbyd gyda'i bachgen, eisteddodd i lawr ymhlith y crwyn baffalo. Yn nesaf rhoddwyd yr hen wraig i mewn, a gosodwyd George a Jim ar estyllen arw yn y pen blaen, a neidiodd Phineas i fynu.

"Ffarwel, fy nghyfeillion," ebe Simon, o'r tu allan.

"Duw a'ch bendithio!" attebai pawb, o'r tu mewn.

A gyrrodd y wagen ymaith, gan rwngcian ac ysgyttio ar hyd y ffordd rewedig.

Nid oedd hamdden i siarad, oherwydd gerwindeb y ffordd a swn yr olwynion. Gan hynny rhongciodd y cerbyd yn ei flaen, trwy'r lleiniau hirion tywyll o goedtir, dros wastadoedd llydain anghyfannedd, i fynu'r rhiwiau ac i lawr i y goriwared, ac ymlaen yr aethant, awr ar ol awr. Cysgodd y plentyn yn drwm cyn hir, ar liniau ei fam. O'r diwedd, dechreuodd yr hen wreigen dlawd ddychrynedig anghofio ei hofnau; a phrofodd, hyd yn oed Eliza, fel yr oedd y nos yn treulio, nad oedd ei holl ofalon yn ddigon i gadw ei hamrantau yn agored. Ar y cyfan, Phineas oedd yn ymddangos fywiocaf o honynt i gyd, ac ysgafnhaodd ei yrfa hir trwy chwibanu rhyw diwniau unpeth ond Cwaceraidd.

Ond oddeutu tri o'r gloch, fe glywodd George glic carn ceffyl yn brysio o'n holau gryn ffordd, ac efe a gyffyrddodd â phenelin Phineas. Yna daliodd Phineas ar ben y ceffylau i wrando.

"Dyna Michael," eb efe, "mi adwaen swn ei bedol;" ac efe a gododd ar ei draed, gan dremio yn bryderus dros ei ysgwydd.

Yn awr gwelid dyn ar goppa bryn yn gyrru nerth carnau' i geffyl.

"Dyna fo, fel 'rydw i yn y fan yma," ebe Phineas. Neidiodd George a Jim allan o'r wagen, heb wybod beth yr oeddynt yn ei gylch. Safasant yn fud, a'u gwynebau tua ffordd y gennad. Yr oedd yn nesau; ac acth

i lawr i'r pant allan o'u golwg, ond gallent glywed ei garlam fywiog yn dyfod nes-nes; o'r diwedd gwelent ef ar ben y rhiw, o fewn cyrhaedd galw.

"Ie, dyna Michael," ebe Phineas; a chan godi ei lais, efe a waeddodd, "Michael, ai ti sydd yna?"

"Phineas, wyt ti yna?"

"Ydw; pwy newydd?—ydyn nhw'n dwad?"

"Ydyn, yn bur agos, wyth neu ddeg o honynt, yn boeth gan frandi, yn tyngu ac yn malu poer fel bleiddiaid!"

A chyda'i fod yn dweyd y gair, daeth swn traed meirch gyda'r awel o gryn ffordd.

"I mewn a chwi—i *mewn* ar unwaith, fechgyn!" ebe Phineas. "Os rhaid i chwi ymladd, arhoswch hyd nes caf fi chwi dippyn pellach." Ar y gair, neidiodd y ddau i'r wagen, gyrrodd Phineas y ceffylau ar drot, a marchogodd Michael o'r tu ol. Ysgyttiodd y wagen ymlaen, a gallesid meddwl ei bod bron yn ehedeg ar hyd y ffordd rewlyd; ond daeth swn yr ymlidwyr yn nes bob munud. Clywodd y gwragedd hwynt, ac edrychasant allan o'r wagen, a gwelent dwr o bobl ar ben bryn ymhell o'u hol, yn amlwg rhyngddynt ag awyr gôch y bore cyntaf. Oddi ar fryn arall, yr oedd yn hawdd gwybod iddynt gael cip-olwg ar y wagen, gorchudd gwŷn yr hon a'i gwnai yn hynod oddi yma draw, a daeth bloedd fwystfilaidd o fuddugoliaeth ar edyn y gwynt. Trodd calon Eliza yn glaf, a gwasgodd ei phlentyn yn ei chessail; trodd yr hen wraig i weddio a gruddfanu; a gafaelodd George a Jim yn eu pistolau, fel ar ddibyn anobaith. Yr oedd eu hymlidwyr yn ynnill tir arnynt yn fuan; a throdd y wagen yn sydyn at droed craig uchel oedd yn sefyll wrthi ei hun, a gwasttatir ymhob man o'i hamgylch. Safai'r golofn hon yn dywyll a thrymaidd rhyngddynt a gwawr y bore, ac addawai nawdd ac ymguddfa iddynt. Gwyddai Phineas yn dda am y lle, er hen amser ei helwriaeth, ac i'r diben o gyrhaedd y noddfa hon y bu'n gyrru ei geffylau mor filain.

"'Nawr am dani hi!" eb efe, gan ddal y ceffylau a neidio o'r wagen. "Allan a chwi, ar amrantyn, bob enaid, ac i fynu'r graig yma ar f'ol i. Michael, rhwyma dy geffyl wrth y wagen, a gyrr yn dy flaen i dŷ Amariah, a phar iddo ef a'i fechgyn ddyfod yn ol i siarad â'r gweilch yma."

Neidiasant oll o'r wagen ar wingciad llygad.

"Dyna," ebe Phineas, ac a ymaflodd yn Harri, "edrychwch chwi 'ch dau at y merched; a rhedwch *'rwan*, os *darfuch* chwi redeg erioed."

Nid oedd dim eisiau annogaeth. Yr oedd pob un o honynt yr ochr arall i'r clawdd yn gynt nag y medrwn ni adrodd, ac yn dringo i fynu'r graig mor gynted byth ag y gallent; a neidiodd Michael i lawr, cylymodd ei geffyl wrth y wagen, a gyrrodd ymaith ar frys.

"Dowch ymlaen," ebe Phineas, wedi iddynt gyrhaedd y graig, a chael trywydd y llwybr rhwng goleu'r ser a thorriad y wawr; "dowch i fynu, hen ffau helwriaeth i mi ydyw hon."

Aeth Phineas ymlaen, gan ddringo i fynu'r clogwyni fel bwch gafr. Daeth Jim yn ail, gan gludo ei hen fam lesg ar ei gefn; a George ac Eliza yn olaf. Ar ol dringo felly am ychydig, daethant i ben y clogwyn; wedi hyn yr oedd llwybr cul, a dim lle ond i un ar unwaith fyned ar hyd-'ddo, a daethant at hollt yn y graig, tua llathen o led, a thu draw i hwnnw yr oedd gwastadle, a'i ymylion yn serth i'r gwaelod fel mur castell. Neidiodd Phineas yn ddigon hawdd dros y bwlch, a gosododd y plentyn ar lawr ar dwr o fwswgl gwyn, oedd yn gorchuddio coppa'r graig.

"Drosodd a chwi," eb efe; "'rwan, neidiwch, unwaith, am eich bywyd!" meddai, fel yr oedd y naill ar ol y llall yn llamu drosodd. Nis gellid eu gweled o'r gwaelod, am fod yno fath o glawdd cerrig rhyddion yn eu cysgodi.

"Wel, dyma ni, bob coppa," ebe Phineas, gan daflu golwg ochelgar dros y clawdd i edrych am yr ymlidwyr, y rhai oeddynt yn dyfod ymlaen yn llawn dwndwr wrth droed y graig. "Daliant ni, os gallant. Pwy bynnag ddaw i fynu yma, rhaid iddynt ddyfod bob yn un, rhwng y ddwy graig yna, yn farc braf i'r pistol, welwch chwi, fechgyn?"

"Gwelaf," ebe George, "ac yn awr, sefwch chwi draw, gan mai ein busnes ni ydyw hyn, a gadewch yr ymladd i ni."

"Mae i ti groeso cael yr ymladd i ti dy hun, George," ebe Phineas, gan gnoi eirin perthi tra'r oedd yn siarad; ond mae'n debyg gen i y gadewi i minna gael y sport o edrych arnoch. Ond wel'di, mae'r gweilch yna yn y gwaelod yn siarad, ac yn edrych i fynu, fel ieir cyn hedeg i'r glwyd. Fydda ddim yn well i ti roi gair o gyngor iddynt, cyn iddyn nhw gychwyn, a dweyd, yn ffrindiol, y cânt eu saethu os dyfod a wnant?"

Erbyn hyn, yr oedd yn ddigon goleu i weled y teulu wrth droed y graig, a phwy oeddynt ond ein hen gydnabyddiaeth Twm Loker a Mark, a dau gwnstabl, ynghyda'r fath lebanod segur ag a ellid gael yn y dafarn, am ychydig frandi, i gymmeryd rhan yn y sport o ddal lot o niggers.

"Wel, Twm, mae dy lwynogod di wedi cael daear," ebe un o honynt.

"Ydyn; mi gwelas nhw 'n mynd i fynu ffordd yma," ebe Twm; "a dyma'r llwybyr. Mi af fi fynu rhag 'y mlaen. Ni fedran nhw ddim neidio i lawr ar frys, ac ni fyddwn ni ddim yn hir yn eu fferetio nhw allan."

"Cymmer ofal, Twm," ebe Mark, "mi allan saethu atton ni o'r tu ol i'r clogwyn; peth cas fyddai hynny, wyddost."

"Uch!" ebe Twm, yn drwynsur. "Yr wyt ti, Mark yn ofalus iawn am groen iach! Dim perygl! mae ar niggars ormod o ofn!"

"Ni welaf fi un rheswm pa'm na *ddylwn* i ofalu am groen iach," ebe Marks. "Dyma'r croen gore sy gen i. Ac y *mae* niggers fel yr hen fall, ambell waith."

Gyda hyn ymddangosodd George ar goppa'r graig uwch eu pennau, a chyfarchodd hwynt mewn llais clir ac arafaidd,

"Foneddigion, pwy ydych chwi i lawr yna, a pheth ydyw eich neges?"

"Dyfod ar ol niggers sydd wedi diangc yr ydym," ebe Twm Loker. "Un George Harris, Eliza Harris, a'u mab, a Jim Selden, a hen ddynes. Mae'r swyddogion gyda ni, a chanddynt warant i'w dal; ac mi daliwn nhw hefyd. Wyt ti'n clywed? Onid tydi ydi George Harris, sy'n perthyn i Mr. Harris, sir Shelby, yn Kentucky?"

"Myfi ydyw George Harris. Bu un Mr. Harris, yn Kentucky, yn fy ngalw yn eiddo iddo unwaith. Ond yr wyf heddyw yn ddyn rhydd, yn sefyll ar ddaear rydd Duw, ac yr wyf yn cleimio fy ngwraig a'm plentyn yn eiddo i mi. Mae Jim a'i fam yma. Mae gennym arfau i'n hamddiffyn ein hunain, ac yr ydym yn penderfynu gwneud hynny. Chwi allwch ddyfod i fynu, os ydych yn dewis; ond y cyntaf a ddaw o fewn cyrhaedd bwled, bydd yn ddyn marw, a'r nesaf, a'r nesaf, hyd yr olaf."

"O, pw-pw, dowch, dowch," ebe dyn bychan, tordyn, gan ddyfod yn mlaen, a chwythu ei drwyn, "langc ifangc, ni wiw i ti siarad fel yna. Swyddogion y gyfraith yden ni, wyddost. Mae'r gyfraith o'n tu ni, a'r awdurdodau, ac felly'n y blaen; gan hynny, gwell i ti roi fynu'n llonydd, wel'di, oherwydd rhoi fynu raid i ti yn diwedd."

"Mi wn yn burion fod y gyfraith wrth eich cefn, a'r gallu," ebe George, yn ofidus. "Yr ydych yn bwriadu cymmeryd fy ngwraig i New Orleans a'i gwerthu, a gosod fy machgen, fel llo, mewn cut masnachwr, ac anfon hen fam Jim at y blaidd a'i fflangellodd hi am na fedrai fflangellu ei mab. Mae arnoch eisio fy ngyrru i a Jim yn ol, i gael ein chwipio a'n poenydio, a'n malurio i'r ddaear dan draed y sawl a alwch yn feistriaid; ac y mae'r gyfraith yn rhoddi awdurdod i chwi wneud y pethau hyn—fel y mae mwya cywilydd i chwi a hwythau! Ond nid ydych wedi ein cael ni etto. Nid ydym yn cydnabod eich cyfreithiau; nid ydym yn honni eich gwlad; yr ydym yn sefyll yma dan awyr Duw mor ryddion a chwithau; ac yn penderfynu, trwy gymmorth y Duw a'n gwnaeth, yr ymladdwn hyd angau dros ein rhyddid."

Safodd George mewn llawn golwg, ar ben y clogwyn, pan wnaeth y declarasiwn yma o independiaeth; ac yr oedd awyr y bore yn ei wneud yn fochgoch, ac eiddigedd chwerw ei galon yn tanio ei lygad du; a chododd ei law i fynu tra'r oedd yn siarad, fel pe buasai yn gwneud appeliad oddi wrth ddyn at Dduw.

Pe buasai yn ddyn ifangc o Hungary, mewn bwlch mynyddig yn amddiffyn, gyda dewrder, ffoedigion i America, rhag dialedd Awstria, cyfrifasid ef yn arwr ardderchog a gogoneddus; ond gan mai bachgen o waed Affricanaidd oedd, yn amddiffyn ffoaduriaid trwy America i Canada, yr ydym, wrth reswm, wedi ein dysgu'n rhy dda mewn gwladgarwch i weled dim arwriaeth ynddo; ac os gwel un o'n darllenwyr ddim o'r fath beth, rhaid iddo wneud hynny ar ei gost ei hun. Pan ddiango ffoaduriaid o Hungary, er gwaetha gwarantau ac awdurdodau eu llywodraeth gyfreithlon, a glanio yn America, y mae'r wasg a'r cabinet politicaidd yn

crochfloeddio clod a chroeso. Pan wnelo Affricaniaid ar ddarfod am danynt yr un peth—mae—mae—beth *sydd?*"

Boed hynny fel ag y bo; mae'n sicr i agwedd, llygad, llais, a dull y llefarwr y tro hwn daro'r dorf oddi tanodd â mudandod. Mae rhywbeth mewn gwir wroldeb a phenderfyniad sydd yn dyhuddo'r natur fwyaf anwar, dros ychydig. Mark oedd yr unig un na chawsant un effaith arno. Parottôdd ei bistol yn ddigon hamddenol; ac ar ol i George ddistewi, efe a ollyngodd ergyd atto.

"Ni gawn yr un faint am dano yn farw ac yn fyw yn Kentucky, welwch chi," eb efe, gan sychu ei bistol yn ddigon didaro yn llawes ei gôt.

Neidiodd George yn ol—a gwaeddodd Eliza—aeth y fwled ar draws blew ei gernau, a chyffryrddodd yn brin â boch ei wraig, yna ymgladdodd yn y goeden o'r tu cefn.

"Nid yw ddim yn y byd, Eliza," ebe George, yn union.

"Mae'n well i ti gadw o'r golwg, hefo d'areithiau," ebe Phineas; "hen gachgwn baw ydyn nhw."

"'Rwan Jim," ebe George; "edrych am fod dy bistol yn barod, a gwylia'r bwlch yma gyda fi. Mi saethaf fi'r cyntaf ddaw i'r golwg; cymmer dithau'r ail, ac felly yn y blaen. Ni wneiff hi mo'r tro, wyddost, dreulio dau ergyd ar un dyn.

"Ond beth os na tharawi di fo?"

"Mi *fyddaf yn sicr* o'i daro," ebe George, yn hamddenol.

"Go lew, 'rwan, mae metel yn y gwalch yna," ebe Phineas, rhwng ei ddannedd.

Safodd y bobl oedd wrth waelod y graig am ennyd ar ol i Mark daniofel mewn amheuaeth.

"Yr ydw i 'n meddwl i ti daro un o honynt," ebe rhywun, "mi glywais i ysgrech."

"Dyma fi 'n un yn mynd i fynu," ebe Twm. "Ni fu arna i erioed ofn niggars, ac nid ydw i ddim yn mynd i ddechra 'rwan. Pwy ddaw?" eb efe, gan ddringo i fynu'r graig.

Clywodd George ef yn ddigon amlwg. Cododd ei bistol i fynu, gwelodd fod pob peth yn iawn, a chyfeiriodd ef at y pwynt lle deuai'r cyntaf i'r golwg.

Cychwynodd y gwrolaf o'r haid wrth sawdl Twm, ac ar ol dechreu fel hyn, aeth y cwbl tuag i fynu, yr olaf yn gwthio'r blaenaf braidd yn gynt nag yr aethent o'u bodd. Ymlaen a hwy; a gwelwyd corph mawr Twm yn fuan ar ymyl yr hollt.

Gollyngodd George ei ergyd—aeth y fwled i ochr Twm; ond, er ei glwyfo, ni throai yn ol, a chyda bloedd fel byguniad tarw gwyllt, rhoddodd naid dros yr agen tuag at y ffoaduriaid.

"Ffrind," ebe Phineas, gan ei gyfarfod ar y dibyn â gwth o'i freichiau hirion, "nid oes yma ddim o d'eisio di."

I lawr ag ef yn bendramwnwgl i'r gwagle rhwng y ddwy graig, gan

HELP LLAW GAN "FFRIND."

"'Ffrind,' ebe Phineas, gan ei gyfarfod ar y dibyn â gwth o'i freichiau hirion, 'nid oes yma ddim o d'eisio di!'"

ysgythru brigau'r coedydd, y llwyni, y prenau, a'r cerrig, hyd oni chyrhaeddodd y gwaelod, tua deg llath, yn friwedig, ac yn gwaeddi ei hochr hi. Buasai'n debyg iawn o gael ei ladd, oni bai i frigau'r goeden dorri ei godwm, ac i'r perthi lynu yn ei ddillad; er hynny i gyd cafodd godwm pur galed—caletach o lawer nag oedd bleserus nac yn gyfleus.

"Duw'n helpo ni! mae rhai'n yn gythreuliaid noethlymyn," ebe Mark, gan gychwyn yn ol yn llawer siongcach nâg y cychwynodd i fynu, a'r lluaws wrth ei sodlau yn llithro ac yn rholio,—y cwnstabl tordyn yn neillduol—yn chwythu ac yn chwyrnu yn echrydus.

"Ffwrdd a chi o gwmpas, mechgyn i, a chodwch Twm i fynu," ebe Mark, "tra bydda inna'n marchogaeth i geisio help,—dyna chi;" ac heb hidio mo'r chwerthin a'r gwatwar, bu Mark cystal ai air, ac i ffordd ag ef ar garlam wyllt.

"Wel, a fu 'rioed y fath gena' gwael?" ebe un o honynt. "Dwad a ni i'r fan yma ar ei fusnes ef, ac yna cymryd y goes a'n gadael ni fel yma!"

"Wel, rhaid codi'r creadur yna, beth bynnag," ebe un arall. "Myn cebyst, ni waeth gen i mor llawer p'run ai byw ai marw ydi fo."

Aeth y dynion trwy'r perthi, y drain a'r mieri, a thros glogwyni a phob math o ddyryswch i'r fan lle'r oedd Twm yn dolefain, yn tuchan, ac yn tyngu bob yn ail.

"'Rwyt ti 'n dal atti hi'n o ddygyn, Twm," ebe un o'r dynion, "frifist ti 'n arw?"

"Wn i ddim. Codwch fi, newch chi. Yn boeth y bo'r hen Gwaeer uffernol yna! Oni basa fo, mi dawlswn i rai o honyn nhw i lawr yma i edrych sut y basan nhw'n leicio."

Ar ol llawer o ffwdan a thuchan, gosodwyd y campwr syrthiedig ar ei draed, a thrwy fod un dan y gesshil yma a'r llall dan y gessail arall, dygwyd ef at y fan lle'r oedd y ceffylau.

"Pe gallech chi fynd a fi tua milltir yn ol, i'r dafarn yna ar ochor y ffordd. Rhowch hancas neu rwbeth yn twll yna, i stoppio'r gwaedu 'ffernol yma."

Edrychodd George heibio i'r clogwyn, a gwelodd hwynt yn ceisio codi corphyn mawr amrosgo Twm i'r cyfrwy. Ar ol treio yn aflwyddiannus ddywaith neu dair, efe a drodd ac a syrthiodd yn glwt ar lawr.

"O, gobeithio nad ydi ddim wedi ladd!" eb Eliza, yr hon oedd gyda'r lleill yn edrych arno.

"P'am?" ebe Phineas. "Dim ond mae 'n haeddu."

"Oherwydd wedi angau bydd barn," eb Eliza.

"O, ïe," ebe'r hen wraig, yr hon fuasai'n ochain ac yn gweddio yn null y tŷ cwrdd, trwy gydol yr amser; "matter sobor iawn i enaid y creadur."

"Dacew nhw yn ei adael, fel yr ydw i'n fyw yn y fan yma," ebe Phineas.

Ac felly'r oeddynt; oherwydd ar ol rhyw fwmmian ychydig eiriau,

aethant ymaith ar eu meirch bob pen o honynt. Pan aethant o'r golwg, dechreuodd Phineas ymbarottoi.

"Wel, rhaid i ni fynd i lawr, a cherdded tippyn," eb efe. "Mi ddeudas i wrth Michael am fynd yn ei flaen, a cheisio help i ni, a dwad a'r wagen yn ol gyd ag e; ond mae'n debyg y rhaid i ni gerdded peth o'r ffordd i'w gyfarfod. Ond Duw 'nel y daw yn fuan! Mae hi'n fore etto, ac ni bydd fawr neb o gwmpas ar draed am dippyn; tua dwy filltir sy genon ni i fynd. Pebasa'r ffordd heb fod mor dalpiog neithiwr, ni ddaethen nhw ddim o hyd i ni."

Ac wrth iddynt nesu at y clawdd, hwy a welent y wagen yn dyfod ar hyd y ffordd oddi yma draw, a phobl ar geffylau gyda hi. Wel, daccw Michael, a Stephen, ac Amariah," ebe Phineas, wrth fodd ei galon; "ni gnawn hi rwan, mor sicred a phe baem ni yno."

"Wel, arhoswch, ynte," eb Eliza, "a gwnewch rywbeth i'r dyn yna, druan; mae'n cwyno'n arswydus."

"Ni fyddai ddim ond Cristionogol ynom," ebe George; "gadewch i ni ei godi, a mynd ag ef gyda ni."

"A'i ddoctora i fynu ymysg y Cwaceriaid!" ebe Phineas; "mi fyddai hynny yn dalu'r echwyn adref! Wel, ni waeth gen i. Gadewch i ni gael golwg arno;" a phenliniodd Phineas yn ei ymyl, i gael deall natur a maint ei glwyf; oherwydd gwyddai Phineas rywfaint am friwiau, er yr amser y buasai yn heliwr.

"Mark," ebe Twm, yn wanaidd; "ai ti sy 'na, Mark?"

"Na, mi 'ddyliwn 'nate, ffrind," ebe Phineas, "Llawer mae Mark yn hidio am dy groen di, tra bo fo'n groeniach ei hun. Mae off er's meityn."

"Yr ydw i'n meddwl mod i wedi ngorphen," ebe Twm. "Y cena gwael sneclyd, yn ngadal i farw fel yma fy hunan. Llawer ddeudodd fy hen fam mai dyma fel fydda hi."

"Wel, 'rwan, glywch chi'r creadur gwirion! Druan oedd o, mae gentho fam hefyd," ebe'r hen negroes. "Fedra i ddim help teimlo drosto fo, welpedai."

"Yn ara' bach, cymmer amynedd! paid ti a whippio a snappio fel yna'r hen ffrind," ebe Phineas, pan oedd Twm yn gwingo ac yn gwthio ei law ef ymaith. "Nid oes gent ti 'run siawns, os na stoppia i'r gwaedu yma." A phrysurodd Phineas gyda'i ddoctora, a rhwymo ei hancas, ynghyda phethau eraill o fewn cyrhaedd, ar y briw.

"Tydi ngwthiodd i lawr," ebe Twm, drwyddo ei hun.

"Wel, pe na neuthwn i, mi fasat ti yn ein gwthio ni i lawr, wel'di," ebe Phineas, wrth blygu i gylymu'r rhwymyn. "Dyna, dyna, gad i mi osod y rhwymyn yma. Yr ydan ni yn 'wyllysio'n dda i ti, ac nid oes ynom ddim malais. Mi awn a thi i dŷ lle cei di dy dendio yn iawn—cystal a g'nai dy fam bob mymryn."

Tuchanodd Twm a chauodd ei lygaid. Mewn dynion o'r fath yma, peth corphorol hollol ydyw grym a phenderfyniad, ac y maent yn llifo allan gyda'r gwaed; yr oedd golwg druenus ar y cawr yn ei gwymp.

Yr oedd y lleill wedi dyfod i fynu erbyn hyn. Tynnwyd y meingeiau allan o'r wagen, a thaenwyd crwyn buffalo, wedi eu dyblu i fynu, ar y gwaelod, a llwyddodd pedwar o ddynion, trwy lawer o boen, i godi Twm iddi. Cyn ei ddodi i mewn, syrthiodd mewn llewygfa farw gelain. Eisteddodd yr hen negroes ar waelod y wagen, a dododd ei ben yn esmwyth ar ei glin; ac aeth Eliza, George, a Jim, i'r lle oedd yn wag, yna ymaith a hwynt.

"Beth ydych yn feddwl o hono?" ebe George, yr hwn a eisteddai yn ymyl Phineas yn y pen blaen.

"Wel, dim ond twll go ddwfn yn ei gnawd e; ond ni wnaeth y codwm ar draws y coed a'r cerrig yna ddim lles iddo fe. Mae wedi gwaedu cryn lawer; wedi garthu allan, y brol a'r cwbwl; ond mi ddaw drosti, ac fe allai dysg e wers neu ddwy yn y tro."

"Mae'n dda gennyf glywed hynny," ebe George. "F'asai'n boen mawr ar fy meddwl i, pe buaswn wedi cymmeryd bywyd cyd-greadur, hyd yn nod mewn achos cyfiawn."

"Ie," ebe Phineas, "rhywbeth hyll ydyw'r lladd yma, ffiesiwch o fel y fynnoch chi,—dyn neu anifail. Mi fu'm i'n heliwr mawr yn fy nydd, ac mi welis garw, ar ol cael ei saethu, a bron marw, yn troi 'lygad ar ddyn mewn ffordd ag oedd yn peri i un feddwl nad oedd ddim yn iawn ei ladd; ond y mae bywyd dyn yn llawer mwy o bwys, oherwydd, fel deudodd dy wraig di, mae barn ar ol hynny. Felly, digon prin yr ydw i'n meddwl fod golygiadau'n pobl ni yn myn'd yn rhy bell ar y matter; ac ystyried pa sut y ces i fy magu, mi syrthias i mewn â nhw yn lled rwydd."

"Beth wnawn ni â'r creadur gwirion?" ebe George.

"O, ni awn ag ef i dŷ Amariah. Dyna'r hen Nain Stephens—Dorcas y maent yn ei galw—mae hi'n nyrs heb ei bath. Mae'n dyfod yn naturiol iddi, ac ni bydd hi byth wrth ei bodd os na bydd yn tendio rhywun sâl. Mae'n debyg y rhaid i ni ei roddi dan ei gofal hi am un pythefnos.

Ar ol marchogaeth tuag awr, daethant at dŷ ffarm taclus, lle cafodd y creaduriaid blinedig foreubryd cysurus. Dodwyd Twm Loker yn fuan mewn gwely llawer glanach nag y buasai ynddo er's amser maith. Glanhawyd ei friw yn ofalus, a rhwymwyd ef; a thyna lle gorweddai, fel plentyn blinedig, gan agor ei lygad, yn awr ac yn y man, ar y curtansiau gwynion, a rhywun yn myned yn ol ac ymlaen yn ddistaw ar hyd ei ystafell. Ac yma ni a gymmerwn gennad â rhai o'n cyfeillion, dros dymhor.

PENNOD XVIII.

PROFIAD AC OPINIYNAU MISS OPHELIA.

Byddai ein ffrind Twm, yn ei ffordd ddiniwed ei hun, yn cydmaru ei fywyd esmwyth yn ei gaethiwed, i Joseph yn yr Aipht; ac, yn wir, fel yr oedd amser yn treiglo, ac yntau yn dyfod yn fwy adnabyddus i'w feistr, yr aedd y gydmariaeth yn hytrach yn cynnyddu.

Yr oedd St. Clare yn ddioglyd ac yn wastraffus o'i arian. Hyd yma ymddiriedid y darpariaeth tuag at y tŷ a'r marchnatta i Adolph, yn bennaf, yr hwn oedd yn llawn mor ddiofal a difethgar a'i feistr; a rhwng y ddau, yr oeddynt wedi gwneud llawer iawn yn y gorchwyl o wasgaru. Twm, yr hwn am lawer o flynyddoedd a ystyriai eiddo ei feistr mor deilwng o'i ofal a phe buasai yn perthyn iddo ei hun, a welai, gyda gofid, yr afradlondeb yn y tŷ; ac weithiau, yn araf ac anghyfeiriol, anturiai, yn ffordd gynhenid ei bobl, roddi gair o gyngor.

Yn y dechreu ni roddai St. Clare ef ar waith ond yn achlysurol; eithr wedi syllu ar gryfder ei feddwl a'i gymhwysder at fusnes, ymddiriedodd ynddo fwyfwy, nes o'r diwedd y gosodwyd yr holl farchnatta a'r darparu i'r teulu o dan ei law ef.

"Nage, nage, Adolph," eb efe un diwrnod, fel yr oedd Adolph yn grwgnach fod yr awdurdod yn myned o'i law ef; "gad lonydd i Twm. Nid wyt ti'n deall ond am y peth sydd arnat ei eisiau—y mae Twm yn deall costau a moddion hefyd; hwyrach y daw diwedd ar arian, yn y man, os na adawn i rywun wneud hynny."

Yr oedd gan Twm, trwy ymddiried iddo bobpeth gan feistr diofal, yr hwn a dderbyniai y bil heb edrych arno, ac a roddai yr arian yn ei bocced heb eu cyfrif, bob cyfleusdra a themtasiwn i fod yn anonest; ac ni allasai dim ond diniweidrwydd naturiol ansigledig, wedi ei gyfnerthu gan ffydd Gristionogol, ei gadw yn ddidwyll. Ond yr oedd yr hyder annherfynol a roddid ynddo yn rhwymyn ac yn sêl i'r anian honno, i gwblhau pobpeth yn y modd cywiraf a manylaf.

Ond yr oedd y matter beth yn wahanol gydag Adolph. Yn ddifeddwl ac yn hoff o hunan-fwynhad, a chanddo feistr yr hwn yn lle ei ffrwyno a ddewisai esmwythyd yn hytrach nac iawn-drefnu, efe a syrthiasai i ddyryswch hollol ynghylch yr *eiddof fi* a'r *eiddot tithau* rhyngddo ef a'i feistr, yr hyn rai prydiau a drallodai St. Clare ei hun. Yr oedd ei synwyr yn dywedyd wrtho fod dwyn i fynu ei weinidogion fel hynny yn annheg ac yn beryglus. Yr oedd rhywfath o edifeirwch parhaol yn cyd-fyned âg ef yn mhobman, etto nid yn ddigon cryf i achosi unrhyw gyfnewidiad yn ei ymddygiad; a'r edifeirwch yma drachefn a wrthweithiodd i ymfoddhad. Edrychai yn ysgafn dros y beiau mwyaf,

oherwydd dywedai wrtho ei hun, pe gwnelsai ei ddyledswydd, na syrthiaasi ei weision iddynt.

Edrychai Twm ar ei feistr ifangc, llonwych, hardd, gyda rhyw gymmysgedd hynod o ffyddlondeb, parch, a gofal tadol. Nad oedd byth yn darllen y Bibl; byth yn myned i'r eglwys; ei fod yn cellwair ac yn gwneud yn hyf â phobpeth a ddeuai ar lwybr ei ffraethineb; ei fod yn treulio ei nosweithiau Sul yn y chwareudy; ac yn myned i gwmpeini yfwyr gwin, i glybiau, a swpperau yn fynychach nac oedd angenrheidiol —oeddynt oll yn bethau a welai Twm mor eglur ag undyn, ac ar ba rai y sylfaenai ei farn, "nad oedd mas'r yn Gristion;" er hynny yr oedd hon yn farn na chymmerasai lawer am ei chrybwyll wrth neb arall, ond seiliodd arni lawer gweddi daer, ar ei ben ei hun, yn ei ystafell fechan. Nid am nad oedd gan Twm ei ffordd o ddywedyd ei feddwl weithiau, gyda'r medrusrwydd a ganfyddir yn fynych yn ei frodyr duon; er enghraifft, y dydd cyntaf ar ol y Sabboth a grybwyllwyd, gwahoddwyd St. Clare i gwmpeini llawen o gymdeithion deniadol, a dygwyd ef adref, rhwng un a dau yn y bore, mewn cyflwr a ddangosai yn eglur fod y mwyniant corphorol wedi cael y llaw uchaf ar y deall. Rhoddodd Twm ac Adolph ef i orphwys dros y nos, yr olaf yn llawn ysbryd, ac yn edrych ar y matter fel sport brâf, ac yn chwerthin yn iawn am ben arswyd gwirion Twm, yr hwn oedd mor ffol ag aros yn effro agos drwy'r nos, i weddïo dros ei feistr ienangc.

"Wel Twm, am beth yr wyt yn disgwyl?" ebe St. Clare drannoeth, fel yr oedd yn eistedd yn y llyfrgell, yn ei foreu-wisg a'i slippers. Yr oedd St. Clare newydd ymddiried swm o arian i Twn, ynghyd ag amryw negesau. Wrth weled Twm yn parhau i ddisgwyl, ychwanegodd, "A oes rhywbeth o'i le, Twm?"

"Mae arna' i ofn fod," ebe Twm, gyda gwyneb sobr.

Rhoddodd St. Clare ei bapyr newydd ai gwppan coffi i lawr, a syllodd ar Twm.

"Paham, Twm, beth ydi'r matter? Yr wyt yn edrych mor bruddaidd ag arch."

"Yr ydw' i'n teimlo 'n dost iawn, mas'r. Yr oeddwn i'n meddwl bob amser y bryddai mas'r yn dda wrth bawb."

"Wel, Twm, oni fu'm? Tyred, 'rwan, beth sydd arnat ti eisiau? Y mae rhywbeth yn ol, mae'n debyg, a'r rhagymadrodd yw hwn."

"Mae mas'r wedi bod yn dda wrtha i bob amser. 'Does gen i ddim i gwyno ar y pen yna. Ond y mae un nad ydi mas'r ddim yn dda wrtho."

"Beth ddrwg wyt ti wedi gymmeryd yn dy ben, Twm? Allan â hi; beth ydwyt ti 'yn ei feddwl?"

"Trawodd hynny yn 'y mhen i neithiwr, rhwng un a dau o'r gloch. Mi ddaru mi studio ar y peth. 'Dydi mas'r ddim yn dda *wrtho ef ei hun*."

Dywedodd Twm hyn â'i gefn at ei feistr, a'i law ar gliccied y drws. Teimlodd St. Clare fod ei wyneb yn gwrido fel y scarlet, ond chwarddodd.

"Oh, dyna'r cwbl aïe?" eb efe, yn ysgafn.

"Dyna'r cwbl," ebe Twm, gan droi o amgylch yn sydyn a chwympo ar ei ddeulin. "O, fy mas'r ifange anwyl! Mae arna' i ofn mai *coll'r cwbwl* fydd hynny—*y cwbwl*—gorph ac enaid. Y mae'r Llyfr da yn dweyd, y brath fel y sarph, ac y piga fel neidr, fy mas'r anwyl!"

Tagodd llais Twm, a threiglodd y dagrau i lawr ei ruddiau.

"O, y ffwl gwirion!" ebe St. Clare, â'r dagrau yn llenwi ei lygaid ei hun. "Cyfod i fynu, Twm. Nid wyf fi yn werth wylo drostof."

Ond ni chyfodai Twm, ac edrychai yn erfyniol.

"Wel, Twm, ni fynnaf fi byth mwy ddim i'w wneud â'u gwagedd melldigedig, ar fy ngair, Twm, ni fynnaf. Ni wn i ar y ddaear pa sut na buaswn wedi peidio er ys talm. Yr wyf bob amser yn ffieiddio'r fath beth, ac yn fy ffieiddio fy hun hefyd. Felly 'nawr, Twm, sych dy lygaid, a dos o gwmpas dy negesau. Tyr'd, tyr'd," eb efe drachefn, "dim chwaneg o fendithion. Nid ydwyf fi ddim mor ryfeddol o dda, ar ol y cwbl," eb efe, gan wthio Twm yn dyner tua'r drws. "Dyna i ti, Twm, mi roddaf fy ngair yn wystl na weli di byth mo honof fi fel hynny etto;" ac aeth Twm ymaith yn foddlon iawn, dan sychu ei lygaid.

"Mi gadwaf fy ngair âg ef hefyd," ebe St. Clare, wrth gau y drws.

A gwnaeth St. Clare felly; canys nid oedd pechodau gwrthun, mewn unrhyw ddull, yn demtasiwn neillduol i'w natur ef.

Ond, yn ystod yr holl amser hwn, pwy a all adrodd amrywiol drafferthion ein ffrind Ophelia, yr hon a ddechreuasai ar ei llafur o gadw tŷ yn y dehau.

Y mae'r gwahaniaeth mwyaf yn y byd rhwng gweinidogion sefydliadau yn y dehau, yn ol cymmeriad neu gymhwysder y meistresi a'u dygant i fynu.

Mae yn y dehau, yn gystal ag yn y gogledd, ferched yn meddu doniau anghyffredin i lywodraethu, a medrusrwydd i addysgu. Y mae'r cyfryw yn darostwng i'w hewyllys, ac yn dwyn i drefn gyson, y gwahanol aelodau o'u hetifediaeth fechan, ac felly'n cyd-bwyso ac uniawnu diffygion y naill trwy ormodedd y llall, nes dwyn allan gyfundrefn gyson a rheolaidd.

Teuluyddes o'r fath ydoedd Mrs. Shelby, yr hon a ddesgrifiasom eisoes; ac fe allai fod ein darllenwyr yn cofio mai y cyfryw y cawsant hwy hi. Os nad ydynt yn aml yn y dehau, yr achos ydyw am nad ydynt yn aml yn y byd. Y maent i'w cael yno mor fynych ag yn unman; a phan yn bod, y maent, yn y cyflwr neillduol hwnnw o gymdeithas, yn cael cyfleusdra rhagorol i ddangos allan eu doniau teuluaidd.

Nid y fath deuluyddes a honyna ydoedd Marie St. Clare, na'i mam o'i blaen. Yn ddiog ac yn blentynaidd, yn ddidrefn ac annarbodus, nis gellid disgwyl na byddai i weinidogion a ddygid i fynu o dan ei gofal hi fod felly hefyd; a desgrifiasai i Miss Ophelia yn dra chywir y fath gyflwr o derfysg y ca'i hi y teulu ynddo, er nad oedd wedi ei gyfrif i'r achos priodol.

Y bore cyntaf o'i rhaglawiaeth, cododd Miss Ophelia am bedwar o'r

gloch; ac wedi gosod ei shamber ei hun mewn trefn, fel yr arferai wneud bob amser, er mawr syndod i forwyn yr ystafelloedd, cymmerodd yr agoriadau yn ei llaw, a pharottôdd i ymosod yn ffyrnig ar yr holl gyppyrddau a'r mân gelloedd yn y tŷ.

Aeth ystorfa yr ymborth, cyppyrddau y lliain, a chell y llestri tshina, y gegin, a'r seler, i gyd o dan adolygiad arswydus y diwrnod hwnnw. Daeth cynnifer o bethau cuddiedig i'r amlwg ag a ddychrynasant y tywysogaethau a'r awdurdodau yn y gegin a'r llofftydd, a pharodd lawer iawn o ryfeddu a grwgnach ynghylch " y ladis yma o'r gogledd."

Yr hen Ddinah, y ben-gogyddes, yr hon oedd yn rheoli ac yn awdurdodi dros bopbeth yn y gegin, a lanwyd â digofaint oherwydd yr hyn a ystyriai yn drais ar ei rhagorfreintiau. Ni allasai un barwn yn amser y Magna Charta wrthwynebu yn fwy egonol unrhyw ormesiad gan y Goron.

Yr oedd Dinah yn ddynes o hynodrwydd yn ei ffordd ei hun, a byddai yn anghyfiawnder i'w choffadwriaeth beidio rhoddi i'r darllenydd ryw ddychymyg am dani. Yr oedd yn gogyddes o'i mebyd, yn gystal a Modryb Cloe—ac y mae trin bwyd yn ddawn naturiol yn perthyn i hiliogaeth Affrica; ond yr oedd Modryb Cloe wedi cael ei hyfforddi yn iawn, ac yn gweithio mewn tresi teuluaidd rheolaidd; pan, ar yr un pryd hunan-addysgol oedd Dinah, ac fel pobl athrylithgar yn gyffredinol, yr oedd yn bendant, yn hunan-dybiol, ac yn anwadal i'r eithaf.

Fel rhai philosophyddion diweddar, yr oedd Dinah yn diystyru pob dadleuaeth a rhesymu; ac yn cymmeryd noddfa yn ei pherffaith sicrwydd ei hun; ac yma yr oedd yn hollol anorchfygol. Nis gallai unrhyw faint o ddoniau, o awdurdod, neu eglurhad, byth wnued iddi hi gredu fod un ffordd arall yn well na'i ffordd ei hun, neu newid yn y mymryn lleiaf y drefn a ddilynai hi. Goddefid hyn iddi gan ei hen feistres, mam Marie; a chafodd " Miss Marie," fel y galwai ei meistres ifangc, hyd yn oed ar ol ei phriodas, fod yn haws ymostwng nac ymryson; felly gadewid i Dinah y brif-lywodraeth. Ac yr oedd hyn yn esmwythach, oherwydd ei bod yn feistres hollol yn y gelfyddyd o uno eithaf ufudd-dod mewn agwedd gyd ag eithaf anystwythder mewn gweithred.

Yr oedd Dinah yn feistres yn yr holl gelfyddyd o ymesgusodi, yn ei holl ganghenau. Yn wir, yr oedd yn ddihareb ganddi hi, na allai cogyddes wneud dim allan o le; ac y mae cogyddes mewn cegin yn y dehau yn cael digon o bennau ac ysgwyddau i daflu arnynt y baich o bob trosedd a ffaeledd, fel ag i ddal fynu ei phurdeb ei hun yn ddifrycheulyd. Os oedd bai ar unrhyw ran o'r ciniaw, yr oedd hanner cant o resymau da a diddadl am hynny; a bai anwadadwy hanner cant o bobl eraill ydoedd, y rhai a ddwrdid gan Dinah yn ddiarbed.

Ond anaml iawn y methai Dinah yn y diwedd. Er fod ei ffordd o wneuthur pobpeth yn hynod o ddolenog a chwmpasog, ac heb un math o gyfrif ynghylch nac amser na lle,—er fod ei chegin wedi ei threfnu fel pe buasai gorwynt wedi rhuthro drwyddi, a chynnifer o leoedd i bob peth

ag sydd o ddyddiau yn y flwyddyn, etto os byddai gan ddyn amynedd i aros wrth ei hamser hi, deuai y ciniaw i fynu yn berffaith drefnus, ac wedi ei arlwyo mewn modd na chawsai'r dyn moethusaf le i feio.

Yn awr yr oedd yn bryd dechreu parottoi ciniaw. Yr oedd Dinah, yr hon a ofynnai lawer iawn o hamdden i ragfyfyrio a gorphwys, ac yn fanwl am gael llonyddwch i wneud ei holl drefniadau, yn eistedd yn ei chrwcwd ar lawr y gegin, yn smoccio cettyn o bibell, o'r hon yr oedd yn hynod o hoff, a'r hon a oleuai fel math o thuser i'w hysbrydoli yn ei gorchwylion.

Yn eistedd o'i hamgylch gwelid amrywiol ganghenau o'r genedl ieuangc, o ba rai y mae digonedd yn mhob teulu yn y dehau, ar y gwaith o blisgio pys, pilio pyttatws, pigo'r mân-blu o'r cywion ieir, a pharottoadau eraill, a Dinah yn awr ac yn y man yn rhoi pwniad i'r gweithwyr ieuangc, neu gnoc ar eu pennau, â'r uwd-ffon oedd wrth ei hochr. Mewn gwirionedd, yr oedd Dinah yn llywodraethu dros y pennau crychion ieuangc â gwialen haiarn, ac yn ystyried nad oeddynt wedi eu geni i ddim pwrpas yn y byd ond i "arbed ei thraed hi," hi, fel y dywedai. Ysbryd y gyfundrefn o dan yr hon y dygwyd hi i fynu ydoedd, a chariodd hithau hi ymlaen i'r eithaf.

Ar ol i Miss Ophelia fyned trwy holl barthau eraill y sefydliad ar ei chylch-daith ddiwygiol, hi aeth i mewn i'r gegin. Clywsai Dinah pa beth oedd yn myned ymlaen, a phenderfynasai sefyll ar y tir ymddiffynol a chadwriaethol, a gwnaeth ei meddwl i fynu i wrthwynebu â'i holl egni bob trefn newydd, heb ymddangos trwy weithrediad ei bod yn gwneuthur unrhyw ymdrech.

Ystafell fawr, â llawr o bridd-feini, ydoedd y gegin, ac ynddi aelwyd a gratiau mawrion yn cyrhaedd ar hyd un ochr iddi, trefniad a geisiodd St. Clare yn ofer gan Dinah ei gyfnewid am offerynau newyddion mwy cyfleus. Na wnai hi. Ni welwyd na Phuseyad na Chonserfiad erioed yn glynu yn fwy ystyfnig wrth hen bethau anghyfleus na Dinah.

Pan ddychwelodd St. Clare o'r gogledd y tro cyntaf, â threfniadau cyfleus cegin ei ewythr yn argraphedig ar ei feddwl, gwnaeth ddarpariad helaeth yn ei gegin ei hun, o gyppyrddau, drors, a phethau angenrheidiol eraill, gan ddychymygu y byddent o ryw gynnorthwy i Dinah yn ei harlwyaeth. Ni fuasai waeth iddo eu darparu i wiwer neu biogen. Po mwyaf o drors a chelloedd oedd yno, mwya'n y byd oedd o dyllau i Dinah guddio'r hen garpiau, cribau gwallt, hen esgidiau, blodau gwneuthur, a chelfi gwerthfawr eraill a droisid heibio, ond yn y rhai yr ymhyfrydai ei henaid.

Pan ddaeth Miss Ophelia i mewn i'r gegin, ni chododd Dinah ar ei gwadnau, ond parhaodd i smoccio mewn tawelwch ardderchog, gan edrych ar ei symmudiadau gyda chil ei llygad, a chymmeryd arni nad oedd yn sylwi ar ddim ond y gwaith oedd yn myned ymlaen o'i hamgylch.

Dechreuodd Miss Ophelia agor cist o drors.

"I ba beth y mae'r drôr yma dda, Dinah?" ebe hi.

" Y mae'n handi i bob peth, agos, missis," ebe Dinah. Felly y gwelid. O'r amrywiaeth oedd ynddi, yn gyntaf tynnodd Miss Ophelia allan lian bwrdd o ddamasc main, â gwaed arno, yr hwn a edrychai fel wedi bod o amgylch darn o gig ammrwd.

" Beth yw hwn, Dinah? Nid wyt ti ddim yn rhoi cig yn lliciniau-bwrdd goreu dy feistres?"

" O dyn, missis, nac ydw'; yr oedd y tyweli i gyd ar goll—felly ddaru mi dest ei iwsio fo. Yr oeddwn ar feder ei olchi—dyna'r peth y rhois i ef yn y fan yna."

" Diymadferth!" ebe Miss Ophelia wrthi ei hun, gan fyned ymlaen i chwalu yn y drôr, lle y cafodd gratur nutmeg a dwy nutmeg neu dair, llyfr hymnau y Methodistiaid, dwy o hancetsi sidan budron, rhyw edafedd a gwaith gweu, papyraid o dobacco a phibell, ychydig o graccers, un neu ddwy o soseri tshina wedi eu goreuro, â phomatwm ynddynt, un neu ddwy o hen esgidiau teneuon, clwt o wlanen wedi ei binio'n ofalus, â wynwyn gwynion bychain ynddo, amryw napcynau-bwrdd o ddamasc, rhai lliein-iau breision, darnau o linyn a nodwyddau hosanau, ac amryw bapyrau â thyllau ynddynt, allan o'r rhai yr oedd amryw bêr-lysiau wedi colli ar hyd y drôr.

" Yn mh'le 'r wyt ti'n cadw dy nutmeg, Dinah?" ebe Miss Ophelia, gyd agwedd un yn gweddïo am amynedd.

" Agos ymhob man, missis; mae rhai yn y gwppan dê yna sy wedi craccio, i fynu yn y fan accw, ac y mae rhai yn y cwppwrdd accw."

" Mae rhai yn y gratur," ebe Miss Ophelia, gan eu dal i fynu.

" O dyn, oes, mi rhois i nhw yna y bore heddyw—yr ydw' i'n leicio cadw mhetha wrth law," ebe Dinah. " Jake, beth 'rwyt ti'n sefyll? Mi cei di hi! Bydd yn llonydd yna!" ebe hi, gan roddi pwniad iddo â'r rholbren.

" Beth ydyw hwn?" ebe Miss Ophelia, gan ddal i fynu y soser a'r pomatwm.

" O dyn, fy saim gwallt i ydyw; mi rhois ef yna i fod yn handi."

" Ydwyt ti'n defnyddio llestri goreu dy feistr fel hyn?"

" Dyn anwyl! ar frys garw'r oeddwn; yr oeddwn am ei gymmeryd allan heddyw."

" Dyma ddau napcyn bwrdd, o ddamasc."

" Yr oeddwn wedi rhoi rheina heibio, i gael eu golchi, ryw ddiwrnod."

" Ai nid oes gennych ryw le o bwrpas i roddi pethau heibio i'w golchi?"

" Wel, mi ddoeth Mas'r Clare â'r gist yna i hynny, meddai e,; ond mi fydda i'n leicio cymmysgu'r biscedi a gosod fy mhethau arni weithiau, ac yna nid ydi'n hawdd codi'r cauad."

" Ond paham na wnei di gymmysgu dy fiscedi ar y bwrdd pasteiod accw?"

" O dyn, missis, y mae'n mynd mor llawn o ddysgla, a'r naill beth a'r llall, na chawn i yn y myw ddim lle arno."

" Ond ti ddylit *olchi* dy ddysglau, a'u rhoi yn eu lle?"

" Golchi fy nysgla!" ebe Dinah, mewn tôn uchel, fel yr oedd ei digofaint yn torri dros ben ei hymddygiad gostyngedig arferol, " beth ŵyr ladis am waith, 'sgwn i? Pa bryd cai mas'r ei ginio pe bawn i'n treulio f'amser yn golchi a rhoi heibio'r dysgla? Ni ddeudodd Miss Marie 'rioed y fath beth wrtha' i."

" Wel, dyma'r wynwyn yma."

" Dyn anwyl, ïa!" ebe Dinah; " dyna'r lle y rhois i nhw, gest 'rwan. Ollyngais i'n angho'. Wynwyn neillduol ydi 'rheina, oeddwn i'n gadw i'w rhoi yn y stiw yma; anghofiais eu bod yn yr hen wlanen yna."

Tynnodd Miss Ophelia allan y papyr rhydd a'r llysiau peraidd. Leiciwn i missis beidio twtshed y rheina. Mi fyddaf fi'n cadw 'mhetha lle y gwn ymhle i'w cael," ebe Dinah, yn lled benderfynol.

" Ond nid oes dim angen am y tyllau yma yn y papyrau."

" Mae rheina'n handi iawn i'w tynnu nhw allan," ebe Dinah.

" Ond, weli di, y mae'r ewbl yn colli ar hyd y drôr."

" O'r anwyl, ydynt! os eiff missis i droi a throsi petha fel yna, fyddan yn shwr o neud. Mae missis wedi colli llawer," ebe Dinah, gan nesâu yn araf at y drors. " Os gwneiff hi ond mynd i fynu'r grisia tan ddaw amser clirio, mi fynna' i bobpeth yn iawn; ond ni fedra' i neud dim yn y byd tra bo ladis o 'nghwmpas yn fy rhwystro. Sam, paid ti a rhoi'r fowlan siwgr yna i'r baban! Mi gei di gnoc os na 'drychi di atti hi!"

" Yr ydwyf fi'n myn'd trwy'r gegin i roi pobpeth mewn trefn, *am unwaith*, Dinah; ac yr ydwyf fi'n disgwyl i ti eu *cadw* felly."

" Gwarchod ni, miss Philia! 'Dydi hona ddim yn ffordd iawn i ladis. Ni welesi ddim ladis crioed yn gneud y fath beth; ni 'naeth fy hen fissis na Miss Marie 'rioed felly, ac ni wela' i un math o angen am dano." A rhodiodd Dinah yn ol ac ymlaen yn bensyth ac yn ddigllon, tra'r oedd Miss Ophelia'n gosod y dysglau, yn tywallt dwsingau o fowliau siwgwr i'r un llestr, yn pigo allan y napcynau, y llieiniau bwrdd, a'r tyweli, i'w golchi. Glanhaodd, sychodd, a threfnodd bethau gyda'r fath fedrusrwydd a chyflymder ag a barodd berffaith syndod i Dinah.

" Gwarchod ni! os fel yna y mae ladis yn y gogledd yn gneud, 'dydyn nhw ond rhyw ladis digrif iawn," ebe hi wrth rai o'i gosgordd-lu o'i hamgylch, pan yn ddigon pell o'r clyw. " Mae petha mor wastad gen i ag undyn, pan ddel f'amser i glirio; ond 'does arna' i ddim eisio ladis o'm cwmpas, i'm rhwystro a rhoi petha mewn llefydd na cheir byth hyd iddyn nhw."

Chware têg i Dinah, tarewid hi weithiau â rhyw gylch-iâs o ddiwygio a threfnu, yr hyn a alwai hi yn " amser clirio," a dechreuai arni hi'n wresog, gan droi pob cell, drôr, a chist y tu gwrthwyneb allan, ar y llawr neu'r byrddau, a gwneid yr annhrefn yn saith gwaeth.

Yna golcuai ei phibell, ac, wrth ei phwys, dosbarthai ac edrychai dros ei thaclau, a siaradai am danynt; gan wneud i'r mân-gattel ysgwrio y tiniau â'u holl egni; a chedwid dwndwr anghyffredin am oriau, yr hyn a esponiai, i foddloni yr ymofynydd, gyda'r sylwad mai " clirio" yr ydoedd.

Ni fynnai hi "i bethau fynd ymlaen fel y buont," ac yr oedd hi "am gadw gwell trefn;" canys yr oedd Dinah rywsut dan yr hudoliaeth ei bod hi ei hun yn enaid pob trefnusrwydd, ac mai "y plant bach," a phawb arall yn tŷ, oedd yr achos o bob amherffeithrwydd yn hyn. Wedi i'r tiniau gael eu scwrio, a'r byrddau gael eu scrybio yn glaerwynion, a phobpeth oedd yn dramgwydd i'r llygad gael eu stwffio i dyllau a chornelau, ymwisgai Dinah mewn dillad trefnus, arffedog lân, a thwrben uchel, gwych, am ei phen, a gorchymynai i'r holl "blant bach" traws-ymwthiol gadw allan o'r gegin, oherwydd ei bod hi am gadw pethau'n daclus. Yn wir, yr oedd y tymhorau cylchol hyn yn dyrysu yr holl dylwyth; canys yr oedd Dinah yn cymmeryd y fath hoffder yn y llestri gloywon, nes gwahardd i bawb eu defnyddio o hynny allan i un pwrpas yn y byd, o leiaf nes i wres y "clirio" ymoeri.

Ymhen ychydig ddyddiau dygodd Miss Ophelia bob cyfran o'r tŷ i drefn reolaidd. Ond yr oedd ei llafur yn mhob man, pan ddibynai ar gydweithrediad gweinidogion, yn dra thor-galonus. Yn ei hanobaith, appeliodd at St. Clare un diwrnod.

"Nid oes dim o'r fath beth a chael unpeth fel trefn yn y teulu yma."

"Nac oes, wrth gwrs," ebe St. Clare.

"Y fath reolaeth ddiymadferth, y fath wastraff, y fath annhrefn, na welais i erioed eu tebyg!"

"Mae'n ddiammau nas gwelsoch."

"Ni chymmerech y peth mor ddigyffro pe baech yn olygwraig tŷ."

"Fy nghares anwyl, ni waeth i ni ddeall, unwaith ac am byth, ein bod ni y meistradoedd wedi ein rhannu i ddau radd, y gorthrymwyr a'r gorthrymedig. Yr ydym ni y rhai sy'n deimladwy ac yn casâu creulondeb, yn gwneud ein meddyliau i fynu i oddef cryn lawer o anghyfleusdra. Os *mynnwn* gadw haid o greaduriaid penrydd, anwybodus, yn ein mysg, er mwyn ein cyfleusdra ein hunain, wel, rhaid i ni roi fynu â'r canlyniadau. Gwelais rai esiamplau, ond anfynych, o bobl, trwy ryw fedrusrwydd anghyffredin, yn medru gwneud trefn a rheolaeth heb ddim toster; ond nid nid wyf fi yn un o rheiny; felly gwneis fy meddwl i fynu, er ys talm, i adael pethau fyn'd ymlaen yn union fel y maent. Ni fynnaf fi i'r creaduriaid tlodion gael eu curo a'u chwippio, a hwy a wyddant hynny yn dda; ac, wrth gwrs, y mae'r ffon yn eu dwylaw eu hunain."

"Ond bod heb nac amser, na lle, na rheol—y cwbl yn mynd ymlaen yn y dull diymadferth yma!—"

Fy anwyl Miss Vermont, yr ydych chwi brodorion y pegwn gogleddol yn gosod gwerth anghymhedrol ar amser! Pwy ddefnydd ar y ddaear ydyw amser i fachgen sydd ganddo fwy o'r hanner nac a wyr pa beth i'w wneud âg e? Mewn perthynas i reol a threfn, lle nad oes dim yn y byd i'w wneud ond gorweddian ar y soffa a darllen, nid yw awr yn gynt neu yn hwyrach i frecwesta neu giniawa o nemmawr bwys. Yn awr, dyna Dinah yn arlwyo ciniaw rhagorol—soup, ragout, cywion rhost, ffrwythydd melysion, ice-creams a pobpeth—ac y mae'n crëu'r cwbl o'r tryblith

a'r hen nos, i lawr yn y gegin yna. Onid ydyw y dull y mae hi'n gweithio yn ardderchog? Bendith y Nef arnom! Os ydym i fyned i lawr yna, ac edrych ar yr holl smoccio a'r crwcydu sydd o amgylch, a'r ffwdan yn y darpariaeth, ni fwyttâem damcid byth mwy! Fy nghares hynaws, peidiwch a meddwl am hynyna! Y mae'n waeth na phenyd papistiaidd, ac yn llawn mor ddiles. Ni wnewch ond colli eich tymher, a dyrysu Dinah i'r eithaf. Gadewch iddi fyn'd ymlaen yn ei ffordd ei hun."

"Augustine, ni wyddoch chwi ddim fel y cefais i bethau."

"Ni wn i? Oni wn i fod y rholbren o dan ei gwely, a'r gratur nutmeg yn ei phocced gyda'r tobacco—fod ugeiniau o wahanol fowliau siwgwr, un ymhob twll yn tŷ—ei bod yn golchi'r llestri un diwrnod gyda'r napcynau ciniaw, ac â darn o hen bais y diwrnod nesaf! Ond y pen draw i'r cwbl ydyw, y mae'n arlwyo ciniawau gogoneddus, ac yn gwneud coffi rhagorwych; a rhaid i chwi ei barnu fel y bernir seneddwyr a rhyfelwyr, yn ol *ei llwyddiant!*"

"Ond y gwastraff—y draul!"

"Oh, wel! Clowch bobpeth a fedroch, a chadwch yr allweddi. Rhoddwch allan bob yn dippyn, ac na ofynwch byth am bennau a chynffonau—nid hynny mo'r goreu."

"Mae hynny yn fy nghythryblu i, Augustine. Nis gallaf beidio teimlo nad ydi'r gweinidogion hyn yn *hollol* onest. Ydych chwi 'n sicr y gellir ymddibynu arnynt?"

Crechwenodd St. Clare yn anghyffredin wrth weled y gwyneb difrifol, pryderus a wnaeth Miss Ophelia wrth ofyn y cwestiwn.

"O fy nghares, y mae hynyna'n rhy ddiniwed. *Gonest!* fel pe gellid disgwyl y fath beth! Gonest! nac ydynt, wrth gwrs. Paham y dylent fod? Pa beth ar y ddaear sy i beri iddynt fod felly?

"Paham na ddysgwch hwynt?"

"Eu dysgu! Pw, nonsens! Pa addysg feddyliech a fedrwn i roddi? Yr ydwyf yn edrych fel dysgawdwr, onid wyf fi! Am Marie, bid shwr, y mae ganddi hi ddigon o ysbryd i ddi-eneidio planhigfa gyfan o honynt, pe bawn yn gadael iddi reoli; ond ni fedrai byth dynnu'r twyllo allan o honynt."

"Ai nid oes yr un gonest?"

"Wel, y mae ambell un yn awr ac yn y man, y rhai a wneir gan natur mor llwyr ddiniwed, cywir, a ffyddlon, nas gall y dylanwad gwaethaf eu distrywio. Ond, welwch chwi, y mae'r plentyn du yn gweled ac yn teimlo, oddiar fronnau ei fam, nad oes us ffordd agored iddo ond ffordd ladradaidd. Nis gall fyned ymlaen gyda'i rieni, ei feistres, ei feistr ieuangc, a'i fissi sy'n cyd chwareu âg ef, mewn unrhyw ffordd arall. Y mae dichell a thwyll yn dyfod yn arferion angenrheidiol, anocheladwy. Nid yw'n deg disgwyl yn amgen. Ni ddylai gael ei gospi am hynny. O barth gonestrwydd, mae y caethwas yn cael ei gadw yn y cyflwr ymddibynol, hanner-plentynaidd hwnnw, nad oes dim modd gwneud iddo

ddeall hawl i eiddo, neu deimlo nad yw dâ ei feistr yn perthyn iddo yntau, os medr ei gael. O'm rhan i, nid wyf yn gweled pa fodd y *gallant* fod yn onest. Mae'r fath fachgen a Thwm yma yn—yn wyrth moesol!"

"A pha beth sy'n dyfod o'u heneidiau?" ebe Miss Ophelia.

"Nid yw hynyna ddim o'm busnes i, am a wn," ebe St. Clare; "nid wyf fi'n ymdrin ond â ffeithiau y bywyd hwn. Y gwir yw, y deallir yn lled gyffredin fod yr holl hiliogaeth yn cael ei throi drosodd i'r gwr drwg, yn y byd yma, er elw i ni, pa sut bynnag y try allan mewn byd arall!"

"Y mae hyn yn berffaith echrydus!" ebe Miss Ophelia; "mi ddylai fod cywilydd arnoch drostoch eich hunain!"

"Nis gwn i a oes arnaf gywilydd. Yr ydym mewn cwmpeini go dda, serch hynny," ebe St. Clare, "fel y mae pobl yn gyffredin yn y ffordd lydan. Edrychwch ar yr uchel a'r isel, dros wyneb y byd i gyd, a'r un chwedl ydyw; mae y gradd isaf yn cael eu defnyddio yn llwyr, gorph, enaid, ac ysbryd, er llesâd yr uchaf. Felly y mae yn Lloegr; felly y mae ymhobman; ac er hynny y mae holl Gristionogaeth yn sefyll yn syfrdanus gan ddigllonedd rhinweddol, oblegid ein bod ni yn gwneud y peth ychydig yn wahanol iddynt hwy.

"Onid felly y mae, Miss Vermont?"

"Ah, wel, yr ydych yn cael y goreu arnom ni, yn New England a r Talaethau rhyddion, rhaid cyfaddef. Ond dyna'r gloch; felly, nghefnder gadewch i ni roi heibio ein rhagfarnau pleidiol am ennyd, a deuwch i giniaw."

Fel yr oedd Miss Ophelia yn y gegin tua diwedd y prydnawn, gwaeddodd rhai o'r plant duon, "O'r argen! dyna Prue yn dwad, ac yn grydwst fel arferol."

Gyda hynny daeth dynes ddu, dàl, esgyrnog, i mewn i'r gegin, â basgedaid o deisenau caled a rholiau poethion.

"Hai, Prue! yr wyt wedi dwad," ebe Dinah.

Yr oedd gan Prue wynebpryd cuchiog neillduol, a llais sarrug, grwgnachlyd. Dododd ei basged i lawr, ymgrycydodd, gan roddi pwys ei phenelinoedd ar ei gliniau, a dywedodd—

"O Arglwydd! gwyn fyd na bawn wedi marw!"

"Paham y dymunech fod wedi marw?" ebe Miss Ophelia.

"Byddwn allan o'm trueni," ebe'r ddynes, yn afrywiog, heb godi ei golwg oddiar y llawr.

"P'am raid i ti feddwi, ynte, Prue?" ebe un o'r morwynion, un felen, bert, gan siglo pâr o glust-dlysau coral.

Edrychodd y ddynes arni gyda thremiad surllyd, sarrug.

"F'allai y doi ditha iddi hi, ryw ddiwrnod. Mi fydda'n dda gen i dy weld ti, mi fydda; yna bydda'n dda gen titha gael troppyn, fel finna, i anghofio d'ofid."

"Tyr'd, Prue," ebe Dinah, "gad i mi wel'd dy deisenau. Mi dàl missis am danyn nhw."

Cymmerodd Miss Ophelia allan gwpwl o ddwsingau.

"Y mae toccynau yn yr hen jwg gracciog yna ar y shilf," ebe Dinah. "Dring i fynu, Jake, a thyrd â nhw' i lawr."

"Toccynau—i beth mae nhw da?" ebe Miss Ophelia.

"Yr ydan ni'n prynu toccynau gan ei mas'r, ac y mae hitha'n dwad â bara i ni yn eu lle nhw."

"Ac y mae nhw'n cyfri fy arian a'r toccynau, pan af adre, i wel'd a gefis y newid; ac os na chefis, y mae nhw'n fy hanner lladd."

"A sarfio di'n iawn," ebe Jane, y forwyn bert, "os cymmeri di eu harian a'u gwario nhw i feddwi. Dyna beth mae hi'n neud, missis."

"A hynny a *wnaf:* ni fedra i ddim byw 'run ffordd arall—yfed ac anghofio ngofid."

"Yr wyt yn ddrygionus iawn ac yn ffol," ebe Miss Ophelia, "i ladratta arian dy feistr i wneud dy hun yn fwystfil."

"Mae'n debyg iawn mai felly y mae, missis; ond mi gwna' i o—gwna'. O, Arglwydd! Yr ydw' i'n deisyfu marw, a bod allan o'm trueni!" a chododd yr hen greadures yn araf ac yn anystwyth, a dododd ei basged ar ei phen eilwaith; ond cyn myn'd allan edrychodd ar yr eneth felen, yr hon oedd yn parhau i chware â'i chlust-dlysau.

"Yr wyt ti'n meddwl dy fod yn wych ofnadwy efe rheina, yn tossio dy ben, ac yn edrach i lawr ar bawb. Wel, na hidia—f'allai byddi ditha fyw i fynd yn gradur tlawd, yn hen, ac wedi torri fynu, fel finna. Gebeithio Duw y byddi; yna gawn wel'd a yfi di—yfed—yfed—dy hun i'r poenau; a dy sarfio di'n iawn, hefyd—hych!" a chydag udfa faleis-ddrwg aeth y ddynes allan o'r ystafell.

"Yr hen fwystfil ffiaidd!" ebe Adolph, fel yr oedd yn ymofyn dwfr eillio i'w feistr. "Pe bawn i'n feistr iddi, mi whippiwn i hi'n waeth nag ydi."

"Ni fedrit ti ddim gneud hynny, modd yn y byd," ebe Dinah. "Mae ei chefn mor ddrwg 'rwan, na fedr hi byth dynnu ei dillad at eu gilydd drosto."

"Mi 'ddyliwn na ddylai'r fath greduriaid distadl a honna gael myn'd o gwmpas i dai pobl fonheddig," ebe Miss Jane. "Beth feddyliwch chwi Mr. St. Clare?" ebe hi, gan dossio ei phen fel hoeden ar Adolph.

Dylid sylwi fod Adolph, ymysg pethau eraill a gymmerai oddiar ei feistr, yn benthyca ei enw; a'r teitl o dan yr hwn yr adnabyddid ef yn mhlith y bobl dduon yn New Orleans, ydoedd *Mr. St. Clare.*

"Yr ydw i'n sicir o'r un farn a chwithau, Miss Benoir," ebe Adolph.

Benoir oedd enw teulu Marie St. Clare, ac un o'i morwynion hi ydoedd Jane.

"Gyda'ch cennad, Miss Benoir, a gaf fi ofyn ai erbyn y ddawns nos y fory y mae'r clust-dlysau yna? Y mae nhw'n swyn serch rhyfeddol!"

"Yrwan, Mr. St. Clare, yr ydwyf fi'n synnu pa beth a ddaw o'ch digwilydd-dra chwi, y dynion!" ebe Jane, gan daflu i fynu ei phen clws nes oedd y clust-dlysau yn disgleirio, "ni ddawnsia' i ddim gyda chwi yn ystod yr holl noswaith, os ewch i ofyn chwaneg o gwestiynau i mi."

"Oh, ni fedrech chwi ddim bod mor greulon! Yr oeddwn i bron a marw o eisio gwybod a ymddangosech yn eich tarlatane pinge," ebe Adolph.

"Beth ydi'r matter?" ebe Rosa, lodes felen, fach, fywiog, yr hon a ddaeth dan biccio i lawr y grisiau y moment hwnnw.

"Pa beth? y mae Mr. St. Clare mor ddigwilydd!"

"Ar fy ngair da," ebe Adolph, "mi adawa i'r peth i Miss Rosa, yrwan."

"Mi wn i mai creadur coeglyd ydi fo," ebe Rosa, gan sefyll ar flaen un o'i thraed bychain, ac edrych yn faleisus ar Adolph. "Y mae bob amser yn fy ngwneud i mor ddig wrtho."

"Oh, ladis, ladis, mi dorrwch fy nghalon i rhyngoch eich dwy," ebe Adolph. "Mi'm ceir yn farw yn fy ngwely ryw fore, a bydd raid i chwithau atteb am hynny."

"Glywch chwi'r creadur hyll yn siarad!" ebe'r ddwy lodes ar unwaith, dan chwerthin yn anghyffredin.

"Dowch, cliriwch allan! Ni fynna i monoch chi i lolian yn y gegin, ar fy ffordd i," ebe Dinah.

"Mae Modryb Dinah 'n groes, am na feder hi fyn'd i'r ddawns," ebe Rosa.

"'Does arna' i ddim eisio 'run o'ch dawnsiau lliwiau goleuon," ebe Dinah; "yn spongeio o gwmpas, a threio gneud i bawb goelio mai pobl wynion ydych. Ar ol y cwbl nid ydach chi ond niggers, gystal a minna."

"Mae Modryb Dinah yn seimio ei phen crych gwlanog bob dydd, i geisio ei neud yn wastad," ebe Jane.

"A gwlan crych a fydd ar ol y cwbl," ebe Rosa, gan ysgwyd ei dolenau sidanaidd o wallt llaes, yn faleisus.

"Wel, yngolwg yr Arglwydd, onid ydi gwlan gystal a gwallt?" ebe Dinah. Mi leiciwn i missis ddeud p'run sy' fwya' o werth—dwy hoeden fel chwi, ynte rhyw un fel fi. Cerddwch allan, soppenod—ni fynnaf fi 'run o honoch o'm cwmpas!"

Yna torrwyd yr ymddiddan mewn ffordd ddeublyg. Clywid llais St. Clare ar ben y grisiau yn gofyn i Adolph a oedd yn meddwl aros drwy'r nos gyda'i ddwfr shafio, a Miss Ophelia, yn dyfod o'r ystafell giniaw, a ddywedodd—

"Jane a Rosa, paham yr ydych chwi yn ofera eich amser yma? Cerddwch i mewn, ac edrychwch at eich muslin."

Ein cyfaill Twm, yr hwn oedd yn y gegin trwy ystod yr holl ymddiddan â'r hen ddynes a'r bara, a aeth allan ar ei hol i'r heol. Gwelai hi yn myned ymlaen, gan roddi uchenaid drom yn awr ac yn y man. O'r diwedd gosododd ei basged i lawr ar risyn drws, a threfnodd ychydig ar yr hen shawl lom oedd ar ei hysgwyddau.

"Mi gariaf fi eich basged am dippyn?" ebe Twm, yn dosturiol.

"P'am?" ebe'r ddynes. "'Does arna i eisio dim help."

"Yr ydych yn edrych fel pe baech yn sal, neu mewn trallod, neu rywbeth," ebe Twm.

"Nid ydw' i ddim yn sal," ebe'r ddynes, yn gwtta.

"Mi ddymunwn i," ebe Twm, gan edrych arni yn sobr, "mi ddymunwn i'ch perswadio i beidio meddwi. Oni wyddoch chi y bydd yn ddistryw i chi, gorph ac enaid?"

"'Rydwy' i'n gwybod mod i yn myn'd i'r poenau," ebe'r ddynes yn sarrug. "Ni raid i chwi ddeud i mi hynny. 'Rydw i'n ddrwg—yn erchyll—yn myn'd rhag ymlaen i'r poenau. O Arglwydd! mi fydda'n dda gen i pe bawn i yno!"

Crynodd Twm wrth glywed y geiriau arswydus hyn, yn cael eu dywedyd gydag arafwch sobr.

"Yr Arglwydd a gym'ro drugaredd arnat! y cradur tlawd. A glywist ti 'roed son am Iesu Grist?"

"Iesu Grist—pwy'di o?"

"Pwy? *yr Arglwydd*," ebe Twm.

"Yr ydw i'n meddwl mod i wedi clywed am yr Arglwydd, ac am y farn, a brwmstan. Mi glywis am hynny."

"Oni dd'wedodd neb wrthat ti am yr Arglwydd Iesu, a'n carodd ni bechaduriaid tlodion, ac fu farw droston ni?"

"Wn i ddim byd o gwmpas hynny," ebe'r ddynes; "ni ddaru neb byth y ngharu i wedi fy hen wr farw."

"Ymhle dygwyd ti fynu?" ebe Twm.

"Yn Kentuck. Yr oedd dyn yn nghadw i godi plant i'r farchnad, a gwerthodd nhw mor gynted ag y delent yn ddigon mawr; o'r diwedd gwerthodd fi i fasnachwr, a phrynodd mas'r fi ganddo fe."

"Beth a'th yrrodd i'r ffordd ddrwg yma o yfed?"

"I gael 'madel â ngofid. Yr oedd gen i un wedi dwad yma; ac mi feddylis y cawn i fagu un, 'ran nad oedd mas'r yn fasnachwr. Yr oedd o y peth bach clysa! ac yr oedd missis fel pe b'asai yn meddwl llawer o hono yn y dechre; ni bydda fo byth yn crïo—yr oedd mor dew braf. Ond mi aeth missis yn sâl, ac mi ddaru minna ei thendio; mi gym'ris inna y ffefer, ac mi ddaru fy llaeth i gyd fy nghadel, ac mi ddaru'r plentyn nychu nes oedd o ddim ond croen ac asgwrn, ac ni wnai missis brynu llaeth iddo. Wnai hi ddim gwrando arna' i pan ddeydwn nad oedd gen i ddim llaeth. Ddeydodd y gwydda hi y medrwn i ei borthi ar beth oedd pobl erill yn fwytta. A nychodd y plentyn, a chrïodd, a chrïodd, nos a dydd, ac aeth i ddim ond croen ac esgyrn, a mi aeth missis gymmint yn ei erbyn, a deudai nad oedd ddim ond pentwr o groesni. Mi f'asai dda ganddi pe b'asai wedi marw, ebe hi; ac ni chawn i ef yn y nos, am ei fod yn nghadw i yn effro, a ngwneud i'n dda i ddim yn y byd. Gwnai i mi gysgu yn ei stafell hi; ac 'roedd yn rhaid i mi ei roi mewn rhyw dwll yn y garret, ac yno y crïodd ei hun i farwolaeth un noswaith. "Mi ddaru minna ddechre yfed i gadw swn ei grïo o'm clustiau! Mi ddarum —ac mi wna yfed! os af i'r poenau am hynny! Mae mas'r yn

deyd yr af fi i'r poenau, ac yr wyf inna'n deyd wrtho mod i ynddynt 'rwan."

"O'r cradur tlawd!" ebe Twm, "a ddaru neb 'rioed ddeyd wrthat fel y mae'r Arglwydd Iesu yn dy garu di, ac wedi marw drostat ti? A ddaru neb ddeyd y gwna fe dy helpu di, ac y medri fynd i'r nefodd, a chael gorphwysdra yn y diwedd?"

"'Rydw i'n edrych fel un yn mynd i'r nefodd," ebe'r ddynes; "onid yno y mae'r bobl wynion yn myn'd? Fyddai'n well gen i fynd i'r poenau a chael mynd oddiar ffordd mas'r a missis. *Mi fyddai*," ebe hi, gyda'i hochenaid arferol, gan gym'ryd ei basged ar ei phen, a myned ymaith yn sarrug.

Troes Twm, a cherddodd yn ol yn drist tua'r tŷ. Yn y cyntedd cyfarfu âg Efa—â choron o rosynau ar ei phen, a'i llygaid yn disgleirio o hyfrydwch.

"O, Twm, dyma 'ch di. Mae'n dda gen i fy mod wedi dyfod o hyd i ti. Mae papa yn dweyd y gelli gymmeryd y merlynod, a'm cymmeryd allan yn yn fy ngherbyd bach newydd," ebe hi, gan ymaflyd yn llaw Twm. "Ond beth yw'r matter Twm?—yr wyt yn edrych yn drist."

"Nid ydw i ddim yn iawn, Miss Efa," ebe Twm, yn ofidus. "Ond mi geisia i'r ceffylau i chwi."

"Ond, O Twm, dywed i mi beth yw'r matter. Mi gwelais i di yn siarad â'r hen Prue groes yna."

Twm, yn ei ffordd blaen, ddifrifol, a ddywedodd i Efa hanes y ddynes. Ni waeddodd hi allan, na rhyfeddu, nac wylo, fel y gwna plant eraill. Troes ei gruddiau yn llwyddion, ac aeth rhyw gysgod tywyll, dwys, dros ei llygaid. Gosododd ei dwy law ar ei mynwes, ac ucheneiddiodd yn drwm.

PENNOD XIX.

PARHAD O BROFIAD AC OPINIYNAU MISS OPHELIA.

'TWM, nid rhaid i ti ddim trafferthu am y ceffylau. Nid oes arnaf ddim eisiau myn'd allan," eb Efa.

"Pa'm, Miss Efa?"

"Mae'r pethau yma yn trywanu nghalon i, Twm," eb Efa, "yn trywanu nghalon i," ebe hi drachefn, yn sobr. "'Does arna i ddim eisio myn'd;" a hi a drodd oddi wrth Twm, ac a aeth i'r tŷ.

Ymhen ychydig ddyddiau ar ol hyn, daeth dynes arall a'r teisenau yn lle'r hen Brue; digwyddodd fod Miss Ophelia yn y gegin.

"Dyn catto ni," ebe Dinah, "beth sy wedi dwad o Prue?"

"'Dydi Prue ddim yn dwad yn rhagor," ebe'r ddynes yn lled ddistaw

"Pa'm?" ebe Dinah. "Nid ydi hi ddim wedi marw, ydi hi?"

"Ni wyddon ni ddim yn iawn. I lawr yn selar mae hi," ebe'r ddynes, gan daflu golwg ar Miss Ophelia.

Ar ol i Miss Ophelia gymmeryd y teisenau, aeth Dinah at y drws ar ol y ddynes.

"Beth sy wedi dwad o Pru, sut bynnag?" ebe hi.

Ymddangosai'r ddynes yn chwannog, ac etto yn ofnus i siarad, ac hi attebodd mewn llais distaw a dull darn-guddiedig.

"Wel, rhaid i ni beidio deyd wrth neb. Mi feddwodd Prue drachefn —ac mi eithon o hi lawr selar—ac mi g'dawson hi yno drwy'r dydd; ac mi clywis nhw'n deyd *fod y gwybed hyd'ddi hi*—ac *y mae wedi marw.*"

Cododd Dinah ei dwy law i fynu, ac wrth droi hi a welai yn ei hymyl ffurf angylaidd Efangel, ei llygaid mawrion yn ymehangu gan ddychryn, a phob diferyn o waed wedi cilio o'i gwefusau a'i bochau.

"Gwarchod ni, dyma Miss Efa yn myn'd i ffaentio. Yr oedd pob un o honon ni wedi dylu adael iddi glywed y fath siarad. Fydd ei thad o'i go lâs."

"Ni 'naf fi ddim ffeintio, Dinah," ebe'r plentyn yn benderfynol; "a pha'm na chaf fi glywed? Nid ydyw hyn ddim cymmaint poen i mi ei wrando ag oedd i Prue druan ei ddioddef."

"Tad fo'n gwarchod! ddylai ladis ifangc bach, neis, fel chi, ddim clywed straion fel yma—mae'n ddigon a'u lladd."

Ochneidiodd Efa drachefn, ac aeth i fynu'r grisiau yn araf ac yn bendrymaidd.

Holodd Miss Ophelia yn awyddus am yr hyn a ddywedasai'r ddynes; ac adroddodd Dinah'r hanes yn ei dull trwsgl ei hunan. Ychwanegodd Twm hefyd rai pethau a glywsai ganddi yn y bore.

"Gwaith cywilyddus—perffaith ddychrynllyd!" ebe hi, wrth fyned i'r ystafell lle'r oedd St. Clare ar ei orwedd yn ddarllen y papyr.

"Er mwyn daioni," eb efe, "pwy erchyllwaith sy ar droed yn awr?"

"Beth sydd? mae'r creaduriaid yna wedi fflangellu'r hen Brue i farwolaeth," ebe Miss Ophelia, gan adrodd yr hanes yn wresog, ac ymhelaethu ar y rhanau mwyaf arswydus o hono.

"Yr oeddwn i'n meddwl mai dyna fel fyddai hi rywdro," ebe St. Clare, gan ddal i ddarllen y papyr.

"Meddwl mai dyna fyddai!—ond a ydych ddim yn meddwl *gweneud* rhywbeth yn y matter!" ebe Miss Ophelia. "A oes gennych yr un *crowner*, na neb i edrych ar ol pethau fel hyn?"

"Yr ydys yn barnu fod y gofal sy gan ddyn am ei *eiddo* yn ddigon i edrych or ol pethau fel hyn. Os bydd pobl yn dewis distrywio eu heiddo eu hunain, mi gwn i ddim beth sydd i'w wneud. Mae'n ymddangos fod y greadures druan yn *meddwi* ac yn *lladroni;* felly ni cheir ond ychydig gydymdeimlad yn ei hachos."

"Mae'n ddychryn meddwl am dano—mae'n ofnadwy, Augustine! Fydd yn sicr o ddwyn barn arnoch."

"Fy nghares anwyl, nid oedd gennyf fi un llaw ynddo; ac ni fedraf fi ddim help iddo; mi wnawn, pe gallwn. Os bydd creaduriaid isel, creulon yn ymddwyn fel y mae'n naturiol iddynt, nid oes gennyf fi mo'r help. Mae ganddynt ryddid i wneud fel y mynnont, a neb i'w galw i gyfrif. Ni wiw ymyrraeth; nid oes un gyfraith a wna les yn y fath amgylchiad. Y peth goreu a fedrwn wneud ydyw cau ein llygaid a'n clustiau, a gadael llonydd iddo. Dyna'r unig beth a fedrwn wneud.

"Sut y medrwch chwi gau eich llygaid a'ch clustiau? Sut y medrwch chwi adael llonydd i'r fath bethau?"

"Fy mhlentyn anwyl i, beth ydych chwi yn ddisgwyl? Dyma ddosparth cyfan o bobl isel, di-ddysg, diog, ac atgas—wedi eu gosod, heb delerau nac ammodau, yn hollol yn nwylaw'r fath ddynion ag ydyw'r rhan fwyaf o bobl y byd yma, pobl heb nac ystyriaeth na hunan-lywodraeth, na dirnadaeth eglur o'u hunan-les—oherwydd dyna fel y mae hi gyda mwy na hanner pobl y byd yma. Yn awr, mewn cymmundeb o'r fath gyfansoddiad, pa beth a fedr dyn teimladwy ac anrhydeddus ei wneud, ond cau ei lygad, os bydd bossibl iddo, a chaledu ei galon? Ni fedraf fi ddim prynu pob creadur truenus a welaf. Ni fedraf fi ddim troi yn Don Quixotte, ac uniawnu cam pob un yn y fath ddinas a hon. Y cwbl a fedraf fi wneud ydyw cadw o'r ffordd gymmaint ag a allaf."

Gorchuddiwyd wyneb hardd St. Clare â gwg am funudyn; edrychodd braidd yn ddig, ond ail-wisgodd ei wên yn sydyn, a dywedodd,

"Dowch, dowch, fy nghares, peidiwch a sefyll yn y fan yna, yn edrych fel dewines; ni chawsoch chwi ddim ond cipolwg rhwng y cuddlenni—esiampl o'r hyn sydd yn myn'd ymlaen ymhob rhan o'r byd rywfodd neu gilydd. Os awn i chwilenna ac i edrych i mewn i holl drist-bethau'r byd, ni bydd gennym galon at unpeth. Mae'r un fath ag edrych yn rhy fanwl i drefniadau'r gegin gan Dinah;" ac fe ymestynodd St. Clare ar y soffa i ddarllen y papyr.

Eisteddodd Miss Ophelia i lawr, a thynnodd allan ei gwaith gweu, a thyna lle'r oedd yn llawn eiddigedd. Hi ddaliodd atti i weu ac i weu, a'r tân o hyd yn llosgi o'i mewn; o'r diwedd, hi a dorrodd allan—

"Mi ddeuda i chwi beth, Augustine, ni fedraf fi ddim myned heibio i bethau fel yna, os medrwch chwi. Mae'n gywilydd ac yn warth i chwi amddiffyn y fath drefn—dyna marn *i*!"

"Beth 'rwan?" ebe St. Clare. "Atti hi etto, aïe?"

"Yr wyf fi'n dweyd fod yn gywilydd ac yn warth i chwi amddiffyn y fath drefn!" ebe Miss Ophelia, yn fwy gwresog fyth.

"*Fi* ei hamddiffyn, fy nghares anwyl! Pwy erioed ddywedodd fy mod i yn ei hamdiffyn?" ebe St. Clare.

"Wrth gwrs, yr ydych yn ei hamddiffyn; mae pawb yn y dehau yn

gwneud. P'am yr ydych yn cadw caethion, os nad ydych yn ei hamddiffyn?"

"A ydych chwi yn beth fach mor ddiniwed a meddwl nad oes neb trwy'r byd mawr yn gwneud dim un amser ond y mae'n feddwl yn iawn? A ydych chwi ddim yn gwneud, neu oni wnaethoch erioed, ddim nad ydych yn meddwl ei fod yn berffaith iawn?"

"Os darfum i, gobeithio i mi edifarhau," ebe Miss Ophelia, gan yrru'r gweyll yn ddau cynt.

"Felly finnau," ebe St. Clare, gan bilio ei orange; "yr wyf fi yn edifarhau bob dydd."

"Pa'm yr ydych yn dal i'w wneud ynte?"

"Fy anwyl gyfnither, a ddarfu chwi erioed ddal i wneud yr un drwg, ar ol edifarhau am dano?"

"Dim ond pan fyddaf mewn temtasiwn pur gref," ebe Miss Ophelia.

"Wel, yr wyf finnau mewn temtasiwn, bur gref,—dyna fy maen tramgwydd i," ebe St. Clare.

"Ond mi fyddaf fi'n penderfynu gwella, ac yn ymdrechu diwygio."

"Wel, yr wyf finnau yn penderfynu gwella, yn awr a phryd arall, er's deng mlynedd," ebe St. Clare, "ond rywsut neu gilydd, ni ddois i ddim yn rhydd etto. Ddaethoch chwi yn rhydd o'ch holl bechodau, nghares?"

"Augustine," ebe Miss Ophelia yn sobr, gan osod i lawr ei gwaith gweu, "mae'n debyg mod i'n haeddu cael dannod fy meiau gennych. Mi wn fod yr hyn a ddywedwch yn rhy wir; nid oes neb yn teimlo ei fyrder yn fwy na myfi; etto, wedi'r cwbl, mae peth gwahaniaeth rhyngoch chwi a minnau. Mi feddylwn y byddai'n well gennyf dorri fy llaw ddehau, na myned ymlaen, ddydd ar ol dydd, i wneud yr hyn y gwn ei fod yn ddrwg. Ond wedi hynny, mae fy ymddygiad mor groes i mhroffes, fel nad yw ryfedd yn y byd eich bod yn fy ngheryddu."

"O fy nghares," ebe Augustine, gan eistedd ar y llawr, a dodi ei ben ar ei glin, "peidiwch a chymmeryd attoch mor ddifrifol. Chwi a wyddoch hogyn mor ddireidus oeddwn erioed. Mae'n dda gennyf eich plaggio—dyna'r cwbl—ddim ond i gael eich gweled o ddifrif. Yr wyf yn meddwl eich bod yn dda ofnadwy; mae yn fy mlino i farwolaeth feddwl am danoch."

"Mae hwn yn fatter sobr, Augustine, machgen i," ebe Miss Ophelia, gan osod ei llaw ar ei dalcen.

"Sobr anarferol," eb efe; "a minnau—wel, ni fedraf fi ddim siarad yn sobr ar hin gynnes. Rhwng mosquitos a phobpeth, ni fedr dyn ddim cyrhaedd rhyw ehediadau uchel mewn moesoldeb; ac yr wyf fi'n credu," ebe St. Clare, gan neidio i fynu,—"dyna gyfundraeth ar unwaith! Yr wyf fi yn deall yn awr pa'm y mae pobl y gogledd bob amser yn fwy rhinweddol na phobl y parthau deheuol—mi welaf trwy'r holl bwnge."

"O Augustine, yr ydych yn hoedyn penchwiban!"

"Ydw i? Wel, felly'r ydw i, mae'n debyg; ond, am unwaith, mi fyddaf

o ddifrif; ond rhaid i chwi estyn y fasged oranges yna i mi,—chwi welwch y rhaid fy 'nghynal a chostrelau a'm cysuro âg afalau,' os gwnaf yr ymdrech hon. Yn awr," eb Augustine, gan dynnu'r fasged tuag atto, "dyma fi'n dechreu: Pan yn chwyl y byd hwn, y daw yn angenrheidiol i greadur o ddyn ddal dau neu dri dwsin o'i gyd-bryfedach mewn caethiwed, mae'r parch dyledus i opiniynau cymdeithas yn gofyn iddo—"

"Ni welaf fi ddim eich bod un mymryn mwy sobr," ebe Miss Ophelia. "Arhoswch—dyma fi'n myn'd ymlaen—chwi gewch glywed. Y cwbl am dani ydyw hyn, fy nghares," eb efe, a'i wynebpryd hardd yn ymollwng i ddifrifoldeb, "ar egwyddor y pwngc o gaeth-wasanaeth nis gall fod, yn ol fy marn i, dim ond un opiniwn. Planwyr, sydd am wneud arian trwyddo—personiaid ag y mae ganddynt blanwyr i'w boddio—politiciaid sy'n chwennych ynnill dylanwad trwyddo—gallant blygu, cordeddu, a nyddu iaith a moesau fel ag i yrru'r byd i syndod wrth eu cywreinrwydd; gallant rwymo Natur a'r Bibl, ac nis gŵyr neb pa beth, at eu gwasanaeth; ond, ar ol y cwbl, nid ydynt hwy na'r byd yn credu un iottyn yn rhagor ynddo. Mae'n dyfod o'r diafol, dyna'r gwir am dano; ac, i'm meddwl i, mae yn engraifft bur hardd o'r hyn a fedr ef wneud yn ei ffordd ei hun."

Gollyngodd Miss Ophelia ei gwaith gweu, ac edrychodd yn syn; ac aeth St. Clare ymlaen, fel pe buasai yn ymlonni wrth weled ei syndod.

"Yr ydych fel pe baech yn rhyfeddu; ond os tynnwch fi allan yn deg, mi wnaf gydwybod lân o honi. Beth ydyw'r gwaith melldigedig yma? —melldigedig gan Dduw a dyn. Tynnwch ymaith ei holl addurniadau, cloddiwch hyd at ei wreiddyn, mynnwch weled y rhuddyn, a pha beth ydyw? Dyma fe—Am fod fy mrawd Quashy yn anwybodus ac yn wan, a minnau'n ddysgedig ac yn gryf—gan fy mod i yn gwybod pa sut, ac yn *gallu* gwneud—gan hynny mi gaf ddwyn oddi arno gymmaint o fedd, a'u cadw i mi fy hun, a rhoddi iddo yntau yr hyn welwyf fod yn dda. Beth bynnag sy'n rhy galed, yn rhy fudr, neu'n rhy atgas gennyf fi i'w wneud, mi allaf osod Quashy i'w wneud. Am fod yn gas gennyf fi weithio, rhaid i Quashy wneud y gwaith. Am fod yr haul yn rhy boeth i mi, rhaid i Quashy fyn'd i'r haul i gael ei losgi. Rhaid i Quashy ynnill arian, mi gwarriaf finnau hwynt. Rhaid i Quashy orwedd yn y pwll, i mi gael myned trosodd yn droed-sych. Rhaid i Quashy wneud fy ewyllys i, ac nid ei ewyllys ei hun, holl ddyddiau ei einioes, a chael y fath siawns o fyned i'r nefoedd yn y diwedd, ag a welwyf fi fod yn gyfleus. Dyna beth ydyw caeth-wasanaeth, yn ol fy marn i. Ac mi heriaf un-gwr ar wyneb y ddaear i wneud dim yn amgen o hono, allan o'n cyfreithiau ni, fel y maent yn sefyll yn awr. Soniwch am y *cam*-ddefnydd o gaeth-wasanaeth! Hymbyg! Y *peth ei hunan* ydyw cnewyllyn pob cam-ddefnydd! A'r unig reswm nad yw'r wlad wedi suddo dano, fel Sodom a Gomorrah, ydyw fod y *defnydd* a wneir o hono yn anfeidrol well nag ydyw'r peth ei hun. O wir drueni, rhag cywilydd,

am ein bod yn wŷr wedi ein geni o wragedd, ac nid bwystfilod anwar, ni wna llawer o honom, ni feiddiwn wneud—byddai yn *ddirmygus* gennym wneud, defnydd o'r hyn oll a rydd ein cyfreithiau barbaraidd yn ein gallu. A'r hwn sydd yn myned bellaf, ac yn gwneuthur waethaf, nid yw ond defnyddio yn brin yr awdurdod a rydd y gyfraith iddo."

Yr oedd St. Clare wedi cyfodi ar ei draed, ac, yn ol ei arfer pan â'i yn wresog, yn cerdded yn brysur i fynu ac i lawr yr ystafell. Ymddangosai ei wynebpryd hardd, mor berffaith ei lun a cherfwaith Groegaidd, fel ar dân gan wresogrwydd ei deimladau. Yr oedd ei lygaid mawr gleision yn gwreichioni, a'i ystumiau yn orweithgar, fel heb yn wybod iddo ei hun. Nis gwelsai Miss Ophelia ef erioed o'r blaen yn y dymher yma; a hi a eisteddodd yn berffaith ddistaw.

"Mi ddyweda i chwi beth," eb efe, gan sefyll yn sydyn o flaen ei gyfnither, "nid ydyw o ddefnydd yn y byd siarad na theimlo ar y matter yma—ond gwrandewch, fe fu amserau pryd y bum i yn meddwl, pe buasai'r holl wlad yn suddo, ac yn cuddio'r holl anghyfiawnder a'r trueni yma rhag llygad y goleuni, mi fuaswn yn eithaf boddlon i suddo gyda hi. Pan fyddwn yn trafaelio i fynu ac i lawr ar ein hagerdd-longau, neu wrth fyned o gwmpas i gasglu, a meddwl fod pob cenaw bwystfilaidd, ffiaidd, difoes a difennydd a gyfarfyddwn, yn rhydd, yn ol ein cyfraith ni, i lwyr berchennogi cynnifer o ddynion, o ferched, a phlant, ag y medrai ladratta, twyllo, neu gamblo digon o arian i'w prynu—pan welais y fath ddynion â nifer o blant a merched ifainge yn eu meddiant—bum yn barod i regu fy ngwlad—i regu'r holl hil ddynol!"

"Augustine! Augustine!" ebe Miss Ophelia, "yr wyf yn sicr i chwi ddweyd hen ddigon. Ni chlywais erioed yn fy mywyd ddim yn debyg i hyn o'r blaen; naddo yn y gogledd."

"Yn y gogledd!" ebe St. Clare, gan droi yn sydyn i'w agwedd gynnefin. "Pw-pw, pobl oer-waed yw pobl y gogledd; yr ydych yn oer yn mhobpeth! Ni fedrwch chwi ddim tyngu a rhegu i fynu ac i waered fel y gallwn ni pan ddechreuom ni."

"Ond y pwngc ydyw," ebe Miss Ophelia.

"O, ïe, digon gwir, y *pwngc ydyw*,—a phwngc caled ydyw hefyd! Sut y *daethoch* chwi i'r fath gyflwr pechadurus a thruenus? Wel, mi attebaf yngeiriau'r hen wers dda a ddysgasoch i mi ar y Sabboth. Yn nhrefn naturiaeth. Gweision fy nhad fu fy ngweision i; a mwy na hynny, gweision fy mam fuont; ac yn awr eiddof fi ydynt, hwy a'u hiliogaeth, ac nid ychydig mo'r rheiny. Chwi wyddoch mai o New England y daeth fy nhad i ddechreu; ac yr oedd ef yr un ffunud a'ch tad chwi—hen Rufeinwr i'r dim; cywir o'i goryn i'w sawdl, gweithgar, ei enaid yn llawn o fonedd, a'i ewyllys fel y dur. Cartrefodd eich tad yn Vermont, i lywodraethu ar gerrig a chreigiau, ac ynnill bywoliaeth o gelloedd Natur; gwnaeth fy nhad innau ei gartref yn Louisiana, i lywodraethu dynion a merched, ac i ynnill bywoliaeth o honynt hwy. Fy mam," eb St. Clare, gan gerdded i'r pen arall i'r ystafell at ei darlun, a syllu arno gyda gwedd

lawn o barch a chariad, "yr *oedd* hi yn nefolaidd! Peidiwch ag edrych fel yna,—chwi wyddoch beth wyf yn ei feddwl. Mae'r debyg ei geni'n ddaearol; ond hyd ag y gwelais i, nid oedd dim olion gwendidau neu ffaeleddau dynol yn perthyn iddi; a dywed pawb sydd yn ei chofio yr un peth,—boed gaeth neu rydd, gwâs, cydnabod, neu berthynas. Wyddoch chwi beth? fy mam ydyw'r cwbl a safodd rhyngof fi â llwyr anffyddiaeth, er's blynyddoedd. Yr oedd hi'n gorphoriad union-gyrchol ac yn bersonoliad o'r Testament Newydd,—ffaith fywiol, i'w hegluro trwy ei wirionedd, ac nid trwy un ffordd arall. O fy mam! fy mam!" ebe St. Clare, a'i ddwylaw ymhleth, fel mewn per-lewyg; yna ymattaliodd ar unwaith, a dychwelodd i'w eisteddle, gan fyned ymlaen :—

"Gefeilliaid ydyw fy mrawd a minnau; ac y maent yn dweyd, wyddoch, y dylai gefeilliaid fod yn debyg i'w gilydd; ond yr oeddym ni ein dau yn wahanol ymhob peth. Yr oedd ganddo ef lygaid duon tanbaid, gwallt du fel y frân, gwynebpryd gafaelgar Rhufeinaidd, ac o liw rhuddgoch iachus. Gennyf finnau yr oedd llygaid gleision, gwallt goleu, prydwedd Groegaidd, a chroen cannaid. Yr oedd ef yn graff a bywiog, a minnau'n freuddwydiwr diog. Yr oedd ef yn haelfrydig gyda'i gyfeillion a'i gydradd, ond balch, trahaus, a dideimlad tuag at y rhai islaw iddo, ac yn hollol ddidrugaredd tuag at bawb a phobpeth a ymgodai yn ei erbyn. Yr oeddym eill dau yn gywir a gonest; efe oddiar falchder a gwroldeb, a minnau oddiar ryw fath o ehediadau meddyliol. Yr oeddym yn hoffi ein gilydd fel y mae bechgyn yn gyffredin,—ambell gweryl, a throsodd ag ef; efe oedd yn ffaffr fy nhad, a minnau yn ffafr fy mam.

"Yr oedd ynof fi bob amser fath o deimladrwydd dwfn a dwys ar bob math o fatterion, yr hyn ni wyddai ef na fy nhad ddim yn y byd am dano, a chyda'r hyn nis gallent mewn un modd gydymdeimlo. Ond medrai fy mam; ac felly pan gwerylwn i âg Alfred, ac i fy nhad edrych yn ddig arnaf, mi awn i ystafell fy mam, ac mi eisteddwn yn ei hymyl. Yr wyf yn cofio'n burion yr olwg arni, ei gruddiau llwydion, ei llygaid dyfnion, esmwyth, sobr, ei gwisg wen—gwyn a wisgai bob amser—a byddwn yn meddwl am dani yn wastad wrth ddarllen yn y Datguddiad am y saint wedi eu gwisgo â lliain main, gwŷn, a glân. Yr oedd ganddi lawer iawn o ddawn o ryw fath neu gilydd, yn enwedig mewn peroriaeth, ac eisteddai wrth ei horgan i chware hen fiwsig ardderchog yr Eglwys Babaidd, ac i ganu â llais tebyccach i angel na dynes ddaearol; a byddwn innau yn dodi fy mhen ar ei glin, yn wylo'r dagrau, yn breuddwydio, ac yn teimlo—oh! tu hwnt i fesur!—pethau nad oes gennyf iaith nac ymadrodd i'w traethu!

"Yn y dyddiau hynny, nid oedd y pwngc yma o gaeth-wasanaeth wedi ei drin a'i drafod fel ag y mae yn awr, nid oedd neb yn meddwl fod dim drwg ynddo.

"Un o'r bendefigaeth oedd fy nhad o'i enedigaeth. Ryfeddwn i ddim nad oedd, mewn rhyw hanfodiad cyntefig, yn perthyn i'r radd uchaf o ysprydion, ac iddo ddwyn holl falchder y llys i'w ganlyn; oherwydd yr oedd yn rhan o'i gyfansoddiad, wedi ei fagu yn ei esgyrn, er mai o deulu lled

isel y daethai i ddechreu, heb ddim neillduol o bendefigaidd yn eu gwaed. Cenhedlwyd fy mrawd ar ei ddelw.

"Yn awr, chwi a wyddoch nad oes gan y pendefig, trwy'r byd i gyd, ddim teimladau dynol tu hwnt i ryw gylch mewn cymdeithas. Yn Lloegr y mae'r cylch yma yn un man; yn Burmah mae mewn lle arall; ac yn America mewn lle gwahanol i'r ddau; ond nid yw pendefigion y gwledydd hyn byth yn myned dros eu cylch. Yr hyn fyddai yn galedfyd, yn orthrwm, ac yn anghyfiawnder, yn ei ddosbarth ef ei hun, nid yw ddim mwy na chyflwr naturiol pethau mewn dosbarth arall. Lliw oedd llinell gwahaniad fy nhad. *Ymysg ei gydradd*, ni bu erioed ddyn mwy teg a hael; ond ystyriai y negro, trwy bob gradd o liw ei groen, megis dolen y cysswllt rhwng dyn ac anifail, ac ar y dybiaeth hon y sylfaenid ei holl ddychymygion o gyfiawnder a thegwch tuag atto. Ond y mae'n ddigon tebyg, pe gofynasid iddo yn benderfynol, a oes ganddynt eneidiau anfarwol, y buasai yn rhoddi hym-a-haw, ac yn dweyd 'oes.' Ond nid aml y blinid fy nhad â meddyliau am bethau ysprydol; nid oedd ganddo ddim teimladau crefyddol, heblaw parch i Dduw, fel pen y bendefigaeth, neu'r dosbarthau uchaf mewn cymdeithas.

"Wel, yr oedd fy nhad yn gweithio tua pham cant o negroaid; dyn manwl, di-ildio, a di-orphwys ydoedd yn ei orchwyl: rhaid oedd i bob peth ymsymmud yn ol ei system—yr hon a gynhelid gyda dichlynder a chywirdeb diffael. Yn awr, os cymmerwch i'ch ystyriaeth fod hyn oll i'w weithio allan o lafurwyr diog, annarbodus, diymadferth, y rhai ni chawsent erioed unrhyw gymhelliad i ddysgu gwneud unpeth ond yn hytrach i "shirkio," fel y byddwch chwi yn dweyd yn Vermont, gallwch feddwl yn naturiol fod ar ei blanhigfa lawer iawn o bethau a edrychent yn erchyll ac arswydus i blentyn teimladwy fel myfi.

"Heblaw hyn oll, yr oedd ganddo arolygwr—dyn mawr, tàl, cymmalog, dau-ddyrnog o Vermont (beggio'ch pardwn) yr hwn a aethai trwy brentisiaeth rheolaidd mewn creulondeb a chieidd-dra, ac oedd wedi graddio yn barod i osod i fynu mewn busnes. Ni fedrodd fy mam erioed ei oddef, na minnau ychwaith; ond yr oedd ei ddylanwad ar fy nhad yn ddiderfyn; a'r dyn hwn oedd yn dal ei deyrnwialen haiarn dros yr holl stât.

"Nid oeddwn i ddim ond crwttyn bychan pryd hynny; ond yr oedd gennyf yr un serch at bob peth dynol ag sydd gennyf yn awr—math o benboethni i astudio dynoliaeth, doed ymha agwedd y delo. Byddwn yn aml ar hyd y bwthynau, ac ymysg y llafurwyr yn y meusydd, ac yr oeddwn wrth reswm yn uchel mewn ffafr yn eu mysg; traethid yn fy nghlust bob math o gwynion ac achwynion; carriwn innau hwynt i fy mam, a rhyngom byddai math o gommitti i wastattau camwri. Llwyddasom i attal a symmud ymaith lawer o greulondeb, ac ymfalchiem ein bod yn gwneud llawer iawn o ddaioni, hyd onid aeth fy zel i yn rhy bell, fel ag y mae'n digwydd yn fynych. Achwynodd Stubbs wrth fy nhad, nas gallai gadw trefn ar y gweithwyr, ac y rhaid iddo roddi ei swydd i fynu. Yr oedd fy nhad yn wr serchus, a llawn tiriondeb, ond ni phetrusai

wneud unpeth a fernid yn angenrheidiol; felly efe a darawodd ei droed yn y llawr, fel craig, rhyngom ni a'r dwylo oedd yn gweithio allan. Dywedodd wrth fy mam, mewn iaith eithaf parchus, ond yn ddigamgymmeriad, mai hi oedd y feistres ar bawb o gwmpas y tŷ, ond na fynnai ddim ymyrraeth o fath yn y byd gan neb â'r sawl oedd yn gweithio allan ar y blanhigfa. Yr oedd yn ei charu ac yn ei pharchu tu hwnt i bob gwraig ar wyneb daear; ond efe a ddywedasai yr un fath yn union pe buasai hi Mair y Forwyn ei hunan, os daethai ar ffordd ei system benderfynol ef.

"Ambell waith mi glywais fy mam yn ymresymu âg ef, ac yn ymdrechu cynhyrfu ei deimladau. Efe a wrandawai ar yr appeliadau mwyaf torcalonus gyda'r mwyneidd-der a'r esmwythder mwyaf didaro. O'r diwedd dywedai, 'Dyma'r pwngc; raid i mi droi Stubbs i ffordd, neu ei gadw? Mae Stubbs yn ganolbwynt rheoleidd-der, gonestrwydd, a defnyddioldeb, yn deall ei waith i'r dim, ac mor deimladwy a dynion yn gyffredin. Ni fedrwn ni ddim cael perffeithrwydd: os cadwaf fi ef, rhaid i mi sefyll wrth ei gefn *ymhob peth*, hyd yn nod os digwydd ei fod ar fai. Mae rhywfaint o orthrwm o angenrheidrwydd ymhob llywodraeth. Ac y mae rheolau cyffredinol yn pwyso'n drwm ar achosion neillduol! Ystyriai fy nhad y gair olaf hwn fel dyhuddiad ar y rhan fwyaf o achwyniadau am greulondeb. Ar ol dweyd *hynyna*, efe a ymestynai ar y soffa, fel dyn ag oedd wedi gorphen ei orchwyl, a chymmerai nepyn, neu darllenai y papyr newydd, fel y digwyddai.

"Y gwir yw, yr oedd talentau fy nhad yn berffaith gymmwys i'r prif boliticiaid. Buasai yn rhanu Poland mor ddi-drafferth a hollti orange; a dodasai ei sawdl ar yr Iwerddon mor ddi-daro ac mor fedrus ag un-gwr byw. O'r diwedd, rhoddodd fy mam y dydd i fynu mewn llwyr anobaith. Ac nis gwybydd neb, hyd oni wneir yn amlwg ddirgelion pob cnawd, pa faint a ddioddefodd natur fawreddus fel yr eiddo hi, wedi ei thaflu yn hollol ddigymhorth i'r hyn a ymddangosai iddi yn llyngclyn o drawsder a chreulondeb, ac nad oedd neb arall o'i hamgylch yn ei weled felly. Mae wedi bod yn oes hir o ofid i'r fath natur, yn y fath fyd o haniad uffernol ag ydyw hwn. Pa beth yn rhagor a allai wneud, heblaw dwyn ei phlant i fynu yn ei theimladau a'i golygiadau ei hun? Wel, dywedwch chwi y peth a fynnoch am hyfforddio plant, tyfu yn ol eu natur a wnant yn y diwedd, a dim arall. *Aristocrat* oedd Alfred o'i gryd; ac fel y tyfodd i fynu, i'r ochr honno yn naturiol y trodd ei deimladau, a'i resymmau, ac aeth holl annogaethau fy mam i gadw hefo'r gwynt. Ond am danaf fi, syrthiasant yn ddwfn i'm calon. Ni ddywedai fy mam ddim yn benderfynol yn groes i fy nhad, na dim a ymddangosai i wahaniaethu oddi wrtho; ond hi a argraphodd, hi a losgodd ar fy meddwl i, gyda holl danbeidrwydd ei natur ddwys a difrifol, anfeidrol werth a bonedd yr enaid gwaelaf ac iselaf. Mi fum yn edrych yn ei hwyneb gyda syndod ac ofn, pan gyfeiriai i fynu at y ser yn y nos, gan ddywedyd, 'Edrych accw, Augustine, fe fydd yr enaid

tlottaf a distadlaf ar ein stât ni yn fyw wedi i'r ser yna i gyd syrthio—byddant fyw eyhyd a Duw ei hunan!'

"Yr oedd ganddi rai hen ddarluniau gwerthfawr; un oedd, yr Iesu yn agor llygad y dall. Yr oeddynt yn hynod o drawiadol, ac effeithient yn ddwys ar fy meddwl i. 'Edrych yma, Augustine,' meddai, 'cardottyn oedd y dyn dall, tlawd ac aflan; am hynny ni roddai Ef ei olwg iddo *oddi yma draw!* Efe a'i galwodd atto, ac *a osododd ei ddwylaw arno!* Cofia hyn, machgen i.' Pe buaswm i yn byw i dyfu i fynu dan ei dylanwad, gallasai fy nwyn i frwdfrydedd nas gwn i pa fath. Gallaswn fod yn sant, yn ddiwygiwr, yn ferthyr—ond, ow! ow! mi a'i gadewais pan oeddwn yn dair-ar-ddeg, ac ni welais moheni byth mwy!"

Eisteddodd St. Clare yn ddistaw, a phwys ei ben ar ei law, dros ychydig funudau. Yna, efe a gododd ei lygaid, ac a aeth ymlaen—

"Y fath rwbal gwael, diwerth ydyw rhinweddau dynol ar ol y cwbl! Pethau yn ymddibynu, gan mwyaf, ar hydred a lledred, safle daearyddol, neu dymherau naturiol. Damwain ydyw y rhan fwyaf! Mae eich tad chwi, er engraifft, yn sefydlu yn Vermont, mewn tref lle mae pawb, mewn, gwirionedd, yn rhydd ac yn gydradd; mae'n dyfod yn aelod rheolaidd o'r eglwys, ac yn ddiacon, ac mewn amser cyfaddas mae'n ymuno â chymdeithas Rhyddhad y caethion, ac ystyria nad ydym ni fawr well na phaganiaid. Etto y mae'r un fath ddyn yn union a fy nhad innau, yn ei gyfansoddiad a'i ddull o feddwl. Mi fedraf ei weled yn rhedeg allan mewn hanner cant o ffyrdd—yr un yspryd anhyblyg, awdurdodol, gormesol. Chwi wyddoch yn burion pa mor amhossibl ydyw perswadio rhai o bobl y pentref accw, nad ydyw Sewïer Sinclare yn teimlo ymhell goruwch iddynt. Dyma'r gwir, er iddo ef syrthio ar amserau democrataidd mae gymmaint aristocrat yn ei galon ag oedd fy nhad, yr hwn a deyrnasai dros bum cant neu chwech o gaethion."

Teimlodd Miss Ophelia braidd awydd i wadu y darlun hwn, ac yr oedd yn myned i ddodi'r gweuadwaith i lawr, pan rwystrodd St. Clare hi.

"Mi wn bob gair yr ydych yn myned i'w dweyd. Nid wyf fi yn dweyd eu *bod* yr un fath a'u gilydd mewn gwirionedd. Syrthiodd un i amgylchiadau lle'r oedd pob peth yn gweithredu yn groes i'w dueddiadau naturiol, a'r llall lle'r oedd pob peth yn gweithio gydag ef; felly trodd un yn hen ddemocrat gwarsyth, cyndyn, ac anhawdd ei syflyd, a'r llall yn hen ddespot gwarsyth a chyndyn. Pe buasai'r ddau yn perchen planhigfeydd yn Louisiana, buasent mor debyg i'w gilydd a dwy fwled wedi eu toddi i'r un fold."

"Y fath fachgen anniolchgar ydych!" ebe Miss Ophelia.

"Nid wyf yn meddwl dim amharch iddynt," ebe St. Clare. "Chwi wyddoch nad yw hwnnw yn bechod ynof. Ond, ni awn yn ol at yr hanes:

"Pan fu fy nhad farw, efe a adawodd yr holl eiddo rhyngom ni y ddau efaill, i'w rannu fel y gallem gyttuno. Nid oes yn anadlu ar ddaear Duw ddim dyn anrhydeddusach nag Alfred, na mwy hael ei fryd, ymhob peth

a berthyn i'w gydradd; ac ni aethom ymlaen yn gampus gyda'r eiddo, heb na gair na theimlad anfrawdol. Cyttunasom i weithio'r blanhigfa gyda'n gilydd; a daeth Alfred, yr hwn oedd werth dau o honof fi ymhob peth a berthynai i waith, yn blannwr brwdfrydus, a rhyfeddol o lwyddiannus.

"Ond ymhen dwy flynedd o brawf, cefais i fy moddloni nas gallwn fod yn bartner yn y fath orchwyl. Yr oedd dal cynnifer a saith gant o gaethion, y rhai nis gwyddwn ddim am danynt yn bersonol, na theimlo unrhyw ofal drostynt, eu prynu, eu gyrru, eu cysgodi'r nos, eu gweithio fel cynnifer o dda corniog, dan fanylder disgyblaeth filwraidd—a'r pwngc o ba cyn lleied o angenrheidiau gwaelaf bywyd a'u cadwai mewn cywair gweithio, yn dyfod i'r bwrdd yn wastadol, yr *angenrheidrwydd* am yrrwyr ac arolygwyr, a'r galwad bob amser am y whip, yr ymresymiad blaenaf ac olaf, ïe, yr unig un—yr oedd y cwbl oll yn atgas annioddefol i mi; a phan gofiwn eiriau fy mam, am werth un enaid, yr oedd yn ddychrynllyd!

"Nonsens i gyd ydyw siarad fod caethion yn *mwynhau* pethau fel hyn! Hyd heddyw, nid oes gennyf fi ddim amynedd i wrando ar sothach anaele a wneir i fynu gan rai o'ch pobl chwi yn y gogledd, yn eu hawydd i esgusodi ein camweddau ni. Yr ydym ni oll yn gwybod gwell pethau. Ni wiw dweyd wrthyf fi fod ar undyn eisiau gweithio holl ddyddiau ei einioes, o dorriad gwawr hyd fachlud haul, bob amser dan lygad ei feistr, heb gymmaint ag un anadliad rhydd, ar yr un caledwaith, anghysbell, digyfnewid, a'r cwbl am ddau glôs a phâr o esgidiau yn y flwyddyn, a digon o fwyd a diddosrwydd i'w gadw mewn tymher i weithio! Pwy bynnag sy'n meddwl y gall bodau dynol, yn gyffredin, gael eu gwneud mor gysurus y ffordd yna ag un ffordd arall, byddai yn dda gennyf eu gweled yn ei threio. Mi brynwn y cena', ac mi a'i gweithiwn â chydwybod onest."

"Yr oeddwn i bob amser yn meddwl," ebe Ophelia, "eich bod oll yn cymmeradwyo y pethau hyn, ac yn eu barnu yn *iawn*—yn ol y Bibl."

"Hymbyg! Nid ydym ddim mor isel a hyna etto. Nid ydyw Alfred yn ei chymmeryd fel yna, er ei fod y despot pennaf a droediodd erioed; na, na, y mae ef yn sefyll yn uchel ac yn dalgryf ar yr hen dir da respectable, *hawl y cryfaf;* ac y mae ef yn dweyd, yn bur gall, yn fy meddwl i, nad yw'r plannwr yn America ddim ond 'gwneud mewn ffordd arall yr hyn y mae'r gwyr mawr a'r uwch-raddolion yn Lloegr yn wneud â'r is-raddolion, hynny ydyw, eu *defnyddio*, gorph ac esgyrn, enaid ac yspryd, i'w helw a'u cyfleusdra.' Mae ef yn amddiffyn y ddau,—a hynny, o leiaf, yn *gysson*, yn fy marn i. Myn Alfred nad oes gwareiddiad uchel heb gaethiwo'r lluaws, naill ai mewn enw ai mewn gwirionedd. Rhaid, medd efe, fod dosbarth is-raddol, i'w cadw i lafurio a gweithio, a'u cadwyno at y rhan anifeilaidd o natur; ac un uwch-raddol, trwy hynny yn ynnill hamdden a chyfoeth, ac ehangach gwybodaeth a chynnydd, fel y gallo fod yn enaid arweiniol i'r dosparth isaf. Dyna fel y mae ef yn ymresymu, oherwydd, fel y dywedais, yn aristocrat y ganwyd ef; nid wyf fi yn dweyd felly, oherwydd yn ddemocrat y ganwyd fi."

"Sut ar wyneb y ddaear y gellir cydmaru'r ddau?" ebe Miss Ophelia. "Nid yw'r llafurwr yn Lloegr yn cael ei werthu, ei dynnu oddiwrth ei deulu, a'i fflangellu."

"Mae gymmaint dan awdurdod ei feistr a phe b'ai wedi ei werthu iddo. Gall y caeth-feistr fflangellu ei gaeth-was i farwolaeth—a gall y meistr newynu ei weithiwr. Ynghylch diogelwch teuluaidd, mae'n anhawdd dweyd pa un galettaf gweled plant yn cael eu gwerthu, ai edrych arnynt yn marw gartref, o eisiau bwyd."

"Ond nid esgus tros gaeth-fasnach ydyw dweyd nad yw'n waeth na rhywbeth drwg arall."

"Nid yn esgus y defnyddiais i ef—nage, mi ddywedaf fod ein ffordd ni yn yspeiliad mwy noethlymyn o hawl dynoliaeth. Mae prynu dyn allan ac allan fel prynu ceffyl, edrych ar ei ddannedd, profi ei gymmalau, gweled sut y mae'n rhedeg a neidio, a thalu i lawr am dano—cael prynwyr, gwerthwyr, gyrrwyr, magwyr, a masnachwyr mewn cyrph ac eneidiau dynion—yn gosod y matter yn ei haccrwch noeth o flaen llygad y byd gwareiddiedig, er mai yr un o ran ei natur ydyw dan ryw ddull arall; sef, gosod un dosparth o ddynolryw i fod yn lles ac yn elw i ddosparth arall, heb ddim ystyriaeth beth ddaw o honynt."

"Ni feddyliais i erioed am y matter yn y goleuni yna," ebe Miss Ophelia.

"Wel, mi fu'm i yn trafaelio yn Lloegr, ac mi ddarllenais lawer am gyflwr eu his-raddolion yno; ac yn wir rhaid i mi addef fod Alfred yn ei le, pan ddywed fod y caethion yn well allan na llawer iawn o boblogaeth Lloegr. Ond cofiwch, nad ydych i gasglu oddiwrth ddim a ddywedais i, fod Alfred yr hyn a elwir yn feistr caled; oherwydd nid ydyw. Yn y gwrthwyneb, mae'n ymfalchio fod ei gaethion yn cael eu porthi a'u cadw yn dda.

"Pan oeddwn i yn bartner gydag ef, mynnais wneud rhywbeth tuag at eu haddysgu; ac, er mwyn fy moddloni i, efe a gyflogodd gaplan, ac arferai eu cateceisio bob Sabboth, er ei fod yn credu yn ei galon y byddai cystal iddo bennodi caplan i'w gwn a'i geffylau. A'r gwir yw, mai ychydig iawn a ellir wneud mewn dwyawr neu dair ar y Sabboth i feddwl wedi ei bylu a'i fwystfileiddio o'r bru, gan bob dylanwad drygionus, ac wedi treulio'r holl wythnos mewn poen a llafur difeddwl. Gall athrawon yr ysgolion Sul ymysg pobl y llaw-weithfeydd yn Lloegr, ac ymysg y negroaid ar y planfeydd yn ein gwlad ninnau, ond odid dystio i'r un effeithiau, *yno ac yma*. Etto mae rhai eithriadau hynod yn ein mysg ni, oddiwrth y ffaith fod y negro yn naturiol yn fwy hywaeth, ac yn fwy agored i argraphiadau crefyddol na'r dyn gwyn."

"Wel," ebe Miss Ophelia, "sut y rhoddasoch chwi'r blanhigfa i fynu?"

"Wel, aethom ymlaen o glun i glun, hyd nes gwelodd Alfred yn ddigon amlwg nad oeddwn i werth dim. Yr oedd yn meddwl mai ffolineb oedd i mi fod yn anfoddlon, ar ol iddo ddiwygio, newid, a gwellhau ymhob man, i'm boddio i. Y gwir oedd, wedi'r cwbl, mai'r PETH ei hun oedd gas

gennyf fi—defnyddio'r meibion a merched hyn, parhau yr holl anwybodaeth, anifeileidd-dra, a drygioni—i ddim ond gwneud arian i mi!

"Heblaw hynny, mi fyddwn bob amser yn ymyrraeth â'r dull o fyned ymlaen. Trwy fod fy hunan yn un o'r dioccaf dan haul, yr oedd gennyf ormod o gydymdeimlad â'r diog; a phan ddodai cenawon tlodion, annarbodus gerrig yngwaelod eu basgedi cottwm i wneud iddynt bwyso yn drymach, neu pan lanwent eu sachau â gwellt a dail, a chottwm yn uchaf, yr oedd yn ymddangos yn gymmwys y peth a wnaethwn fy hunan dan yr un amgylchiadau, nis gallwn ac nis mynnwn eu fflangellu. Wel, wrth reswm, dyna ddisgyblaeth y blanfa ar ben; a daeth Alf a minnau i'r un pwynt ag y daethai fy nhad parchus a minnau flynyddoedd o'r blaen. Felly efe a ddywedodd mai dychymygwr merchedaidd oeddwn, ac na wnawn byth mo'r tro i fyned trwy'r byd; a chynghorodd fi i gymmeryd stock y banc, a'r annedd-dy yn New Orleans, a throi i ysgrifenu prydyddiaeth, a gadael y blanhigfa iddo ef. Felly ni a ymadawsom, ac yma y daethum."

"Ond pa'm na buasech yn rhyddhau eich caethion?"

"Wel, nid oeddwn i ddim i fynu â hynny. Ni fedrwn i ddim eu cadw fel offer i wneud arian â hwynt; ond nid oedd cael eu help i wario'r arian yn edrych yn gwbl mor hagr i mi. Yr oedd rhai o honynt yn hen weinidogion yn y tŷ, y rhai'r oeddwn yn hoff iawn o honynt; a phlant i'r hen rai oedd y rhai ieuainge. Yr oeddynt oll yn ddigon boddlon i'w sefyllfa." Yna efe a dawodd, ac a gerddodd yn fyfyrgar i fynu ac i lawr yr ystafell.

"Fe fu amser yn fy mywyd i," ebe St. Clare, "pryd yr oedd gennyf fwriad a gobaith o wneud rhywbeth heblaw nofio gyda'r llif. Bu ynof fath o awydd anacddfed am fod yn rhyddhawr y caethion—am lanhau fy ngwlad oddiwrth yr aflendid hwn. Mae rhyw glefyd o'r fath yn dal pobl ifainge, feddyliwn—ond—"

"Pa'm na wnaethoch?" ebe Miss Ophelia; "ni ddylasech osod llaw ar yr aradr, ac edrych yn ol."

"O, wel, ni ddaeth pethau ymlaen fel yr oeddwn yn disgwyl; ac fe ddaeth bywyd i'r un teimlad i mi ag y daeth i Solomon. Efallai fod hynny'n angenrheidiol i ddysgu doethineb i ni ein dau; ond, rywfodd neu gilydd, yn lle bod yn weithiwr, ac yn adnewyddwr mewn cymdeithas, mi ddaethum yn ddarn o sproc môr, a thyma lle bu'm o don i don byth wedi hynny. Mae Alfred yn fy meio bob tro y cyfarfyddwn; ac yr wyf yn addef ei fod yn rhagori arnaf fi, oherwydd y mae ef yn gwneud rhywbeth. Mae ei fywyd yn ganlyniad naturiol o'i opiniynau, a'r eiddof finnau yn erthyl dirmygedig."

"Fy nghefnder anwyl, a fedrwch chwi fod yn foddlon i dreulio amser eich prawf fel yna!"

"Yn foddlon! Oni ddywedais i'r munud yma sut yr wyf yn ei ddirmygu? Ond i ddychwelyd at y pwnge—yr oeddym yn siarad am y rhyddhau yma. Nid wyf fi ddim yn meddwl fod fy ngolygiadau i am gaeth-wasanaeth yn rhai anghyffredin. Yr wyf yn cael llawer iawn o

bobl sydd yn meddwl yn eu calonnau fel ag yr wyf finnau yn union. Mae'r tir yn gruddfan dano; ac er gwaethed ydyw i'r caeth-was, mae yn waeth os yr un i'r caeth-feistr. Nid oes angen am wydrau i weled fod dosparth lluosog o bobl ddrygionus, annarbodus, a llygredig yn ein mysg, yn ddrwg i ni, yn gystal a drwg iddynt eu hunain. Nis gall pobl arianog a'r bendefigaeth yn Lloegr deimlo fel yr ydym ni yn teimlo, oherwydd nid ydynt yn ymgymmysgu â'r dosparth a ddarostyngant fel ag yr ydym ni. Maent yn ein tai ni; chwareuant gyda'n plant, a ffurfiant eu meddyliau yn gynt nag y gwnawn ni; oherwydd y maent yn bobl ag y glyn plant wrthynt bob amser, ac yr ymdebygant iddynt. Dyna Efa, oni bai ei bod yn fwy angel na'r cyffredin, fe'i difethid hi. Byddai cystal i ni adael y frech wen i redeg yn eu mysg, a meddwl na chai ein plant mo honi, a gadael iddynt yn ddiddysg ac yn llawn drigioni ymgymmysgu â hwynt. a meddwl na chaent effaith arnynt. Etto mae ein cyfreithiau yn bendant yn gwahardd yn hollol unrhyw drefn gyffredinol o addysg, ac y maent yn gwneud yn gall hefyd; oherwydd dechreuwch ddysgu un oes yn drwyadl, a thyna'r cwbl wedi ei chwythu yn deilchion i'r awyr. Os na roddwn ryddid iddynt, hwy a'i cymmerant."

"Beth ydych yn feddwl fydd y diwedd o hyn?" ebe Miss Ophelia.

"Nis gwn i. Mae un peth yn sicr, fod ymysgwyd ymysg y lluaws trwy'r byd i gyd, ac y mae dydd digofaint yn dyfod, yn fuan neu yn hwyr. Mae'r un peth yn gweithio yn Ewrop, yn Lloegr, ac yn y wlad yma. Byddai fy mam yn dweyd wrthyf am y mil blynyddoedd sydd i ddyfod, pryd y bydd Crist yn teyrnasu, a phawb yn rhydd ac yn happus. A hi nysgodd i pan oeddwn yn blentyn i weddio, 'Deued dy deyrnas.' Weithiau byddaf yn meddwl fod yr holl duchan, y gruddfan a'r cynnwrf ymysg yr esgyrn sychion, yn rhagfynegu fod cyflawniad yr hyn a ddywedodd hi wrth law. Ond pwy a erys ddydd ei ddyfodiad Ef?"

"Augustine, mi fyddaf fi yn meddwl weithiau, nad ydych ymhell o'r deyrnas," ebe Miss Ophelia, gan osod ei gwaith gwau i lawr, ac edrych yn bryderus yn wyneb ei chefnder.

"Diolch i chwi am feddwl mor dda am danaf; ond i fynu ag i lawr y mae hi gyda fi—i fynu at ddrws y nefoedd o ran egwyddorion, ac i lawr i lwch y ddaear mewn ymarferiad. Ond dyna'r gloch yn galw at dê—gadewch i ni fyn'd—a pheidiwch a dweyd na chefais un ymddiddan syml sobr â chwi am unwaith yn fy oes."

Cyfeiriodd Marie, ar dê, at y son am Prue. "Mae'n debyg, nghares, eich bod yn meddwl mai barbariaid ydym oll," ebe hi.

"Yr wyf yn meddwl mai tro barbaraidd iawn ydyw hwnyna," ebe Miss Ophelia; "ond nid wyf yn eich galw oll yn farbariaid."

"Wel 'rwan," ebe Marie, "mi wn i fod yn amhossibl gwneud nac ol na blaen hefo rhai o'r creaduriaid yma. Maen nhw mor ddrwg na ddylan nhw ddim byw. Nid ydw i ddim yn teimlo 'run mymryn â'r fath amgylchiad. Pe baen nhw ddim ond behafio 'u hunain, ni ddigwyddai'r fath bethau."

HELA SCIPIO FEL HELA LLWYNOG.

"Efe a ymladdodd â'r cwn yn eithaf gwrol, a lladdodd dri o honynt â'i ddyrnau moeliọn. . . . Prin y medrais gadw'r bobl rhag ei saethu."